Besides the sources already mentioned, and others of a similar nature, the editor received lists of words from several Welsh writers, amongst whom he would wish to name the Rev. John Owen, of Thrushington, Mr. Fenton, Prof. Rushton, Hirlas, Talhaiarn, Andreas o Fôn, &c., &c. He made use also of all the dictionaries published after the time of Dr. Pughe, compiled by Bardd Glas Morganwg, E. Griffiths, I. D. Ffraid, Arfonwyson, Caerfallwch, E. Jones, D. Silvan Evans, D. Hughes, W. Spurrel, &c. Great assistance also has been obtained, especially as regards Scriptural words, from the Dictionaries of J. Robert Lewis, T. Charles, W. Jones, W. Davies, Mathetes, the Scriptural Concordance, and the greatest work in our language, the "Encyclopædia Cambrensis" (*Y Gwyddoniadur Cymreig*), which is so ably edited by the Rev. John Parry of Bala, and is now in course of publication by Mr. Gee. In fact, no means obtainable by the editor were neglected in order to make the work as complete as possible; though no doubt, notwithstanding his labor and anxiety, there are other words which have escaped his notice in the Bible, as well as in the works of the best writers of the present day.[1]

The editor is not of opinion that it should be the principal object of a lexicographer to coin new words, but rather carefully to collect and explain the words used by the best ancient and modern writers of the language. Dr. Pughe, as has already been observed, ignored all words he could not trace to purely Welsh roots, and consequently left out all which he supposed to be of foreign origin, although such were in constant use by the best and most reputable writers. And had the editor of this edition acted upon this principle, he would have condemned many hundreds of words which even Dr. Pughe himself retained, as they in his opinion bear quite as close a relationship to foreign languages as many of those which were intentionally omitted by Dr. Pughe. The following brief list will no doubt suffice as a specimen :—

Aml (*amplus*), accen (*accentus*), awyr (*aer, air*), bwrdd (*board, bord*), canu (*cano, chanô*), cariad, (*charitas*), credu (*credo, chrêdô*), cyffin (*confinus*), efengyl (*euaggelion*), eglwys (*ecclêsia*) Duw (*Dieu, Deus, Theo*), ffaith (*factum*), ffenestr (*fenestra*), ffug (*fucus*), ffydd (*fides*), haul (*helios*), perffaith (*perfectus*), &c. &c.

The foreign words to which the Welsh words are in the opinion of the editor related, or from which they are derived, have been inserted after the roots as given by Dr. Pughe. The student will therefore be better able to form his own opinion upon them.

The editor is of opinion, and such is based upon the works of the first lexicographers, that a dictionary ought to contain both those words which are obsolete and antiquated, as well as others which are low or unworthy of being used; but which, notwithstanding, ought to be inserted if they are found in the works of standard authors, or in general use. The editor has carefully pointed out all obsolete words, as well as those which are of doubtful authority, with a † (and the authorities are generally annexed to them); and the young composer ought to be very careful how he employs them, even in poetry, as well as in his treatment of scientific or other subjects.

The editor is aware that he is blamed for inserting words which are considered of foreign descent in this work; but he feels he cannot do better than defend himself in this particular in the words of the learned MORRIS KYFFIN, which he will give in the original, lest they should suffer by translation :—

"Er maint fu fy ngofal a'm myfyrdod yn hyn o beth, etto, mi a wnaf gyfrif gael fy marnu a beio arnaf gan ryw fath ar goeg-ddynion, y rhai a graffant ar ymbell air yma ac acw, ac a ddywedant yn y fan, 'Wele, geiriau Seisnigaidd a geiriau Lladingaidd yw'r rhai 'n, yn d'wyno'r Gymraeg.' F' atteb i'r rhei 'ny ydyw'r Ddihareb—'Ni wyr, ni welodd, ni ddysg.' Druain Gwerin! ychydig a wyddant, llai a welsant, ac nid gwiw son am ddysgu iddynt. Myfi a faddeuaf i'r rhai hyn eu hanwybodaeth a'u ffolineb, a gadawaf i rai ereill chwerthin am eu penau. Hawdd yw gwybod am ryw eiriau Seisnig nad oes, ac na bu erioed eiriau Cymreig i'w cael; a hefyd, mai geirian yn dyfod o'r Ffrangcaeg yw'r rhan fwyaf o'r rhai y maent hwy yn tybied eu bod yn Seisnigaidd.

"Ac am y geiriau Lladingaidd, pwy nis gwyr nad yw 'r iaith Gymraeg yn eu herwydd ddim amgen onid hanner Lladin drwyddi? Mi allwn, pe bai genyf hamddem, wneuthur llyfr digon ei faint o'r geiriau Cymreig arferedig a fenthyciwyd, nid yn unig o'r Lladin a'r Ffrangcaeg, eithr o iaith Itali, ac, iaith Spaen hefyd, heb law 'r dafod Roeg ac Ebryw, a'r cyfryw. Rhyw rai di-ddysg di-synwyr, a ddywedant ddarfod i'r ieithoedd hyny fenthycio gan y Gymraeg, ac nid yr iaith Gymraeg genthynt hwy. Nid gwiw mo 'r ymresymu â'r fath ynfydion cynhwynol, namyn eu gadael mewn anwiredd ac oferedd."

[1] Respecting the present Welsh, and the difference between it and the old Welsh, see the *Introductio to the Welsh Grammar*.

Besides the additions already mentioned, the sound or accentuation of some few words, which may appear doubtful, has been annexed to the leading word, after a parallel (=) or between a parenthesis, in this manner:—

Â, =â, *prp.* &c.
Âb, =âb, od, oedd, *s. f.*, &c.
Âch, =âch, achau, achoedd, *s. f.* &c.
Chwyd (=chwŷd), au, *s. r.* &c.
Chwys (=chwŷs), *s. r.* &c.

The accentuated words, *â*, *âb*, *âch*, which occur in the three first lines, denote the from in which they ought to be written when in small letters in composition, whilst the accentuated words between parentheses (=chwŷd), (=chwŷs)—signify the *sounds* of the words only, which must not be accentuated in composition..

There is another addition which, in the opinion of the editor, is of some importance to the young writer; that is, the addition of the form, or termination of the future tense of the third person singular of the verb, when it possesses such form or termination, and which form or termination is also in general the imperative mood of the verb; as, for instance—

Canu, cân, *v.* &c.
Cerdded, cerdd, *v* &c.
Chwerthin, chwardd, *v.* &c.
Rhedeg, rhed, *v.* &c.
Troi, try, trydd, *v.*

This peculiarity belongs to the best Welsh writers, and is very concise and powerful. They but very seldom used the other unwieldy forms, *viz.*, *cana*, *cerdda*, *chwertha*, *rheda*, &c., which young writers are so fond of, and others who are unacquainted with the idioms of the language. The termination only will be annexed to other verbs, as,—

Cario, ia, *v.* &c.
Chwilio, ia, *v.* &c.
Cyflawni, a, *v.* &c.
Teyrnasu, a, *v.* &c.

The future tense of the third person singular of almost all other verbs, which have not been conjugated in the above manner, is the same as the original or the infinitive form of the verb; as, *lloffa*, *cardota*, *hela*, &c.

In conclusion, the editor can truly state, in the words of other far more eminent lexicographers than himself, that though he was not without experience in labor of this nature when he formed the design of this edition of the dictionary, he was not sufficiently impressed with the arduousness of the undertaking, but of which he has since had abundant occasion to be sensible. He is also satisfied that no amount of labor or diligence can render a dictionary of a living language, like the Welsh, faultless and free from defects. He however submits it, as it is, to an impartial public, hoping it will not be considered destitute of some merit at least both in its plan and execution.

BANGOR, *November*, 1866.

RHAGYMADRODD

r'n

ARGRAPHIAD HWN.

Gan mai er mwyn cenedl y Cymry, yn benaf, y cyhoeddir y Geiriadur Cenhedlaethol, yr hwn sydd yn cynnwys trydydd argraphiad o Eiriadur mawr y Dr. Pughe, barnwyd mai gweddus dywedyd ychydig yn Gymraeg am amcan y gwaith, y newidiadau a wnaed ynddo, a'r chwanegiadau lliosog a roddwyd ato.

Amcan y cyhoeddwr oedd dwyn allan Eiriadur Cymraeg a Saesneg mor gyflawn a defnyddiol ag y gellid, ac am bris mor fychan ag y byddai modd, fel y gallai fod yng nghyrhaedd yr holl genedl ddarllengar. Gadawodd gynllun y gwaith yn hollol at ddewisiad y golygydd, dan yr ammod yn unig ar iddo gadw holl eiriau arweiniol, a tharddiadau, a gwraidd geiriau Geiriadur mawr y Dr. Pughe i mewn.

Yr oedd y golygydd wedi meddwl er's hir flynyddau y dylai Geiriadur Cymraeg a Saesneg, tuag at fod yn fuddiol i'r Cymro uniaith cystal ag i'r un dwy iaith, ac i'r Sais a ewyllysio ddysgu Cymraeg, gynnwys eglurhâd Cymraeg ar y geiriau arweiniol, neu eiriau Cymraeg cyfystyr iddynt, yn gystal ag eglurhâd Saesneg; ac yr oedd wedi ffurfio cynllun o eiriadur o'r fath er's talm o amser. Saif y cynllun hwnw, er esampl, fel hyn:—

Adrodd, *v. a.* (ad—rhawdd) to relate, to recite, to rehearse; to speak.—Datgan, traethu, mynegi; adlefaru; hanesu; dywedyd, llefaru.

Yn ol y cynllun yma, gall y Geiriadur fod o fudd i Gymro uniaith yn gystal ag i un yn deall y ddwy iaith: ond canfyddwyd yn fuan ped eglurid pob gair tarddedig yn y dull yna, yr âi y Geiriadur ym mhell dros y pris y bwriadai y cyhoeddwr iddo fod, heb son am yr angenrhaid o chwanegu miloedd o eiriau arweiniol er gwneyd y gwaith yn gyflawn er atteb i sefyllfa y Gymraeg bresennol. Am hyny, bu raid meddwl am ryw ddull i dalfyru, gyda golwg ar yr eglurhâd Cymraeg, a hyny heb wneyd ond cyn lleied o niwed i'r cynllun ag y gellid. Y dull gan hyny a gymmerwyd oedd, rhoddi eglurhâd Cymraeg ar ryw un gair o bob mintai neu haib—ar y prif air, neu y cyntaf yn mhob mintai, os caniatâi lle, ac ar y geiriau hanedig yn ol fel y goddefai hyd y llinellau. Fel hyn, er engraff, mintai o eiriau y golygwn rai o'r un gwraidd neu haniad; megys,—

Cymdaith, cymdeithaidd, cymdeithas, cymdeithaseg, cymdeithasfa, cymdeithasfaol, cymdeithasgar, cymdeithasgarwch, cymdeithasiad, cymdeithasiadol, cymdeithasog, cymdeithasol, cymdeithasoldeb, cymdeithasoli, cymdeithasrwydd, cymdeithasu, cymdeithaswr, cymdeithaswraig, cymdeithasydd, cymdeithfa, cymdeithfaol, cymdeithgar, cymdeithgarwch, cymdeithiad, cymdeithiaidd, cymdeithio, cymdeithiog, cymdeithiogi, cymdeithiol, cymdeithiwr, cymdeith-wraig, cymdeithydd.

Dyna 32 o eiriau yn y fintai yna. Y maent oll yn tarddu yn amlwg o'r un gwraidd, ac am hyny y mae yr un ystyr cyffredinol yn rhedeg trwyddynt oll; ac ni raid i'r craffus gael ond eglurhâd goleu ar un o honynt er ei alluogi i ddeall yr ystyr cyffredinol sydd i'r holl fintai. Er hyny, gan fod hyd y llinellau, &c., yn goddef, rhoddwyd eglurhâd Cymraeg ar 13 o eiriau y fintai uchod; ac y mae yr eglurhâd Cymraeg dan sylw ei hunan yn rhoddi gwedd hollol newydd i'r Geiriadur Cenhedlaethol, ac yn ei wneuthur ar unwaith yn fuddiol i'r Cymro unieithog, yn gystal ag i'r un dwyieithog, ac i'r Sais a ddymuna ddysgu Cymraeg.

Gan fod pob mintai o eiriau, fel y crybwyllwyd, yn hanu o'r un gwraidd, yr hyn oll sydd angenrheidiol er gwybod gwraidd y cyfan ydyw gosod gwraidd neu wreiddyn y gair cyntaf, neu y prif air, yn y fintai ger bron; ac y mae hyn yn ein harwain at y newidiadau a wnaed yn y trydydd argraphiad hwn o Eiriadur mawr y Dr. Pughe. Cymmerwn y fintai uchod i egluro hyn etto; yr hon fintai, gyda llaw, ni chynnwys ond 18 gair yn yr ail argraphiad—llai o 14 o eiriau yn y fintai yma yn unig nag sydd yn yr argraphiad presennol. Y mae y Dr. nid yn unig yn gosod y gwraidd i lawr ar ol pob

gair, ond yn dodi pob enw sydd yn y fintai i lawr ddwywaith yn gyflawn, fel unig a lliosog, oddigerth yn unig y rhai sydd yn terfynu yn lliosog yn *au*, fel hyn :—

Cymdaith, *s. m.*—*pl.* cymdeithion (cy—ymdaith), &c.
Cymdeithaswr, *s. m.*—*pl.* cymdeithaswyr (cymdeithas—gwr), &c.

Ac felly trwy yr holl Eiriadur. Bwriasom y dulliau amleiriog hyn allan yn ddibetrus, nid yn unig er cynnilo lle, ond fel pethau cwbl afreidiol, gan roddi y gwraidd i lawr ar ol y prif air yn y fintai yn unig, a chwanegu dim ond y terfyniad lliosog, neu gymmaint o'r gair ag a newidio er ffurfio rhif lliosog, fel hyn :—

Cymdaith, deithion, *s.* (cy—ymdaith ; C. *cawetha*, *kywedhiad*), &c.
Cymdeithaswr, wyr, *s.*, &c.

A'r cyffelyb trwy yr holl waith. Galluoga hyn yn unig ni i chwanegu dros 30,000 o eiriau yn fwy nag sydd yn yr ail argraphiad yn yr un faint o le, heb son am dalfyriadau a newidiadau ereill, a mander llythyren yr argraphiad hwn mewn cymmhariaeth i'r ail, a'r swm mawr a rydd y cyhoeddwr am arian—dim llai na 64 td. 8 plyg am swllt, fel y ceir y gyfrol gyntaf o'r argraphiad yma am tua 10*s.* 6*c.*, er ei bod yn cynnwys mwy o dros 20,000 o eiriau a brawddegau nag a gynnwys y gyntaf o'r ail argraphiad—pris yr hon oedd yn 1*p.* 11*s.* 6*c.*, tra yr oedd un gyfrol o'r argraphiad cyntaf, 4 plyg, yn 2*p.* 12*s.* 6*c.* —yr holl waith yn *bum gini*.

Y mae 'n hysbys fod i bob gair, fel rheol gyffredin, amryw ystyrau gwahanol. Er mwyn crynhoi y gwaith, heb ei waethygu fel llyfr i gyfeirio iddo, rhoddir gwahanol eiriau Saesoneg a Chymraeg i egluro yr enw, yr ansoddair, y ferf, &c., a fyddont yn tarddu o'r un gwraidd; a gellir ystyried y gwahanol eiriau cyfystyr hyn fel rhai cyfystyr i bob gair yn y fintai.

Rhaid sylwi hefyd ein bod wedi newid yr orgraph. Yr oedd y Dr. Pughe mor hoff o hen Gymraeg y canoloesoedd—Cymraeg y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd, *Cyfreithiau Hywel Dda*, y *Mabinogion*, *Brut y Brenhinoedd*, &c., fel nad yw ei Eiriadur ef, mewn gwirionedd, lawer amgen na Geiriadur o hen Gymraeg y cyfansoddiadau hyny, a'u cyffelyb, mewn orgraph ddiweddarach ; a dyma un achos ei fod wedi gadael allan gynnifer mil o eiriau arferedig y Gymraeg bresennol o'i Eiriadur llafurfawr, tra y mae yn frith o gyfrediaid a dyleddfaid (*gerunds and supines*), a llu o ddulliau hynafol sydd yn hollol ddiarfer yng Nghymraeg y dydd heddyw. Ffrwyth yr hoffder yma at hynafiaeth ydyw yr *aw*, *iaw ; awg*, *iawg ; awl*, *iawl ; awr*, *iawr*, &c., sydd drwy y Geiriadur oll, y rhai a droisom ni yn *o*, *io ; og*, *iog*, &c., yn ddieithriad, ond pan y byddo persain yn gofyn eu cadw, megys yn *cyffroawl*, *crynhoawl*, a'r cyffelyb.

Yr oedd y Dr. hefyd yn gredadyn mor gadarn yn awdurdod a chyfaddasrwydd cynllun Coelbren y Beirdd i'r Gymraeg (yr hwn gynllun nad oes dim prawf ei fod yn hynach na Llywelyn Sion, tua 1601, nag iddo erioed fod ar arfer gwlad), fel mai y cynllun diawdurdod hwnw oedd ei brif safon ef i lythyrenu geiriau. Yn wir, rhyw fath o gyfaddasiad o'r cynllun Coelbrenaidd ydyw gwir lythyraeth yr argraphiad cyntaf o'i Eiriadur a'i Rammadeg.

Yr orgraph a ddilynwn ni yma, yw yr un a drefnwyd gan Mr. T. Stephens a'r golygydd, ar appwyntiad pwyllgor o feirdd a llenorion a ymgynnullasant yn Llangollen, yn ystod yr eisteddfod a gynnaliwyd yno yn Medi, 1858, yr hon orgraph a fu dan ystyriaeth 174 o lenorion De a Gogledd Cymru ; a chafwyd attebion oddi wrth 29 yn Ngwynedd—deg o honynt yn perthyn i'r pwyllgor ; ac oddi wrth 30 yn Neheubarth, a naw o honynt yn bwyllgorwyr—oll yn 59 o nifer : 48 o'r rhai oedd o blaid y llythyraeth a ddefnyddir yn yr argraphiad hwn o'r Geiriadur ; yr hon lythyraeth sydd wedi ei seilio ar orgraph prif awduron y Gymraeg bresennol, o'r Dr. Morgan, cyfieithydd y Beibl, hyd Gwallter Mechain ;[1] a'r hon, o blegid y pethau uchod, y dylid ei hystyried fel ein horgraph genhedlaethol. Yr un tuedd at hynafiaeth a barodd i'r Dr. ddefnyddio *on* neu *ion*, fel terfyniad lliosog, lle y defnyddia y Gymraeg bresennol y terfyniad *au:* yr olaf, wrth gwrs, a ddefnyddir genym ni yn yr argraphiad presennol, ond pan fyddo *on* neu *ion* gan ein prif awduron. Gorfododd newidiad yr orgraph ni, o angenrhaid, i newid lle lliaws mawr o eiriau ; fel y bu raid i ni, o blegid hyny, a phethau ereill, ail ysgrifenu y Geiriadur drwyddo oll.

Y mae gan y Dr. Pughe yn fynych ddifyniadau meithion o'r hen gyfansoddiadau a nodwyd, yn nghyd â chyfieithiad Saesneg o honynt, ar ol lliaws o eiriau ; megys, er esampl, y mae ganddo y difyniadau canlynol ar ol yr ansoddair *Dir* :—

Ys dir i hael a roddo.

He is *sure* that gives to the liberal. *Adage.*

[1] Gwel *Orgraph yr Iaith Gymraeg*. Gan R. I. Prys a Thomas Stephens. Cyhoeddedig gan T. Gee, Dinbych, yn y flwyddyn 1859.

Cryd ar hen angen ys dir.
A fever on the aged is *certain* death. *Adage.*

A fo da gan Dduw ys dir.
What seemeth good to God is *certain*. *Adage.*

Tripheth dir y byddant; eithaf gallu, eithaf deall, ac eithaf cariad Duw.
Three things are *certain* to be; plentitude of power, plentitude of knowledge, and plentitude of the love of God. *Barddas.*

Yr ydym yn credu fod awdurdod dros eiriau, yn enwedig hen eiriau diarfer, a geiriau ammheus, yn dra dymunol; ond nis gwelwn fod pentyru awdurdodau dros yr un gair, oddigerth yn unig er dangos y gair mewn gwahanol ieithweddau, yn atteb nemawr ddiben; ac nid yw difyniadau hirion yn gwneyd gair yn ddim mwy awdurdodol. Gan hyny, yr unig ddifyniad sydd genym ni dan yr ansoddair *dir* yw:—

A fo da gan Dduw ys dir—what seems good to God is certain. *D.*

Ac yn gyffelyb trwy yr holl waith: nid ydym yn difynu dim ond y llinell neu y dryll ymadrodd a gynnwys y gair, oddigerth pan fo genym rywbeth mewn golwg heb law awdurdod y gair, megys ei rif, ei ryw, ei dreigliad, neu y cyffelyb. Y mae hyn yn rhoddi lle i rai miloedd o linellau trwy gorph yr holl waith, a hyny heb wanhau dim ar awdurdod y geiriau.

Yr oedd y Dr. Pughe yn credu fod ystyr athronyddol i lythyrenau a chyfuniadau neillduol o lythyrenau; yr hyn sydd groes i farn ieithyddion penaf y byd: ac yr oedd efe yn cyfrif y cyfryw lythyrenau a sillau fel gwraidd geiriau, er na byddo y cyfryw yn eiriau arferedig yn yr iaith. O ganlyniad, nid yw y rhan flaenaf o'i eglurhâd ef ar llawer o eiriau ddim amgen nag eglurhâd ar ystyr gwraidd dychymmygol a diawdurdod, ac felly yn hollol fympwyol. Yn ol y mympwy yma, y mae y Dr. yn tarddu y gair *eglwys*, er engraff, o *eg—glwys;* a'i holl eglurhâd ar yr enw cadarn yw—*that is hallowed or sanctified; a church.* Y mae yn amlwg mai Cymreigiad destlus ydyw *eglwys* o'r Gr. *ecclêsia;* a'i brif ystyron, yn Saesneg, yw—*an assembly, a congregation, a general assembly; a church, a Christian church, a church of God; a place of worship, a temple.* O ganlyniad, gadawodd y Dr. brif ystyron awdurdodol ac ymarferol y gair pwysig yma allan, a rhoddodd yr eglurhâd mympwyol, '*that is hallowed or sanctified*' yn eu lle, fel esboniad ar y gwraidd dychymmygol *eg* a *glwys;* a dyma brif-eglurhâd y Dr., nid yn unig ar yr enw *eglwys*, ond ar yr holl fintai sydd yn tarddu o hono; megys, er engraff:—

Eglwys, *a.* (glwys) hallowed, solemn, fair.
Eglwysaidd, *a.* (eglwys) of a hallowed nature.
Eglwysaw, *v. a.* (eglwys) to hallow, to sanctify, to purify.

A'r cyffelyb am y lleill. Yr ydym ni yn gadael yr eglurhâd hwn allan yn gyffredin, er mwyn cael lle i eglurhâd ymarferol ac awdurdodol, Saesneg a Chymraeg; ac mewn amgylchiadau ammheus, yr ydym yn dwyn esamplau i mewn o brif awduron y Gymraeg bresennol.

Parodd yr hoffder a nodwyd at hynafiaeth, ac eiddigedd dros burdeb dychymmygol y Gymraeg, i'r Dr. adael pob gair nas gallai efe ei olrhain i wraidd a ystyriai yn Gymraeg bur, a phob gair yr ymddangosai iddo ef ei fod yn hanu o ieithoedd estronol, allan o'i Eiriadur godidog. Am hyny, ofer ydyw chwilio y ddau argraphiad blaenorol am gannoedd, os nad miloedd, o'r geiriau mwyaf arferedig a fedd y Gymraeg bresennol; ac o herwydd hyn, yr oedd yr argraphiadau hyny yn ddifudd, i raddau mawr, i'r darllenydd cyffredin. Nodwn ychydig o esamplau:—

Abl, bendith, ceffyl, disgrifio, esiampl neu esampl, felly, ffafr, gras, hymn, ingc, lamp, llabyddio, moment, natur, ordeinio, palas, phïol, rheswm, sobr, talent, thus, usuriaeth, wermod, ysgeler, zêl.

A llawer ereill dan bob llythyren, hyd yn oed o eiriau y Beibl, prif safon y Gymraeg bresennol, heb son am yr Apocrypha, y Llyfr Gweddi, gwaith Edmund Prys, Morus Cyffin, W. Middleton, Charles Edwards, Edward James, Elis Wyn, Edward Samuel, T. Jones, Morgan Llwyd, H. Owen, Rees Pritchard, Jer. Owen, Tim. Thomas, Theo. Evans, Huw Morus, W. Williams o Bant y Celyn, Gronwy Owain, Ieuan Brydydd Hir, Edward Richards, L. Morris, T. Jones o Ddinbych, T. Charles, Gwallter Mechain, a lliaws ereill.

Canfu y golygydd y diffyg yma er pan yn ieuangc, nid yn unig yn Ngeiriadur y Dr. Pughe, ond yn ein holl Eiriaduron ereill hefyd; ac arferodd gofnodi y geiriau nas ceid ynddynt hwy mewn llyfr, yn ystod ei ddarlleniad o wahanol gyfansoddiadau. Defnyddiodd rai o honynt yn y Geiriaduron bychain a gasglodd; ond yr oedd y nifer mwyaf o

lawer yn aros fyth mewn llawysgrifen, hyd oni ymgymmerodd â golygu yr argraphiad presennol o Eiriadur mawr y Dr. Pughe. Canfu y golygydd hefyd fod y Dr. wedi gadael lliaws mawr o eiriau allan a ddefnyddid hyd yn oed gan ei hoff awdwyr o'r canoloesoedd, cystal ag awdwyr ychydig diweddarach, megys D. ab Edmund, D. ab Gwilym, L. Glyn Cothi, Iolo Goch, Tudur Aled, Simwnt Fychan, ac ereill; ïe, a llawer o eiriau a geir hyd yn oed yn y Geiriaduron a gyhoeddwyd cyn ei amser ef, megys rhai y Dr. Davies, Ed. Llwyd, T. Richards, T. Jones, W. Evans, J. Walters, ac ereill a noda efe yn ei *Introduction to the first edition* o'i Eiriadur. Chwanegodd y golygydd y rhai hyny, wrth reswm, at ei gasgliad ei hun o eiriau.

Heb law y ffynnonellau a nodwyd, ac ereill cyffelyb, cafodd y golygydd restrau o eiriau oddi wrth y Parch. J. Owen, Thrussington; Mr. Fenton; y Proff. Rushton; Hirlas; Talhaiarn; Andreas o Fôn, &c. Gwnaeth ddefnydd hefyd o'r holl Eiriaduron a gyhoeddwyd ar ol amser y Dr. Pughe, o gasgliad Bardd Glas Morganwg, E. Griffiths, Arvonwyson, Caerfallwch, E. Jones, D. Silvan Evans, D. Hughes, W. Spurrell, &c. Cafwyd cynnorthwy nid bychan hefyd, yn enwedig gyda golwg ar eiriau ysgrythyrol, yn Ngeiriaduron John Robert Lewis, T. Charles, W. Jones, W. Davies, Mathetes, y *Mynegair Ysgrythyrol*, a'r gwaith mawr hwnw a olygir mor alluog gan y Parch. J. Parry, Bala, *Y Gwyddoniadur*. Ar fyr, nid esgeuluswyd unrhyw foddion cyrhaeddadwy i'r golygydd er gwneyd y gwaith yn gyflawn; ond er maint fu ei lafur a'i ofal, nid fyw am hòni ddarfod iddo lwyddo i gofnodi yr holl eiriau a ddefnyddir hyd yn oed gan brif awduron y Gymraeg bresennol;[1] eithr y mae yn lled hyderus nas gadawodd allan odid air a geir yn ein prif lyfr—Y Beibl Cyssegrlan.

Nid yw y golygydd yn credu mai cymmhwysder penaf geiriadurwr ydyw gallu i lunio geiriau newyddion; ond yn hytrach o lawer, gofal a manylwch i gasglu ac egluro geiriau prif ysgrifenwyr y genedl yn y cyfnodau o'i flaen, a'r cyfnod y byddo efe yn byw ynddo. Cred hefyd mai camsyniad trwyadl ydyw, y dylai geiriadurwr bigo rhyw nifer o eiriau i'w dodi yn ei Eiriadur, y tybia efe eu bod yn gynnwynol i'r iaith, gan adael allan bob geiriau y dychymmyga efe fod arogl estronol arnynt, fel y gwnaeth y Dr. Pughe, er i'r cyfryw eiriau gwrthodedig gael eu defnyddio gan brif ysgrifenwyr cymmeradwy y genedl. Yn wir, pe dilynasai y golygydd yr egwyddor hŵyrgam yma, bwriasai allan gannoedd lawer o eiriau sydd hyd yn oed gan y Dr. ei hun i mewn; y rhai sydd yn perthyn, yn ol barn y golygydd, i ieithoedd estronol yn llawn mor amlwg a lliaws o'r rhai a adawodd efe allan. Nodwn ychydig o'r cyfryw eiriau:—

Aml (*amplus*), accen (*accentus*), awyr (*aer, air*), bwrdd (*board, bord*), canu (*cano, chanô*), cariad (*charitas*), credu (*credo, chrêdô*), cyffin (*confinus*), efengyl (*euaggelion*), eglwys (*ecclêsia*), Duw (*Dieu, Deus, Theo*), ffaith (*factum*), ffenestr (*fenestra*), ffug (*fucus*), ffydd (*fides*), haul (*helios*), perffaith (*perfectus*), a chant a mil o'r cyffelyb.

Mewn gwirionedd, camgymmeriad mawr, a cham â'r myfyriwr, ydyw gadael geiriau a ddefnyddir gan brif awduron y genedl o Eiriadur, o blegid y gellir olrhain eu perthynas âg ieithoedd estronol; canys os gadewir hwy allan o Eiriadur, i ba lyfr arall y try darllenydd cyffredin am eglurhâd arnynt? Ein cred ni gan hyny ydyw (ac y mae esamplau prif eiriadurwyr y byd yn seiliau i'n cred), y dylai geiriadur, y bwriedir iddo fod yn agoriad cyfaddas i'r holl lyfrau Cymraeg a ddarllenir, gynnwys nid yn unig llawer o hen eiriau diarfer, a llawer o rai israddol ac estronol o ran eu tarddiad, ond llawer hefyd o rai nad gweddus eu defnyddio ar hyn o bryd, y rhai er hyny y dylid eu hegluro mewn Geiriadur am eu bod yng ngwaith ein prif ysgrifenwyr. Cymmerodd y golygydd ofal, hyd y gallodd, i nodi yr holl eiriau diarfer, a'r rhai o awdurdod ammheus, â † (ac yn gyffredin gesyd yr awdurdodau wrthynt), y rhai y dylai y cyfansoddwr ieuangc fod yn bur ofalus wrth eu defnyddio, hyd yn oed mewn barddoniaeth a gwyddoriaeth.

Yr ydys yn gwybod y ceblir ni gan rai coegfeirniaid, y rhai sydd wedi dechreu ar y gorchwyl eisoes, o blegid llawer o eiriau sydd yn y Geiriadur, y rhai a ystyriant hwy yn estronol, &c.; ond attebwn y cyfryw foneddigion yn ymadroddion ffraethlym y dysgedig Forus Cyffin:—

"Er maint fu fy ngofal a'm myfyrdod yn hyn o beth, etto, mi a wnaf gyfrif gael fy marnu a beio arnaf gan ryw fath ar goeg-ddynion, y rhai a graffant ar ymbell air yma ac acw, ac a ddywedant yn y fan, 'Wele, geiriau Seisnigaidd a geiriau Lladingaidd yw y rhai 'n, yn d'wyno 'r Gymraeg.' F' atteb i'r rhai'ny ydyw 'r Ddihareb, 'Ni wyr, ni welodd, ni ddysg.' Druain Gwerin! ychydig a wyddant, llai a welsant, ac nid gwiw son am ddysgu iddynt. Myfi a faddeuaf i'r rhai hyn eu hanwybodaeth a'u ffolineb, a gadawaf i rai ereill chwerthin am eu penau. Hawdd yw gwybod am ryw eiriau Seisnig nad oes, ac na bu erioed eiriau Cymreig i'w cael; a hefyd, mai geiriau yn dyfod o'r Ffrangcaeg yw y rhan fwyaf o'r rhai y maent hwy yn tybied eu bod yn Seisnigaidd. Ac am y geiriau Lladingaidd, pwy nis gŵyr nad yw 'r iaith Gymraeg yn eu herwydd, ddim amgen onid hanner Lladin drwyddi? Mi allwn, pe bai

[1] Am y Gymraeg bresennol, a'r gwahaniaeth rhyngddi a'r hen Gymraeg, gwel yr *Introduction to the Welsh Grammar*.

genyf hamdden, wneuthur llyfr digon ei faint o'r geiriau Cymreig arferedig, a fenthyciwyd nid yn unig o'r Lladin a'r Ffrangeeg, eithr o iaith Itali, ac iaith Spaen hefyd, heb law 'r dafod Roeg, ac Ebryw, a'r cyfryw. Rhyw rai di-ddysg, di-synwyr, a ddywedant ddarfod i'r ieithoedd hyny fenthycio gan y Gymraeg, ac nid yr iaith Gymraeg genthynt hwy. Nid gwiw mo'r ymresymu â'r fath ynfydion cynhwynol, namyn eu gadael mewn anwiredd ac oferedd.'

Heb law y chwanegiadau a nodwyd, rhoddwyd sain neu acceniad ambell air a ddichon ymddangos yn ammheus, ar ol y gair arweiniol, ar ol=, neu rhwng ( ), fel hyn:—

A, =â, *prp.* &c.
Ab, =âb, od, oedd, *s. f.* &c.
Ach, =âch, au, oedd, *s. f.* &c.
Chwyd (=chwŷd) au, *s. r.* &c.
Chwys (=chwŷs), *s. r.* &c.

Y mae y geiriau accennodol, *â, âb, âch,* yn y tair llinell flaenaf, yn arwyddo ma felly y dylid eu hysgrifenu â mân lythyrenau mewn cyfansoddiad; ond y mae y geiriau accennodol sydd rhwng ymsangau, megys (=chwŷd), (=chwŷs), yn arwyddo sain y geiriau yn unig, ond nad oes achos eu haccenodi mewn cyfansoddiad.

Hefyd, chwanegwyd y geiriau estronol, i'r rhai y dichon fod geiriau Cymraeg yn perthyn, neu wedi tarddu o honynt, ar ol y gwraidd a ddyry y Dr. Pughe, gan ystyried fod hyny yn llawer mwy buddiol na honi, ar gam, fod pob gair sydd yn y Gymraeg yn tarddu o wraidd Cymraeg pur.

Chwanegiad arall a ystyria y golygydd o gryn bwys i'r ysgrifenydd ieuangc ydyw, rhoddi ffurf, neu derfyniad amser dyfodol y trydydd person o'r ferf, pan fyddo yn meddu y cyfryw, yr hon hefyd, yn gyffredin, yw ffurf modd gorchymynol y ferf; megys:—

Canu, cân, *v.* &c.
Cerdded, cerdd, *v.* &c.
Chwerthin, chwardd, *v.* &c.
Rhedeg, rhed, *v.* &c.
Troi, try, trydd, *v.* &c.

Dyma ddull cryno, ieithrymus y prif awduron. Anfynych iawn y defnyddient hwy 'r dull amrosgo arall, sef *cana, cerdda, chwertha, rheda,* &c., sy mor hoff gan ysgrifenwyr ieuainge, a rhai anwybodus o ieithweddau y Gymraeg. Y terfyniad yn unig a chwanegir at ferfau ereill; megys:—

Cario, ia, *v.* &c.
Chwilio, ia, *v.* &c.
Teyrnasu, a, *v.* &c.

Y mae amser dyfodol trydydd person agos yr holl ferfau sydd heb eu dynodi yn y dull uchod, yr un a dull cyntefig neu annherfynol y berfau; megys, *lloffa, cardota, hela,* &c.

Heb law y rhan ddychymmygol o eglurhâd y Dr. Pughe, a seiliwyd ar ystyr y gwraidd y tybiai efe fod geiriau wedi eu cyfansoddi o honynt, ond a adawyd allan genym ni yn fynych, fel yr awgrymwyd eisoes, er mwyn cael lle i eglurhâd neu eiriau cyfystyr Saesneg a Chymraeg mwy ymarferol. Canfyddir hefyd fod llawer o'r geiriau Saesneg sydd ganddo ef yn ei eglurhâd yn hen a diarfer. Yn y cyfryw amgylchiadau, yr ydym naill ai wedi nodi ei eiriau Saesneg diarfer ef â †, gan chwanegu geiriau Saesneg diweddar atynt, neu wedi eu gadael allan, a rhoddi ereill yn eu lle, yn ol fel y caniatâai hyd y llinellau. Yn y rhan bwysig yma o'r gwaith, cymmerasom yr holl ofal ar a allem i ddethol y geiriau Saesneg mwyaf cydweddol âg ystyr presennol y geiriau Cymraeg, yn gystal a'r rhai mwyaf ymarferol, heb ofalu cymmaint am eu hystyron gwreiddiol ac athronyddol, gan y credwn fod y rhai hyny yn bur fynych yn ddychymmygol. Y geiriaduron a ddefnyddiwyd yn y rhan yma o'r gwaith, gan mwyaf, yw yr *Imperial Dictionary,* gan y Dr. Ogilvie; y *New Universal Etymological and Pronouncing Dictionary,* gan Gilbert; y *Royal Dictionary-Cyclopœdia,* gan T. Wright; y *New Pronouncing Dictionary,* gan B. H. Smart; a'r *Universal Critical and Pronouncing Dictionary,* gan J. E. Worcester.

Fe allai y dylid dywedyd gair etto am orgraph y Saesneg. Y mae yn hysbys i'r darllenydd Saesneg craffus fod dwy ysgol orgraphyddol yn mysg y Saeson y dydd heddyw, cystal ag yn mysg y Cymry, y rhai y gellir eu galw yn Ysgolion Martin a Johnson, heb son am yr ysgol hynafol a ddilynid gan Bacon, Locke, Shakspeare, Milton, &c. Y mae y ddwy ysgol a nodwyd yn gwahaniaethu yn benaf gyda golwg ar y ddau ddosbarth o eiriau sydd yn terfynu yn *ic* neu *ick,* ac yn *or* neu *our;* megys *music, public,* neu *musick, publick; favor, honor,* neu *favour, honour.* Yr oedd Johnson, yn ol arfer gyffredinol, er nad dieithriad, ei oes, yn ysgrifenu y geiriau hyn â'r *k* a'r *u,* tra y gwrthodai Martin hwy, yn enwedig y *k* ormodol.

Y mae y *k*, yn y dosbarth cyntaf a nodwyd, yn cael ei chadw fyth mewn argraphiadau diweddar o Eiriadur Johnson; a hefyd yn ngeiriaduron Sheridan, Walker, Jameson, a Richardson; ond mewn Geiriaduron ereill a gyhoeddwyd ar ol amser Johnson y mae y lythren hon yn cael ei gadael allan; ac y mae Walker, er ei fod yn ei chadw yn ei Eiriadur, yn condemnio yr arfer o honi, gan sylwi fod ei gadawiad allan yn rhy gyffredinol i gael ei wrthweithio hyd yn oed gan awdurdod Johnson. Y mae yr arfer gyffredinol yn awr mor gref dros ei gadael allan, medd Worcester, fel y mae yn llawn bryd ei bwrw ymaith o'r geiriaduron. Pa wedd bynag, cedwir hi etto mewn geiriau unsill; megys, *stick, brick, lock;* ac mewn rhai geiriau lliaws-sill yn terfynu yn *ock;* megys *hillock, hemlock*, &c. Ysgrifenir y berfau, *to frolic, to mimic*, a *to traffic*, heb y *k* yn yr amser presennol: ond wrth gymmeryd sill ychwanegol i ffurfio yr amser gorphenol, a'r cyfraniad, rhaid defnyddio y *k* i gadw yr *c* yn galed; megys *trafficked, trafficking.*

Y mae y llythyren *u*, mewn geiriau yn terfynu yn *or* neu *our—favor, honor*, neu *favour, honour*—yn cael ei dilyn gan fwy o anhawsder. Ymddengys fod y rhan fwyaf o eiriau y dosbarth yma yn dyfod yn wreiddiol o'r Lladin i'r Saesneg, ond trwy y Ffrangcaeg, yn yr hon y terfynant yn *eur*, megys *faveur, honneur;* a dyma'r rheswm a rydd Johnson dros gadw yr *u* i mewn. Ond y mae efe ym mhell o fod yn gysson wrth gymmhwyso yr egwyddor yma; canys am y geiriau sy'n meddu y terfyniad *or* yn Lladin, ac *eur* yn y Ffrangcaeg, y mae efe yn rhoddi yr *u* mewn 59 o honynt sydd yn ei Eiriadur ef; megys *ambassadour, ferrour, possessour*, &c., ac yn ei gadael allan o 40 o honynt; megys *actor, director, inspector*, &c.

Yr oedd y Dr. Pughe yn dilyn llythyraeth Johnson gan mwyaf, er nad yn gysson, ac yn defnyddio yr *our;* ond dewisach genym yr *or*, nid yn unig am ei fod yn nes i'r gwir wraidd Lladin, ond am ei fod yn symlach hefyd; ac yn hyn, fel mewn pethau orgraphyddol ereill, yr ydym yn dilyn Worcester, geiriadur yr hwn, nid yn unig ydyw un o'r rhai diweddaraf, ond, yn ein bryd ni, y cyssonaf hefyd o ran llythyraeth.

Wrth derfynu, goddefer i'r golygydd ddatgan, er nad oedd heb gryn brofiad blaenorol yn y maes geiriadurol, etto nad oedd yn ddigon hysbys, pan yn ffurfio cynllun yr argraphiad hwn o'r geiriadur helaethaf yn yr iaith, o eangder y llafur gofynol er ei ddwyn ben, o'r hyn y mae weithian yn eithaf profiadol. Cred hefyd nas gall unrhyw lafur na diwydrwydd wneuthur geiriadur iaith lafaredig a chynnyddol yn gwbl ddiddiffyg; a dau fod hwn yn agored i helaethiad a diwygiad. Pa wedd bynag, cyflwynir ef fel y mae i sylw y cyhoedd ammhleidgar, gan obeithio na fernir ef yn gwbl amddifad o deilyngdod, o ran na chynllun na chyflawniad.

BANGOR, *Tachwedd*, 1866.

GEIRIADUR CENHEDLAETHOL CYMRAEG A SAESNEG.

A NATIONAL WELSH-ENGLISH DICTIONARY.

A, *s. f.* the first letter (being also the first vowel) of the Welsh alphabet, has the same sound as the English *a* in the words *man* and *father*: as an abbreviation, A stands for Athraw, as A. C.=Athraw yn y Celfyddydau—Master of Arts.

A, *c.* (C. *a*, *ha*) and; also; both.—Ac. The conjunction *a* is generally used before words beginning with a consonant: *ac*, its equivalent, precedes words that have vowels for their initials. When it stands before any pronoun, there is generally an ellipsis of the initial of the latter; as a'm, a'th, a'i, a'n, a'ch, a'u, a'r; for *a fym*, *ac eith*, *ac ei*, *ac ein*, *ac eich*, *ac eu*, *ac yr*. It is often used as an expletive.

A,=â, *prp.* with.—Ag=âg, gyda, gyd â, gydag, gyd âg. The preposition *â* generally precedes words that begin with a consonant, as *âg* goes before vowels. Pronouns following it have the same ellipsis as in the conjunctive *a*; as, â'm, â'th, â'n, â'ch, â'u, â'r.

Parth â Llundain—towards London.

A'th lawn hwde—with thy utmost exertion.

A, *ad.* when; whilst; as long as.—Ac.

A, *prf.* very, great; un, im, in, ir, dis.—Tra; an-. In some instances, it is prefixed to enhance the force of words; as *aball*, *achar*, *achrwm*; much like the word *arise* in English. It is also of the nature of the French *y* in *Il y a pas*. In old writings, it is often found in common with *i* and *y*, for *o*; as *a dan*, *i dan*, *y dan*, for *o dan*, underneath. Whenever a verb active follows its governing substantive, this *a* comes between them, and points out their relative connection.

A, *in.* Oh! It is expressive of sorrow, surprise, or pain.—O! ha! ow! och!

Aaronaidd, [aronaidd] *a.* (H. *Aaron*), Aaronic, Aaronical, pertaining to Aaron; relating to the priesthood of Aaron.—Aaronol, Aaronig; perthynol i offeiriadaeth Aaron.

Ab, *s.* a son. It is used in expressing the names of men before vowels and soft consonants; as Cynan ab Owain=Cynan the son of Owen; Dafydd ab Gwilym=David the son of William. When the Welsh adopted the use of surnames, *ab* was, in many instances, merged in the name it preceded; hence come *Bowain*, *Belis*, or *Bowen*, *Bellis*, for *ab Owain*, *ab Elis*, and several others. It was conveniently used in pedigrees.—Ap, mab, fab.

Ab,=âb, od, oedd, *s. f.* (a root denoting aptness and celerity, or quickness of motion: it is used as a prefix in composition) a monkey, an ape.—Epa, gwrâb.

Mal yr âb am ei chenaw—like the ape for her cub. *D.*

Ab, *s.* (*H.*) Ab: the eleventh month of the Jewish civil year, and the fifth of the ecclesiastical year, answering to a part of July and a part of August; in the Syriac calender, *Ab* is the name of the last summer month.

Abad, ebyd, *s.* (Arm.; C. *abaz*, *abai*; H. *ab*, *aboth*; Syr. *abba*; L. *abbas*) an abbot, an abbe: the superior or governor of an abbey or monastery.—Arfynach, penfynach.

Abadaeth, au, *s. f.* an abbacy, an abbotship, an abbey.—Arfynachaeth.

Abades, au, *s. f.* an abbess: a female superior of a nunnery or convent of nuns.—Penfynaches, penlleian.

Abadwy,† *a.* defective; unprivileged.—Diffygiol; anfreiniol. *B. G. M.*

Abadyddol, *a.* abbatical, abbatial.—Mynachlogol, cyfeiniol. [aidd.

Abaidd, *a.* (âb) apish; foppish.—Epaol, gwrab-

Abaits,† *s. pl.* (C. *kavatsh*; Fr. *cabus*) cabbage.—Bresych, cawl. *H. D.*

Aball, oedd, *s.* (a—pall) a failing; a want; defect; destruction; default.—Pallder, diffyg, eisieu.

Aballadwy,† *a.* defectible; defeasible.—Diffygiadwy.

Aballedig,† *a.* failing; destructive.—Methedig; distrywiedig.

Aballedigaeth,† au, *s. f.* failure; deficiency; ruination.—Palliant; mallder.

Aballiad,† au, *s.* defection.—Diffyg.

Aballu, a, *v.* to fail; to perish; to extirpate.—Methu; dyfetha.

Aballus,† *a.* failing, fallible; defective.—Hyfeth; diffygiol.

Aballwr,† wyr, *s.* a defaulter.—Methwr.

Aban,† ebyn, *s.* (a—ban) a din; tumult; uproar.—Eban, rhyfel.

Aban, *s.* corn marigold, yellow ox-eye.—Gold, golt, gold yr yd, graban yr yd.

Abant, *a.* (a—pant) low, hollow, depressed.—Isel, pantiog.

Abar,† au, *s.* (ab—ar) a carcase, a dead body.—Buria, burgyn.

Abarth, *s.* (a — parth) a part, a side. — Parth.

Abarth Duw—on the side of God.

Abassi, *s.* (Per.) abassi; a Persian silver coin nearly equal in value to a shilling sterling.—Swllt Persiaidd.

Abatty, abattai, *s.* (abad—tŷ) an abbey, a monastery; a convent; a house adjoining a monastery; a church attached to a convent.—Mynachlog; mynachlys; mynachlan.

A B C, *s.* the A B C; the Alphabet; the battle-door book; a little elementary book.—Yr egwyddor, y llyfr corn.

Abcedilros, *s.* the alphabet, the ten primary letters. — Yr egwyddor; y deg llythyren gyntaf; Bacedilros; Bacadilres.

Abediw,† iau, *s.* (L. *obitus*) a heriot.—Ebediw, obediw; daered.

Abeiddrwydd, *s.* (âb) apishness.—Gwrabeiddrwydd; coegyndod.

Abeio,† *v. a.* to bring under subjection, to bring into obedience.—Darostwng. *L. G. C.*

Abeliaid, [*sing.* Abeliad] *s. pl.* (H. *abel; habal*) Abelians, Abelonians, Abelites; a sect in Affrica which arose about A. D. 390.—Abeloniaid. *G.*

Abell,† *a.* (a—pell) far-away, distant.—Pell.

Aber, *s. f.* oedd, ebyr (ab; a—ber) a confluence of water; the junction of rivers; the fall of a lesser river into a greater, or into the sea; a port, a harbour. Many towns situate at the fall of rivers have their names from this word; as, *Aberystwyth*, the fall of the river *Ystwyth*; *Aberffraw*, the fall of the river *Ffraw*, on which was the principal residence of the princes of *Gwynedd*.—Deulif-gyfarfod, cymmer, cydffrwd; rhyd, ffrwd; porthladd.

Aberedig, *a.* disembogued.—Ymarllwysedig.

Aberiad, au, *s.* disemboguing, disembogueement.—Ymarllwysiad.

Aberog, *a.* abounding with harbours.

Aberth, au, ebyrth, *s.* (a—berth) wealth, riches, property; a sacrifice, oblation.—Golud, cyfoeth; offrwm, arllad.

Aberth dirprwyol—vicarious sacrifice.
Aberth dros bechod—sin-offering.
Aberth dyhuddol, } expiatory sacrifice.
Aberth iawnol, }
Aberth hedd—peace-offering.
Aberth lloas—burnt-offering.
Aberth moliant—thank-offering.

Aberthadwy, *a.* that may be immolated.—Offrymadwy.

Aberthedig, *a.* immolated; sacrificed.—Offrymedig.

Aberthedigaeth, au, *s.* the act of sacrificing; immolation.—Offrymiad.

Aberthedigol, *a.* sacrificial.—Offrymiadol.

Aberthiad, au, *s.* an immolation.—Offrymiad.

Aberthin,† *a.* abounding with riches or sacrifices.—Offrymog; llawn aberthau.

Mynydd Aberthin—a mountain so named where it is supposed druidical sacrifices were offered.

Aberthog, *a.* that offers sacrifice; rich.—Offrymog.

Gwr aberthog—a rich man.

Aberthol, *a.* sacrificial.—Offrymol.

Aberthu, a, *v. a.* to sacrifice; to immolate; to consecrate, to dedicate.—Offrymu; cysegru.

Aberthu gwylfa—to establish or consecrate a festival.

Aberthwr, wyr, *s.* he that offers or sacrifices; a priest; a mass-priest.—Offrymwr; offeiriad.

Aberu, a, *v.* (aber) to disembogue, to run out.—Ymarllwys.

Abib, *s.* (H.) Abîb; the first month of the Jewish ecclesiastical year.—Abib.

Abientwydd, *s. pl.* (L. *abientinæ*—gwydd) a family of the coniferæ, including the pine, fir, larch, araucaria, &c.—Conwydd.

Abisidariaid, *s. pl.* (E. *a, b, c*) Abecedarians; a name given to poetical compositions in which the lines or sections are alphabetically arranged; a term of reproach applied to some of the early Anabaptists. *G.*

Abl, *a.* (S. *abal;* C. *habal;* L. *habilis*) able, sufficient, powerful; wealthy. — Galluog; cyfoethog.

Abledd, au, *s.* ability, sufficiency.—Gallu, medr; digonolrwydd.

Abo,† *s.* (a—po) the carcase; a carrion.—Abwy, ysgerbwd.

Abod,† *s.* (a—bod) being, existence. — Bod, hanfod.

Abod,† au, *s.* (a—pod) carrion, putrid flesh.—Celain, burgun.

Abracadabra, *s.* the name of a deity worshipped by the Assyrians; a cabalistic word. *G.*

Abrahamaidd, *a.* (H. *Abraham*) belonging to Abraham.—Abrahamig.

Abrahamiaid, [*sing.* Abrahamiad] *s. pl.* Abrahamites; sects of heretics so called after their respective leaders.

Abraidd,† *ad.* (a—braidd) scarcely; hardly.—Braidd.

Abred, au, *s.* (a—pred, ab—rhed; Gr. *erebos*) a vile state; evil; the state which, according to the druidic doctrine of metempsychosis, the soul traversed before it inhabited the human body.—Drwg; erchwyn.

Abredawg,† *a.* vile; evil.—Drwg.

Abrediad, au, *s.* the progression of the soul in the circle of evil; transmigration; metempsychosis.—Trawsfudiad; erchwyniad.

Abredig,† *a.* evil; vile.—Drwg.

Abredu,† *v. a.* to pass through the circle of evil or brutal life; to transmigrate.—Trawsfudo, trawssymmud; erchwyno.

Abron,† *s.* (a—bron) a fore garment; an apron.—Arffedog, barclod.

Abrwysg,† *a.* (a—brwysg) unwieldy; heavy; drunk; surfeited by over-loading the stomach.—Meddw.

Abrwysgadwy,† *a.* liable to become drunk.—Meddwadwy.

Abrwysgedig,† *a.* drunken.—Meddwedig.

Abrwysgiad,† au, *s.* a heavy sluggish motion; ebriety.—Syrthni; meddwdod.

Abrwysgl,† *a.* (a—prwysgl) very large; huge; immense.—Amrosgo, anferth.

Abrwysgo,† *v. a.* to make drunk; to inebriate, to become drunk.—Meddwi.

Ahrwygol,† *a.* heavy in motion; drunk.—Swrth; meddwol.

Absen, au, *s.* (ab—sen) an aptness to chide or to taunt; slander, detraction.—Athrod, sarhâd.

Absen drwg—calumniation, backbiting.

Absen, au, *s.* (L. *absens*) absence; carelessness, inattention.—Amhresennoldeb, asswyn; ancofaledd.

Absendod, au, *s.* absentment; the state of being absent.—Asswyniad, esswyndod.

Absenneb, *s. f.* a furlough, a temporary leave of absence.—Ymabsenneb, cenad ymabsen.

Absenniadol, *a.* absentaneous, absent.—Aswyniadol, esswyniadol.

Absennol, *a.* absent; inattentive.—Anwyddfodol, esswynol; disylw.

Absennoldeb, *s.* absence, the state of being absent.—Anwydd, absent.

Absennoli, *a, v.* to absent, to withdraw.—Amhresennoli, asswyno.

Absennoliad, au, *s.* absenteeism.—Esswyniad, ymabsennoliad.

Absennolwr, wyr, *s.* an absentee=one absent from his station, employment, or country.—Asswynwr; anghywiad.

Absent, *s.* absence.—Absen, anwydd.

Absena, a, *v. a.* (ab—sen) to slander, to backbite.—Athrodi; senu, sarhau, ysglandro.

Absenw,† au, *s.* (ab—senw) deceitfulness.—Gogan, llysenwad.

Absenwr, wyr, *s.* a slanderer, a backbiter.—Athrodwr, enllibiwr, ysglandrwr.

Absenwr drwg—a calumniator, a malicious detracter.

Abstinentaidd, *a.* (L. *abstinentia*) relating to the Abstinentes.—Perthynol i'r Abstinentiaid; ymarbedol.

Abstinentiaid, *s. pl.* Abstinentes, Abstainers=a sect which appeared in France and Spain in the third century.—Ymarbediaid. *G.*

Abwy,† on, *s.* (a—pwy) a carcase; a carrion.—Abo, ysgrwd.

Abwyol,† *a.* of the nature of carrion.—Burgunaidd.

Abwyd, [*sing.* abwydyn] *s. ag.* (a—bwyd) a bait; sustenance; meat to allure.—Amwyd, ebran.

Abwyd gwyn—The bait; bleak=a small fish found in the river Thames.

Abwyd y ddaear—earth-worms.

Abwydadwy, *a.* what may be baited, allured with a bait.—Amwydadwy.

Abwydedig, *a.* baited; feeding.—Porthedig.

Abwydiaid, Abwydogion, *s. pl.* annelids, annelidans, annelidæ.—Rhwyogion, modrwyogion.

Abwydo, a, *v. a.* to bait, to feed.—Amwydo, porthi.

Abwydwr, wyr, *s.* a baiter; one who gives food.—Amwydwr, porthwr.

Abwydyn, *s. dim.* a small bait; a worm.—Amwydyn, pryf.

Abyrgof,† ion, *s.* (a—byr—cof) short memory.—Anghof, byrgof.

Abyrgofiad,† au, *s.* a forgeting.—Anghofiad.

Abyrgofio,† *v.* to forget; to remiss.—Anghofio.

Abyrgofus,† *a.* forgetful: remiss.—Anghofus.

Ac, *c.* (L. *ac*; C. *ag, hag*; Gr. *cai*) and; also (generally used before words beginning with vowels).—A; hefyd.

Ac, *ad.* also, likewise; while, until.—A; tra; hyd.

Ac,† *s. f.* language.—Iaith.

Acaciaid, [*sing.* Acaciad] *s. pl.* (L. *Acacius*) Acacians, Acatiani; certain sects so denominated from their leaders, Acacius of Cesarea, and Acacius of Constantinople.

Academaidd, *a.* (academiad) belonging to the academic sect.—Academig, athrofyddol.

Academiaeth, *s. f.* (academiad) the doctrine of the academic philosophy.—Athrofiaeth; Platoniaeth.

Academiaid, [*sing.* academiad] *s. pl.* (Gr. and L. *academia*) those who belonged to the school or adhered to the philosphy of Socrates and Plato.—Athrofyddiaid, Athrofiaid. *G.*

Acadfydd,† *ad.* (ac—ad—bydd) peradventure, perhaps.—Ysgatfydd.

Acat, *s.*=Agat.

Acatoedd,† *ad.* (ac—at—oedd) likely enough; possibly.—Digon tebyg; fe allai.

Accan, ion, *s. f.* (ac—cân; L. *ad—cano*; C. *cân*; Ir. *canaim*) a saying; an accent.—Diareb; accen.

Yr oedd hyny yn accan gan bawb—that was a proverb with every body.

Accen, au, ion, *s. f.* (accan; L. *accentus*) an accent; a particular stress of voice on a certain syllable; the modulation of the voice in reading or speaking; a mark on a syllable to direct the modulation of the voice.—Gorddygan; pwyslais, pwyslais ar sill bennodol; pwysleisiad (mewn darllen neu lefaru); pwysleisnod, nod accen.

Accen amgylchedig — circumflexed accent (^).

Accen ddisgynedig—grave accent (`).

Accen ddyrchafedig—acute accent (´).

Accenadwy, *a.* accentable.

Accenedig, *a.* accented, accentuated.

Acceniad, au, *s.* accentuation.—Aceniadaeth.

Acceniadaeth, Acceniaeth, Accenyddiaeth, *s. f.* the act of placing accents in writing, or of pronouncing them in speaking; accentuation; prosody.—Tonyddiaeth; pwysleisiad.

Accenol, Acceniadol, Accennodol, *a.* accentual, relating to accent; enunciative.—Tonyddol; pwysleisiol; ynganol.

Accenu, Acceniadu, Accennodi, *s, v. a.* to accentuate, to accent; to place the accent properly.—Toniadu, tonio; llefaru, cynanu.

Accniadur, on, *s.* a pronouncing dictionary.—Geiriadur cynaniadol, cynaniadur.

Accennod, au, *s.* the mark of accent; an accent.—Nod accen.

Accennodiaeth, *s. f.*=Acceniadaeth.

Accenydd, ion, *s.* an accentor; one who sings the leading part (in music).—Achanor; perorlyw.

Acdo,† *ad.* (ac—yd—o) there also; with it.—Hagen, hefyd.

Acephaliaid, [*sing.* Acephaliad] *s. pl.* (Gr. *a—cephalê*=di—ben) a sect of levellers who acknowledged no chief or head.—Ambenogiaid.

Acoemitiaid, [*sing.* Acoemitiad] *s. pl.* (Gr. *acoimêtae*) Acœmetæ, Watchers; an appellation given to certain monks in the ancient church.—Gwyliedyddiaid. *G.*

Acolythiaid, [*sing.* Acolythiad] *s. pl.* (Gr. *acolouthel*) Acolythists, Acolothists, Acolytes: certain subordinate officers who assist the ministers at solemn service in some churches.—Dilyniaid. *G.*

Acsus,† *s.* (E. *access*) an ague (thus used in North Wales, from which it appears that th

distemper in question was not formerly known in that country).—Tairth, y cryd.

Actau, *s. pl.* (Gr. *ago ;* L. *ago, actum ;* egni ; Ir. *aige ;* Fr. *agir ;* It. *agire*) acts, deeds, performances; edicts of a legislature; a statute. — Gweithredoedd; gosodiadau ; ystatudau. *Ll. G.*

Actau yr Apostolion — the Acts of the Apostles.—Gweithredoedd yr Apostolion. *B.*

Actio,† *v. a.* to act.—Gweithredu. *Ll. G.*

Actwn,† *s.* a coat of mail.—Llurig, curas.

Acw, *ad.* (ac—w, or oc—w; Gr. *ekei*) yonder, there ; in that place.—Dacw ; draw.

Acwariaid, [*sing.* Acwariad] *s. pl.* (L. *aqua ;* It. *acqua*; Arm. *eague* ; Goth. *ahwa* ; Ir. *oig, oiche* ; gwy) Aquarians, Water-drinkers; a sect of Christians who consecrated water in the eucharist instead of wine.—Dyfrogiaid. *G.*

Acwn,† acynau, *s.* a coat of mail.—Actwn.

Ach-, *prf.* it enhances the force of words like the intensive or augmentative Greek *a*, or the Hebrew ה emphatic, or the English augmentative *em-, im-, en-, in-*.

Ach, *aff.* as an affix or termination to adjectives in the comparative degree; its signification, of course, is augmentative, and coincides with the English termination *er ;* as gwyn*ach* —whit*er ;* byr*ach*—shorter : as a plural termination, it implies contempt; as dynion*ach* —mean little men; pobl*ach*—low people: when it is a noun termination, it tends to signify diminution and endearment; as, cyfrin*ach*—a secret; cyfeill*ach*—friendship ; cein*ach*—a hare.—Dr. Pughe explains it as "what closes on ; fluid; water," which, perhaps, may be considered as its abstract signification.

Ach=âch, au, oedd, *s. f.* (C. ; H. *iachas*) a stem; a pedigree, lineage of one's ancestors; a root, the root of a tree; a river (hence Clud*ach*, Mawdd*ach*).—Cyff ; gwelygordd, llinach, tadogaeth ; bonedd, bon ; afon.

Ach,† *s. f.* a daughter (used only in nomination like *ab* or *ap ;* as, Eurgain ach Maelgwn—Eurgain the daughter of Maelgwn).—Merch.

Ach,† *prp.* by ; near.—Wrth ; ger ; yn agos at.

Ach ei law—by his hand.

A'ch, *pr. c.* (ac—eich) and your.

A'ch=â'ch, *pr. prp.* (âg—eich) with your.—Gyda'ch, gyd â'ch.

Achadw,† *v. a.* (a—cadw) to preserve ; to keep. —Cadw.

Achain,† *a.* (a—cain) very precious; splendid. —Ysblenydd.

Achan,† au, *s. f.* (a—cân) a hymn, a song.—Emyn, llafargan.

Achanawl,† *a.* hymning, chaunting; antiphonal, antiphonic.—Emynol ; côr-geiniol.

Achaniad,† au, *s.* a chaunting.—Côr-ganiad.

Achanog,† *a.* (anghenog, a—can, or a—chwannog) needy, indigent.—Rheidus, anghenus.

Achanor, ion, *s.* (achan) an accentor.—Accenydd.

Achanu,† *v. a.* to chaunt, to utter.—Côr-ganu ; ynganu.

Achanwr, wyr, *s.* a chaunter. — Achanor.

Achar,† *a.* (a—câr) affectionate; loving.—Serchus.

Adfeddiannwr, wyr, *s.* a repossessor. — Ail feddiannwr, adberchenogwr.

Adfeddiant, iannau, *s.* (ad—meddiant) repossession.—Ail feddiant, adberchenogaeth.
Adfeddiant Gwynfa—Paradise Regained.

Adfeddu, a, *v. a.* (ad—meddu) to repossess, to possess again.—Adfeddiannu, ail feddiannu, adberchenogi.

Adfeddwl, adfeddylian, *s.* (ad—meddwl) second thought, a recollection.—Ail feddwl; adgof, adgofiant:—*v.* to think again; to reflect.—Ail feddwl, adfeddylied, adystyried.

Adfeddyliad, au, *s.* recollection; reflection.—Ymadgof, adgofiad; adfyfyriad, adfeddwl.

Adfeddylied, *v. a.* to recollect.—Adgofio, adystyried.

Adfeddyliwr, wyr, *s.* one who meditates; a thinker; a ruminator.—Adfyfyriwr, adystyriwr.

Adfeiad, au, *s.* (adfeio) recrimination.—Gwrthfeiad, adgeryddiad.

Adfeiedig, *a.* recriminating.—Adfeiol, gwrthsenol.

Adfeiedigol, *a.* recriminatory, recriminative.—Adfeiedig, gwrthfeiedigol.

Adfeio, ia, *v. a.* (adfai) to recriminate. — Gwrthfeio, gwrthachwyn; adgeryddu.

Adfeiol, *a.* recriminating.—Adfeiedig, gwrthfeiol.

Adfeiwr, wyr, *s.* a recriminator.—Gwrthfeiwr.

Adfeiliad, au, *s.* (adfeilio) a decaying, falling to ruin.—Dadfail, palliant.

Adfeiliedig, *a.* decayed; falling to ruin.—Dadfeiliedig; amharus.

Adfeiliedigrwydd, *s.* ruinousness; a dilapidation.—Adfeiliogrwydd; dadfeiliad.

Adfeilio, a, *v.* (adfail) to decay; to fade.—Dadfeilio, methu, amharu.

Adfeiliog, *a.* decaying; failing.—**Dadfeiliog, methedig.**

Adfeiliogrwydd, *s.* ruinousness, a ruinous state.—**Adfeiliedigrwydd, adwythigrwydd.**

Adfeiliwr, wyr, *s.* a dilapidator.—**Dadfeiliwr, difrodydd.**

Adfeiriad,† au, *s.* (adfeirio) repulsion.—**Gwrthyriad, enciliad.**

Adfeirio,† *v. a.* (adfar) to repulse, to drive back.—**Gwrthyru, cilgwthio.**

Adfeiua, *a.* (adfai) recriminative.—**Adfeiol.**

Adfeiwr, wyr, *s.* a recriminator.—**Gwrthfeiwr.**

Adfel,† edfyl, *s.* (ad—bel) a stranger; one come in.—**Diethr, dieithryn; dyfodiad, dyn dyfod, ymnoddwr.**

Adfal,† au, *s.* (ad—mal)=Adfal. *Yn.*

Adfelwr, wyr, *s.* (ad—bel—gwr) a recruit.—**Adfilwr, milwr llanw.**

Adfelwrio, ia, *v.* to recruit.—**Adgyflenwi.**

Adfelydd, ion, *s.* (ad—mal)=Adfal. *Yn.*

Adfent, au, *s.* (L. *adventus*, from *advenio*, to come; Ar. *fanna*=to come) the Advent: a season of devotion during the four weeks before Christmas, beginning on St. Andrew's day, or on the Sunday next before or after it.—**Y Dyfodiad.** *Ll. G.*

Adfentol, *a.* adventual, relating to the season of Advent.—**Dyfodiadol, dawedol, perthynol i'r Adfent.**

Adfer, au, *s.* (ad—mer) what is returned.—**Dadfer, edfryd.**

Adferadwy, *a.* restorable; returnable. — **Edfrydadwy; dychweladwy.**

Adferai, *s.* analeptic, a restorative.—**Adferiadai.**

Adferedig, *a.* restored, returned.—**Dadferedig; adgyweiriedig.**

Adferedigion, *s. pl.* analeptics, restoratives.—**Adferolion, cyfnerthedigion, edrydolion.**

Adferedigaeth, *s. f.* restoration.—**Dadferedigaeth, edfrydiad.**

Adferedigol, *a.* redditive; restorative.—**Dadferedigol; adgyweiriol.**

Adferiad, au, *s.* restoration.—**Dadferiad, adferedigaeth.**

Adferiad Gwynfa—Paradise Regained.

Adferiadai, *s.* analeptic, restorative.—**Adferai.**

Adferiaid, *s. pl.* Restorationists, Universalists: those who hold the doctrine that all men will be saved.—**Cyffredinolwyr, Adferiadwyr.**

Adferiant, *s.* apodosis; the latter part of a period: the application of a similitude.—**Aramlygiad.**

Adferino, a, *v. a.* to cohobate, to redistil.—**Addystyllio, ail-ddystyllu, arhidlo.**

Adferol, *a.* restorative, returning.—**Dadferol, edfrydol, adferedigol; adchweladwy, dychweledig.**

Adferolion, *s. pl.* analeptics, restoratives.—**Edfrydolion, cyfnertholion.**

Adferth, au, *s.* (ad—berth) that is made cheerful, comfortableness.—**Cysur, hyfrydwch; dyhuddiant.**

Adferthiad, au, *s.* a making fair; a cheering.—**Tecâd, llonder.**

Adferthol, *a.* cheerful; comfortable; animated.—**Cysurus, hoenus, difyr; bywiog.**

Adferthu, a, *v.* to cheer, comfort, to applaud; to encourage.—**Cysuro, sirioli; cymmeradwyo; cefnogi; ymloni.**

Adferthwch, *s.* a rebeautifying.—**Adbrydferthwch; ymloniad.**

Adferu, adfer, edfryd, *v. a.* (adfer) to restore, to return, to give back; to determine.—**Edfryd, adferyd, dadferyd; dychwelyd, adchwelyd; penderfynu; adgyweirio.**

A ddwg angeu nid adfer—what death takes he will not return. *D.*

Adferwi, a, *v. a.* (ad—berw) to boil a second time; to reboil; to be hot. — **Ailferwi; poethi.**

Adferwr, wyr. *s.* (adfer—gwr) a restorer, one who makes restitution.—**Adferydd, adferiedydd, dadferwr, edfrydwr.**

Adferyd, edfryd, *v. a.* (adfer) to make restitution.—**Adferu, dadferyd, edryd.**

Adfesur, au, *s.* (ad—mesur) a second measure.—**Ailfesur.**

Adfesur, *v. a.* to remeasure, to measure anew.—**Ailfesur, mesur drachefn, adfesuro.**

Adfesuriad, au, *s.* admeasurement; a measuring again.—**Ailfesuriad, dogniad, rhaniad.**

Adfesuro, adfesur, *v. a.* to measure over again; to mete again.—**Adfesur, ailfesuro.**

Adfileinio, ia, *v. n.* (ad—mileinio) to become again brutish or cruel.—**Ail fileinio.**

Adfilwriad, iaid, *s.* (ad—milwr) a lieutenant-colonel, an officer next below a colonel.—**Rhagfilwriad, isfilwriad.**

Adfin, ion, *s.* (ad—min) a back edge.—**Eilfin, ail fin.**

Adfirain, *a.* (ad—mirain) unadorned, inornamental.—**Anaddurnol, diaddurn; syml.**

Adfireinwch, *s.* unseemliness.—**Anharddwch, anaddwynder.**

Adflagur, au, *s.* (ad—blagur) a second bud.—**Ail flagur, adeginyn.**

Adflaguradwy, *a.* that may bud again.—**Adeginadwy.**

Adflaguriad, au, *s.* regermination.—**Attarddiad, attyfiad, adfywulliad.**

Adflaguro, a, *v.* to bud again.—**Ail flaguro, adfaldarddu.**

Adflagurog, *a.* budding again. — **Ail flaendarddol, adfywullog.**

Adflaguryn, *s.* a second sprout, a second bud.—**Ail flaguryn; attwf.**

Adflas, au, *s.* (ad—blas) a twang; ill taste.—**Adchwaeth; blas drwg.**

Adflasdod, *s.* insipidness; a twang. — **Adflas, diflasder; melli.**

Adflasu, a, *v.* to retaste, have a twang.—**Ail brofi, adchwaethu.**

Adflasus, *a.* insipid; having a twang.—**Diflas, anflasus, merfaidd.**

Adflin, *a.* (ad—blin) fatigued over again.—**Ail flinedig.**

Adflinder, au, *s.* irritation.—**Adgyffroad, adgynhyrfiad.**

Adflino, a, *v. a.* to regrate; to offend.—**Adofidio; anfoddhau, digio.**

Adflith, ion, *s.* (ad—blith) second milk; strappings, strokings.—**Armael, ail odro, tripion llaeth.** [ail odriad.

Adflithiad, au, *s.* second milking.—**Armaeliad,**

Adflitho, a, *v.* to have a second milk.—**Armaelu.**

Adflodau, *s. ag.* (ad—blodau) second blossoms.—**Ail flodau, adwull.**

Adfloden, au, *s. f.* (ad—bloden) a floscule.—**Gofloden, blodeuan.**

Adflodeuad, au, *s.* a second blossoming; reflorsation; refloreseence.—**Ail flodeuad, adwiad.**

Adflodeuo, a, *v. a.* to reflourish.—Ail flodeuo; attyfu.

Adflodeuog, *a.* refloriferous.—Adwulliog, ail flodeuog.

Adflodyn, *s.* a floscule.—Adwullyn, gofiodyn, blodeuig, ffiurgyn.

Adflodynol, *a.* flosculous; composed of flowers.—Gofiodonol, blodeuigol; adflodeuog.

Adfloedd, *s. f.* (ad—bloedd) a responsive shout.—Ail floedd.

Adfloeddio, ia, *v. a.* to shout back, to revociferate.—Ail floeddio.

Adfod, au, *s.* (ad—bod) a second being, a second existence.—Adhanfod.

Adfod, adfydd, *v.* to be again; to re-exist.—Ail fod, adhanfod.

Adfodrydaf,† au, *s.* (ad—modrydaf) an imp; a second stock of bees; a second rallying point.—Adimpyn; adgyff o wenyn; adgyrchfa, adgraidd.

Adfraenar, oedd, *s.* (ad—braenar) a field twice ploughed; a second fallow.—Ail fraenar.

Adfraenaru, a, *v. a.* to plough a fallow; to plough the second time.—Ail fraenaru.

Adfraich, adfreichiau, *s. f.* (ad—braich) the minor, the second proposition of a syllogism.—Eilfraich (cyfreswm), yr ailosodiad mewn prawfreswm.

Adfrathu, a, *v. a.* (ad—brathu) to rebite, to stab again.—Ail frathu, ail archolli.

Adfrawd, *s. f.* (ad—brawd) a rejudging; a judging on the contrary.—Adfarn, adfarniad, eilfarn; ail ddedfryd; gwrthfarniad, gwrthfrawd.

Ni bydd brawd heb ei hadfrawd.—There will be no judgment without its contradiction. *D.*

Adfrawdd, Adfroddau, } *s. f.* (ad—
Adfrawddeg, Adfrawddegau, } brawdd) a clause; a phrase; the words in a sentence between two points, a part of a sentence.—Brawddegran; ailfrawddeg; adran, gosran, dosran; bannod, adnod; darn o ymadrodd; y geiriau mewn ymadrodd a fônt rhwng dau wahannod.

Adfref, au, *s. f.* (ad—bref) a replying bellow.—Adfugunad, gwrthfref; aduchenaid.

Adfrefu, a, *v. a.* to answer with lowing; to iterate a groan.—Adfuguned; adochi.

Adfreinio, ia, *v. a.* (ad—breinio) to restore a privilege, to give a privilege again.—Ail freinio. [freinioli.

Adfreinioli, ia, *v. a.* to re-enfranchise.—Ail

Adfresych, *s. ag.* (ad—bresych) sprouts, young coleworts.—Ail fresych; adfresychlys, bresychlys ieuainge; ysgewyll.

Adfryd, au, *s.* (ad—bryd) animadversion.—Adfarn, adfeirniadaeth, adsyniad.

Adfrydol, *a.* animadvertive.—Adsyniol, adfeirniadol.

Adfrydolrwydd, *s.* animadversiveness.—Adsynioldeb, syniioldeb.

Adfrydu, a, *v. a.* to animadvert.—Adystyried, adsylwi; adfeirniadu.

Adfrydwr, wyr, *s.* animadverter.—Adystyriwr, adsylwedydd.

Adfudd, iau, *s.* (ad—budd) what is not profit; loss; damage.—Gwrthfudd; colled.

Adfuddiog, *a.* unprofitable.—Gwrthfuddiog, difudd.

Gwaedlafn adfuddiog — the destructive bloody blade. *P. M.*

Adfuddiol, *a.* unprofiting.—Diles.

Adfugunad, au, *s.* (ad—bugunad) a second bellow.—Adfref, adfeichiad.

Adfuguned, a, *v.* to bellow again.—Ail fugunedd, adfrefu.

Adfwl, adfyliaid, *s.* (ad—bwl) a splayed bull.—Dadfwl, attarw, bwla, buelyn, tarw dysbadd.

Adfwlch, adfylch, *s.* (ad—bwlch) the greyling, the suin, a salmon-peel, a spawning salmon; a salmon.—Penllwyd, gafiaw, maran, gwyniad y gog, gwyniad haf, brithyll y môr, brithyll du, camog; eog, gleisiad.

Adfwriad, au, *s.* (ad—bwrw) a recasting; a casting out again.—Ail fwriad, adfoldiad; ail dafliad.

Adfwrw, ia, *v. a.* to cast again; to recognize; to sprout anew.—Ail fwrw; ail doddi, ail foldio, adfoldio; ail adnabod; adegino, attarddu, adflaguro.

Adfwyadur, on, *s.* (ad—mwyadur) an engiscope, a reflecting microscope.—Mwyadur adlewyrchol.

Adfwynhâd, *s. m.* (adfwynhau) re-enjoyment.—Adfwyniant, ail fwynhâd.

Adfwynhaol, *a.* enjoying anew.—Ail fwynhaol, adfwyniannol.

Adfwynhau, a, *v.* (ad—mwyn) to re-enjoy, to enjoy anew.—Ail fwynhau, mwynhau o newydd; adfeddu, ail feddiannu.

Adfyd, au, *s.* (ad—byd) recommencement of life in abred; adversity; calamity; misery.—Trallod, trychineb, blinfyd; anffawd, aflwydd, adwyth.

Adfyd pob hir dristwch—every continuing sadness is a calamity. *D.*

Adfydig, *a.* adverse; wretched; miserable; distressed.—Adfydus, truenus.

Adfydiog, *a.* in adversity; miserable.—Adfydig, adfydus, truenus.

Adfydiol, *a.* calamitous; wretched.—Adfydus, anffodiog, trallodus.

Adfydyn, *s. dim.* a poor wretch.—Adlaw, gwaelddyn, adyn, adill, truanddyn.

Adfydd,† *ad.* (ad—bydd) perhaps; it may be.—Atfydd, agatfydd, ygatfydd, fe allai, hwyrach.

Adfyddaru, a, *v. a.* (ad—byddaru) to deafen again; to be stunned again.—Ail fyddaru.

Adfyddin, oedd, *s. f.* (ad—byddin) a corps of reserve.—Byddin gadw, byddin gefn.

Adfyddiniad, *s.* a ralliance, a rally.—Adgynnulliad, adymfyddiniad, adgorphoriad byddin.

Adfyddino, a, *v. a.* to form the line anew.—Adresu gwyr, adrengcio byddin, adffurfio byddin, ail amresu gwyr.

Adfyfyr, ion, *s.* (ad—myfyr) a reflection; attentive consideration, meditation; cogitation.—Adfeddwl, adgof, ymadgof, myfyr; adsyniad.

Adfyfyrdod, au, *s.* reflection, reconsideration.—Adfyfyr; adystyriaeth, adfeddwl, adymsyniad.

Adfyfyrgar, *a.* reflective, musing; considering things.—Adfeddylgar, adfyfyriol, adymsyniol; adystyriol.

Adfyfyrgrawn, adfyfyrgronau, *s.* (adfyfyr—grawn) gnomology, a collection of maxims.—Arwirgrawn, diarhebgrawn, arwirgasgl, direbioneg.

Adfyfyriad, au, *s.* a reflecting.—Adfeddyliad, adystyriad.

Adfyfyriedig, *a.* reconsidered.—Adystyriol, adfeddyliol, adfyfyrgar.

Adfyfyrio, ia, *v.* to reconsider; to reflect.—Adfeddwl, ymadgofio.

Adfyfyriol, *a.* reflecting; reconsidering.—Adfyfyrgar; adysgyriol.

Adfyfyriwr, wyr, *s.* one who meditates or thinks; a ruminator.—Adfeddyliwr; adysgyriwr.

Adfynach, od, *s.* (ad—mynach) a recluse, a hermit; a person secluded from the world.—Adfonach, adfanach, angor; golochwydwr; meudwy.

Adfyned, *s.* a re-enter, a re-entrance.—Ail fyned; adfynediad.

Adfynegi, a, *v. a.* (ad—mynag) to repeat again, to iterate, to recapitulate, to rehearse.—Ailfynegi, ailadrodd, ailddywedyd, ail draethu.

Adfynegiad, au, *s.* a repetition, iteration, recital; tautology.—Ailadroddiad, ad-ddywediad, adwediad, ail fynegiad; adeiriad.

Adfynegol, *a.* that may be repeated.—Ail fynegol, ail adroddol, adhysbysol.

Adfynu, *v. a.* (ad—mynu) to exercise the will again; to will again, to re-insist.—Ail fynu, mynu eto.

Adfyriad, au, *s.* (adfyru) a recurtailing.—Adfyrhâd, adgwtogiad, attociad.

Adfyru, a, *v. a.* (ad—byr) to recurtail, to curtail anew.—Adfyrhau, adgwttogi, attalfyru.

Adfyw, oedd, *s.* (ad—byw) what is without life or about to live again; fallow ground.—Peth difywyd, peth ar fedr byw eilwaith; tir braenar.

Adfyw, ia, *v. a.* to revive, to reanimate.—Adfywio, adfywhau.

Adfyw, *a.* revived, reanimated.—Adfywiedig, adfywhaol; lledfyw.

Adfywhâd, au, *s.* a reanimation.—Adfywiad, adfywiogrwydd, ail fywhâd; dadebriad.

Adfywhaol, *a.* reanimating.—Adfywiol.

Adfywhau, hâ, *v.* to bring to life again; to revive, to reanimate, to quicken, to enliven.—Ail fywhau; adfywio, ail eneidio, bywiogi.

Adfywiad, au, *s.* a reanimating; a revival.—Adfywhâd, adfywiogrwydd; adfywiant.

Adfywiad crefyddol—a revival of religion.

Adfywiant, iannau, *s.* refreshment; reanimation.—Adloniant, diluddediad, dadebriad; adfywiad.

Adfywiedig, *a.* reanimated, revived.—Adfywhaol, adfyw, adfywiocaol.

Adfywio, ia, *v.* to revive; to reanimate.—Adfywhau, adfywiogi, adfywiocau; ymadfywio.

Adfywiocâd, *s.* a re-enlivening.—Adfywhâd, adfywiad.

Adfywiocaol, *a.* revivifying.—Adfywiol, adfywhaol.

Adfywiocau, â, *v.* to attain fresh vigour; to refresh; to re-enliven.—Adrymuso; adloni; adfywhau.

Adfywiog, *a.* revived, reanimated.—Adfywiedig, adfyw.

Adfywiogrwydd, *s.* reanimation.—Ail fywhâd, adfywiad.

Adfywiogi, a, *v.* to reattain life; to gain courage; to take fresh courage.—Adfyw; adwroli, ymwroli; ymadfywio.

Adfywiol, *a.* reviving, reanimating.—Adfywiocaol, adfywiocaus; adferol.

Adfflamio, *v.* (ad—fflam) to flame again.—Ail fflamio, ail ffaglu; ail ennyn.

Adffromi, a, *v. n.* (ad—ffromi) to chafe again, to fume again; to grow angry again.—Ail ffromi, adfrochi.

Adffug, ion, *s.* (ad—ffug) what has no disguise.—Adrith, adffugiant.

Adffugiad, au, *s.* a double disguise.—Ail ffugiad.

Adffugio, *v. a.* to disguise anew.—Lledrithio, adffuantu, ail ffugio.

Adffugiol, *a.* disguising anew.—Adffuantus, adrithiol.

Adffurf, iau, *s.* (ad—ffurf) that has no form.—Peth diffurf; adffurfiad.

Adffurfiad, au, *s.* a reformation; a reforming.—Ail ffurfiad, adluniad, adwneuthuriad; adgyweiriad.

Adffurfiadwy, *a.* reformable.—Adluniadwy, attrefnadwy.

Adffurfiedig, *a.* reformed.—Adluniedig; adgyweiriedig.

Adffurfiedigaeth, au, *s. f.* reparation.—Adgyweiriedigaeth.

Adffurfio, ia, *v. a.* to reform, to repair.—Ail ffurfio, adlunio; adnewyddu, adgyweirio.

Adffurfiol, *a.* reforming.—Adluniol, adwneuthurol.

Adffurfiwr, wyr, *s.* a reformer.—Adluniwr; adgyweiriwr.

Adffwn, adffynnoedd, *s.* (ad—ffwnt) that has no luck, one whose luck is turned.—Adlwydd.

Adffynniant, iannau, *s.* a reprospering.—Ail ffynniant, attyciant.

Adffynnu, a, *v.* to prosper again.—Adlwyddo, attycio, ail ffynnu.

Adgadarnhâd, *s.* (adgadarnhau) a refortifying.—Adgyfnerthiad, ail gadarnhâd.

Adgadarnhau, â, *v. a.* (ad—cadarn) to refortify.—Ail gadarnhau, adamddiffyn.

Adgadarnhaol, *a.* refortifying.—Ail gadarnhaol, adamgaerog.

Adgadarnhäwr, adgadarnhawyr, *s.* a re-inforcer.—Adgyfnerthwr.

Adgadfridog, ion, *s.* (ad—cadfridog) lieutenant-general.—Isgadfridog, rhaggadfridog.

Adgadw, geidw, *v. a.* (ad—cadw) to rekeep; to keep anew.—Ail gadw, cadw o newydd, adwarchod.

Adgadwad, au, *s.* a rekeeping; a represervation.—Ail gadwad, adgadwraeth, adgeidwadaeth.

Adgadwedig, *a.* represerved.—Adgadwedigol.

Adgadwedigaeth, au, *s. f.* represervation.—Adgeidwadaeth.

Adgaer, au, *s.f.* (ad—caer) a second fortress.—Eilgaer, adgaerfa.

Adgaeriad, au, *s.* a refortification.—Ailgaeriad.

Adgaeru, a, *v. a.* to refortify.—Ailgaeru.

Adgaffael, *v. a.* (ad—caffael) to get again, to reobtain.—Ail gaffael, ail gael.

Adgaffaelwys, *s. f.* (ad—caffael—gwys) Fieri Facias: a writ of execution directed to a sheriff to levy debt or damages.—Llythyr attafael a gyfeirir at y sirydd i godi dyled neu fforffedion.

Adganghellydd, ion, *s.* (ad—canghellydd) vice-chancellor.—Adganghellor, isganghellydd, rhagganghellwr.

Adgais, geisiau, *s.* (ad—cais) a second attempt.—Ail gais.

Adgam, *a.* (ad—cam) recurvous.—Adgamedig, gwrthgam, adwyrol.

Adgamder, au, *s.* anaclasis: a recurvature of any part, as of a joint or fractured limb.—Adgemi, adblyg, adwyriad.

Adgamfeddiannydd, *s.* (adgam—meddiannydd) a redisseizor.—Adgamoresgynwr.

Adgamoresgyn, *s.* (adgam—goresgyn) redisseizin.—Dadgamoresgyn.

Adgamoresgynwr, *s.*=Adgamfeddiannydd.

Adgamylfinogion, *s. pl.* (adgam—gylfin) recurvirostra, recurvirostres, avoset, avosetta; a species of palmiped birds.—Adgamylfogion; yr adar pig mynawyd.

Adgamylfogion, *s. pl.*=Adgamylfinogion.

Adgan, au, *s. f.* (ad—cân) an episode; a redescribing. — Adgerdd, ystlysgan, gwyradgan; ad-ddarluniad, ad-ddysgrifiad.

Adganiad, au, *s.* description.—Darluniad, dysgrifiad.

Adganiadol, *a.* episodic, episodical.—Adgerddol, adganig, ystlysganawl.

Adganig, *a.*=Adganiadol.

Adganmawl, } *v. a.* (ad—canmawl) to recele-
Adganmol, } brate.—Adfoli, adglodfori, ail ddathlu.

Adganmoliaeth, au, *s. f.* recelebration, a praising anew.—Adfolawd, ail glodforiad.

Adganmolwr, wyr, *s.* one that praises again.—Adfolwr.

Adganon, au, *s.* (ad—canon) minor canon.—Adgynon, isganon.

Adganu, a, *v. a.* (adgan) to describe over again.—Ail ddarlunio, dadgan.

Adganwr, wyr, *s.* one that describeth, a describer.—Ail ddysgrifiwr; darluniwr; dadganwr.

Adgarthu, *v. a.* (ad—carthu) to recleanse, to repurge, to scour again.—Ail garthu.

Adgas, *a.* (ad—cas) odious, hateful; unlucky.—Hygas, atgas, brwnt; anffodus.

Adgasedd, *s. f.* abominableness, abhorence.—Atgasedd, adgasrwydd, ffieiddrwydd, ffieidddra.

Adgasgl, au, *s. f.* (ad—casgl) a second collection.—Ail gasgl, adgynnull.

Adgasgliad, au, *s.* a regathering.—Ail gasgliad. adgynnulliad, ailgynnulliad.

Adgasglu, a, *v. a.* to regather; to rally.—Adgynnull, ail gasglu; adgrynhoi.

Adgasrwydd, *s.* (adgas) odiousness.—Adgasedd, ffieiddrwydd.

Adgasu, a, *v.* to be hateful; to use spitefully.—Casau, atgasu.

Adgatrawd, *s. f.* (ad—catrawd) a second regiment, a company.—Adfyddin, cattyrfa.

Adgeidwad, au, *s.* (ad—ceidwad) a represerver.—Adgeidwedydd, adwaredwr; adgyweiriwr.

Adgeidwadaeth, *s. f.* the act of represerving.—Adgadwraeth.

Adgeiliog, od, *s.* (ad—ceiliog) a capon, a castrated cock.—Ceiliog dysbadd, cabwllt, caprwn.

Adgeiniad, iaid, *s.* (adgan) one that reciteth; a chanter.—Dadgeiniad, dadganwr; côr-geiniad.

Adgeisiad, iaid, *s.* (adgais) one that makes a second attempt. — Adgynnygiwr, adymgeisiwr.

Adgeisio, a, *v. a.* to seek over again.—Adgynnyg, ail geisio, adymgais â.

Adgelu, *v. a.* (ad—celu) to reconceal, to hide again, to keep secret again.—Ail gelu, adguddio.

Adgemi, *s.* (adgam) a bowing back, anaclasis.—Adgamder, gwrthgamder.

Adgen, oedd, *s. f.* (ad—cen) growth. — Twf, attwf; cynnyrch, daill.

Adgen y ddaiar—the fruit of the earth.

Adgenhedledig, *a.* (ad—cenedl) regenerated, reproduced.—Adgenedliadol, ailenedigol; adgynnyrchiol.

Adgenhedliad, au, *s.* regeneration; reproduction. — Ail genhedliad, adenedigaeth; adgynnyrchiad.

Adgenhedlog, *a.* regenerative; regeneratory.—Adenedigol; adgynnyrchiog.

Adgenhedlu, a, *v. a.* to regenerate, to reproduce.—Ail genhedlu, ail eni, adeni; adffurfio; adnewyddu.

Adgerdd, au, *s. f.* (ad—cerdd) an epose: an incidental narrative or digression in a poem, separable from the main subject, yet rising naturally from it.—Adgan, ystlysgan, gwyriadgan.

Adgerdded, adgerdda, *v.* (ad—cerdded) to walk again.—Adfyned, ail gerdded.

Adgerddol, *a.* episodic, episodical. — Adganiadol, adganig, ystlysganawl.

Adgerfio, a, *v. a.* (ad—cerfio) to reform, to remodel, to carve again.—Ail gerfio.

Adgerydd, on, *s.* (ad—cerydd) a reprimand, reproof, reprehension. — Adgeryddiad, sen, cerydd, argyhoeddiad.

Adgeryddadwy, *a.* reprehensible. — Ceryddedigol, ceryddadwy.

Adgeryddiad, au, *s.* recrimination; reprehension.—Adfeiad, anghreifftiad, dondiad.

Adgeryddol, *a.* reprehensive.—Senedigol, ceryddus.

Adgeryddu, a, *v.* to reprehend, to reprimand. —Ysdwrdio, argyhoeddi, cystwyo.

Adgeryddwr, wyr, *s.* a recriminator.—Adfeiwr, gwrthachwynwr.

Adgeuliad, au, *s.* (ad—ceuliad) recoagulation. —Ail geuliad.

Adgeulo, a, *v.* (ad—ceulo) to recoagulate, to curdle again.—Ail geulaw.

Adgilfur, iau, *s.* (ad—cilfur) a redan: a kind of rampart placed in advance of the principal works to defend the least protected parts.—Adgilwaith.

Adgilwaith, weithiau, *s.* (ad—cilwaith)=Adgilfur.

Adgip, iau, *s.* (ad—cip) a snatching back; a marque; a license, a reprisal.—Attrais, adgipiad, adgymmeriad, gwrthysgafael; braint attreisio.

Llythyrau *Adgip* ac *Attrais* yw'r gwarantau a awdurdodont attreisio llywodraeth dramor, yn enwedig llongau masnachol gelyn. — Letters of *Marque* and *Reprisal* on commissions which authorize reprisals on a foreign state, particularly on the merchant vessels of an enemy.

Adgipiad, au, *s.* a resnatching.—Adgip.

Adgipio, ia, *v. a.* to make a reprisal.—Attreisio, adgymmeryd, gwrthysgafael.

Adgipiol, *a.* apt to snatch back.—Attreisiol, adgipiadol.

Adgiplong, au, *s. f.* (ad—cip—llong) a marque; a ship that makes reprisals. — Attreislong, llong attrais.

Adgipraith, reithiau, *s. f.* (ad—cip—rhaith) law of marque.—Cyfraith attrais, cyfraith adgipiad.

Adglaf, *a.* (ad—claf) in a relapsed state; not thoroughly recovered.—Eilglaf, adglefychol, lledglaf, hanner claf.

Adglefychiad, au, *s.* a relapse into sickness.—Adwanychiad, ail ymchweliad.

Adglefychu, a, *v.* to relapse into sickness.—Ail glafychu, adwanychu.

Adglefyd, on, *s.* a second sickness.—Ail glefyd, adsalwch.

Adglegyr, a, *v.* (ad—clegyr) to cackle back.—Ail gleg̈yr.

Adglepian, adglepia, *v.* (ad—clepian) to babble back.—Clepian yn ol.

Adgload, au, *s.* (ad—cload) a coda: the close of a composition, or an additional close.—Adglwm: ychydig fanod o beroriaeth a arferir fel diweddiad i erddygan. *I. Ddu.*

Adgludo, a, *v. a.* (ad—cludo) to carry back.—Adgywain, atddwyn, attwyn, eilddwyn.

Adglwm, glyman, *s.* (ad — clwm) a second knot; a coda.—Adgwlwm, ail gwlwm; adgload.

Adglwyf, au, *s.* (ad—clwyf) a second disease.—Ail glwyf, adglefyd.

Adglwyfiad, au, *s.* recrudescence.—Adlidiad, adboenusrwydd.

Adglwyfo, a, *v.* to make sore, to disease again; to wound anew.—Ail glwyfo, adglefychu, adwanu.

Adglwyfol, *a.* recrudescent. — Ad-ddoluriol, ad-ddoluras; adboenus.

Adglymiad, au, *s.* (adglwm) renodation. — Ail glymiad; adglymogrwydd.

Adglymol, *a.* tying again.—Ail glymol, adglymiadol.

Adglymu, a, *v. a.* to renodate; to untie.—Ail glymu, darglymu; aduno.

Adgneifio, a, *v. a.* (ad—cneifio) to reshear.—Ail gneifio.

Adgnith, iau, *s.* (ad—cnith) a retouch.—Adgyffwrdd, ail gyffyrddiad.

Adgnithiad, au, *s.* a retouching.—Adgyffyrddiad.

Adgnithio, a, *v. a.* to retouch.—Ail gnithio, adgyffwrdd â.

Adgnithiol, *a.* retouching.—Adgyffyrddol.

Adgno, au, *s.* (ad—cno) a second chewing; the chew of the cud; remorse.—Yr eilgno, cno'r cil: ymadgno, adloes.

Adgno cydwybod—remorse of conscience, synteresis.

Adgnoad, au, *s.* the chewing of the cud.—Cnoad y cil.

Adgnofa, feydd, *s. f.* a rechewing; remorse. — Adgno, ail gnoad, ymadgno; adgno'r meddwl.

Adgnofaeth, au, *s. f.* (adgno—maeth) the cud: the food which ruminating animals bring from the first stomach into the mouth to chew again.—Y cil, adgnofwyd: yr ymborth a ddwg adgnofilod o'r cylla cyntaf i'r safn i'w adgnoi.

Adgnofil, od, *s.* (ad—cno—mil) a ruminant: an animal that chews the cud. — Cilgnofil, anifail adgnoawl, anifail yn cnoi ei gil.

Adgnofwyd, ydd, *s.* (adgno—bwyd) the cud.—Adgnofaeth.

Adgnoi, a, *v. a.* to chew the cud.—Cnoi cil, cnoi'r cil, eilgnoi, eilgnoi.

Adgnwd, gnydau, *s.* (ad—cnwd) an aftercrop, a second crop.—Attwf, eilgnwd; adladd.

Adgnydio, a, *v.* (ad—cnydio) to yield a second crop.—Ail gnydio, dwyn cnwd drachefn.

Adgodawl, *a.* (ad—codi) resurgent; rising again.—Ail godawl, adgyfodol.

Adgodi, a, *v. a.* to raise up again; to resurge. —Ail godi; adgyfodi.

Adgodiad, au, *s.* a raising again; resurrection; resuscitation.—Ail godiad; adgyfodiad; dadebriad, adfywiad.

Adgodymu, a, *v.* (ad—codymu) to retumble, to fall again.—Ail godymu, syrthio drachefn.

Adgoethawd, *s.* (ad—coethawd) resublimation. — Adgoethiad, adwyreiniad.

Adgoethi, a, *v. a.* (ad—coethi) to repurify; to refine.—Adburo; adgaboli; adgyweirio.

Adgoethodi, a, *v. a.* (adgoethawd) to resublime. Ail goethodi.

Adgof, ion, *s.* (ad—cof) remembrance.—Argof, ymadgof, adgofiad.

Adgof cân—ritornello: the refrain, repeat, burden, or return of an air or song.

Y mae braidd yn *adgof* genyf—I have a slight remembrance of it.

Adgofiad, au, *s.* a calling to remembrance; a recollection. — Adgof, argof; adgofiant; adfeddyliad.

Adgofiadur, on, *s.* a reminder, a reminiscent.—Adgofiwr, adgofiedydd, adgoffawr.

Adgofiaeth, au, *s. f.* anamnesis: a figure in rhetoric that calls to remembrance something omitted.—Ffugr mewn areitheg a ddwg i gof rywbeth a osgowyd.

Adgofiant, *s.*=Adgofiad.

Adgofio, a, *v.* to recollect; to remind. — Ail gofio, adgoffa; dwyn ar gof; adgoffau.

Adgofiol, *a.* recollective, reminding.—Adgoffaol, adgofiog.

Adgofiwr, wyr, *s.*=Adgofiadur.

Adgofrestriad, au, *s.* (ad—cofrestr) a re-enlistment.—Ail gofrestriad.

Adgofrestru, a, *v. a.* to re-enlist, to enlist again.—Adrestru, ail gofrestru.

Adgoffa, on, *s.* (ad—coffa) a calling to mind.—Adgofiad.

Adgoffa talgrwn—resumé, a summing up; a condensed statement.

Adgoffa, *v.* to recall to mind; to recollect.—Adgofio; argofio.

Adgoffâd, *s.* a reminding.—Ail goffâd, adgofiad.

Adgoffaol, *a.* recalling to mind.—Adgofiol, adgofiog.

Adgoffau, â, *v. a.* to remind.—Ail goffau, adgoffa; dwyn ar gof.

Adgoffawr, wyr, *s.* a prompter.—Ail goffawr; annogwr; cofweinydd.

Adgoledd, au, *s.* (ad—coledd) a recherishing, a recultivating.—Ail goleddiad, adfeithriniad.

Adgoledd, a, *v. a.* to recherish.—Adfeithrin.

Adgoleddiad, au, *s.*=Adgoledd.

Adgoleddog, *a.* recherished=Adfeithrinog.

Adgoleddu, a, *v.*=Adgoledd.

Adgolofn, au, *s. f.* (ad—colofn) a pilaster; a debased pillar: a square pillar projecting from a pier, or from a wall, to the extent of from ¼ to ½ of its breadth.—Gogolofn, adbiler, colofnig, pileryn; pedrybiler.

Adgolofnog, *a.* pilastered, furnished with pilasters.—Adbilerog, gogolofnog.

Adgor, au, edgyr, *s.* (ad—cŏr) a team: the beasts, as horses or oxen, harnessed together for drawing a carriage or plough; any number passing in a line; a long line.—Gwedd; rhes, hir linell.

Adgorddi, a, *v. a.* (ad—corddi) to churn again. —Ail gorddi, corddi eilwaith.

Adgorddiad, au, *s.* a churning again. — Ail gorddiad.

Adgornio, a, *v. a.* (ad—cornio) to rebut.—Cornio yn ol.

Adgrasu, a, *v. a.* (ad—crasu) to rebake, to reroast, to parch again.—Ail grasu.

Adgreigiau, (*sing.* adgraig) *s. pl.* (ad—craig) secondary rocks.—Creigiau eilraddol.

Adgreuloni, a, *v.* (ad—creuloni) to become cruel again.—Ail greuloni.

Adgrewtian, adgrewtia, *v.* (ad—crewtian) to pule again, to rewhine.—Ail grewtian.

Adgrychu, a, *v. a.* (ad—crychu) to recrumble, to curl back.—Ail grychu.

Adgrisialiad, au, *s.* (ad—crisialu) recrystallization; the process of a second crystallizing.—Adgrisiannad.

Adgrisialu, a, *v. n.* to recrystallize.—Adgrisiannu, ail grisialu.

Adgrisiannad, au, *s.* (ad—crisiant) = Adgrisialiad.

Adgrisiannu, *v. n.* = Adgrisialu.

Adgryfhâd, *s.* (ad—cryfhau) a refortifying; a recovering of strength.—Adgaeriad; adgadarnhâd; gwellâd, adferiad.

Adgryfhau, hâ, *v.* to recover strength.—Adgadarnhau, adymnerthu.

Adgryfhawr, wyr, *s.* a refortifier.—Adgaerwr, adgadarnhawr.

Adgrynhoad, *s.* (ad—crynhoi) a collecting together again; recapitulation.—Adgynnulliad, adgasgliad; adgrynhodeb, adbeniad.

Adgrynhoawl, *a.* gathering again; recollective.—Adgynnullawl, adgasgliadol.

Adgrynhodeb, *s.* (ad—crynhodeb) a recompendium, a second epitome.—Adgrynhoad, adgynnwysiad; adfyrhâd.

Adgrynhoi, a, *v.* to recollect together, to gather again.—Adgynnull, adgasglu, ail grynhoi.

Adgudd, ion, *s.* (ad—cudd) that is not hidden.—Dadgudd.

Adgudd*iad*, au, *s.* a revealing.—Dadguddiad, amlygiad.

Adguddiedig, *a.* rediscovered.—Dadguddiedig; hysbys.

Adguddio, ia, *v. a.* to reveal.—Dadguddio, arddangos, diargeln.

Adgudd*iol*, *a.* revealing; disclosing.—Dadguddiol; amlwg, diorchudd.

Adgur, ion, *s.* (ad—cur) a rebut, a repulse.—Gwrthgur, cilgwth, gwrthergyd.

Adguredig, *a.* recoiling; repelled.—Adlamedig, gwrthyredig.

Adguredigol, *a.* repercussive.—Gwrthguredigol, attarawedigol.

Aduriad, au, *s.* a repercussion.—Gwrthguredigaeth, gwrthdarawiad, adlamiad.

Adguro, a, *v. a.* to repel, to rebut.—Gwrthyru, gwrth-hyrddio; gwrthguro.

Adgurol, *a.* repellant; repulsive.—Gwrthyrol; gwrthgurol; adhyrddiol.

Adgwl,† gylion, *s.* (ad—cwl) a rebut, a repulse.—Cilgwth, gwrthyriad; nag; pall. *B. G. M.*

Adgwniad, au, *s.* (ad—cwnu) anastasis, a recovery from sickness; a translation of humours to a superior part.—Adferiad, gwellâd; adgodiad.

Adgwyddedig,† *a.* (ad—cwydd) relapsed.—[illegible]gwympiedig.

[illegible]iad,† au, *s.* a relapsing.—Adlithriad.

Adgwyddo,† a, *v. a.* to fall again; to relapse.—Adsyrthio, adgwympo.

Adgwyddol, *a.* relapsing.—Adlithrol.

Adgwymp, ion, *s.* (ad—cwymp) a relapse.—Eilgwymp; adglefychiad.

Adgwympiad, au, *s.* a relapsing.—Adsyrthiad.

Adgwympo, a, *v. a.* to fall again; to relapse.—Adsyrthio, gwrthlithro; adwanychu.

Adgwympol, *a.* relapsing.—Adlithrol.

Adgychwyn, *v. a.* (ad—cychwyn) to restart, to recommence, to begin again.—Ail gychwyn; ail ddechreu.

Adgychwyniad, au, *s.* a setting off again; a recommencement.—Ail gychwyniad.

Adgyd, ion, *s.* (ad—cyd) a joining again.—Adgyswllt.

Adgydfeiliaeth, *s. f.* (ad—cyd—mael) double fellowship.—Cydfeiliaeth ddyblyg.

Adgydiad, au, *s.* a rejoining.—Adgyssylltiad, adymuniad.

Adgydiedig, *a.* that is joined again.—Adgyssylltedig, ailymunedig.

Adgydio, ia, *v. a.* to rejoin, to join anew.—Adgydio, ail gyssylltu, adgyfarfod.

Adgydiol, *a.* rejoining; rejoinable.—Adgyssylltiol; adunadwy.

Adgydser, au, *s. f.* (ad—cydser) subconstellation.—Ail gydser.

Adgyfanedig, *a.* (ad—cyfanu) that is made whole again.—Adgwbledig, adgydoledig.

Adgyfaniad, au, *s.* a making perfect again.—Adgwblhâd, adberffeithiad.

Adgyfansawdd, *a.* (ad—cyfansawdd) decomposite, compounded a second time.—Ail gyfansawdd, adgymmysg.

Adgyfansawdd, soddion, *s.* a new compound, recomposition.—Adgyssawdd, adgyfansoddiad.

Adgyfansoddedig, *a.* decomposed; decompounded.—Adgyssoddedig, adgymmysgedig, adblithiedig.

Adgyfansoddi, a, *v. a.* to set together again; to decompound.—Adgynnull, adgyfosod, adgyssylltu; dadgyfansoddi.

Adgyfansoddiad, au, *s.* a decomposition.—Ail gyfansoddiad, adgyssodiad; dadansoddiad.

Adgyfansoddol, *a.* decomposite; decompounding.—Adgyssoddol, adgymmhlithiol.

Adgyfanu, a, *v. a.* (ad—cyfan) to make whole again; to re-integrate.—Ail gyfanu, adgyfhau, adgyfolli.

Adgyfarch, au, *s.* (ad—cyfarch) a saluting again.—Adanerch.

Adgyfarch, *v. a.* to resalute, to greet anew.—Adanerch, ail gyfarch.

Adgyfarchedig, *a.* being saluted again.—Adanerchedig.

Adgyfarchiad, au, *s.* resalutation.—Adanerchiad, adymgyfarch.

Adgyfarchol, *a.* returning a compliment.—Adanerchol.

Adgyfarchwr, wyr, *s.* a returner of a salute.—Adanerchwr, ail gyfarchwr.

Adgyfarwyddo, a, *v. a.* (ad—cyfarwyddo) to redirect.—Ail hyfforddio, ail arwain.

Adgyfarwyddyd, *s.* a new guidance, a redirection.—Ail hyfforddiad.

Adgyfhâd, *s.* (ad—cyfhau) a making whole again.—Adgyfaniad, adgwblhâd.

Adgyfhaol, *a.* tending to be whole again.—Adgyfanol, adgyfoll.

Adgyfhau, hâ, *v.* to recruit again, to make whole again.—Adgyfanu, adgwblhau.

Adgyflawnadwy, *a.* (ad—cyflawn) that may be completed again.—Adgwbladwy.

Adgyflawnedig, *a.* recompleted.—Adgyflawnedig.

Adgyflawni, a, *v. a.* to complete again.—Adgyflenwi, adgyflawni, adlenwi.

Adgyflawnol, *a.* replenishing.—Adgyflenwol, adlenwol.

Adgyflenwad, au, *s.* (ad—cyflanw) a replenishing, a recruiting.—Adlanwad, adgyflawniad.

Adgyflenwedig, *a.* replenished.—Adgyflawnedig, adlanwedig.

Adgyflenwi, a, *v. a.* to replenish.—Adlenwi, adgyflawni.

Adgyflenwol, *a.* replenishable.—Adlanwadwy.

Adgyflead, au, *s.* (ad—cyfleu) a replacing.—Adlead, adlehâd.

Adgyfleadwy, *a.* that may be replaced.—Adleadwy.

Adgyfleol, *a.* tending to replace.—Adleol, adlehaol, adsefydliadol.

Adgyfleu, ea, *v. a.* to replace; to re-instate.—Adleu, adlehau; adsefydlu.

Adgyfleuedig, } *a.* replaced; re-instated.—Ad-
Adgyfleedig, } leuedig; adsefydledig.

Adgyflogi, a, *v. a.* (ad—cyflogi) to hire anew.—Ail gyflogi.

Adgyflunio, a, *v. a.* (ad—cyflunio) to remodel, to reorganize, to reconstruct.—Adlunio, adffurfio.

Adgyfnerth, au, *s.* (ad—cyfnerth) a re-inforcement.—Adnerth, adrym.

Adgyfnerthadwy, *a.* that may be re-inforced.—Adnerthadwy.

Adgyfnerthedig, *a.* re-inforced.—Adnerthedig.

Adgyfnerthiad, au, *s.* a re-inforcing.—Adnerthiad, adgadarnhâd.

Adgyfnerthol, *a.* re-inforcing.—Adnerthol, adrymusol, adgryfhaol.

Adgyfnerthu, a, *v. a.* to re-inforce.—Adrymuso, adgryfhau, adnerthu.

Adgyfnerthwr, wyr, *s.* one that gives auxiliary aid.—Adgynnorthwywr, adnerthwr.

Adgyfodadwy, *a.* (ad—cyfodi) that may rise again.—Adgodadwy.

Adgyfodawl, *a.* resurgent.—Adgodawl, ailgyfodawl.

Adgyfodedig, *a.* rising again; ascending again.—Adgodedig; adesgynedig.

Adgyfodedigaeth, au, *s. f.* a reascension.—Adesgynedigaeth.

Adgyfodi, *v. a.* to rise again; to reascend.—Adgodi, adesgyn.

Adgyfodiad, au, *s.* resurrection.—Adgodiad, ail gyfodiad, adgyfodedigaeth.

Adgyfodedydd, ion, *s.* a resurrectionist: one who disinters human bodies for dissection.—Un a adgyfodo gyrph dynion i'w difynu.

Adgyffroad, au, *s.* (ad—cyffroi) resuscitation.—Dadebriad, adfywiad, ail gyffroad.

Adgyffroadwy, *a.* that may be put again in motion.—Adfywiadwy.

Adgyffroawl, *a.* resuscitative.—Adfywhaol, dadfarwhaol, adfywiocaus.

Adgyffroedig, *a.* resuscitated.—Dadedwinedig.

Adgyffroi, ry, *v.* to resuscitate; to awaken, to revive.—Dadebru, adfywio, dadedwino.

Adgyffrowr, wyr, *s.* a resuscitator.—Dadebrydd, adfywiwr.

Adgyglen,† *v. a.* (ad—cyglen) to rehear.—Adglywed.

Adgyglyw,† *v. a.* (ad—cyglyw)=Adgyglen.

Adgyhoeddiad, au, *s.* (ad—cyhoeddi) a second edition; a reproclamation.—Ail argraphiad; ail gyhoeddiad.

Adgylchiad, au, *s.* (ad—cylchu) a revolution: an extensive change in the political constitution or government of a country.—Chwyldroad, adgylch.

Yr Adgylchiad Ffrengig—the French Revolution.

Yr Adgylchiad a ddycpwyd oddi amgylch tan ddiogel dywysiad yr anfarwol frenin Wiliam — the Revolution which was brought about under the guidance of the immortal king William. *Ier. O.*

Adgyllaeth,† au, *s.* (ad — cyllaeth) a desire, longing.—Dymuniad, hiraeth.

Adgymmaliad, au, *s.* (ad—cymmalu) rejointing, reuniting the joints, the filling up of the joints of the stones in old buildings.—Adgyddiad, adlenwad cydiadau ceryg mewn hen furiau.

Adgymmalu, a, *v. a.* to rejoint, to reunite joints.—Adgyssylltu, adgydio cymmalau.

Adgymmathiad, au, *s.* (ad—cym—math) reassimilation, a second assimilation.—Adgymweddiad, attebygiad.

Adgymmeniad, au, *s.* (ad—cymmenu) over talkativeness.—Gorsiaradgarwch.

Adgymmenol, *a.* (ad—cymmen) trimming a discourse over again; over talkative.—Gorddillyn; tra siaradus, gwagsiaradus, adchwedlog.

Adgymmenu, a, *v. a.* to be over pert in talking.—Gwagsiarad.

Adgymmeradwy, *a.* (ad—cymmer) resumable; that may be resumed.—A ellir ei adgymmeryd mewn llaw; i'w adgymmeryd.

Adgymmeredig, *a.* reassumed.—Ail gymmeredig.

Adgymmeredigaeth, au, *s. f.* a reassumption.—Adgymmeriaeth; adgymmeriad.

Adgymmeredigol, *a.* reassumptive.—Ailgymmeredigol.

Adgymmeriad, au, *s.* reassumption; a redoubling; anadiplosis: a repetition of the last word or sound of the preceding sentence, in the beginning of the following; epanalepsis.—Adgymmeredigaeth, adgymmeriaeth, ail gymmeriaeth: adgymmeriad fydd pan fo yr un gair yn dechreu ac yn gorphen ymadrodd, fel hon—'Fy nghalon a lanwodd o'th gariad, ac o achos hyny y torodd fy nghalon,' (D. D. H.): addurneg mewn areitheg pan adroddir yr unrhyw air neu sain, yn niwedd y frawddaeg flaenorawg, ac yn nechreu yr araeth ddilynol (*Deut.* viii. 7). *H. P.*

Adgymmerol, *a.* reassuming.—Ail gymmerol.

Adgymmeryd, adgymmer, *v. a.* to reassume.—Ailgymmeryd; edryfu.

Adgymmod, au, *s.* (ad—cymmod) reconciliation.—Dygymmod; adheddwch.

Adgymmodadwy, *a.* reconcileable.—Athrwynadwy; hygymmod.

Adgymmodedig, *a.* reconciliating.—Dygymmodedig, adheddychedig.

Adgymmodi, a, *v. a.* to reconciliate; to appease again; to make friends.—Ailgymmodi, adheddychu; ymgymmodi â; athrywyn.

Adgymmodiad, au, *s.* reconcilement; reconcili-

ation. — Dygymmodiad; adheddychiad, dyhuddiant.

Adgymmodol, *a.* propitiatory; of a conciliating nature.—Adheddychol, cymmodroddawl.

Adgymmodwr, wyr, *s.* a reconciliator.—Adgymmodydd, cymmrodeddwr, dyhuddwr.

Adgymmoni,† *v. a.* (ad—cymmoni) to retrieve, to render complete again.—Adferyd; adgyweirio; adgyflawni.

Adgymmysgu, a, *v. a.* (ad—cymmysu) to remix, to recompound.—Ail gymmysgu.

Adgynddrych, &c. Dewisa rhai ysgrifenu 'r geiriau hyn âg *nn*, yn hytrach nag *ndd*. Gwel Adgynnrych, &c.

Adgynnal, *v. a.* (ad—cynnal) to resustain, to uphold again.—Ail gynnal, ad-ddal.

Adgynneddf, au, *s. f.* (ad—cynneddf) secondary quality.—Ail ansawdd, adrin.

Adgynneu, *v.* (ad—cynneu) to rekindle.—Ail gynneu, adennyn.

Adgynneuad, au, *s.* a rekindling; re-ignition.—Ail gynneuad, adennyniad.

Adgynneuadwy, *a.* that may be rekindled.—Adennynadwy. [nynol.

Adgynneuawl, *a.* tending to rekindle.—Adennynedig.

Adgynneuedig, *a.* re-ignited.—Ail gynneuedig, adennynedig.

Adgynnrych, ion, *s.* (ad—cynnrych) a second presence.—Adwyddfod.

Adgynnrychiad, au, *s.* a representing.—Adgynnrychiolad, adgynddrychiad.

Adgynnrychiadwy, *a.* representable. — Cynnrychioladwy.

Adgynnrychiedig, *a.* represented.—Arddangosedig, adgynddrychioledig.

Adgynnrychiedigaeth, au, *s. f.* a representation.—Adgynnrychiolaeth.

Adgynnrychiedigol, *a.* representative. — Adgynddrychiedigol.

Adgynnrychiol, *a.* representative.—Ad-ddangosedigol, adgynddrychiol.

Adgynnrychioldeb, *s.* representativeness. — Cynnrychiedigoldeb.

Adgynnrychioli, a, *v. a.* to bear the form of another, to act another's part, to represent another. — Adgynddrychioli, adgynnrychu; sefyll yn lle; dirprwyo.

Adgynnrychiolwr, wyr, *s.* a representative.—Adgynnrychiolydd, adgynnrychydd.

Adgynnrychu, a, *v. a.* to represent.—Adgynnrychioli; chwareu rhan un.

Adgynnyg, ion, *s.* (ad—cynnyg) a second offer.—Ail gynnyg.

Adgynnyg, *v. a.* to offer again, to propose a second time.—Ail gynnyg.

Adgynnull, *v. a.* (ad—cynnull) to put together again; to recollect.—Adgasglu, adgrynhoi, ail gynnull.

Adgynnulladwy, *a.* that may be recollected, which may be brought together.—Adgasgladwy, ail gynnulladwy.

Adgynnulledig, *a.* put together.—Adgyssylltedig; adgasgledig.

Adgynnullfa, oedd, *s. f.* a reassemblage.—Ail gynnullfa, adgasgliad.

Adgynnulliad, au, *s.* a reassemblage.—Adgasgliad.

Adgynnwys, *v. a.* (ad—cynnwys) to recapitulate.—Adgynnwyso, adgrynhoi, ail benu.

Adgynnyrch, ion, *s.* (ad—cynnyrch) a second increase, second growth.—Adgynnydd, adbrifiant, attwf.

Adgynnyrchiad, au, *s.* an increasing again; reproduction.—Adgynnyddiad, adbrifiad.

Adgynnyrchiedig, *a.* increasing again.—Adgynnyddedig.

Adgynnyrchiol, *a.* re-increasing; reproductive. Adgynnyddol; adeppiliol.

Adgynnyrchioldeb, *s.* reproductiveness.—Adffrwythlondeb.

Adgynnyrchioli, a, *v. a.* to be productive again.—Adffynnu; adheigio.

Adgynnyrchu, a, *v. a.* to reprodnce. — Ail gynnyrchu.

Adgynon, au, *s.* (ad—cynon) a minor canon.—Adganon.

Adgyrch, au, *s.* (ad—cyrch) a recourse.—Eilgyrch, dadred, adred.

Adgyrchadwy, *a.* capable of recourse.—Ailgyrchadwy.

Adgyrchai, eion, *s.* a repetend: that part of a circulating decimal which is continually repeated. — Y rhan o ad-ddegiadau a ddygwyddo yn barhaus.

Adgyrchiad, au, *s.* a recurring.—Attychweliad, dadrediad, gwrthred.

Adgyrchiedig, *a.* having a recourse.—Eilgyrchedig, ailgyrchedig.

Adgyrchiol, *a.* reciprocal; recurring. — Adgyrchol, ailgyrchol; attychweledig.

Adgyrchioldeb, *s.* a tendency to recur.—Dadredoldeb.

Adgyrchu, a, *v. a.* to recur to again.—Ailgyrchu, ymgyrchu.

Adgyrchwr, wyr, *s.* one that recurs to.—Adgyrchydd, ailgyrchwr, darymchwelydd.

Adgysbwyllo, a, *v. a.* (ad—cysbwyll) to recommit.—Adgysseddu.

Adgysseddiad, au, *s.* (ad—cysseddu) a recommitment.—Adgysbwylliad.

Adgysseddu, a, *v. a.* to recommit.—Adgysbwyllo; ail yru i garchar.

Adgysswllt, sylltau, *s.* (ad—cysswllt) subjunction.—Atchwanegiad.

Adgyssylltedig, *a.* subjunctive; adjunctive.—Ail gyssylltedig; dargyssylltiol.

Trawsenw yr adgyssylltedig—the metonymy of the adjunctive. *H. P.*

Adgyssylltiad, au, *s.* a subjoining; rejunction.—Attodiad; adgydiad, adgyfuniad.

Adgyssylltu, a, *v. a.* to rejoin; to reunite.—Ailgyssylltu, aduno, ailymuno.

Adgyssylltwr, wyr, *s.* one that reunites.—Adgyssylltydd, adunwr.

Adgythruddiad, au, *s.* (ad—cythruddo) a reruffling.—Ail gythruddiad.

Adgythruddo, a, *v. a.* to provoke again, to reruffle.—Ail gythruddo.

Adgywain, *v. a.* (ad—cywain) to bear, or to carry back. — Eilddwyn, attwyn, atddwyn, adgludo, edfryd.

Adgywair, eiriau, *s.* (ad—cywair) a putting in order again; epanorthosis: a figure in rhetoric, by which a person corrects, or ingeniously revokes what he just before alleged, in order to add something stronger and more comfortable to the passion.—Attrefniad; ailgywair: ffugr lunweddol mewn areitheg, yn galw gair yn ei ol a ddywetpwyd unwaith, er mwyn dywedyd yn well, neu yn dymmoreiddiach. *H. P.*

Adgyweirfa, feydd, *s. f.* a refectory, a place of refreshment.—Ymborthfa, ystafell fwyta, bwydfa, rhandy bwyta, anewynfa.

Adgyweiriad, au, *s.* amendment; reparation; the reformation.—Ail gyweiriad, arwelliant, diwygiad, cyweiriadaeth. *Ll. G.*

Adgyweiriadwy, *a.* repairable. — Adnewyddiadwy, diwygiadwy.

Adgyweiriedig, *a.* refitting; repairing.—Adnewyddedig; ail gyweiriedig; diwygiedig.

Adgyweirio, ia, *v. a.* to repair; to refit.—Ail gyweirio, trwsio, ail dacln.

Adgyweiriol, *a.* reparative.—Adgyweiriedigol; diwygiadol.

Adgyweiriolion, *s. pl.* reparatives.—Pethau a adgyweirionf.

Adgyweiriwr, wyr, *s.* a repairer.—Adgyweirydd, adnewyddwr, diwygiwr.

Adgywreiniad, au, *s.* (ad—cywreinio) a refitting; refinement. — Adgyweiriad, adnewyddiad; adgymmheniad, ad-ddiwygiad.

Adgywreiniedig, *a.* that is made accurate again. —Adgywiredig.

Adgywreinio, ia, *v. a.* to re-embellish.—Addurno, adbrydferthu, attecau.

Adgyweiriol, *a.* re-arranging.—Attrefnol; adresol.

Adgywreiniwr, wyr, *s.* a re-embellisher.—Adgywreinydd, adaddurnwr.

Adhaer, heuriau, *s.* (ad—haer) a reassertion. —Adhoniad, adwiriad. Gwel Adheuriad, &c.

Adhawl, holion, *s.* (ad — hawl) a second accusation; a second claim.—Ail gyhuddiad, adhoniad, adhawliad.

Adhawliad, au, *s.*=Adhawl.

Adheddwch, *s.* (ad—hedd) a second peace.—Attangnef, adhedd; adgymmod.

Adheddychiad, au, *s.* repacification.—Adheddloncdd.

Adheddychol, *a.* of a reconciling quality.—Adheddychlawn.

Adheddychu, a, *v. a.* to repacify.—Ail heddychu, attangnefeddu; adgymmodi.

Adheddychwr, wyr, *s.* one that repacifies.—Adheddychydd, attangnefwr; adgymmodwr.

Adheintio, ia, *v. a.* (ad—haint) to reinfect.—Ail heintio.

Adheintiol, *a.* reinfectious.—Adheintus.

Adheurawl, *a.* (adhaer) redisputable; reassertive.—Adhoniadol.

Adheuredig, *a.* reasserted.—Adhonedig.

Adheuriad, au, *s.* a reasserting.—Ail heuriad, adhoniad; adwiriad.

Adheuru, a, *v. a.* to reassert.—Adhoni, adwirio; ail arddelwi.

Adholadwy, *a.* (adhawl) that may be reclaimed, reclaimable.—Adferadwy, gwelladwy.

Adholedig, *a.* re-examined. — Ailholedig; adchwiliedig.

Adholi, a, *v. a.* to re-examine; to reclaim.—Ail holi, holi drachefn; adchwilio.

Adholiad, au, *s.* a re-examination.—Adholedigaeth, adchwiliad.

Adholwr, wyr, *s.* a re-examiner; one who claims anew. — Adholydd; adhonwr; adchwiliwr.

Adhonadwy, *a.* (ad—honi) that may be reasserted.—Adhaeradwy, adheuradwy.

Adhonawl, *a.* reasserting, reaffirming.—Adheurol; adwiriol.

Adhonedig, *a.* reasserted.—Adheuredig.

Adhoni, a, *v. a.* to reassert; to affirm anew.—Adheuru, adwirio.

Adhoniad, au, *s.* a reassertion.—Adhaeriad, adheuriad, adwiriad; ail arddelwad.

Adhonwr, wyr, *s.* a reasserter.—Adhaerydd, adwiriwr.

Adia,† oedd, *s.* (adaw; L. *adeo*) a stranger; one flying from place to place. — Alldud, estron; pererin.

Adiad,† au, *s.* (adaw; Ar. *adan;* Gr. *huados;* Ll. *anas*) a drake; a mallard.—Ceiliog hwyad, barlad; ceiliog hwyad gwyllt, garan hwyad, oorshwyad.

Adiaith, ieithoedd, *s.* (ad—iaith) a dialect, an idiom; speech.—Priodiaith, tafodiaith, llafariaith, cangeniaith, adraniaith.

Adian,† ienoedd, *s.* (ad — an) a progeny, offspring, posterity.—Hil, hiliogaeth, eppil, essill; achwaed.

Adieithol, *a.* (adiaith) dialectical.—Priodieithol, llafarieithol.

Adifar, *a.* (a—difar) penitent, repenting.—Edifar, edifeiriol.

Adifar cybydd am draul—the miser is sorry on account of his expenditure: *D.*

Adill,† ion, *s. f.* (a—dill) an ugly wretch; an illfavoured hag. — Gwrach, henwrach, hagren; gwiddanes, gwyddones, hudoles.

Adillaidd, *a.* haggish. — Gwiddanaidd; hagr, hyll.

Adimpio, ia, *v. a.* (ad—imp) to regraft.—Ail impio.

Adl,† au, *s. f.* (a—dyl? ad—yl) the breath, respiration.—Anadl, anadliad.

Pryf tanawl ei adl—a beast with fiery *breath. Mab.*

Adladd, au, *s.* (ad—lladd) the lattermath, the second crop of hay; the lattergrass; edgrew. —Attwf, adwair, aethwellt.

Adladd, *v. a.* to kill again; to detract.—Lladd eilwaith, ail ladd; difrio, athrodi, absenu.

Adlaes, *a.* (ad — llaes) trailing; daggling.—Ymlusgaidd, edlaes; diblog, caglog.

Adlafuriad, au, *s.* (ad—llafurio) a relabouring, a retoiling.—Adweithiad.

Adlafurio, a, *v. a.* to relabour, to toil again. — Ail weithio, ail lafurio.

Adlais, leisiau, *s.* (ad — llais) the resounding of a voice; echo; reverberation.—Adsain, atteblais, gwrthlais; adleisiad, arseiniad.

Adlam, au, *s.* (ad—llam) a stepping back; a retreat; a fixed abode, home, habitation: a place where a person may return to, who is gone from hence.—Adnaid; adgil; arosfan, arosle, sefyllfod; cartref; preswylfod; dychwelfan.

Adlamadwy, *a.* retreatable.—Enciliadwy; atteithiadwy.

Adlamedig, *a.* retreating, stepping back. — Attychweledig, enciliedig.

Adlamiad, au, *s.* a rebounding, retreating back. —Adneidiad, gwrthneidiad; attychweliad.

Adlamol, *a.* resilient, rebounding back; retreating. — Gwrthneidiol, dadneidiol, attwythol; enciliadol.

Adlamrwydd, *s.* elasticity, springingness. — Hydwythedd, ardwyth, twythogrwydd, gwrthneidiolrwydd.

Adlamu, a, *v.* to rebound, to step back.—Gwrthlamu, gwrthneidio, dadneidio; telgynu.

Adlamwr, wyr, *s.* one that steps back; one returning from abroad; a sojourner.—Adneidiwr, adlamydd; dychwelwr, attychwelydd; trigiannydd.

Adlamwydrau, *s. pl.* (ad—llam—gwydr) *s*

clastic glasses, vexing glasses. — Gwydrau adlam, gwydrau adlamol.

Adlan, au, *s.* (ad—llan) a hall, a palace.—Neuadd; plas, palas, llys.

Adlanforio, ia, *v. a.* (ad—glan—môr) to recoast; to coast back; to return along the same coast.—Adfordwyo, ailfordwyo, mordwyo yn ol; merio yn ol gyda'r tir. [Ail gaboli.

Adlathru, a, *v. a.* (ad—llathru) to repolish.—

Adlaw, iaid, *s.* (ad—llaw) one of the meanest rank; one of the rabble.—Dynsod, dynsodechyn, bodyn; gwerinwr, gwladwr, hen wladwr.

Adlawiaid—the rabble, the mob; a tumultuous crowd; the populace.

Adlaw, *a.* secondary, inferior; subordinate.—Eilraddol; israddol, isafol.

Colofn adlaw—secondary metre.

Adlaw,† *ad.* aloof.—Draw, o hirbell.

Adlaw,† *v.* to fear.—Ofni.

Dal adlaw—to stand in awe.

Adlawaidd, *a.* ignoble, mean, base; rustic.—Distadl, gwael, anghlodfawr; lledrywiog, anfoneddig, iselryw.

Adlawiad, iaid, *s.* a secondary thing; a compounded metre; satellite. — Eilraddbeth, eilraddog; colofn adlaw; seren osgordd.

Adlawiaid—secondaries; satellites.

Adlawiaid fesurau — secondary metres, inferior measures, compound metres, compound canons; the menials. *Cyf. B.* a *G. M.*

Adlawiaid y gelwir y pennillion neu 'r mesurau cymmhleth. — the stanzas or metres that are compounded are called secondary ones. *Cyf. B.*

Adledaenu, a, *v. a.* (ad—lledaenu) to reexpand, to expand anew.—Adledu, adlydanu.

Adledu, a, *v. a.* (ad—lled)=Adledaenu.

Adlef, au, *s. f.* (ad—llef) an echo.—Adlais, dadlef, atteblais, adswn; careg lefain.

Adlefain, *v.* to answer a voice; to echo.—Adleisio, attebleisio; dadseinio, adseinio.

Adlefariad, au, *s.* a peroration.—Diweddglo araeth; cynghoad, diweddglo.

Adlefaru, a, *v. a.* (ad—llafar) to repeat a discourse; to perorate; to recite.—Adbarablu; adrodd, traethu, dadgan.

Adlehâd, *s.* (ad—llehau) a reposition; a placing anew.—Adgyflead, adlead, adosodiad; ailosodiad.

Adlehau, *v. a.* to replace; to place anew.—Adleu, adsefydlu, adgyfleu; ail osod.

Adleisiad, au, *s.* (ad—llais) a resounding.—Adseiniad, darsteiniad.

Adleisio, ia, *v. a.* to resound; to echo.—Adlefain, adseinio, darstain.

Add, *prf.* it partakes of the nature of *ad*, of which most probably, it is a mutation, and consequently enhances the sense of words. Dr. P. takes it for a noun, signifying impulse, effort, action.

Addaf, *a.* (a—daf) very good, excellent.—Da iawn, daf (yna Dafydd).

Addafaidd, *a.* (Addaf, Adda; H. Ch. Syr. Eth. Ar. E. *adam*=man: it is evidently connected with *demah*, H. Ch. Syr. *to be like* or *equal;* Gr. *demas*=*body, like*) Adamic, relating to Adam.—Addafig, perthynol i Addaf.

Addafiaid, *s. pl.* Adamites: a sect of visionaries, who pretended to establish a state of innocence, and, like Adam, went naked, abhorring marriage as the effect of sin.—Noethogiaid, noethlymyniaid: plaid o ddychymmygwyr a gymmerent arnynt sefydlu diniweidrwydd, ac, fel Addaf, a ymgynnullent yn noethion, gan gasau priodas fel effaith pechod. *G.*

Addafig, *a.* Adamic.=Addafaidd.

Addango, eddyngc, *s.* (add—angc; gwel Afangc) an alligator: the American crocodile, which, like the crocodile of Africa and Asia, lives in and about the rivers in warm climates, and the female lays a great number of eggs, which are deposited in the sand, and left to be hatched by the heat of the sun.—Aligator: afangc America. Y mae bron yn sicr mai 'r *beaver* a alwai yr hen Gymry yn addangc cystal ag afangc, a llostlydan, gan na bu 'r aligator na'r crocodil erioed yn preswylio Ynys Prydain; ond gan fod llostlydan yn ddigon darluniadol o'r *beaver*, tra chyfleus yn awr ydyw cymmhwyso addangc at yr *aligator*, ac afangc at y *crocodil* priodol, fel y bo genym enw Cymraeg gwahanol am y tri chreadur gwahanol. Gwel Afangc, Llostlydan.

Addangc ni thynir o anoddyn dwfr—the beaver cannot be drawn from the deep water. *L. G. C.*

Addangc y Ganga—the gavial, the crocodile of the Ganges.

Addaig, *s.* (a—daig) violence, force.—Trais, gormes; cam.

Addail, *s. ag.* (a—dail, ad—ddail) the tender leaves; foliage; salad; salading; sprouts.—Dail tyner; bwydlys; bwydlysiau; blagur.

Addain, *a.* (a—dain) fine; delicate; pure; beautiful; pleasing.—Tlws, pur, prydferth. *I.*

Addant,† *s.* (add) an effort to attain; longing.—Ymegnïad; addiant, addiad, awydd, blys.

Addar,† *s.* (add—ar) arable, proper for cultivation.—Ar, aradol. *Gr. W.*

Tir addar—arable land.—Llafurdir.

Addas, *a.* (a—das) meet, suitable, convenient; proper.—Cyfaddas, cymmhwys, cymmesur, gweddus; cyfleus; priodol.

Addas i'th achosion—proper for thy necessities.

Addas i'w cyssylltu—matchable; fit to be joined.

Addaseb, au, *s. f.* convenience; accommodation; fitness.—Cyfleusdra; cymmhwysder, addasrwydd.

Addasedig, *a.* adapted; suited; fitted.—Cymmhwysedig, cyfaddasedig; manteisiol.

Addasedigaeth, au, *s.* conveniency; a befitting.—Cyfleusdra, cymmhwysdra; gweddusder; arfodigaeth.

Addasedigol, *a.* adaptable, suitable.—Cyfaddasol, perthynasol.

Addaseiriog, *a.* epithetic; containing epithets.—Ansoddeiriog, cylmeiriog, cyfenwol.

Addasfab, feibion, *s.* (addas—mab) adopted son.—Mab aill, mabwysog, mab cynnwys; mabwysfab.

Addasiad, au, *s.* (addas) adaptation, fitness.—Cyfaddasiad, cymhwysiad, addaseb.

Addasol, *a.* befitting; conveniant.—Gweddus, cyfaddas; cyfleus, hwylus.

Addasolrwydd, *s.* applicancy.=Addasrwydd.

Addasran, au, *s. f.* (addas—rhan) competence, sufficiency.—Gwedduaran.

Addasrwydd, *s.* (addas) suitableness; propriety.—Cyfaddasrwydd, priodolrwydd.

Addasu, a, *v. a.* to fit, to suit, to adapt.—Cyfaddasu, cymmathu, cymmhwyso, cyfatteboli.

Addaswr, wyr, *s.* a proper person, fit person.—Cyfaddaswr, cymmhwyswr.

Addaw, on, *s.* (a—daw) promise; assurance.—Addewid, gaddaw, gofuned; dilysrwydd, sicrwydd.

Dyled ar bawb ei addaw—every one's promise is a debt on him. *D.*

Addaw, a, eddy, *v.* to promise; to engage.—Gaddaw, addo; argoelio; ymrwymo, ammodi; diofryd.

Addaw ar ei lawgair—to engage one's honor.

Addawd,† odau, *s.* (a—dodi) a repository, a storehouse, a place where things are laid up; a treasure.—Ystorfa, ystorgell, cludlan, ystordy, heiniardy; trysorfa; trysor.

Wy addawd—nest egg: the egg left in the nest while the hen lays.

Addawd Mihangel—the protection of Michael. *P. M.* [*P. M.*

Addawd Lloegr—the treasure of Lloegria.

Addaweb, au, *s. f.* (addaw) promissory note, note of hand.—Gaddaweb, nod addaw, ysgrifen addewid, adneurwym, llofrwym, llawnod.

Addawebydd, } *s.* a promiser.—Addawydd, addäAddawedydd, } wr; ammodwr, ymrwymydd.

Addawedig, *a.* promised; assented.—Gaddawedig, dilysedig, diogeledig.

Addawedigol, *a.* promissory.—Addewidiol, addawol.

Addawiad, au, *s.* a promising.—Gaddawiad, addewidiad.

Addawl,† olion, *s.* (add—awl) worship.—Addoliad, iolaeth.

Addawl,† *v. a.* to worship.—Addoli.

Ni addawl y diawl y da—the devil will not worship the good. *S. C.*

Addawn,† oniau, *s.* (a—dawn) a gift, virtue, grace.—Dawn, arddawn, rhodd, rhad. *I.*

Addäwr, wyr, *s.* (addaw) a promiser; one who engages.—Addawedydd, addawydd; ymrwymwr, mach.

Addawydd, ion, *s.* a promiser.=Addäwr.

Addef, *v. a.* (a—def) to transfer a right to another; to declare the truth; to acknowledge, to confess; to own, to grant.—Cydnabod, cyfaddef; cyffesu; caniatau.

Addef,† au, *s. f.* one's own, a dwelling; a house.—Haddef, preswylfod, tŷ, annedd; cartref.

Symmudaw addef rhag drwg—to remove a dwelling from evil. *D.*

Addefawd, odau, *s.* a confession.—Cyffes, cyfaddefiad; proffes.

Addefeb, au, *s. f.* acceptance.—Derbyneb, derbyniawd; cydnabyddiad.

Addefebwr, wyr, } *s.* acceptor, one who accepts.Addefebydd, ion, } —Derbyniwr, derbynydd. cydnabyddwr; addefwr.

Addefedig, *a.* confessed; granted.—Cyffesedig; caniatacol.

Addefediqaeth, au, *s.* a confession; acknowledgment.—Cyffesiad, cyfaddefiad, cydnabyddiaeth.

Addefedigol, *a.* confessionary.—Cyffesedigol, proffesol.

Addefiad, au, *s.* a confession.—Cyffesiad, cyfaddefiad, cydnabyddiad; proffes, addefawd.

Addefiad bai—peccavi: I have offended.

Addefog, *a.* acknowledging.—Cyfaddefol, cyffesol.

Addefol, *a.* confessing; acknowledging.—Cyffesol; cydnabyddol.

Addefwr, wyr, *s.* a confessor.—Cyffeswr, addefydd; arddelwr; tadgyffeswr, derbyniwr cyffes.

Addeion,† au, *s.* (a—deon) a lord.—Arglwydd.

Adden,† *s.* (a—denu) deceit, gain.—Twyll, ennill. *Llf.*

Addewid, ion, *s.* (addaw) a promise, a pledge, word, engagement; a declaration which binds the one who makes it. The word is used in both genders, but most generally in the masculine, as in the annexed examples.—Gaddewid, addaw, gofuned, gair; ymrwymiad, ammod.

Addewid y Tad, *yr hwn*, eb efe, a glywsoch genyf fi—the promise of the Father, which, saith he, ye heard of me (*Act.* i. 4; vii. 17; *Heb.* iv. 1; 1 *Ioan* ii. 26; Argr. 1799, ac ereill). *B.*

Yn ol yr addewid *hwn* a wnaeth Crist—after this promise made by Christ. *Ll. G.*

Addewid *teg*—a fair promise. *I. G.*

Fel yr oedd yng nghyflawniad yr addewid *honno*—as it was in the fulfilment of that promise. *T. C.*

Addewidiol, *a.* promissory.—Addawedigol, addawol.

Addfain, *a.* (add—main) slender; delicate.—Meindwf, eiddil, meindlws, addfeinus; llednais.

Addfed, *a.* (add—med) ripe; mature.—Ffaeth, dybewyn; blodwy; parod; perffaith, cynnar, prydlawn; cyflawn.

Addfed cynnar—rath ripe.

Addfedai, *s.* a pepastic, a peptic medicine; a digestive.—Addfedydd; cyffyr i addfedu archollion; treulgyffyr.

Addfededd, *s.* ripeness; maturity.—Addfedrwydd, addfedwch, tyflawnder; llawn dwf; perffeithrwydd.

Addfediad, au, *s.* a ripening.—Addfedychiad, perffeithiad: crawniad, madreddiad.

Addfediad crawn—sympepsis: a ripening of inflammatory humors.

Addfediadol, *a.* maturative, ripening.—Addfedol.

Addfediant, *s.* maturation, ripeness, suppuration.—Crawniad, goriad, madriad; addfediad.

Addfedol, *a.* maturative.—Addfediadol; a ducddo i addfedu.

Addfedrwydd, *s.* ripeness; matureness.—Addfededd, addfedwch; tyflawnder; perffeithrwydd.

Addfedrwydd oedran—maturity, matureness.

Addfedu, a, *v.* to ripen; to mature.—Ffaethu; cynnyddu; cynnaru; perffeithio.

Addfedur, on, *s.* a maturant.—Cyffer addfedu.

Addfedwch, *s.* maturation; ripeness.—Crawniad, addfediant.

Addfedydd, ion, *s.* a pepastic, a peptic medicine.—Addfedai; cyffyr i addfedu a chrawni archollion.

Addfeinio, ia, *v.* (addfain) to grow lean.—Meinhau: culhau, teneuo; truanu.

Addfeinus, *a.* delicate, slender.—Addfain, meindlws, eiddil, teneu; main, meindwf.

Addfwyn, *a.* (add—mwyn) meek, gentle, mild, goodnatured.—Llariaidd, llednais, tirion, hynaws.

Addfwynder, au, *s.* gentleness.—Mwyndra, rhadlonedd.

Addfwynod, au, *s.* gentleness, mildness, meekness.—Tiriondeb, llarieidd-dra, lledneisrwydd, hynawsedd, gwarineb, tynerwch, arafwch.

Addia,† } *s.* (add) a stranger, an alien.
Addiai,† ieion, } —Dieithrddyn, estron.

Addiad,† au, *s.* a longing, earnest wish.—Hiraeth, dymuniad.

Addial,† au, *s.* (add—al) a man from an adjoining country.—Adial; gwr gorwlad. *M. R.*

Addiant,† *s.* earnest longing, a wish.—Deisyfiad, eidduned, ewyllys, blys; hiraeth.

Addiaw,† *v. a.* to make an effort after.—Ymegnïo.

Addibyn, ion, *s.* (a—dibyn) a dependant.—Dibynwr, dyn ymddibyn, dyn gosgordd.

Addien, *a.* (a—dien) faultless; fair, fine.—Difai; teg, prydferth, hardd, cain, tlws, telediw, gwymp, berth.

Addig,† *a.* (a—dig) jealous; angry, inflamed.—Eiddig, eiddigus; dig, brochus, ffyrnig.

Addigor,† *s.* one that is jealous.—Eiddig, eiddigwr, teledog.

Addion,† au, *s.* (add—ion) a lord.—Arglwydd, ner, por.

Addnaid,† neidion, *s.* (add—naid) a refuge.—Noddfa, achles.

Addo, *v. a.* to promise.=Addaw.

Addodfa, feydd, *s. f.* (a—dodfa) a conditory: a repository for holding things; a conventicle, an assembly, a meeting; a cabal, a secret assembly, a meeting for plots.—Ystorfa, cronfa, addawd; cydfa, cyfarfodfa, ymgyfarfod; cynnullfa; cydgyfrinachwyr, celgynghorfa.

Addodwr, wyr, *s.* a depositor.—Adneuroddwr, dodwr, gosodwr, rhoddwr adneu.

Addoed, au, *s.* (add—oed) an appointed time; assignation; destiny.—Amser pennodol, amser oed; oed, aroed, cyfnod; nwyfoed; tynged, coelowydd.

Addoed gafr—the time that the goat takes the male.

Pa addoed bynag ei dyco—by whatever distemper he is taken. *C. C.*

Addoedi, a, *v. a.* to procrastinate; to defer.

Addoediad, au, *s.* a respiting; prolongation; prorogation.—Seibiant, hamdden; oediad, attreg; dienoed; gohiriad.

Addoediad y senedd—prorogation of parliament.

Addoediog, *a.* fabian, cautious; prudent.—Gohiriog, hwyrfrydig, oedgar; gochelgar.

Addoedwr, wyr, *s.* a loiterer, one who lingers; a lugger, a postponer.—Gohiriwr, oedwr, llercìwr, sefylliwr; diogyn.

Addoer, *a.* (add—oer) frigid; chilly, raw.—Oerllyd, rhynllyd, di-wres; crai, ammrwd.

Addoeredig, *a.* chilled; refrigerated.—Rhynedig, oeredig.

Addoeredigaeth, au, *s.* refrigeration, the act of chilling.—Addoeriant, oeriad, oeriedigaeth.

Addoeredigol, *a.* refrigerative—Addoeriannol, oeredigol.

Addoeri, a, *v. a.* to refrigerate.—Addoeriannu, oeri.

Addoeriad, au, *s.* refrigeration, infrigidation.—Oeriad, fferiad, addoeriant.

Addoeriadur, on, *s.* a refrigerator, a cooler.—Llestr addoeri; oeriedydd, addoerydd.

Addoeriannol, *a.* refrigeratory.—Addoeredigol, oerol.

Addoeriant, annau, *s.* chilliness, coldness.—Oerllydrwydd, fferdod, oerder.

Addoeriedydd, *s.* a refrigerant: a medicine that abates heat, or which directly diminishes the force of the circulation.—Addoerai, oeriedydd, cyffyr addoeredigol.

Addoerllaith, *a.* moistly cold. — Llleithoer, gwlyboer.

Addoerolion, *s. pl.* refrigeratives.—Addoereion, cyfferi addoerol.

Addoerydd, ion, *s.* refrigerator.=Addoeriadur.

Addoladwy, *a.* (addawl) adoreable; divine.—Parchadwy, goluchadwy; dwyfolaidd, santaidd.

Addoldarth, *s.* (addawl—tarth) incense, perfume exhaled by fire; the materials burnt for making perfumes, burnt offering; acceptable prayers and praises.—Arogldarth, mygdarth, thus; y defnyddiau arogldarthu; gweddïau, moliant.

Addoldarthu, a, *v. a.* to incense, to burn incense, to perfume with incense. — Arogldarthu, mygdarthu, llosgi arogldarth.

Addoldy, dai, *s.* oratory, oratorio, a place of worship, a chapel, a church.—Addolfa, addolfan, capel (*dim.* capelyn), iolfa, eglwys; areithfa, arodfa, arodgell.

Addoledig, *a.* praised; worshipped. — Molianedig; goluchedig; parchedig.

Addoledigaeth, au, *s. f.* adoration.—Addoliant, golwch, anrhydedd, iolaeth.

Addolfa, feydd, faoedd, *s. f.* oratory.—Addoldy.

Addolfan, au, *s. f.* (addawl—man) oratory; a temple.—Addoldy, addolfa; teml.

Addolgoed, *s. pl.* (addawl—coed) joss-sticks: in China, small reeds covered with the dust of odoriferous wood, and burned before idols.—Addolgyrs: cyrs gorchuddiedig â blawd coed perarogl, a losgir ger bron eilunod yn Sina=Catai.

Addolgyrs, *s. pl.* (addawl—cyrs)=Addolgoed.

Addoli, a, *v. a.* (addawl; add—ioli; H. *haddar* =anrhydeddu, Dr. D.) to worship, to adore.—Addoli, ioli, golucho, golychwydo; mawrhau; moliannu.

Addoliad, au, *s.* worship; adoration. — Addoliant, addoliaeth, golwch, iolad, iolaeth, golaeth; anrhydedd, parch, urddas.

Addoliad cythreuliaid — the worship of devils. *G.*

Addoliad Duw—latria: the highest kind of worship.

Addoliad dyn—man-worship: undue reverence and obsequiousness paid to a man.

Addoliad eilunod — idolatry, idolatrous worship.

Addoliad glin—knee tribute.

Addoliad gwefus—lip-devotion.

Addoliad Mair Forwyn—Mariolatry; the adoration of the Virgin Mary, as the Deipara or mother of God.

Addoliad seintiau—the worship of saints. *G.*

Addoliad seirph—ophiolatry, the worship of serpents.

Addoliad y byd—cosmolatry: the worship paid to the world or its parts by heathens.

Addoliadol, *a.* devotional.—Crefyddol, duwiol, defosiynol, dyfesiynol.

Addoliannol, *a.* devotional, relating to devotion; devout, religious.—Crefyddgar, dyhewydus, addoliadol; duwiol.

Addoliant, *s.* worship, adoration. — Addoliad, addoliaeth, iolaeth; anrhydedd.

Addoliant milod—zoolatry, the worship of animals.

Addoliant yr haul—heliolatry: the worship of the sun, a branch of Sabinianism.

Addoliedydd, ion, *s.*=Addolwr.

Addolwr, wyr, *s.* a worshipper, one who adores. — Addolydd, addoliedydd, golychwydwr; moliannwr.

Addolwr eilunod—idolater, idolist, a worshipper of idols.

Addolwr ffurfiol — a devotionalist; one superstitiously or formally devout.

Addolwr tân—a fire-worshipper.

Addolwr yr haul—heliolater; a worshipper of the sun.

Addolydd, ion, *s.*=Addolwr.

Addolydd delwau=Addolwr eilunod.

Addon,† *s.* (addawn) beneficence; a name of the Deity.—Un o enwau Duw.

Addon,† *s.* (add) fruit; offspring; progeny; posterity.—Ffrwyth, aeron, cair; eppil, hiliogaeth, essill; olafiaid; plant; addonwy.

Addonawd, *s.* fructescence: the precise time when the fruit of a plant arrives at maturity, and its seeds are dispersed; the fruiting season. — Ffrwythawd, ffrwythdymmor, tymmor ffrwyth, amser ffrwyth.

Addonig,† *a.* (addawn; F. *adonne*) inclined to, having a natural genius for any thing.—Tueddol, chwannog.

Addonwy,† on, *s.* progeny, issue.—Olafiaid; eppil, hiliogaeth.

Addos,† au, *s. f.* (a—dos) a drop, a particle.—Dyferyn, mymryn.

Aml addoe am fun dloswedd—many a tear for a maid of beautiful complexion. *G. D. T.*

Addosg, *s.* (add—osg; Fr. *ados*) a slope, obliquity.—Gogwyddiad, osgo.

Addreiddio,† ia, *v. a.* (add—rhaidd) to worship; to reverence.—Addoli; parchu.

Addu,† *v. a.* (add) to go.—Myned.

Addwyf—I am gone.

Addwydd—Thou art gone. *Dan.*

Addug,† on, *s.* an intention, purpose; inclination; impulse.—Bwriad, amcan; tuedd; awydd.

Llawn addug—full of intention.

Addug yr hydd i'r maes mawr — the longing of the stag for the ample field. *D.*

Addug,† *v.* (a—dug) he took away, he carried; to commence.—Dug (yr amser gorphenol i *dwg*); dechreu.

Addull, ian, *s.* (a—dull) a style; an idiom;

manner of writing with regard to language; the peculiar manner in which a person expresses his conception.—Arddull, ieithwedd, amwedd, dull ymadrodd.

Addull y gelwir rhyw ar iaith ac ymadrodd amgen na'r cyffawn cyssefin; megys, "cadarn o ddyn," yn lle "dyn cadarn:" "rhyfedd o filwr oedd Arthur," yn lle "milwr rhyfedd oedd Arthur"—what is called *addull* is a species of language and speech that is different to the common original mode of speaking. *Llf.*

Addun,† *a.* (add—un) genial.—Rhywiog. *Llf.*

Addumed, au, *s. f.* (add—uned) a vow; a desire. —Eidduned, diofryd; awydd, chwant.

Addunedau mynachaidd—monastic vows. *G.*

Addunedig, *a.* votive; implored.—Eiddunedig, diofrydol; deisyfedig, dymunedig.

Addunedol, *a.* votive, given by vow; devoted. —Addunol, eiddunedol, diofrydol; defosiynol.

Addunedwr, wyr, *s.* = Addunwr.

Adduniad, au, *s.* a requesting, a wishing; a vowing. — Dymuniad, cais, erfyniad; addunedd, diofryd.

Adduno, a, *v. a.* (add—uno) to wish, to desire; to request; to implore.—Eiddunо, dymuno, erfyn; chwennych.

Addunol, *a.* vowing; wishing. — Eiddun, diofrydol; dymuniadol, deisyfiadol.

Addunwr, wyr, *s.* one that makes a vow; one who makes a request.—Addunedwr, eiddunwr, diofrydwr, dymunwr; erfyniwr.

Addurn, au, *s.* (see Addurno) an ornament, embellishment, decoration; honor, that which confers dignity.—Addurniad, addurniant, eirionad; prydferthwch, ceinder, harddwch; harddwisg; anrhydedd.

Addurn gwalch — a jess: a short strap of leather tied round the legs of a hawk by which it is held on the fist; a ribbon that hangs down from a garland in falconry.

Addurn march—housings, the trappings of a horse.

Addurn penaf — mistress-piece, chief ornament: capital distinction, as applied to a woman.

Addurn petryal—a triangle: a little square member or ornament fixed over the triglyph.

Addurn y ddwyfron—a pectoral, a breastplate.

Addurn ymadrodd — figure of speech.—Ffugr ymadrodd.

Addurn y pen—head ornament.

Addurn ysgwydd — shoulder-knot, an epaulet.

Addurnau, *s. pl.* ornaments, embellishments, decorations; embroidery; graces; the smaller and detailed parts of the main work (they generally consist of sculpture or carved work). —Addurniadau, prydferthion, ceinion, dillynion; brwydwaith, gwaith edeu a nodwydd; addurnnodau; addurnwaith adail-geinion.

Addurnau aur—ornaments of gold.

Addurnau gwddf—ornaments for the neck.

Addurnau priodasol, } bridal ornaments.
Addurnau priodferch, }

Addurnau ymadrodd, } rhetorical flour-
Addurniadau ymadrodd, } ishes.

Addurnblad, iau, *s.* (addurn—plad) a plateau: a large ornamental dish for the centre of a table.—Dysgl addurn fawr ar ganol bwrdd.

Addurnbleth, au, *s.* (addurn—pleth) a lace, plaited cord; a texture of thread.—Rhwydronell, eirionwe, ysnoden, addurnwe; sider; llinynwe, plethlinyn.

Addurndalaith, eithiau, *s. f.* (addurn—talaith) a cornice: the highest part of an entablature, resting on the frieze; the uppermost moulding of any part of a building.—Taleithwrn, taladdurn, ardwdd, talaith addurn, cornis.

Addurndrec, iau, *s.* (addurn—trec) equipage: furniture for a horseman, a military man, or a traveller; accoutrements; equipment. — Addurnwisg, addurn, trwsiad: taclau march milwr, neu deithiwr; arwisgoedd; addurniad, dodrefniad.

Addurndrec benyw—a woman's equipage.

Addurndrec y brenin—regalia: the apparatus of coronation, as the crown, sceptre, &c.; ensigns of royalty.

Addurnebiaeth, au, *s. f.* (addurn—teb) colorature: all manner of variations, trills, &c., intended to make a song agreeable.—Addurn cerdd: amrywiadau, crychnodau, &c.; addurnolion.

Addurnebion, *s. pl.* (addurn) = Addurnebiaeth.

Addurnedig, *a.* adorned, accoutred.—Harddedig, gwychedig, trwsiedig, cymmonedig, taclusedig.

Addurnedig â chadfuddiannau—trophied; ornamented with trophies. [with jewels.

Addurnedig â gemau—jewelled; adorned

Addurneg, au, *s. f.* ornology; the decoration of speech; the beauties of elocution.—Trwsiad ymadrodd, gwisg-addurn araeth; teleidion ffraethineb. *H. P.*

Addurngan, geuoedd, *s.* a moulding: an ornamental line, either projecting or depressed; a cavity or projection.—Addurngeuedd, addurnrigol, moldaddurn, taladdurn; talaith addurn.

Addurngeuedd, *s.* = Addurngan.

Addurngylch, au, *s.* a listel: a small moulding generally rectangular in section, and having the appearance of a narrow band; a fillet.—Colofrwy, pillrwy, addurnrwy, eirionrwy, eirion-gylch; rhimgylch; talaith, eirionyn.

Addurngylch, a, *v. a.* to adorn with astragal; to fillet.—Colofrwyo, pillrwyo; rhimgylchu; ffunenu, taleithio.

Addurniad, au, *s.* adornment, embellishment, decoration.—Cymmheniad, harddiad, tegychiad, prydferthiad, eirionad.

Addurniadau buddugoliaeth — triumphant ornaments. [ments of dress.

Addurniadau gwisgoedd — trinketry, orna-

Addurniadau llodwych, } meretricious or-
Addurniadau putain, } naments.

Addurniadau ymadrodd — rhetorical flourishes.

Addurniaeth, au, *s. f.* ornature, decoration. — Addurniant, addurniad; harddwch, dillynedd.

Addurnlinellu, a, *v. a.* (addurn—llinell) to mark with a flourish or irregular strokes; to adorn. —Fflurnodi, addurnnodi, gnisnodi.

Addurnnod, au, *s.* (addurn—nod) grace note, a flourish, a decorative note; a flower.—Fflurnod, grisnod, nodaddurn, teleidnod, cyfaddurnnod.

Addurnnodi, *v.* to flourish: to play with bold and irregular notes on an organ or violin. — = Fflurnodi, grisnodi, nodaddurno.

Addurno, a, *v. a.* (add—gyrn? add—gwrn? L. *adorno*) to deck, to ornament, to decorate, to adorn, to embellish, to array. — Trwsio, tacluso, gwychu, harddu, tecau, pingcio, harddwisgo, gwisgo, arwisgo, prydferthu, tlysu, eirioni, neisio, teleidio, twtneisio.

Addurno â gemau — to jewel.

Addurno march — to trap a horse.

Addurno ystafell â chroglen — to hang a chamber.

Addurnogrwydd, *s.* ornateness, state of being adorned; finery.—Harddwychder, ceinwychder, harddwch, twtneisrwydd.

Addurnol, *a.* ornamental, decorative.—Addurnisdol; eirionol, trwsiadol, prydferthol.

Addurnoldeb, *s. m.* ornateness. — Addurnogrwydd, harddwychder.

Addurnolion, *s. pl.* colorature: all manner of variations, trills, &c., to make a song agreeable.— Addurnebion; addurnebiaeth.

Addurnrwy, on, *s.* (addurn—rhwy) a fillet, a listel; a little member of a pillar, a small square moulding; a little band used for the hair. — Colofrwy, pillrwy, eirionyn, eirionrwy, addurngylch; ysnoden, ffunen, talaith.

Addurnwaith, *s.* (addurn—gwaith) embroidery: needle-work of gold, silver, or silk on cloth, stuffs, and muslin; variegated needlework; artificial ornaments. — Brwydwaith, gwaith edeu a nodwydd, addurnwaith edeu a nydwydd; darfrodiad, brodwaith; addurnau.

Addurnwaith ffenestri—orbs: the medieval name for the tracery of blank windows or stone pannels.

Addurnwaith llong, addurnwaith ar ben blaen llong—trail-boards: a term for the carved work between the cheeks of the head at the heel of the figure.

Addurnwe, oedd, *s. f.* (addurn—gwe) a lace, plaited cord; a texture of thread.—Eirionwe, eirionen, siderwe, addurnbleth; ysnoden harddrwyllog; amaerwy; llinynwe.

Addurnwe aur—gold lace.

Addurnwedd, *s. f.* (addurn—gwedd) decorative style, an elegant style, a flowing style.—Dullwedd addurnog, dullwedd addurnedig, dull addurnog.

Addurnweydd, ion, (addurn—gweydd) *s.* a lacemaker, one employed in making lace.—Gweydd ysnodenau, gweydd siderau, siderweydd, ysnodenwr, siderydd.

Addurnwisg, oedd, *s. f.* (addurn—gwisg) equipage; accoutrements, equipment.—Arwisg, trwsiad, addurndreo, addurn; taclau, seirch.

Addurnwr, wyr, *s.* one that adorneth, a beautifier. — Prydferthwr, addurnydd, harddwr, tegychydd.

Addurnwych, *a.* irradiate; adorned with shining ornaments. — Gloyw, disglaer; wedi ei ddisglaer addurno.

Addurnydd, ion, *s.* a beautifier.=Addurnwr.

Addurn-ysnodenau, *s. pl.* egrett, an ornament of ribbons.—Rhibandlws, taladdurn.

Adduwch,† *prp.* (C. *aziouch*) above; over.—Uwch, goruwch: dros.

Addwyd,† au, *s.* (add—gwyd) an imposthume, an ulcer.—Cornwyd, llynor, ploryn, anafod; y nodau.

Addwydiad,† au, *s.* apostemation; the process of gathering into an abcess. — Llynoriad, crawniad.

Addwyn,† au, *s.* (a—dwyn) virtue; honesty.—Rhinwedd, effaith; cywirdeb, gonestrwydd, tegwch.

Addwyn, *a.* honest; virtuous; good; blessed; civilized.—Gonest, cyfiawn, didwyll, dihoced; rhinweddol, effeithiol; da, mad; bendithiol.

Cenedl addwyn oeddynt y Cymry ac anaddwyn y Saeson.—the Welsh were a civilized race, but the Saxons were uncivilized. *Llf.*

Addwyn yw i frenin—it is meet for a king, it becomes a king.

Addwyn,† *v. a.* to take away; to carry, to bear. — Cymmeryd ymaith; dwyn, cludo, cywain.

Addwynder,† *s.* honesty; consciousness. — Gonestrwydd; ymwybyddiaeth.

Addwynder genedigaeth — legitimacy, legitimateness.

Addwyndod,† au, *s.* a blessing; a perfection.—Bendith; perffeithder.

Addwyndra, *s.*=Addwynder.

Addwynedig, *a.* legitimate, lawful, legal; genuine. — A anwyd o briod, cyfreithlawn, cynnwynol, cynhenid.

Addwynfryd, an, *s.* (addwyn—bryd) a conscientious mind. — Gwastadfrydedd, cyfartaledd meddwl.

Addwynfrydedd, *s.* equanimity.— Gwastadfryd, tawelfrydedd.

Addwynfrydig, *a.* even of temper; equanimous.—Gwastadfrydig, tawelfryd.

Addwyno,† a, *v. a.* (addwyn) to bless, to wish good.—Bendithio; llwyddo.

Addwynryw, iau, *s.* (addwyn—rhyw) a good sort; homogeneity.—Cyfrywiaeth.

Addwyr, *a.* (add—gŵyr) inclining, oblique.—Gogwyddol, gobwysol, gŵyr, lleddf, ar osgo.

Addygiad, au, *s.* (addwg) a bringing onward; education.—Dygiad i fyny; addysgiad, dysgeidiaeth.

Addygyd, a, *v. a.* to bear, take away.—Dwyn, cludo; cymmeryd ymaith.

Addygydd, *s.* a conveyer, a transmitter; a juggler. — Dygedydd, cariwr, troesglwyddwr; chwidog.

Addyngiad,† au, *s.* (add—wng) an approximation, a drawing near; approach.—Dynesiad, cyfnesiad, agosiad, nesâd, cyfagosiad.

Addyl,† *s.* (a—dyl, addawl) worship.—Addoliant. *Llf.*

Addysg, ion, *s. f.* (a—dysg) instruction, teaching, information; learning, erudition; literature.—Hyfforddiad, dysgiad, cyfarwyddyd; dysgeidiaeth, athrawiaeth; llenoriaeth, llenyddiaeth.

Addysg dda—good education. *B.*

Addysg ddrwg—evil education.

Addysg freiniol—liberal education.

Addysg gyffredin—secular education.

Addysg mewn dysg a moes — liberal education.

Addysg sylfaenol—a dogma, a settled opinion; a principle, a maxim.

Addysgedig, *a.* instructed; learned.—Hyfforddedig; dysgedig. [nabodawl.

Addysgedigol, *a.* preceptive. — Syniedigol, ad-

Addysges, au, *s. f.* a governess, a governante; a tutoress.—Athrawes, llywiodres, dysgodres, dysgadures, llywiadures.

Addysgfa, oedd, feydd, *s. f.* a seminary, educational institution, a school; lyceum.—Dysgeidfa, athrofa, magfa dysgedigion, ysgol, dyle; llenorfa, arysgol.

Addysgiad, au, *s.* edification.—Hyfforddiad, addysg.

Addysgiadol, *a.* didactic; doctrinal.—Athrawaidd, addysgol, egwyddorol; athrawiaethol.

Addysgiadolrwydd, *s.* instructiveness.—Dysgeidrwydd.

Addysgiadur, iaid, } *s.* an educator, one who
Addysgiedydd, ion, } instructs youths.—Addysgwr, addysgydd, dysgwr, deifnogwr; meithrinwr.

Addysgoed, *s.* pupilage; state of being a pupil; wardship; minority.—Dysgoed, dysgaeth; cyflwr un a fo dan oed; maboed, anoed.

Addysgol, *a.* instructive; teaching.—Addysgiadol, dysgedigol, dysgol, athrawaidd.

Addysgu, a, *v. a.* to instruct; to teach, to educate; to inform the mind; to direct.—Dysgu, hyfforddi, egwyddori, athrawiaethu; cyfarwyddo'r meddwl; arwain, cyfeirio.

Addysgwers, i, *s. f.* (addysg—gwers) an apologue; a moral fable, a fable; affabulation.—Moeswers, chwedl, alleb, ystori; chwedl foesol; addysg.

Addysgwr, wyr, *s.* an instructor, a teacher.—Addysgydd, dysgawdwr, athraw, hyfforddwr.

Addysgwych, *a.* (addysg—gwych) accomplished; having a finished education; elegant; fashionable.—Dawn-wych, dysgeidwych, doniog, deifniog, dygiadus, perffeithlawn; cain, dillynaidd; moeswych.

Addysgydd, ion, *s.*=Addysgwr.

Aed, *s.* (au; Ir. *gadh*; S. *gad*; L. *eo*) a going; a gait; a walk; a march; a way.—Mynediad, cerddediad; rhodiad; trawd, trawdd, troddiad; ffordd.

Aed, *v.* (of the third person imperative) let him go.—Eled.

Aedorw,† *s.* (L. *hedera*) ivy: a parasitical plant of different species.—Eiddew, eiddiorwg, iorwg. [*H. E.*

Aedd,† *s.* (Ir. *adh*) law.—Cyfraith, defawd.

Aedd,† ion, *s.* (L. *Ælius*—a proper name) a noise, din, outcry.—Twrf, twrdd, godwrdd, dwndwr, dared, trwst, cyffro; gwaedd, bloedd, banllef; swn.

Aedd,† *a.* loud, noisy, clamorous; tumultuous.—Croch, uchel, bloeddgar, dadyrddus; terfysglyd.

Aeddal,† *a.* (a—dal) steady; not wavering.—Diysgog, dianwadal; sefydlog, safadwy.

Aeddfawr, *a.* (aedd—mawr) clamorous, vociferous, noisy, bigsounding; strepent.—Trystfawr, dadyrddus, bloeddgar, seinfawr; croch, twrddanus.

Aeddfilwr, wyr, *s.* (aedd—milwr) hussar: originally, a Hungarian horse-soldier, light-armed; an equestrian soldier; a sort of cavalry.—Marchfilwr Hungaraidd; wswr; marchfilwr.

Aeddon, iaid, *s.* (aedd) a deacon; one of the lowest order of the clergy of the Church of England; an ecclesiastical officer; (in Scotland) an overseer of the poor; the master of an incorporated company.—Diacon, diagon, degon, deon, iagon; un o raddau isaf clerigaeth Eglwys Loegr; (yn Ysgotland) arolygwr y tlodion; meistr cymdeithasau corphoraethol.

Aeddones, au, *s. f.* a deaconess, a female deacon.—Diacones, diagones, degones, deones, iagones.

Aeddoniaeth, au, *s. f.* deaconry, deaconship; office of deacon.—Diaconiaeth, diagoniaeth, degoniaeth, deoniaeth, iagoniaeth.

Aeddonol, *a.* diaconal; belonging to a deacon.—Diaconol, diagonol, degonol, deonol; diaconaidd.

Aefwyn,† *a.* (a—mwyn) gentle, kind.—Addfwyn, caredig.

Aeg, aig, *s. f. r.* (signifying, says Dr. P., what produceth or bringeth forth) a language; a dialect.—Iaith; tafodiaith, llafarwedd, adiaith.

Da i gwyddost aeg y weddi—thou knowest well the language of prayer. *M. D.*

Aeg, *aff.* an affix to words denoting languages: this termination is proper when the dipthong *ae* is not in the root of the word; as Caldaeg, Cernywaeg, Cymraeg, Hebraeg, Llydawaeg, &c.; but when *ae* is in the root, the affix *eg* is preferable; as Almaeneg, Daeneg, Gaeleg, Saesneg, &c.—Terfyniad geiriau yn dynodi ieithoedd.

Ael, iau, eiliau, *s. f. r.* a brow; the eyebrow; the hair that covers the brow; a skirt, a border.—Ellael, cylmael, ael y llygad; min; godre; ymyl, cwr, cyffin.

Ael bryn—the brow of a hill.
Ael gwisg—the skirt of a garment.
Ael rhiw—the brow of a cliff.
Ar ael—nigh, by, near to.
Aeliau—violets. *Dr. W.*
Aeliau ceffyl—brills; the hair on the eyelids of a horse.

Ael, eilion, *s. f.* (al) a produce; a litter, a brood.—Cynnyrch; al, torllwyth, haig.

Yr ael gyntaf i hwch—the first litter of a sow.

Aelaf,† *s. ag.* (ael) dolor, pain; grief.—Dolur, poen; gofid, alaeth.

Aelaf,† *a.* doleful; dismal, melancholy.—Trist, prudd, galarus.

Aelau,† *s. ag.* dolor; sorrow, complaint.—Gloes; tristwch; cystudd.

Aelau,† *a.* dolorous; sorrowful; painful.—Athrist, galarus; dolurus.

Aelaw,† *s.* produce; wealth; riches.—Cynnyrch; cyfoeth, golud.

Aelaw,† *a.* that produceth; precious; rich.—Cynnyrchiol; gwerthfawr; goludog, berthog; anllawdd.

Aelawd,† odau, *s.*=Aelod.

Aeldrem, iau, *s. f.* (ael—trem) a leering; an oblique view.—Cildrem, cilolwg; cilwen; edrychiad cilwenus.

Aeldrwm, *a.* (ael—trwm) knitting of brows.—Talgrych, cuchiog, cuwchdrwm, sarug, gygus.

Aeldrymu, a, *v. a.* to knit the brows.—Talgrychu, cuchio, sarugo, cilwgu, cibo, trwynsori.

Aelddu, *a.* (ael—du) blackbrowed; having black eyebrows.—Ag aeliau duon iddo; cuwchiog, sarug ei olwg; cethin.

Aele,† *a.* (ael) sad; piteous; lamentable.—Gresynus; dolurus; tostur, trist, trwm.

Braw aele—a sad fright.

Aeled,† au, *s.* ailment, a disease.—Afiechyd, clefyd, anhwyldeb, dolur, poen.

Aelfawr, *a.* (ael—mawr) big browed.—Aeliog, talfawr, banseliog, cyfseliog; cuchiog.

Aelflew, *s. pl.* (ael—blew) cilia; eyelashes, the hairs which grow from the margin of th

eyelids.—Amrantflew, geilflew, blew amrant, minflew; amrantau.

Aelflewog, *a.* ciliated; having fine hairs. — Geilflewog, amrantflewog.

Aelgaeth,† *s. f.*=Aelgerth.

Dod blastr dan dy wddf wrth dy aelgaeth — put a plaster under thy neck to thy jawbone. *Ll. M.*

Aelgerth, eilgyrth, *s. f.* (ael—certh) the cheekbone; the jawbone, the mandible. —Elgeth, asgwrn yr en, car yr en, aelgaeth, aelgeth; grân, asgwrn grudd.

Aelgerthaidd, *a.* maxillary; relating to the jawbone. — Elgethol; cernol, bochgernol; perthynol i asgwrn yr en.

Aelgeth, *s. f.*=Aelgerth.

Cangen ddifeth aelgeth loyw—an infallible wench with a bright cheek. *N.*

Aeliog, *a.* (ael) having eyebrows; large browed. —Ag aelian iddo; aelfawr.

Aelod, au, *s.* (ael: *aelod*, says Dr. P. signifies "that is branching from;" which, perhaps, may be its abstract acceptation, coinciding with L. *limbus*, edge, or extremity, and with E. *limbe*, the sense of which, says Dr. Og., is from shooting or extending) a member, a limb; a jointed part of an animal body; a part of a discourse, a head, a clause; one of a community; a kinsman, a relation.—Esgair, pyw; darn, oetyn, rhan gyssylltedig o gorph anifeilaidd; adran, penawd, adnod, rhan o ymadrodd; un o gymdeithas; câr, tras, cyfathrachwr, perthynas.

Felly hefyd y tafod, aelod bychan (*m.*) yw —even so the tongue is a little member. *B.*

Aelod eglwys, } a member in communion
Aelod eglwysig, } with a church; a professor of religion.

Aelod o gyfundeb—member of a community.

Aelod o gymdeithas—member of a society.

Aelod o'r gyfraith—a limb of the law.

Aelod o'r senedd, } member of parliament,
Aelod seneddol, } parliament-man, a re-
Aelod y senedd, } presentative of the commons in parliament.

Aelodau anrhydeddus, } honorary mem-
Aelodau mygedol, } bers.

Aelodau 'r gynnulleidfa—the members of the congregation.

Aelodau y brenin ynt ei feibion, a'i neiaint, a'i gefndyryw—the king's relatives are his sons, his nephews, and his cousins. *C. C.*

Aelodaeth, au, *s. f.* the admitting of a member. —Aelodiaeth; derbyniad yn aelod.

Aelodaeth eglwysig—church membership.

Aelodfain, *a.* (aelod—main) slender-limbed.—Ag aelodau meinion iddo.

Aelodfawr, *a.* (aelod—mawr) large-limbed.—Aelodog, aelodfras; âg aelodau mawrion iddo.

Aelodfras, *a.* (aelod—bras) large-limbed, having thick limbs. — Aelodfawr, aelodog, âg aelodau preiffion iddo.

Aelodfyr, *a.* (aelod—byr) short-limbed.—Byr aelodog; âg iddo aelodau byrion.

Aelodi, a, *v. a.* (aelod) to make a member; to admit a member. — Gwneuthur yn aelod, derbyn un yn aelod.

Aelodiad, au, *s.* matriculation: the act of registering a name and admitting to membership; admission.—Urddaelodiad; aelodiant; cofrestriad ar lyfran coleg; llyfriad.

Aelodiaeth, au, *s.*=Aelodaeth.

Aelodiant, *s.*=Aelodiad.

Aelodog, *a.* limbed; having large limbs. — Ag iddo aelodau.

Aelodreiu, a, *v. a.* (aelod—rhes) to matriculate: to enter or admit to the membership of an university college, institution, or society; to enlist.—Urddaelodi; aelodi; mamygoli, cofiyfru, rhestriadu.

Aelwyd, ydd, *s. f.* (ael; C. *olaz*) a hearth; the pavement of a room under a chimney on which a fire is made; a fireplace; a home; a family: Dr. P. says it signifies "a branching up."—Lle tân; cartref; teulu.

Aelwyd a gymmhell—a hearth will invite. *D.*

Aelwyd y pelydr—a focus.

Aelwydaid, eidiau, *s. f.* a hearthful.—Llonaid aelwyd.

Aelwydaid o lestri tolciog—a hearthful of battered pots. *B. C.*

Aelwydd,† *a.* (ae—llwydd) successful; prosperous.—Llwyddiannus, hylwydd, tyciannus; ffynnadwy.

Aeoniaid, *s. pl.* (Gr. *aiônes*, ages, durations) Æons; a virtue, attribute, perfection: the Gnostics and Platonists represented the Deity as an assemblage of Æons.—Aeonesaid, oesoedd; rhinwedd, priodoledd, perffeithrwydd: darluniai'r Gnosticiaid a'r Platoniaid y Duwdod fel cynnulliad o Aeoniaid neu oesoedd. *G.*

Aer,† au, *s. f. r.* slaughter; battle.—Lladdfa, cyflafan; brwydr, cad, rhyfel.

Aer,† *s.* (Gr. *aêr*; L. *aer*; Ir. *aer*; Ch. *awr*; Fr. *air*; Ar. *aiar*) air, the fluid which we breathe; a light breeze, gentle wind.—Awyr; awel, chwa; ffân; gwynt; wybr, wybren.

Aer,† od, *s.* (Arm. *haer, hear*; L. *hæres, hæredis*) an heir, one who inherits, one who succeeds to the property of another.—Etifedd, etifeddwr, treftadog.

Aer apparens† — an heir apparent, one who has an indisputable right to the inheritance, should he outlive the ancestor. *L. G. C.*

Aeraesawr,† *a.* (aer—aesawr) shielded in battle. —Tarianog mewn rhyfel, aeryagwydog, aesfeiriadol.

Aeraesawr facwy† — a shield-bearing youth. *D. G.*

Aerawd,† odydd, *s. f.* (aer) a slaughtering.—Cyflafan; galanastra; lladdfa.

Aerawg,† *a.* slaughtering; warring.—Ymladdog; milwrol; rhyfelog.

Aerawl,† *a.* slaughtering; destructive.—Lladdiadol; marwol; adwythig.

Aerbair,† *a.* (aer—pair) causing slaughter.—Rhyfelbair.

Aerbaith,† *a.* (aer—paith) wasted by slaughter. —Anrheithiedig, distrywiedig.

Aerbar,† au, *s. f.* (aer—par) the spear of slaughter.—Aerbar, aerwayw, saffwy rhyfel.

Aerbar,† *a.* preparing for slaughter. — Aerdrefnol.

Aerber,† au, *s. f.* (aer—bêr)=Aerbar.

Aerbiler,† au, *s.* (aer—piler)=Aerbost.

Aerbost,† byst, *s.* (aer—post) the pillar or the stay of battle.—Aerlorf, aerbiler, aerraf, post rhyfel, safle brwydr.

Aerdarf,† *a.* (aer—tarf) slaughter-frightening. —Aerufnog, cadofnog.

Aerdawelwch,† *s.* (aer — tawelwch) the silence of slaughter. — Aerosteg, aerddistawrwydd.

Aerdorf,† oedd, *s. f.* (aer—torf) a slaughtering host, a host of slaughter.—Aerlu, aerfyddin, mintai rhyfel.

Aerdorf angor — the stay of the host of battle. *C.*

Aerdrangc,† au, *s.* (aer—trangc) extermination by slaughter.—Aergyflafan, dinystr rhyfel.

Aerdrangc, *a.* dead by slaughter.—Lladdedig.

Aerdrawd, drodion, *s.* (aer—trawd) a marching through slaughter.—Cattrodiad.

Aerdrawd, *a.* marching to battle.—Cattrodiadol.

Aerdrefnol,† *a.* (aer—trefn)=Aerbar.

Aerdrefnu,† a, *v. a.* to aguerry, to inure to the hardships of war. — Cattrefnu; aerofyddu, cadofyddu.

Aerdrodi, a, *v.* (aerdrawd) to march to battle. —Cattrodi, cattrodio; myned i'r gad.

Aerdwrf,† dyrfoedd, *s.* (aer—twrf) the din of battle.—Cattwrf, aerfroch.

Aerdwy,† au, *s.* (aer—twy) a defence in battle; battle-restraint.—Cadamddiffyn; cadrwystr. *C.*

Aerddarluniau, *s. pl.* (aer — darlun) battle-pieces.—Cadarluniau, cadluniau.

Aerddistawrwydd, *s.* (aer — distawrwydd) = Aerdawelwch.

Aerddryll,† iau, *s.* (aer—dryll) a musket; a soldier's hand-gun.—Mwsged, cadwn, dylwyfwn.

Aerddduriawg,† *a.* (aer—dur) steeled for slaughter.—Cad-dduriog.

Aeren, on, eirin, *s. f.* a plum.—Eirinen.

Aeres, au, *s. f.* (Gr. *aer*; gwel Aer) an heiress; a female heir.—Etifeddes, treftadoges. *B.*

Aerfa,† oedd, *s. f.* (aer—ma) a slaughter; a place of slaughter; the seat of war.—Cadfa, cadle, cadfan, ymladdle.

Aerfab,† feib, *s.* (aer—mab) son of slaughter; slaughtering son.—Cadfab, arwrfab, gwronfab.

Aerfab Meredydd rudd ei ruad — the slaughtering son of Meredydd, bloody war is his cry. *B. F.*

Aerfaidd,† feiddiau, *s.* (aer—baidd) a daring to battle.—Cadfaidd, rhyfelfaidd.

Aerfaidd,† *a.* battle-daring.—Cadfaidd, cadfeiddiol.

Aerfan,† au, *s. f.* (aer—man) a field of battle. —Cadfan, aerfa; maes y gwaed.

Coch arfau aerfan—red the weapon on the place of slaughter. *C.*

Aerfar,† oedd, *s.* (aer—bar) the wrath of battle, the rage of battle.—Cadfar, aerflawdd, cadlid.

Aerfawr,† *a.* (aer—mawr) greatly slaughtering. —Cadfawr, rhyfelfawr.

Aerfeddawg,† *a.* (aer—bedd) entombed in the slaughter; desperate, determined to be revenged.—Cadfeddawg, cadlidiog.

Aerfintai,† eioedd, *s. f.* (aer—mintai) = Aerdorf.

Aerflaidd,† fleiddiau, *s.* (aer—blaidd) wolf of slaughter, slaughtering wolf. — Cadflaidd, rhyfelflaidd.

Aerflawdd,† floddion, *s.* (aer — blawdd) the rage of battle.—Cadfar, aerfar, cadlid.

Aerflawdd,† *a.* nimble for slaughter.—Cadlym, cadfar, cadlidiog.

Aerfle,† on, *s.* 'aer—ble) a field of slaughter.—Aerfa, cadle.

Aerfrad,† au, *s.* (aer — brad) treachery of slaughter.—Cadfrad, rhyfelfrad.

Aerfrau,† *a.* (aer—brau) breaking in battle.—Cadfrau, cadrwyg.

Aerfraw,† *s.* (aer—braw) the terror of battle. —Aergawdd, cadarswyd.

Aerfryd,† au, *s.* (aer — bryd) inclination for slaughter.—Cadfryd, aernaws.

Aerfwrw,† *a.* (aer—bwrw) dealing slaughter, death-darting. — Angeuluchiol, yn lluchio angeu.

Aerfwyell, eill, *s. f.* (aer—bwyell) a battle-axe: an ancient military weapon purely offensive. — Cadfwyell, bwyell arf, ennilleg, bwyell ddeufin, bwyell ddeupen.

Aerfyddin,† oedd, *s. f.* (aer—byddin)=Aerdorf.

Aerffysg,† au, *s.* (aer — ffysg) a hastening to slaughter.—Cadffysg.

Aerffysg,† *a.* quick for slaughter; prompt in battle.—Cadchwai; cadfyw.

Llew aerffysg—the lion quick for slaughter.

Aergad,† oedd, *s. f.* (aer — cad) a battle; a skirmish.—Cad, ymladdfa.

Aergawdd,† goddau, *s.* (aer—cawdd) the wrath or indignation of slaughter; the terror of battle.—Aerfraw, cadarswyd.

Aergi,† gwn, *s.* (aer—ci) dog of war.—Cadgi, ci rhyfel, arwr.

Dinas aergi—the fortress of the dog of war.

Aerglais,† gleisiau, *s.* (aer—clais) the mark of slaughter.—Cadglais, aernod, nod rhyfel.

Aerglais,† *a.* slaughter-marked.—Cadgleisiog.

Aerglwyf,† au, *s.* (aer—clwyf) the wound of battle.—Cadglwyf, aerfriw.

Aerglwyf,† *a.* slaughter-wounded.—Cadglwyf, cadglwyfus.

Aergol,† *s. ag.* (aer—col) slaughter stings.—Cadgol, cadgolynau.

Aergorf,† gyrf, *s.* (aer—corf) the body or strength of battle.—Cadgorf, aerbost, aerlorf.

Aergrain,† greiniau, *s.* (aer—crain) the wallowing of slaughter.—Aerfar, cadfar, cadlid.

Aergre,† on, *s.* (aer—cre) the impulsion, the cause of slaughter.—Cadgre, aernaws.

Aergrwydr,† au, *s.* (aer—crwydr) the scattering of battle.—Cadgrwydr, aerwib.

Aergryd,† au, *s.* (aer—cryd) the trembling of slaughter.—Cadgryd; aerfraw.

Aergryd blwng—the gloomy battle's dread. *C.*

Aergun,† *s.* (aer—cun) the chief of the battle. —Cadgun, aerner, cadner, cadlyw, aerlyw.

Aergwl,† gylion, *s.* (aer—cwl) the mischief of the slaughter.—Cadgwl.

Aergwyn,† ion, *s.* (aer—cwyn) the complaint of slaughter.—Cadgwyn.

Aergwys,† i, *s. f.* (aer—cwys) the furrow of the slaughter.—Cadgwys, cadfriw.

Aergyflafan, au, *s. f.* (aer—cyflafan) = Aerdrangc.

Aergyfrain,† freinion, *s.* (aer — cyfrain) the mutual opposition of spears in battle.—Cadgyfrain.

Aergyrch, oedd, *s.* (aer — cyrch) a warlike attack; a march into battle.—Ymosodiad ymladdol, mynediad i frwydr.

Aeriaeth, *s. f.* (Gr. *aêr*; gwel Aer) heirship,

an inheritance.—Treftadogaeth, tattrefiaeth; etifeddiaeth.

Aeriaid, *s. pl.* (from *Aerius*) church reformers of the fourth century, who maintained that there is no difference between bishops and presbyters.—Diwygwyr eglwysig o'r bedwaredd ganrif, a dybient nad oes wahaniaeth rhwng esgobion a henuriaid. *G.*

Aerlaith,† leithiau, *s.* (aer—llaith) the havoc of slaughter.—Cadlaith, aerddifrod, dinystr rhyfel.

Aerlew,† od, *s.* (aer—llew) lion of slaughter.—Cadlew; gwron.

Aerlew,† *a.* brave in battle; intrepid; enterprising.—Cadlew, dewrwych, gwrdd.

Aerlorf,† au, *s.* (aer—llorf)=Aerbost.

Aerlu,† oedd, *s.* (aer—llu)=Aerdorf.

Aerludd,† iau, *s.* (aer—lludd) the stay or hindrance of battle.—Cadludd, aersaf.

Aerlyw,† ion, *s.* (aer—llyw) the guider of slaughter, chief of battle.—Cadlyw, aergun, cadgun, cadner.

Aernaws,† au, *s. f.* (aer—naws)=Aergre.

Aerner,† *s. m.* (aer—ner) the lord of battle.—Cadner, cadlyw, aerlyw, aergun.

Aerofnog,† *a.* (aer—ofn)=Aerdarf.

Aerofyddu,† a, *v. a.* (aer—ofydd) to aguerry. =Aerdrefnu.

Aerogion,† *s. pl.* (aerawg) warriors; military men.—Aerwyr, cadwyr; llueddwyr.

Hil aerogion—the offspring of warring ones. *D. E.*

Aeron, au, *s. f.* (air—on) the splendid one; queen of brightness: several rivers are called Aeron.—Claerwen, airon; eirianes; brenhines yr ysblander: gelwir amryw afonydd yn Aeron.

Aeron galon galed—Aeron the hard-hearted. *M.*

Aeron, *s. a. pl.* (air) summer fruits (apples, pears, plums, nuts); fruits and herbs that are eaten raw (salad, radish, onions).—Ffrwythau; ffrwythau haf (afalau, gellyg, eirin, cnau); ffrwythau a llysiau a fwyteir yn ammrwd (addail, rhuddygl, wynwyn).

Yr aeron a chwennychodd dy enaid—the fruits that thy soul lusted after. *B.*

Aeron criafol—serviceberries, servicetree berries.

Aeron cwins—quince, the fruit of the *cydonia vulgaris*.

Aeron cynnar—hastings; peas that come early; any early fruit.

Aeron greol—bryonyberries.

Aeron mieri Mair—sweet brier berries, eglantine berries.

Aeron myrt, } myrtleberries; the
Aeron myrtwydd, } fruit of myrtle.

Aeron y ciros—hip, hep, heps, the wild brier berries; the fruit of the dogrose or wild brier.

Aeron y ddaear—potatoes.

Aeronddwyn, *a.* (aeron—dwyn) cocciferous; bearing or producing berries.—Grawnddwyn, grawnddygol, aeronog, baconog, eirinog, llusddygol.

Aeronfaen, fain, feini, *s.* (aeron—maen) a granuliform pyroxene; a variety of augite or pyroxene.—Gronfaen, grawnfaen.

Aeron-gell, oedd, *s. f.* (aeron—cell) fruitery, a fruitloft, a repository for fruit; fruit collectively taken.—Ffrwythfa, ffrwythgell, ffrwythlofft, llofft aeron, llofft ceirion; ffrwythau.

Aeronog, *a.* cocciferous.=Aeronddwyn.

Aeronwerthwr, wyr, *s.* (aeron—gwerthwr) a fruiterer.=Aeronydd.

Aeronwydden, aeronwydd, *s.* (aeron—gwydden) a fruit-tree; a tree cultivated for its fruit, a tree whose principal value consists in the fruit it produces.—Ffrwythwydden, pren ffrwythau, pren ffrwyth, ffrwythbren, ceirwydden.

Aeronydd, ion, *s.* (aeron) a fruiterer; one who deals in fruit, a seller of fruits.—Aeronwerthwr, ffrwythwerthwr, ffrwythwerthydd, gwerthwr ffrwythau, gwerthwr aeron, ffrwythwr, ceirionydd, afaleuwr.

Aerosteg,† ion, *s. f.* (aer—gosteg)=Aerdawelwch.

Aersaf,† oedd, *s.* (aer—saf)=Aerbost.

Aeru,† a, *v.* (aer) to contend in battle, to fight.—Aerodi, brwydro, brythu. *B. G. M.*

Aerwalch,† weilch, *s.* (aer—gwalch) the hawk of battle.—Cadwalch.

Aerwan,† *a.* (aer—gwân) opening the battle.—Cadwan.

Aerwayw, *s. f.* (aer—gwayw) the spear of slaughter.—Aerbar, cadwayw, cadysbêr.

Aerwib,† iau, *s. f.* (aer—gwib) the course of slaughter.—Aerystod, cadwib.

Aerwib, *a.* ranging in slaughter.—Aerystodol, cadwibiog.

Aerwosgryn,† ion, *s.* (aer—gwosgryn) the shaker of the battle.—Cadwosgryn, aerfrawychwr; cadymmodwr.

Aerwr,† wyr, *s.* (aer—gwr) a man of slaughter; a warrior.—Cadwr, rhyfelwr; arwr, gwron.

Aerwy, on, *s.* (ae—rhwy) a collar, a chain (in ancient times it was a badge of distinction worn by warriors); a torques (it is now used for a band, or collar in general); a cowhouse yoke or band.—Coler, cadwyn (arwydd o anrhydedd ydoedd yn yr hen amseroedd a wisgid gan lueddwyr); torch, gorthorch, gyddfdorch, mwndlws (defnyddir ef yn awr am rwymyn neu goler yn gyffredinol); iau beudy, rhwymyn gwartheg.

Aerwy o aur, } a golden collar, a golden
Aerwy aur, } torques.

Aerwyad, au, *s.* a collaring, the putting on a collar or torques.—Coleriad; gwisgiad coler neu dorch.

Aerwyo, a, *v. a.* to put on a chain or band; to wear a collar.—Coleru; rhwymo, mynwara; gwisgo torch neu gadwyn.

Aerwyog, *a.* wearing a torques.—Colerog, mwndlysog, torchog.

Aerwyol, *a.* like a collar or wreath.—Colerol, godrwyol; tebyg i blethdorch.

Aerwyll,† on, *s.* (aer—gwyll) the shade of slaughter; the fiend of war.—Cadwyll; buddugre.

Aerwywr, wyr, *s.* (aerwy—gwr) a collar-maker.—Colerwr, gwneuthurwr aerwyon.

Aerystod, au, *s.* (aer—ystod) the course of battle.—Aerwib.

Aes,† *s. f. r.* (Gr. *aspis*) a flat, a plain; a buckler, a target, a shield; a cliff; a wing.—Gwastad, lledd; bwcled, bwcledr, tarian, aestalch, astalch, targed; clogwyn; aden, asgell.

Namyn iawnder ni enwir aes—except equity nothing can be called plain. *D.*

Aesar, orion, *s.* (aes) the defender, the pre-

server, the shielder: a name of the Deity.—Yr amddiffynwr, y ceidwad, y tarianwr: un o enwau Duw.

Aesar a'n differ—may Aesar protect us.

Aesawr,† orion, *s.* one bearing a target, one armed with a buckler.—Targedwr, aesor, aesddyn, cadellwr, tarianog, tarianwas; un yn dwyn tarian, cludydd bwcled.

Aesben, *a.* (aes—pen) bucklerhead, bucklerheaded. — Aesbenog, aesbenaidd; â phen tarian iddo.

Aesbenaidd, } *a.*=Aesben.
Aesbenog, }

Aesddwyn, *a.* (aes—dwyn) armed with a buckler, bearing a shield.—Tarianog; bwcledog, tarianddwyn, aesor; yn dwyn tarian, yn cludo bwcled.

Aesddyn,† ion, *s.* (aes—dyn) one bearing a target; a shieldbearer.—Tarianwas, aesor, ysgwydwas, cludydd bwcled.

Aesel,† *s.* (aes) verjuice; vinegar; any thing sour.—Llyn grobos, surllyn grobos; gwinegr, surwin, finegr; surllyn, surlyn; rhywbeth sur.

Mae o'n aesel parod—it is quite vinegar. *Sil.*

Aesawr,† au, *s. f.* a board, a plank.—Bwrdd, bord; astell, ystyllen.

Aesfrau,† *a.* (aes—brau) having a brittle target.—Targedfrau, ysgwydfrau.

Aesfriw, *a.* (aes—briw) having a broken buckler, broken-shielded.—Aestwn, aestalch, aestrai, ysgwydfriw.

Aesgar,† *a.* (aes) spreading.—Taenol, gwasgaredig.

Clod wasgar aesgar—wide spreading fame.

Aesgrawen, au, *s. f.* (aes—crawen) elytron: a sheath, or upper crustaceous membrane, which forms the superior wing of a tribe of beetles. — Aesgrofen, adenwain, asgellwain, adeinwain, aeswain.

Aesgrofen, au, *s. f.* (aes—crofen)=Aesgrawen.

Aesranaid, au, *s.* (aes—rhanu) cheveronny: a partition of the field, in heraldry, into several equal parts, cheveronwise.—Cebronbarthiad, cebrraniad.

Aestalch,† *a.* (aes—talch) having a broken buckler, broken-shielded.—Aesfriw, aestwn, aestrai, ysgwydfriw.

Aestrai, *a.* (aes—trai) having a target that is diminished or broken.=Aestalch.

Aestrawd, trodion, *s.* (aes—trawd) a march under cover of bucklers.—Aestrodiad.

Aestrodiad, au, *s.*=Aestrawd.

Aestwn, *a.* (aes—twn)=Aestalch.

Aetiaid [*sing.* Aetiad] *s. pl.* (from *Aetius*) Aetians: a branch of Arians so called from Aetius, bishop of Antioch.—Cangen o Ariaid a elwid Aetiaid oddi wrth Aetius, esgob Antiochia, eu sylfaenydd. *G.*

Aeth, aith, euthion, *s. r.* (H. *athah*; Ar. *athid*) a point, a prickle; gorse, furze, whin; a pain; sorrow, grief. — Pig, pigyn, blaen; colyn; draen, pigell; eithin [*sing.* eithinen]; poen; gofid, tristwch, alaeth, argyllaeth, galaeth, dolur.

Aeth, *v.* (ae) he went, he is gone.—Y mae efe wedi myned, myned a wnaeth.

Ameilliad, au, *s.* (am—eillio) circumrasion, a paring round.—Amnaddiad, amrasgliad, amrwbiad.

Ameiriad, au, *s.* (am—eirio) ambages, circumlocution, a periphrase.—Cylcheiriad, am-

cylchymadroddiad, amgylchiaith, cylchlafariad.

Ameiriadol, *a.* ambagious.—Cylcheiriol, ammroddol.

Ameirio, ia, *v. a.* to periphrase; to dispute or contend.—Cylchymadroddi; amddadlu.

Ameiriog, *a.* circumlocutory.—Amgylchieithog.

Ameiriol, *a.* paraphrastic.—Amieithol, cylcheiriol.

Amelfenaeth, *s.* (am—elfen) amphibiousness: the quality of being able to live in two elements.—Dwyelfendod. [mwys.

Amelfenigol, *a.* amphibiological.—Dwyelfenig,

Amelfenol, *a.* amphibious; of a mixed nature; elemental.—Dwyelfenol, cymmysg; cyntefig.

Amelfog, ion, *s.* an amphibian, an amphibious animal.—Dwyelfeniad, cyntefyn, pryf cyntefin.

Amelfogion, *s. pl.* amphibia, amphibians, amphibials.—Dwyelfeniaid, amelfeniaid.

Amen, [=â—mèn], *ad.* (H.) amen, so be it; verily.—Boed felly, felly boed, felly y byddo, felly y bo; yn wir. *B.*

Amen, a nef i minnau—so be it, and heaven to me. *G. O.*

Amen, *s.* amen.

Y pethau hyn y mae Amen yn eu dywedyd—these things saith the Amen. *B.*

Amenwad, *s.* (am - enwad) autonomasy: a word of general signification used for the name of a particular thing; as, "the man has gone to the *city*," instead of London.—Lledenw: gair o arwyddocâd cyffredinol yn cael ei ddefnyddio fel enw peth neillduol; megys, "y mae'r dyn wedi myned i'r *ddinas*," yn lle Llundain.

Ameugud, *a.* (am—eugud) prompt; ready on every side.—Amhylaw, amhwylus; amchwai, parod.

Ameth, ion, *s.* (a—meth) a failure; a lapse.—Amball, methiant; amwall, diffyg. Dywed y Dr. D. mai yr un yw *ameth* ag *amaeth*, a difyna'r llinell ganlynol i brofi hyny:—"Os *ameth*, gwn i as methud." *D. G.*

Amethyst, *s.* (L. *amethystus*; Gr. *amethustos*) amethyst: a sub-species of quartz of a violet blue color, of different degrees of intensity.—Glasgochem: math ar greigrisial o liw cochlas, ac o wahanol raddau o ddwysder.

Amfach, au, *s.* (am—bach) a hooking round.—Cydfach; amglwm.

Amfachiad, au, *s.* a grappling round; a hooking round.—Cydfachiad; cylchfachiad, amglymiad.

Amfachu, a, *v. a.* to clasp or twine about.—Amglymu, amdorchi, amblethu, amgydio, amrwyo.

Amfar, oedd, *s.* (am—bâr) wrath on all sides; one encompassed with wrath.—Amlid, amddig, amgawdd.

Amfarchocau, câ, *v. a.* (am—marchogaeth) to ride about.—Marchogaeth o amgylch.

Amfarchogaeth, *s.* the act of riding about, obequitation.†—Marchogaeth o amgylch.

Amfenywaidd, *a.* (am—benyw) perigynous; growing upon some body that surrounds the ovarium.—Yn tyfu ar ryw gorph a amgylchyno yr wyfa.

Amfesur, au, *s.* (am—mesur) a girt, a girth; the compass measured by a girth; a circular bandage.—Cylchfesur, amgylchedd, cwmpas; rhwymyn, amrwym.

Amfesur, *v. a.* to girt, to gird; to surround.—Amfesuro; amgylchynu, amwregysu.

Amfesuredd, *s.* a girt.=Amfesur.

Amfesuro, a, *v. a.* to girt.=Amfesur.

Amfloden, au, *s. f.* (am—bloden) perianth: the floral envelope, the calyx and corolla, or either.—Blodeulen, blodamlen, gwullamlen, gwisg blodau, amlen blodau.

Amfo,† *v. a.* (am—bo) to enjoy, to possess.—Mwynhau, meddiannu.

Amfordwyad, au, *s.* (am—mordwyo) circumnavigation; a circular sailing.—Cylchfordwyad, amfordwyaeth, amhwyliad, cylch-hwyliad, amforiad.

Amfordwyadwy, *a.* circumnavigable.—Cylchfordwyol, amhylong.

Amfordwyaeth, *s. f.* circumnavigation.=Amfordwyad.

Amfordwyo, a, *v. a.* to circumnavigate.—Amforio, cylchforio, amhwylio, cylch-hwylio, amlongwrio, damfordwyo; hwyliaw o amgylch.

Amfordwyol, *a.* circumnavigating.—Amfordwyadwy, cylchfordwyol.

Amfordwywr, wyr, *s.* a circumnavigator.—Amhwyliwr, cylchfordwywr.

Amforiad, au, *s.* circumnavigation.=Amfordwyad. [dwyo.

Amforio, ia, *v. a.* to circumnavigate.=Amfor-

Amfrwys,† *a.* (am--brwys) thickly branching on all sides.—Ambrysgol; llawn prysglwyni.

Amfrwysol, *a.* ambrosial, fragrant; delighting the taste or smell.—Ammrwysol, anfarwol; bywiol, per, hyfryd, eidiog.

Amfudd, *a.* (am - budd) general benefit.—Amles, amged, lles cyffredinol.

Amfwlch, fylchau, *s.* (am—bwlch) that has breaches on all sides.—Amfreg, amrwyg.

Amfylchiad, au, *s.* a notching on all sides; a making gaps all round.—Amrintiad, amriciad; amfwlch, amrint.

Amfylchog, *a.* having breaches all round.—Amriciog, amhaciog, amagenog.

Amfylchu, a, *v. a.* to make breaches or cuts on every side.—Amdori, amrintio.

Amfywyn, au, *s.* (am—bywyn) a drupe: a pulpy pericarp or fruit without valves, containing a nut or stone with a kernel; as the plum, cherry, apricot, &c.—Ellfywyn, amffrwyth: hadgodenau bywynog neu ffrwyth heb glorynau, yn cynnwys cneuen neu gareg yn meddu cnewullyn; megys eirin, ceirios, bricyll.

Amfywynaidd, } *a.* drupaceous; pertaining to
Amfywynog, } drupes.—Ellfywynaidd, amffrwythol.

Amfflurddeiliog, *a.* (am—ffliurddail) many-petaled; having many petals.—Amflodeuddeiliog; â llawer o flodeuddail iddo.

Amffrwythog, *a.* (am—ffrwyth) drupaceous.—Amfywynaidd.

Amffrwythol, *a.* autocarpious: a name given to such fruit as consists of nothing but pericarp, without any additional organ.—Ymffrwythol.

Amffwyriad, au, *s.* (am—ffwyriad) a diffiation; a blowing or blasting to different parts.—Hychwythiad, dychwythiad; chwythiad ar wahân.

Amgadarn, *a.* (am—cadarn) fortified on every side.—Amgaerog, amnawdd, amnoddog, amglawdd, amgaeredig.

Amgadarnhâd, au, *s.* a strengthening on every side.—Amnerthiad, amrymusiad.

Amgadarnhaol, *a.* strengthening or invigorating on every side.—Amgryfhaol, amnerthol.

Amgadarnhau, hâ, *v. a.* to encompass with strength.—Amrymuso, amgryfhau.

Amgadr, *a.* (am—cadr) mighty, potent, vigorous.—Amegnïol, amgryf, amrwys.

Amgaen, au, *s.* (am—caen) an over covering.—Amgaes; amwisg.

Amgaen mŵn—a gang, a gangue: an earthly, stony, or saline substance containing the ore of metals.

Amgaeniad, au, *s.* circumplication; a wrapping round.—Amleniad, amduddiad, amblygiad, amdwygiad.

Amgaer, au, *s.* (am—caer) a fortification.—Amddiffynfa, caerfa, cadarnfa.

Amgaered, *s.* a fortification; a bawn: an enclosure with mud or stone walls to keep cattle.—Caeriad, cadarnhâd; lleidgeuad: amgeuad o laid neu geryg i gadw gwartheg.

Amgaeredig, *a.* fortified on all sides.—Amgaerog, amgadarn, amnawdd, amglawdd.

Amgaeren, au, *s. f.* a fortlet; a little fort.—Caeren, castellan, caerfa fechan, llysdin.

Amgaerfa, feydd, *s. f.* a place of defence; a pile-tower.—Amddiffynfa, caerfa, castell.

Amgaeriad, au, *s.* a fortifying on all sides.—Amgaerwaith, caeriad, cadarnhâd.

Amgaeriaeth, au, *s.* a muniment, a stronghold, a place of defence.—Caerfa, amgaerwaith, diffynwaith, diogelfa.

Amgaerog, *a.* circummured; rampired.—Ammuriedig, amfuriedig, cylchfuriedig, damgaerog.

Amgaeru, a, *v. a.* to immure on every side.—Ammurio; amgylchu â muriau.

Amgaerwaith, weithiau, *s.* (amgaer—gwaith) a military architecture.—Caerwaith, amgaeriaeth.

Amgaes, on, *s.* (am—caes) an outer case, an envelope.—Amlen, amwisg, tudded, amgeuad.

Amgaesiad, au, *s.* an envelopement.—Amleniad, amblygiad, amdoad.

Amgaesio, ia, *v. a.* to encase, to envelope.—Amlenu, amgau, amdoi, arlenu.

Amgalon, au, *s.* (am—calon) pericardium; a membrane that encloses the heart.—Y bilen sydd o amgylch y galon; llen y galon, pilen y galon, gwisg y galon.

Amgalonol, *a.* pericardian.—Perthynol i wisg y galon.

Amgall, *a.* (am—call) circumspect, discreet.—Amgraff, amgraffus, amwel; gochelgar.

Amgall pob dedwydd—the prudent is circumspect. *Ll. H.*

Amgan, *s. f.* (am—cân) minstrelsy; music, instrumental harmony.—Cerddoriaeth, caniadaeth, alaw; cerdd dannau.

Amgant,† *s.* (am—cant) environs.—Y wlad o amgylch; amgylchoedd. [cyrfol.

Amgant, *a.* about, round.—Amgylch; cylchol,

Amgario, ia, *v. a.* (am—cario) to carry about.—Amgludo, amgywain, cylcharwain.

Amgarn, gyrn, *s.* a ferrule; a ring of metal put round anything to keep it from cracking.—Amdorch, amgorn; torch, cylchyn.

Amgarnu, a, *v. a.* to put on a ferrule.—Amgorni, amdorchi; cylchu, torchi.

Amgarth, ion, *s.* (am—carth) a rind, a peel.—Rhisglyn.

Amgaru, gar, *v. a.* (am—caru) to doat upon; to fondle.—Gorhoffi, traserchu; anwylo, anwesu.

Amgau [=amgàu], *v. a.* (am—cau) to shut round; to compass about with a hedge; to hem in on every side.—Cau o amgylch, cylchgau; amgylchynu â chlawdd neu gae; amgylchu, amgylchynu, cau i mewn.

Amgauad, au, *s.* a covering on all sides.—Amgeuad, gorthoad, tuddediad.

Amgauad, *a.* inclosing on all sides.—Amgylchynol.

Amganedig, *a.* inclosed on every side.—Amgylchedig, gwarchanedig.

Amged, ion, *s. f.* (am—ced) a general benefit.—Amles, amfudd, lles cyffredinol.

Amgegridion, *s. pl.* (am—ceg—rhid) amphibranchia: the tonsils and parts adjacent to them.—Chwarenau'r gwddf a'r rhanau cyfagos iddynt.

Amgeiniad, iaid, *s.* (amgan) a minstrel.—Cerddor, teleidior, teleiddyn, eilewydd, gwr wrth gerdd, clerwr.

Amgeledd, au, *s.* (am—cel) care, solicitude, anxiety; protection.—Gofal, pryder; dyddordeb; ymgeledd.

Amgeledd am un nid gwiw—anxiety for one shall not avail. *Ll. H.*

Amgeleddodig, *a.* cherished.—Achlesedig, coleddedig.

Amgeleddiad, au, *s.* a cherishing or taking care of.—Coleddiad, achlesiad, nawdd; magwraeth, cynnaliaeth.

Amgeleddol, *a.* cherishing; looking after.—Achlesol, ymgeleddol; arolygol.

Amgeleddu, a, *v. a.* to cherish or protect on all sides.—Ymgeleddu, amnoddi, amwesu; meithrin.

Amgeleddus, *a.* protecting; cheering.—Ymgeleddus, mynwesol; lloddus.

Amgeleddwr, wyr, *s.* a protector.—Amddiffynwr, noddwr, ymgeleddwr.

Amgelfyddfa, fäu, *s. f.* (am—celfyddfa) polytechnic institution.—Sefydliad amgelfyddol, sefydliad amrygelf, sefydliad amrygelfyddol.

Amgelfyddol, *a.* polytechnic; denoting many arts.—Amrygelf, amrygelfig, amrygelfyddol; yn dynodi aml gelfyddydau.

Amgelog, *a.* (am—cel) solicitous; circumspect; solitary, secret.—Gofalus, pryderus; gwiliadwrus; unigol, amguddiedig, dirgel.

Amgelwch, *s.* solicitude; protection.—Gofal, pryder; amddiffyn.

Amgelwch bywyd—the solicitude of life. *T.*

Amgelliaid, *s. pl.* (am—cell) Circumcellians, Circumcellion: a set of illiterate peasants that adhered to the Donatists in the fourth century.—Amgellwibiaid: dosbarth o'r werin annysgedig a ymlynent wrth y Donatiaid yn y bedwaredd ganrif.

Amgellwibiaid, *s. pl.* (am—cell—gwib)=Amgelliaid.

Amgen, *ad.* (am—can) otherwise; on the contrary; different; also; but.—Amgenach, os amgen, ped amgen; onid e, onitê; os: yn y gwrthwyneb.

Nid amgen—it is not otherwise; that is to say; to wit.

Amgenach, *ad.* rather; better.—Yn hytrach, hytrach, o flaen; yn well, yn rhagorach.

Amgenaeth, au, *s.* difference.—Gwahaniaeth, amrywiaeth.

Amgenair, eiriau, *s.* a paraphrase. — Allair, arallair.

Amgendreigl, *a.* (amgen — treigl) heteroclitic, irregular, anomalous; deviating from ordinary forms or rules. — Amrydreigl, anhydreigl, afreolaidd, direol.

Amgendyb, iau, *s.* (amgen—tyb) paradox; a seeming contradiction; an assertion contrary to appearance: a proposition or assertion that seems to be absurd, or at variance with common sense, yet true in fact.—Amrydyb, anghyfdyb, anghyttyb; daliad anhydyb; daliad croes i ymddangosiad: gosodiad neu haeriad a ymddangoso yn ddisail neu ddisynwyr, etto yn wirionedd profadwy.

Amgendybus, *a.* heterodox, not orthodox, heretical. — Allfarn, arallfarn, geudybiog, camgredol, geulithiog, gwrthgredol, allgredol, geuffyddiog; o farn amgen na'r cyffredin.

Amgenedig, *a.* (amgen) varying; diversified.—Gwahanedig, neilliedig; amrywiedig.

Amgenedigaeth, au, *s.* variation; declension in grammar. — Amrywiaeth, amrywiogaeth, neilliogaeth; gwyriad; treigliadaeth mewn grammadeg.

Amgeneiriad, au, *s.* (amgenair) a paraphrasing, a diversifying of words.—Alleiriad, aralleiriad.

Amgeneirio, ia, *v. a.* to paraphrase.—Alleirio, aralleirio, rhydd ddehongli.

Amgeneiriol, *a.* paraphrastical. — Alleiriol, aralleiriol, amgeneiriog.

Amgeneiriwr, wyr, *s.* a paraphrast.—Alleiriwr, alleirydd.

Amgeneirydd, *s.* a paraphrast.—Aralleiriwr.

Amgenrwy, on, *s.* (amgen—rhwy) peristome, peristomium: the ring or fringe of the bristles, or teeth, which are seated immediately below the operculum, and close up the orifice of the seed-vessels in mosses.—Amagrwy: y fodrwy neu'r sidrwy o wrych neu ddannedd sydd yn union dan y clawr, ac yn agos i agoriad yr hadgellau mewn mwsogl.

Amgenu, a, *v. a.* (amgen) to contrast, to vary, to alter; to differ; to diversify.—Amrywio, newid; gwahaniaethu.

Amgenwys, *s.* (amgen—gwys) alias. *B. C.*

Amgerdded, *v. n.* (am—cerdded) to walk about, to obambulate.—Amrodio, amrodiena; rhodiaw o amgylch.

Amgerdded, *s.* a walking about, obambulation. —Amrodiad, rhodiad o amgylch.

Amgerddus, *a.* (am-cerdd) musical or harmonious on all sides.—Soniarus o bobty, amseiniol.

Amgib, au, *s.* (am—cib) aril, arillus, calyx; a peculiar exterior coat or covering of some seeds.—Gwullgib, amgroenen; gwisg allanol nodedig rhai hadau.

Amgiliad, au, *s.* (am—cil) ambages; a winding or turning; a circuit of words.—Cyfrwysgiliad, amdroad, amddadl; troad; cylcheiriad.

Amgist, iau, *s.* (am—cist) an outer case.—Amgaes, amgod, argaes, gordudded.

Amgl wdd, gloddiau, *s.* (am—clawdd) a circumvallation; entrenchment.—Cylchglawdd, gwarchglawdd; amgaer; amgloddiad, damgaeriad.

Amgledr, au, *s.* (am—cledr) a paling.—Cledren, coedbawl; cledrgae, ceuadle; palis, achwre.

Amgledren, i, *s. f.* an empalement: the calyx of plants, which surrounds the other parts of fructification.—Gwullamdo, amwullen: gwisg planhigion, yr hon a gylchyna ranau ereill o'r ffrwythiant.

Amgledriad, au, *s.* an empalement; a fencing or inclosing with stakes; a putting to death by thrusting a stake into the body.—Cylchgeuad, amgeuad, polgeuad; amgylchyniad neu amddiffyniad â pholgae; poliomad, pawlwaniad, trywaniad â phawl.

Amgledrog, *a.* impaling; surrounding by pales. —Ambolionog; amgylchynedig gan bolion.

Amgledru, a, *v. a.* to rail round; to impale; to thrust a stake up the fundament; to put to death by fixing on a stake.—Ambolioni, amgau, cylchgau, polgau, amgylchynu neu amddiffyn â pholgae; polioni, pawlwanu, trywanu â phawl, gyru pawl i'r cyfeistedd.

Amgledrwydd, au, *s.* (amgledr—gwydd) an espalier; a frame on which to train fruit-trees. —Amgoedres, amgoedwal; cledrwaith i ddal ffrwythgoed.

Amgledrwyddo, a, *v. a.* to espalier, to form an espalier, to protect by an espalier.—Amgoedresu, amgoedwalio; gwneuthur amgoedres; amddiffyn âg amgoedres.

Amglobyniaeth, au, *s.* (am—clobyn) periagoge: in rhetoric, a period or sentence, in which several things are crowded together, which might have been divided.—Mewn areitheg, cyfannod neu ymadrodd, yn yr hwn y pentyrir amryw bethau ynghyd, y rhai y gellid eu gwahanu.

Amgloddiad, au, *s.* (amglawdd) intrenchment. —Gwarchgloddiad, dargloddiad; amddiffynfa.

Amgloddiedig, *a.* intrenched; fortified on all sides. — Gwarchgloddiedig, dargloddiedig; amgaeredig, amddiffynedig.

Amgloddio, ia, *v. a.* to surround with a ditch; to intrench.—Bwrw clawdd o amgylch; dargloddio, gwarchgloddio.

Amgloryn, au, *s.* (am—cloryn) ambitus: in conchology, the circumference or outlines of the valves. — Amgeuad, amgauad: mewn cregyniaeth, amgylchedd neu amlin y clorian.

Amglud, } *a.* (am—clud) carried about.—
Amgludedig, } Yn cael ei gylcharwain.

Amgludiad, au, *s.* deportation.—Trosglwyddiad, trosiad, dyddygiad; alltudiad.

Amgludo, a, *v. a.* to carry about.—Amgario, amgywain, cylcharwain; dwyn o amgylch.

Amgludol, *a.* bearing about. — Amgyweiniol, cylcharweiniol.

Amglwm, glymau, *s.* (am—clwm) a clasper.—Amdorch, llysdorch, llysrwy.

Amglymaidd, *a.* cirrose, pampiniform.—Amdorchaidd, llysdorchaidd, llysrwyaidd.

Amglymdorch, dyrch, au, *s.* (amglwm—torch) a clasper, cirrus.—Amdorch, amglymydd.

Amglymddwyn, *a.* (amglwm—dwyn) cirriferous.—Amglymog, llysdorchog.

Amglymiad, iaid, *s.* (amglwm) clasper.—Amglwin, amglymdorch, llysdorchiad.

Amglymog, *a.* cirriferous.—Amglymddwyn.

Amglymol, *a.* clasping about. — Amdorchol, llysglymol.

Amglymu, a, *v. a.* to clasp or twine about.—Amdorchi, llysdorchi.

Amglymydd, *s.* a cirrus.—Amglymdorch.

Amglywed, glyw, *v. a.* (am—clywed) to apprehend; to become informed. — Amgyffred, deall; gwybod.

Amgnaif, gneifiau, *s.* (am—cnaif) a clipping or shearing round.—Amwelleifiad, amdociad.

Amgnaw, gnoau, *s.* (am—cnaw) a biting on every side; a gnawing round.—Amgnoad, dygnoad.

Amgneifiad, au, *s.* (amgnaif) circumcision; a shearing around.—Blaendoriad, cylchdoriad; enwaediad; amdociad, amwelleifiad.

Amgneifiedig, *a.* shorn round about.—Amdociedig, amwelleifiedig.

Amgneifio, ia, *v. a.* to clip round, to shear around.—Amdocio, amdori, cylchdori.

Amgneuan, } **gnau,** *s. f.* (am—cneuen) nucula,
Amgneuen, } nucule: a hard indehiscent pericarp, containing a single seed.—Hadgoden galed barhaus, yn cynnwys un hedyn.

Amgnoad, au, *s.* (amgnaw) corrosion.—Amdreuliad, cyfysiad.

Amgnoawg, *a.* erose.—Amgnödedig; bylchog.

Amgnoawl, *a.* to bite round or on all sides; corrosive.—Amfrathol; amgyfysol, amdreulig.

Amgnödedig, *a.* erose.—Amgnoawg.

Amgoch, *a.* (am—coch) red on every side; red-stained.—Amrudd, amystaengoch.

Amgoch bryn, a phenrhyn, a phant—covered with red were hill, slope, and dale. *O. G.*

Amgoed, *a.* (am—coed) woody on every side; encompassed round with woods.—Amgylchgoed; coediog o amgylch.

Henllan Amgoed the name of a place.

Amgoediog, *a.* woody on all sides.—Amgoed, coediog o amgylch.

Amgoedres, i, *s. f.* (amgoed—rhes) an espalier.—Amgledrwydd.

Amgoedresu, a, *v. a.* to espalier.—Amgledrwyddo.

Amgoedwal, iau, *s. f.* (amgoed—gwal) an espalier.—Amgoedres.

Amgoedwalio, ia, *v. a.* to espalier.—Amgoedresu.

Amgoes, au, *s. f.* (am—coes) a gaiter, a legging.—Soca, coeswisg, coesarn.

Amgof, ion, *s.* (am—cof) a recorder.—Cofiadur. *D. N.*

Amgofleidiad, au, *s.* (am—cofiaid) an embracing about.—Ymgofleidiad, amgylchyniad.

Amgolen, au, *s. f.* (am—colen) chorion; the exterior membrane that inwraps the fœtus.—Ambilen, ambrilen; pilen allanol y milrith.

Amgolofnog, *a.* (am—colofn) surrounded with pillars; peripteral.—Cylchgolofnog, amadeiniog, cylchadeiniog.

Amgolofnol, *a.* peripteral, peripterous.—Amgolofnog, amadeiniol.

Amgolofnres, i, *s. f.* (am—colofn—rhes) a peristyle; a building encompassed with columns on the inside; a circular range of pillars.—Ambillres, amgolofnau, cylchres o golofnau; rhes o golofnau o amgylch peth.

Amgor, au, *s.* (am—cor) a surrounding border.—Amgwr, amfin; amgantel, amgylchwy.

Amgord, gyrd, *s.* (am—cord) a bight; the bend or coil of rope when folded.—Amraff, plygraff; cengliad.

Amgorn, gyrn, *s.* (am—corn) a circling horn; a ferrule.—Amgylchyn corn, amdorch corn; cylchyn.

Amgorni, a, *v. a.* to inwrap, to envelope.—Amdorchi, amgylchynu, amlenu; amgarnio.

Amgraff, *a.* (am—craff) considerate.—Amgraffus, ambwyllig.

Amgraffder, } *s.* circumspection; deliberation.
Amgraffineb, } — Amwelediad, amsyniad, rhagddarbodaeth.

Amgraffus, *a.* perceptive.—Cynghraffol, amgyffredol.

Amgrain, greiniau, *s.* (am—crain) a rolling about; a tumbling; a wallowing on the ground.—Amdreigl, ymdreigl, ymgrain.

Amgrain carw—the fall of a stag.

Amgre,† *a.* (am—cre) forming on every side.—Amffurfiol.

Amgrebychawd, *s.* (am—crebach) peristole: the pause between the systole or contraction, and the diastole or dilatation of the heart.—Yr amser rhwng crebychiad ac ymlediad y galon.

Amgrediad, au, *s.* (am—credu) an espousement.—Ymddyweddiad, cyfneithiad, dyweddiad.

Amgreigiog, *a.* (amgraig) rocky on every side. Creigiog o amgylch.

Amgreiniad, au, *s.* (amgrain) prostration.—Gorchreiniad, ymgreiniad, arlyriad.

Amgreinio, ia, *v. a.* to roll about, to wallow; to roll backwards and forwards on the back as horses do.—Amdreiglo, ymgreinio; ymdreiglo ar ei gefn fel ceffyl.

Amgreuan, au, *s.* (am—creuan) pericranium; the membrane that invests the skull.—Ton; croenen asgwrn y pen, pilen y glol.

Amgroenen, i, *s. f.* (am—croenen) an episperm; the testa or outer integument of a seed.—Allgroenen, ellgroenen, hadgroenen, hadbilen; gwisg nesaf allan had.

Amgroenig, *a.* epispermic; pertaining to the episperm.—Allgroenig, hadgroenig, hadbilenol.

Amgrom, *a.* (am—crom) outwardly round; convex.—Allgrom, argrom.

Amgromell, au, *s. f.* a circular arc.—Cylchgrom, cylchgromell.

Amgron, *a.* (am—cron) globular, like a globe.—Cyfrgron, cyfangron.

Amgrugio, ia, *v. a.* (am—crug) to heap about.—Amdyru.

Amgrwm, *a.* (am—crwm) convex or rounded.—Argrwm, cynghrwm, argrwn.

Amgrwn, *a.* (am—crwn) globous; globular.—Argrwn, cyfrgrwn, cynghrwn.

Amgrwydrol, *a.* (am—crwydr) peripatetic, circumvagant.—Amrodiol, dargrwydrol, cylchgrwydrol, amlwybrol.

Amgrymedd, au, *s.* (amgrwm) convexity.—Argrymedd, cynghrymedd, argrynedd.

Amgrymiad, au, *s.* a making convex; a becoming convex.—Argrymiad, cynghrymiad.

Amgrymu, a, *v. a.* to make convex.—Argrymu, cynghrynu.

Amgrynedd, au, *s.* (amgrwn) globosity.—Cyfrgrynder, cynghrynedd.

Amgryniad, au, *s.* a making globular; a becoming round.—Argryniad, cynghryniad.

Amgrynu, a, *v. a.* to make globular.—Cynghrynu, argrynhau.

Amgrynu, a, *v. a.* (am—crynu) to tremble on all sides.—Amgrydio, cynghrydio.

Amgud, iau, *s.* (am—cud) a curly lock.—Amgudyn, amlofn. [*D. G.*

Amgudiau chwyrn—flowing curly locks.

Amgudyn, au, *s.* a ringlet of hair.—Modrwy o wallt, llofn.

Amgudd, ion, *s.* (am—cudd) a treasure.—Trysor; cuddfa. *H. S.*

Amgudd, *a.* hidden on all sides.—Amlechol, angel.

Amguddiedig, *a.* inwrapt; shrouded; circumvested.—Amgeledig; amlenedig.

Amguddio, ia, *v. a.* to inwrap or hide on all sides.—Ymguddio, amgelu; amhuddo.

Amguddrawd, rodau, *s.* (amgudd—rhawd) a covered-way, a cover-way. — Diddosrawd, celffordd, rhodfa gudd, ffordd gudd.

Amguedd, au, *s.* (am—cuedd) a rarity; choicest rarities; most valuable effects; secrets. — Tlws; ammeuthynion; tlysion, hynodion; creirion.

Amgueddfa, fäu, *s. f.* a depository of rarities; a museum.—Ystorfa cywreinion; cywreinfa, amgueddgell, creirfa, argreirfa, cronfa cywreinrwydd.

Yr Amgueddfa Brydeinig—the British Museum.

Amgueddgarwch, *s.* virtuosoship; the pursuit of a virtuoso.—Cywreingarwch.

Amgueddgarwr, wyr, *s.* a virtuoso: a man skilled in the fine arts; as music, painting, statuary, architecture, antiquities, curiosities, and the like.—Tlysofydd, tlysgasglwr, tlyshoffwr, carwr cywreinion, casglwr cywreinion: un medrus yn y celfyddydau dain; megys cerddoriaeth, paentio, cerfylliaeth, adeiladaeth, hynafiaethau, cywreinion, a'r cyffelyb.

Amgueddgell, oedd, *s. f.* (amguedd—cell) a museum; a cabinet of curiosities. = Amgueddfa.

Amgutio, ia, *v. a.* (am—cut) to cover with a hut.—Amgwtio, amfwthynu, amlocio.

Amgwyn, ion, *s.* (am—cwyn) the tarragon: a plant of the genus Artemisia.—Enw llysieuyn o dylwyth y Chwerwlys.

Amgyflead, au, *s.* (am—cyfleu) circumposition; the act of placing circularly.—Cylchosodiad, amosodiad, cylchgyflead.

Amgyff, ion, *s.* (am—cyff) support on every side.—Amborth.

Amgyffinio, ia, *v. a.* (am—cyffin) to circumscribe, to confine, to enclose, to limit.—Amgau, amgylchu, amgylchynu, terfynu.

Amgyffiniol, *a.* circumjacent; surrounding.—Amminiog, argyffiniol.

Amgyffrawd, rodau, *s.* (am—cyffrawd: Dr. P.'s first acceptation—"what moves together on every side"—seems to be, if proper at all, the root-meaning; and his second acceptation is like unto it—"the emotion of the mind") imagination; comprehension.—Dychymmyg, darfelydd; dirnadaeth, amgyffred, dealltwriaeth.

Amgyffrawd,† *v. a.* to comprehend.=Amgyffred.

Amgyffred, ion, *s.* (am—cyffred) comprehension. — Dirnadaeth, amgyffrawd, dealltwriaeth.

Amgyffred, *v. a.* to comprehend; to hold, to contain.—Argyffred, cyffred, dirnad, amgyffrawd, deall; dal; cynnwys; gorymddwyn.

Ti a arweddaist yn dy arffed y neb ni allai'r nefoedd ei amgyffred—thou hast born in thy lap Him whom the heavens could not comprehend. *D. D. H.*

Amgyffredadwy, *a.* apprehensible; that may be conceived.—Dirnadwy, dealladwy.

Amgyffredediq, *a.* comprehended.—Dirnadedig, dealledig, argyffrededig.

Amgyffrediad, au, *s.* comprehensibility.—Cyffrediad, dirnadolrwydd.

Amgyffredol, *a.* comprehensible; ideal.—Dirnadol, cyffredol, deallol.

Amgyffredoldeb, } *s.* comprehensibility, com-
Amgyffredolrwydd, } prehensiveness. — Amgyffrediad, dirnadoldeb.

Amgyffro, *s.* (am—cyffro) agitation on all sides. —Amgynnhwrf, gorgyffro.

Amgyffroad, au, *s.* thorough agitation, a disturbing on every side.—Gorgyffroad, amgynnhyrfiad.

Amgyffroadwy, *a.* that may be agitated or ruffled all round.—Amgynnhyrfadwy.

Amgyffroawl, } *a.* agitating all round or on
Amgyffrous, } every side.—Amgynnhyrfol, amgynnhyrfus.

Amgyffroi, a, *v.* to circumagitate. — Amgynnhyrfu, amysgogi.

Amgyffryn,† au, *s.* (am—cyffryn) a trembling on all sides; agitation.—Amgryniad, amgyffroad.

Amgyffrynedig, *a.* agitated all round. — Amgynnhyrfedig.

Amgyffryniad, au, *s.* central agitation; a trembling round.—Amgynnhyrfiad, amgyffroad.

Amgyffrynol, *a.* agitating on all sides.—Amgyffroawl.

Amgyffrynu, a, *v. a.* to agitate the foundation; to become agitated round. — Amgynnhyrfu, amgyffroi.

Amgylch, au, oedd, ion, *s.* (am—cylch) a compass; a circuit.—Amgylchedd, cwmpas, amgant.

Ni raid amgylchion, nac ymadroddion gorwag ynghylch hyn—there is no occasion for circumlocutions, nor vain discourses respecting this. *Gr. A.*

Amgylch, *prp.; ad.* about; round about, all round. — Am, o amgylch, ynghylch; oddi amgylch, o amgylch ogylch.

Amgylchadwy, *a.* circumscribable.—Amgeuadwy, damgylchadwy.

Amgylchaidd, *a.* tending to circumscribe. — Damgylchaidd, amgylchadwy.

Amgylchau, *s. pl.* environs: the parts or places which surround another place. —Amgylchoedd, amgylchleoedd, cylchynau, cwmpasoedd, amgylch-wlad.

Amgylchedig, *a.* encompassed; surrounded.—Amgylchynedig, cylchynedig, cwmpasedig.

Tôn amgylchedig—a circumflex accent.

Amgylchedigaeth, *s.* circuition.—Amgylchiaeth.

Amgylchedd, au, *s.* circumference, a circuit.—Cylchedd, cylched, amgant, cwmpas.

Amgylchen, i, *s. f.* areola, a hanging.—Amlain, amgylchlen.

Amgylchiad, au, *s.* circumscription; a circumstance.—Amgylchyniad, damgylchiad; cyfwr, sefyllfa, ansawdd; peth, mater, achos.

Gan fod yr amgylchiad (y peth, y mater, yr achos) felly—circumstances being so.

Amgylchiadol, *a.* circumferential; circumstantial. — Amgylchol, amgantol; cydfynedol; perthynasol; dygwyddiadol.

Prawf amgylchiadol—circumstantial evidence.

Amgylchiadolion, *s. pl.* circumstantials.—Amgylcholion, dygwyddolion; pethau amgylchiadol.

Amgylchiadu, a, *v. a.* to circumscribe; to circumstantiate. — Amgylchynu; amgylcholi; amgylchnodi.

Amgylchiaeth, au, *s.* (amgylch) circuition.—Amgylchedigaeth.

Amgylchiaith, ieithoedd, *s. f.* (amgylch—iaith)

circumlocution. — Amiaith, cylchymadrodd, ameiriad.

Amgylchlecedd, *s. pl.* (amgylch—lle) environs. —Amgylchau.

Amgylchnodi, a, *v. a.* (amgylch—nod) to circumstantiate, to describe minutely. — Amddarnodi, darlunio yn fanwl.

Amgylchoedd, *s. pl.* (amgylch) places near, environs.—Cylchynau, amgylchau.

Amgylchol, *a.* encompassing, surrounding.—Amgylchynol, cwmpasol.

Amgylcholdeb, *s.* circumambiency.—Amgylchynoldeb.

Amgylcholi, a, *v. a.* to encompass, to circumstantiate.—Amgylchynu, amgylchiadu; gwarchau.

Amgylcholrwydd, *s.* the state of being surrounded.—Amgylchynoldeb.

Amgylchred, ion, *s.* (amgylch—rhed) a circuity. —Amred, cylchred, cylchsymmudiad.

Amgylchu, a, *v. a.* (amgylch) to encompass; to beset, to besiege, to block up.—Amgylchynu, cylchynu; gwarchau.

Amgylch-wlad, *s. f.* (amgylch — gwlad) the country that surrounds a place.—Y, wlad o amgylch.

Amgylchyn, *s.* (amgylch) a circumferentor: an instrument used by surveyors for taking angles.—Cylchedydd, cylchedur, ongliadur.

Amgylchynedig, *a.* circumscribed; environed; besieged.—Cylchynedig, amgylchedig; gwarchauedig.

Amgylchyniad, au, *s.* an environment; circumambiency; a besetting. — Cylchyniad, damgylchyniad; gwarcheuad.

Amgylchyniadol, *a.* encompassing, surrounding.—Damgylchynol, cwmpasol.

Amgylchynol, *a.* circumambient.—Amgylchol, amredol, cwmpasol.

Amgylchynoldeb, *s.* circumambiency, the state of being surrounded. — Cylchynoldeb, amgylchyniad, amgylcholrwydd.

Amgylchynu, a, *v. a.* to environ, to circumscribe; to besiege.—Amgylchu, cylchynu; gwarchau.

Amgylchynwr, wyr, *s.* a circumscriber.—Amgylchwr, cylchynwr.

Amgynnhwrf, *s.* (am—cynnhwrf) agitation on all sides.—Angyffro.

Amgynnhyrddan, *s.* (am — cynnhyrddan) a making tumult on all sides.—Amgynnhwrf, amdwrdd.

Amgynnhyrfiad, au, *s.* (amgynnhwrf) thorough agitation.—Amgyffroad.

Amgynnhyrfol, *a.* agitating all round.—Amgyffroawl.

Amgynnhyrfu, a, *v. a.* to circumagitate.—Amgyffroi, amysgogi.

Amgynnhyrfus, *a.* agitating on every side.—Amgyffrous.

Amgynnired, †*v. a.* (am—cynnyred?) to frequent about.—Amfynychu.

Amgynniwair, *v. a.* (am—cynniwair) to hover about; to haunt on all sides.—Amhofian; amgyrchu.

Amgynniweiriad, au, *s.* a hovering about. — Amhofiad, amwibiad.

Amgynniweiriwr, wyr, *s.* one that hovers about. —Amhofiwr, amgyrchwr.

Amgynnull, *v. a.* (am—cynnull) to collect together.—Amgasglu, amgywain.

Amgynnulledig, *a.* collected on all sides.—Amgasgledig.

Amgynnulliad, au, *s.* a collection from all sides. —Amgasgliad, amgroniad.

Amgyred, †*prp.* (am—cyd—rhed) running about together.—Amgylchred.

Amgyrfod, † *a.* (am—cyrfod) curveting; prancing.—Amgyrflamol, ambrangciol.

Amgyrflamol, *a.* (am — cyrflam) curveting about.—Amgyrfod.

Amgyrhaedd, au, *s.* (am — cyrhaedd) extent; range; compass. — Amhelaethder, ameangder; amgylch.

Annherfynedig amgyrhaedd — an infinite comprehension. *R. F.*

Amgyrhaedd, *v.* to extend on all sides.—Ymestyn, amestyn.

Amgyrhaeddiad, au, *s.* extension on all sides; expansion.—Ymestyniad, ymhelaethiad.

Amgyrhaeddol, *a.* extending on all sides.—Ymestynol, amestynol.

Amgyrhaeddu, a, *v. a.* to extend on all sides. —Ymestyn, ymeangu.

Amgyrhaeddyd, amgyrhaedd, *v. a.* (amgyrhaedd) to extend in every direction; to expand.—Amledaenu; cylchledaenu; cylchymestyn at.

Amgysgodiaid, [*sing.* Amgysgodiad], *s. pl.* (am—cysgod) Amphiscii, Amphiscians: the inhabitants of the tropics.—Deugysgodiaid: trigolion y trofannau.

Amgyttowyr, *s. pl.* (am—cyd—to—gwyr) Periœci, Periœcians.=Amdywyr.

Amgywain, *v. a.* (am—cywain) to bear or carry about.—Amgludo, amarwedd.

Amgyweiniad, au, *s.* a carrying about, circumgestation.—Amgludiad, amgariad; amborthiad.

Amhad, *s. ag.* (am—had) various seeds mixed together; mixed seeds.—Amryw had; cymmysg had.

Amhad, *a.* sown with divers seeds; sown on every side.—Amhadog; wedi ei hau âg amryw had.

Amhadawg,† *s.* a contraction or mutation of Ab Madawg. *D. I. D.*

Amhadog, *a.*=Amhad.

Amhafal, *a.* (am—hafal) homotonous; parallel. —Unsain, cyfunsain; cyfunwedd, cyfunddull; cyfartal, cyfiol; cyhafal; cyffelyb.

Amhedeg, } *s.* (am—hedeg) circumvolation,
Amhedegiad, } the act of flying round.—Amehedeg, amhedfan, amhedegiad.

Amhedegwr, wyr, *s.* a flyer, a flier; one who flies.—Amhedwr.

Amhedfan, } *s.* the act of flying about.—Am-
Amhediad, } hedeg, amhedegiad.

Amhedwr, wyr, *s.* a flyer.—Amhedegwr.

Amherawdr, odron, *s.* (a—perawdr? *perawdr* cannot be found in the dictionaries: L. *imperator*, from *impero*, to command; hence, the literal meaning of the English word *emperor*, says Dr. Ogil. is, the commander of an army: if the Welsh word is not derived from the Latin, it may perhaps be traced to *a—peri*, to command emphatically; or to *am—herodr*, a high ambassador or herald; or perhaps *amher* had originally the same meaning in Welsh as *Emyr* in the Breton dialect, signifying a king or ruler. Amherawdr, amberawdr from amberi or ymberi *impero*, ymberawdr *imperator*, *i.e.*, the organ or agent of a community. *A. I.*) an emperor; the sovereign or supreme monarch of an empire; a title of dignity superior to that of king.

—Amherawdwr, ymherawdwr, ymherodr, ymherawdr, ymddyberawdr; archdeyrn, uchdeyrn, ymben, unben, emprwr; un o urddas uwch na brenin.

Amherodron mein—emeralds. *R.*

Amherawduriaeth, au, *s. f.* impe:iality; imperial power; the right of an emperor to a share of the produce of mines, &c.—Amherodroldeb, ymherawduriaeth, gyrnogaeth; gallu amherodrol; hawl amherawdwr i gyfran o gynnyrch mwnau, &c.

Amherawdwr, wyr, *s.* an emperor.—Amherawdr.

Amherawdwr Brasil—the emperor of Brasil.

Amherawdwr Catai (Seina)—the emperor of China.

Amherawdwr Ffraingc—the emperor of France.

Amherawdwr Iapan—the Kouba or emperor of Japan.

Amherawdwr Morocco—the emperor or Sultan of Morocco.

Amherawdwr Rwsaia—the Czar, Tzar, Autocrat, or emperor of Russia.

Amherawdwr Twrci—the Sultan, Padishah, Grand Signior, or emperor of Turkey.

Amherawdwr yr Almaen—the emperor of Germany.

Amherodraeth, au, *s. f.* an empire; supreme power, supreme dominion; sovereignty; the territory or countries under the jurisdiction and dominion of an emperor.—Ymherodraeth; penaduriaeth, unbenaeth, ymbenaeth; tiriogaeth neu wledydd dan frawdwriaeth ac awdurdod amherawdwr.

Amherodraeth Rhufain—the Roman empire.

Amherodraidd, *a.* imperial; possessing supremacy, supreme.—Ymherodraidd, amherodrol; unbenol, penadurol.

Amherodres, au, *s. f.* an empress; the wife of an emperor; a female invested with imperial power or dignity.—Ymherodres, ymddyberodres; gwraig amherawdr; archdeyrnes, uchdeyrnes, unbenes, ymbenes; benyw yn meddu gallu neu urddas unbenaethol.

Amherodres Rwsaia—the Czarina, Tzarina, or empress of Russia.

Amherodrol, *a.* imperial; relating to an emperor or an empire; possessing supremacy; monarchical.—Ymherodrol, amherodraidd; unbenol, ymbenol, penadurol, penrheithiol; perthynol i amherawdwr ac amherodraeth.

Amherodroldeb, *s.* imperiality.=Amherawduriaeth.

Amherodroliad, iaid, *s.* imperialist; one who belongs to an emperor; a subject or soldier of an emperor.—Ymherodrolwr; un perthynol i amherawdwr; deiliad neu filwr amherawdwr.

Amhiniog, au, *s.* (am—hiniog) a doorpost; a frame.—Gorsin, gorsing, eminiog, post drws; ystram.

Amhir, *a.* (am—hir) long on every side; stretching round.—Ymestynol, hirestynol.

Amholltadwy, *a.* (am—hollt) circumscissile: a term applied to a mode of dehiscence observed in the fruit of some plants.—Amholltaidd, amholltol.

Amholltaidd, } *a.* circumscissile. = Amholltad-
Amholltol, } wy.

Amholltog, *a.* peritomous: cleaving in more directions than one parallel to the axis, the faces being all of one quality.—Amholltaidd.

Amhulen, *a.* (am—hulen) calyx, a flower-cup; the outer covering of a flower within the bracts.—Blodamlen, gwullamlen, amwullen, blodeugib, blodeugaes, blodeulan; amwisg neu amlen blodau.

Amhwedd, au, *s.* (am—hwedd? *hwedd* is not in the dictionaries: whether is it derived from *hw*, a cry, and the termination *edd*, or from *hw* and *gwedd*, a visage, let the reader judge for himself: possibly it comes from *am* and *gwaedd*) entreaty.—Deisyfiad, attolygiad.

Amhwedd, *v. a.* to entreat, to crave.—Dymuno, erfyn, attolygu.

Amhwyliad, au, *s.* (am—hwyl) a circular sailing, circumnavigation.—Amfordwyad, cylchfordwyad, cylch-hwyliad, tramhwyliad, tramforiad.

Amhwylio, ia, *v. a.* to circumnavigate, to sail round.—Amfordwyo, amforio, cylchfordwyo.

Amhwyliwr, wyr, *s.* a circumnavigator.—Amfordwywr, cylchfordwywr.

Amhylifol, *a.* (am—hylif) diffluent; flowing every way; not fixed.—Amlifol, hylif; yn llifo bob ffordd; ansefydlog, anwadal.

Amiaith, ieithoedd, *s. f.* (am—iaith) circumlocution, periphrase; a circuit or compass of words.—Amgylchiaith, cylchymadrodd, gogylchiaith, ameiriad.

Amias, au, *s.* (am—ias) a sensation of an impulse pervading on all sides.—Cylchias, treiddias.

Amieithol, *a.* (amiaith) circumlocutory, periphrastical.—Amgylchieithol, ameiriog, ammroddol.

Amic,† *s.* = Amig.

Amig, ion, *s.* (a—mig) greediness.—Awydd, gwangc, aingc, trachwant.

Aml, *a.* (am? L. *amplus*; C. *amal*; Ar. *mali*) often, frequent; many; plentiful; large, ample.—Mynych, mynychol; llawer, lliosog; digon; eang, llawn.

Amlachar, *a.* (am—llachar) circumfulgent.—Amdywynol, amlewyrchol, damdywynol.

Amlaes, *a.* (am—llaes) long or trailing on every side.—Amgylchlaes, llaes o bobtu.

Amlaes eu peisiau—their coats trailing round. *T.*

Amlaeth, au, *s.* (am—llaeth) mixed milk; a ploughman, a labourer.—Cymmysgiaeth; arddwr, llafurwr.

Amlaethai, eion, *s.* milkwort, *polygala vulgaris.*—Llaethlys, llysiau Crist.

Amlafn, au, *s.* (am—llafn) scutcheon of a lock.—Arflen.

Amlain, lainiau, *s. f.* (am—llain) areola, areole (the colored circle round the nipple or round a pustule); the small interstices of cellular and other tissues.—Amgylchlen; rhyngell.

Amlalluog, *a.* (aml—gallu) multipotent; having manifold power.—Amrynerth, amlnerthog, amryallu; aml ei allu; lliosrym.

Amlan,† *a.* (aml) of sundry fashions; various.—Amlddull, amddull; amryw, amryfal.

Amlaw, iau, *s. f.* (am—llaw) a glove.—Maneg; dyrnfol, llawegen.

Amlaw ddur am lyw ei ddart—a glove of steel round the shaft of his dart. *L. M.*

Amlaw,† *prp.* besides; over and above.—Heb law, tros ben, gyda.

Amlaw hyny a roddai Duw iddynt—besides that God has given them. *Chw.*

Amlawdd,† *a.* (am—llawdd) surrounded with praise.—Amglod, amfawl.

Amlawdd Wledig—the name of a British prince.

Amlawio, ia, *v. a.* (amlaw) to glove.—Gwisgo â maneg, gwisgo maneg am.

Amlawnder, *s.* (am—llawn) an increase, an abounding.—Amledd, llawnder, digonedd.

Amlberthog, *a.* (aml—parth) multipartite; having many divisions; multifid, multifidous, many-cleft.—Amlranog, amrybarth, lliosran; wedi ei ranu yn llawer o ranau; amryhollt; â llawer o holltau ynddo.

Amlbedog, ion, *s.* (aml—pedog) polypus. = Amldroed.

Amlbenaeth, au, *s.* (aml—penaeth) polyarchy, polyeracy; government by many rulers.—Amlbendodaeth, amlbenogaeth; llywodraeth amryw.

Amlbendodaeth, au, *s.* (aml—pendod) = Amlbenaeth.

Amlbeniog, *a.* (aml—pen) many-headed, having many heads.—Amryben, amrybeniog; â llawer o benau iddo.

Amlbenogaeth, au, *s. f.* polyarchy.—Amlbenaeth.

Amlboblog, *a.* (aml—pobl) many-peopled.—Amrybobl, amboblog, poblog.

Amlblyg, *a.* (aml—plyg) multiplex, many-fold; having petals lying over each other in folds.—Amrywblyg, lliosblyg.

Amlblygrif, au, *s.* (amlblyg—rhif) a multiple: a number which contains another number several times, as 12 is a multiple of 3.—Amrif, lliosrif.

Amlbriod, *s.* (aml—priod) a polygamist; a person who maintains the lawfulness of polygamy.—Amlweddog, amlwreiciwr, amlwreigiwr; un a ddeil gyfreithlondeb amlbriodas; gwraig amlwriog.

Amlbriod, *a.* = Amlbriodol.

Amlbriodas, au, *s. f.* polygamy: a plurality of wives or husbands at the same time.—Amlweddogaeth, amlwreiciaeth; amlwriaeth.

Amlbriodol, *a.* polygamous, having a plurality of wives; polygamian: producing hermaphrodite flowers, with male or female flowers, or both.—Amlbriod, amlweddog, amlwreigiog, llios-wraig; amlwriog; amrybriod, amrybriodol: yn cynnyrchu blodau deurywiol, ynghyda blodau gwryw neu fenyw, neu'r naill a'r llall.

Amlder, au, *s.* (aml) frequency; copiousness; plentitude.—Mynychder; amldra, amledd; helaethder; digonedd.

Amldroawl, *a.* (aml—tro) multispiral; having many spiral coils.—Lliosnydd, amrynyddol, amrydroawl.

Amldroed, iaid, ion, *s.* (aml—troed) polypous, something that has many feet; a class of invertebrate radiated animals.—Amldroedog, morgudyn, amldroedog y môr, amrybed, llyest, lliosbed, amlbedog; llof.

Amldroedog, *a.* polypous, having many feet.—Amldroed, amrybed; llofaidd.

Amldroedog, ion, *s.* polypode, millepede; an animal having many feet; the milliped or wood-louse.—Milred, miltroed, mildroed, milcerdd, milped, milbed, gwrach y lludw, gwrach y coed, gwrach y twca.

Amldroedogion, *s. pl.* centipedes, myriapods, myriapoda: a class of insects possessing a number of feet, from six to some hundreds.—Pryfed cantroed, cantroedogion, myrddbedogion.

Amldroedogion maendyfol—millepores: a tribe of lythophytous polypes, including those in which the calcareous axis is perforated by extremely numerous pores.

Amldyllog, *a.* (aml—tyllog) multicavous; having many holes or cavities.—Amrydwll, amlgeuog.

Amldyniadur, on, *s.* (aml—tynu) polyspast; a machine consisting of many pulleys for raising heavy weights.—Math ar beiriant yn cynnwys amryw chwerfanau i godi pwysau mawrion. *P.*

Amlddalenog, *a.* (aml—dalen) polyphyllous, many leafed, many-leaved; having many leaves.—Amryddail, amlddeiliog, amryddeiliog.

Amlddanneddog, *a.* (aml—danneddog) multidentate; having many teeth: a term in zoology applied to a part armed with many teeth or teeth-like processes.—Amryddaint, amryddeintiog, amlddeintiog.

Amlddeiliog, *a.* (aml—deiliog) many-leafed.—Amlddalenog.

Amlddeintiog, *a.* (aml—deintiog) multidentate.—Amlddanneddog.

Amlddull, *a.* (aml—dull) of sundry fashions; multiform; multifarious.—Amryddull, amrylun, amrywedd, amddull; amryfath, amryfodd.

Amlddulliog, *a.* polymorphous; having many forms.—Amryffurf, amrylun, amlffurfiog.

Amldduw, *s.* (aml—duw) polytheist; a person who believes in or maintains the doctrine of a plurality of gods.—Un amldduw; amldduwiad, amrydduwiad.

Amldduwiad, iaid, *s.* polytheist.—Amldduw.

Amldduwiaeth, au, *s.* polytheism; the doctrine of a plurality of gods.—Amrydduwiaeth.

Amldduwiaethol, *a.* polytheistic, polytheistical.—Amrydduw; perthynol i amrydduwiaeth.

Amlddysg, *s.* (aml—dysg) polymathy; acquaintance with many branches of learning or with various subjects.—Amryddysg, amlwybodaeth; gwybodaeth o lawer o ddysg neu amryw byngciau.

Amlediad, au, *s.* (am—lled) expansion.—Ymlediad, ymdaeniad, arymlediad.

Amledu, *v. a.* to dilate or expand about.—Arledu, amdaenu.

Amledd, *s.* (aml) abundance; plenty, store.—Helaethrwydd; cyflawnder, digonedd; amlder.

Amleglwys, *s.* (aml—eglwys) a pluralist; a clerk or clergyman who holds more ecclesiastical benefices than one.—Amleglwysog, amleglwyswr, amleglwysydd; perchen mwy nag un eglwys.

Amleglwysog, ion, **Amleglwyswr,** wyr, **Amleglwysydd,** ion, } *s.* pluralist.—Amleglwys.

Amleibio, ia, *v.* (am—lleibio) to lick about.—Arleibio, amlyfu, amlyo, amlepian.

Amleinaidd, *a.* (amlain) areolate; having small spaces or areolations.—Rhyngallaidd.

Amleiniad, au, *s.* areolation: any small space, distinctly bounded by something different in color, texture, &c.—Rhyngelliad.

Amleiniol, *a.* areolar; relating to or like areola. —Rhyngellaidd.

Amleiriog, *a.* (aml—gair) loquacious; verbose; querulous. — Siaradus, geiriolus; amlair; ymeirgar.

Amleiriogrwydd, *s.* multiloquence, verbiage, wordiness.—Geiriogrwydd, geirgarwch, siaradgarwch, geirioledd; aml eiriau.

Amlen, i, au, *s. f.* (am—llen) an envelope, a case, a covering; involucre.—Amwisg, amgaes, caes, tudded, gorchudd, amgeuad, amglawr, clawr; pantwull, amddail; ambilen.

Amlen fawr am lân forwyn—a large coverlet over a fair maid. *I. R.*

Amlen blodau—calyx, perianth: the floral envelope, the calyx and corolla, or either.

Amlen llyfr—the cover of a book.

Amlen llythyr—the envelope of a letter.

Amleniad, au, *s.* an envelopement; a sheathing; circumplication; an involvement.—Amdoad, amblygiad, enhuddiad, encuddiad; gweiniad; amwisgiad; amdwygiad.

Amlenu, a, *v. a.* to envelope, to case, to encase; to wrap; to sheath.—Amgau, amdoi, amblygu, arlenu, caesu, arhulio; amwisgo, amweinio, gweinio.

Amlenw, *a.* (aml-enw) multinominal.—Amlenwog, lliosenw; âg aml enwau iddo.

Amlenwaeth, au, *s.* polyonymy; variety of different names.—Lliosenwaeth; amrywiaeth enwau.

Amlenwi, *v. a.* (am—llanw) to fill on all sides. —Gorlenwi, damlenwi, arlenwi.

Amlenwi nef amgylch Naf uchel—to fill heaven on all sides round the exalted King. *B. F.*

Amlenwog, *a.* (amlenw) polynomial, polyonomous; having many names or titles; manytitled.—Amlenw; â llawer o enwau neu ditlau iddo; amlurddog, amlurddau.

Amlepian, amlepia, *v. a.* (am—llepian) to lick about.—Arleibio, amlyfu, amlyo, amleibio.

Amles, *s.* (am—lles) general benefit.—Amfudd, amged; lles cyffredinol.

Amlesfa, } *s.* a club; an association of persons
Amlesged, } who meet under certain self-imposed regulations or by-laws; a small society; a company; a share or proportion paid to a common stock.—Cyflesfa; cyfrinas, cyfeillfa, cymdeithas, cyfeillach, cynnullas; cyttalfa, cyttaliad, cydroddiad; cydachos.

Amlesu, a, *v.* to club; to join to one effect; to pay to a common reckoning. — Cynnullasu, cymdeithasu, uno; cyttalu, cydroddi; talu ei gydrodd.

Amleufer, au, *s.* (am—lleufer) circumfulgence. —Amdywyniad, cylchdywyniad, amlewyrchiad.

Amlew, *a.* (am—llewa) devouring or eating on all sides.—Amddifrodol, amysol; amwangciol.

Amlewin, *s.*; *a.* (am — llewin) light on all sides.—Goleu o amgylch. *S.*

Amlewinog, *a.* (aml — ewinog) multungulate; having the hoof divided into more than two parts.—A'i garn ne'i ewin yn rhanedig i fwy na dau barth.

Amlewychiad, au, *s.* (am—llewych) a shining on every side.—Amlewyrchiad.

Amlewychu, a, *v. a.* to shine about. — Amlewyrchu.

Amlewyrchiad, au, *s.* (am—llewyrch) circumfulgence; a shining on every side. — Amdywyniad, amlewychiad, cylchdywyniad; damlewyrch, amleufer.

Amlewyrchol, *a.* circumfulgent; shining about. —Amdywynol, damlewyrchol, cylchdywynol, amlachar.

Amlewyrchu, a, *v.* to shine about.—Amdywynu, amlewychu, cylchdywynu.

Amlfenyw, *s.* (aml-benyw) polygynia; a plant having many styles.—Y llwyth amlfenyw.

Amlfenyw, *a.* polygynian.=Amlfenywaidd.

Amlfenywaidd, } *a.* polygynous, polygynian;
Amlfenywol, } having many styles.—Amlfenyw.

Amlflodeuddail, *a.* (aml — blodeuddail) polypetalous; having many petals.—Amryfflurddail.

Amlflodeuddeiliog, *a.* many-petaled, polypetalous.—Amfflurddeiliog; â llawer o flodeuddail iddo.

Amlflodeulys, *s.* (aml—blodeulys) polyanthus. =Yr Amlflodeuog.

Amlflodeuog, *a.* (aml—blodeuog) many-flowered; having many flowers. — Amlwulliog, amryflodeuog, amryfflurog, amrywulliog.

Amlflodeuog, *s.* polyanth, polyanthus; a plant and flower of many hues; a primrose.—Yr amlflodeuog, amlflodeulys; briallu.

Amlgaffellog, *a.* (aml — caffell) many-valved, multivalvular; having many valves.—Lliosglawr, amryglawr, amlgloriog, amrygaffell.

Amlgelfyddiaeth, *s. f.* (aml—celfydd) polytechnics: the science of all mechanical arts and skill, aided or unaided by machinery.—Amrygelfeg, celfofyddiaeth.

Amlgell, *a.* (aml—cell) having many cells.—Lliosgell, amrygell.

Amlgeliog, *a.* multicapsular, multilocular; having many capsules.—Lliosgellog, amrygellog; llawn hadgellau.

Amlgeuog, *a.* (aml—ceuog) multicavous; having many holes or cavities.—Amrydwll, amldyllog.

Amlgibog, *a.* (aml—cibog) multisiliquous; having many pods or seed-vessels. — Amrygib, amlhadgibog, amlgodog; â chanddo amryw hadlestri.

Amlgibranog, *a.* (aml—cib—rhanog) polysepalous; having calyx which has sepals separate from each other. — A blodeugaes iddo yn meddu ei gibranau ar wahân oddi wrth eu gilydd.

Amlgloriog, *a.* (aml — cloriog) many-valved, multivalved.— Lliosglawr, amryglawr, amlgaffellog.

Amlgodog, *a.* (aml — codog) multisiliquous; having many pods or seed-vessels.—Amlgibog, amrygib, amlhadgibog.

Amlgoesog, *a.* (aml — coesog) many-legged; having many legs.—Amrygoes; âg aml goesau iddo.

Amlgonglog, *a.* (aml—conglog) having many corners.—Amrygongl, amlonglog, amrygonglog.

Amlgornelog, *a.* (aml — cornelog) polygonal, many-cornered. — Amrygornel, amlgonglog; âg aml gornelau iddo.

Amlgurseinell, au, *s. f.* (am—cur—sain) polyplectron; a musical instrument played upon in the manner of a piano-forte. — Offeryn cerdd y chwaresuir arno fel perdonell.

Amlgysswllt, *s.* (aml—cyssylltu) polyadelph; a plant having its stamens united in three or

more bodies or bundles. — Amrygysswllt, llysieuyn amrygysswllt, planhigyn amlgysswllt.

Amlgyssylltеb, } *s.* polysyndeton: a figure in
Amlgyssylltiad, } rhetoric, which occurs when several words are put in the same place, with a multiplicity of conjunctions between them; as, "Hughkyn and Jockyn and Jack" — Amrygydiad, amrygysswllt, lliaws gysswllt, lliosgysswllt: ffugr mewn areitheg, yr hwn a fydd pan osoder llawer o eiriau yn yr un lle, a lliaws o gyssylltiadau rhyngddynt, fel hyn; "Hugyn a Siocyn a Siac." *D. G.*

Amlhâd, *s.* (amlhau) an increasing, an increase. —Mwyhâd, chwanegiad, dyfwyad, cynnyddiad, lliosogiad.

Amlhadgellog, *a.* (aml — had — cellog) polycotyledonous; having more than two lobes to the seed. — Amlhadgodog; â mwy na dwy hadgell iddo.

Amlhadgellog, ion, *s.* polycotyledon; a plant that has many or more than two cotyledons or lobes to the seed.—Amlhadog, planhigyn amlhadgellog; planhigyn âg amryw neu fwy na dwy hadgell neu hadgod iddo.

Amlhadgodog, *a.* (aml—had—codog) polycotyledonous. = Amlhadgellog, *a.*

Amlhadgodog, ion, *s.* polycotyledon.—Amlhadgellog, *s.*

Amlhadog, *a.* (aml—hadog) polyspermous; containing many seeds.—Yn cynnwys llawer o hadau.

Amlhadog, ion, *s.* polysperm; a tree whose fruit contains many seeds.—Amlhadwydden; pren y mae ei ffrwyth yn cynnwys amryw hadau.

Amlhadwydd, [*sing.* amlhadwydden] *s. pl.* (aml—had—gwydd) polysperms. = Amlhadogion.

Amlhalfaen, feini, fain, *s.* (aml — hal — maen) polyhallite: a mineral or salt occurring in masses of a fibrous structure, of a brick red color, being tinged with iron.—Amlhalfwn.

Amlhalfwn, au, *s.* (aml—hal—mwn) polyhallite. = Amlhalfaen.

Amlhaol, *a.* (amlhau) augmentative, increaseful. — Mwyhaol, chwanegol, ychwanegol, cynnyddol.

Amlhau, hâ, *v. a.* (aml) to increase, to multiply, to augment, to make plentiful.—Ychwanegu, anghwanegu, mwyhau, chwanegu, lliosogi, dyfwyo.

Amlhawr, wyr, *s.* an increaser, an augmenter. —Mwyhawr, helaethydd, chwanegwr.

Amlhiliog, *a.* (aml—hiliog) multiparous; producing many at a birth. — Lliosbil, lliosbiliog, lliosddwyn; a ddygo lawer i'r byd ar unwaith.

Amliadur, on, *s.* (aml) polyscope: a lens plain on one side and convex on the other, but of which the convex side is formed of several plane surfaces, so that an object seen through it appears multiplied.—Amrysyllur, lliosiadur, amlsyllur, lliosur, amlwelwydr.

Ammod-ddeiliad, iaid, *s.* (ammod—deiliad) a lessee: the person to whom a lease is given, or who takes an estate by lease.—Dalysgrifiad, edringai, prydlesai; deiliad dan edring; yr un y rhodder edring iddo.

Ammodeb, au, *s. f.* a contract, a covenant; an indenture. — Cyttundeb, cyfammod; deintysgrif, rhintanmod; gweithred.

Ammodedig, *a.* covenanted; articled. — Cyfammodedig, cyttunedig.

Ammodfael, feiliau, *s.* (ammod—mael) a fee, a feud.—Gwriogaeth, gwarogaeth, gwarogfael, telerfael, tirafael, cydnabodfael.

Ammodi, a, *v. a.* to covenant.—Cyfammodi, cyttuno, cynghreirio; gwneuthur ammod.

Ammodiad, au, *s.* a covenanting.—Cyfammodiad, ymgyfammodiad, cyttuniad.

Ammodol, *a.* conditional.—Cyfammodol; yn sefyll ar ammodau.

Ammodoldeb, *s.* conditionality; limitation by certain terms.—Ammodusrwydd; cyttundeb ar ammodau penodol.

Ammodolrwydd, *s.* conditionality; the quality of being conditional.—Ammodoldeb.

Ammodosodwr, wyr, *s.* (ammod—gosodwr) a lessor; the person who gives a lease.—Edringwr, prydleswr, ammodrwymwr, rhoddwr dalysgrif, gafaelroddwr.

Ammodrwym, au, *s.* (ammod—rhwym) a lease; a contract for a temporary possession of houses or lands.—Edring, dalysgrif, gafaeleb, gafaelrwym, ammodysgrif, prydles; cyttundeb am feddiant amserol o dai neu diroedd.

Ammodrwymo, a, *v. a.* to indenture; to lease.—Cyfammodi, rhwymo; gafaelrwymo, prydlesu; gosod, edringo.

Ammodrwymwr, wyr, *s.* a lessor.—Ammodosodwr.

Ammodus, *a.* (ammod) contracting; conditional.—Cyttundebus; ammodol; yn sefyll ar ammodau.

Ammodusrwydd, *s.* conditionality.—Ammodoldeb, ammodolrwydd.

Ammodweithred, oedd, *s. f.* (ammod—gweithred) a lease.—Ammodrwym.

Ammodwr, wyr, *s.* (ammod—gwr) a contracting party.—Cyfammodwr, cyttunwr.

Ammodysgrif, au, *s. f.* (ammod—ysgrif) a lease.—Ammodrwym.

Ammodysgrifwr, wyr, *s.* a lessor.—Ammodosodwr.

Ammoeth, au, *s.* (am—moeth) a tidbit, a dainty.—Ammaeth.

Ammoethau, *s. pl.* niceties.—Ancwynion, ammeuthynion, danteithion.

Ammoethedig, *a.* delicious.—Ammeuthedig.

Ammoethi, a, *v. a.* to confect, to conserve.—Ammeuthynu, cyffeithio, cyweirio.

Ammoethiad, au, *s.* a making delicious.—Ammeuthiad.

Ammoethol, *a.* dainty or delicious.—Ammeuthol, danteithiol.

Ammoetholder, *s.* daintiness.—Ammeutholder.

Ammoethyn, ion, *s.* a dainty.—Ammoethyn.

Ammoethyn, *a.* dainty.—Ammeuthyn.

Ammoethyno, a, *v. a.* to preserve.—Ammeuthyno, cyffeithio.

Ammoethynwr, wyr, *s.* a confectioner.—Ammeuthynwr, cyffeithiwr.

Ammon, ion, *s.* (an—bon) stemless, without origin, one of the names of the Deity.—Difon; diddechreu: un o enwau Duw.

Nid bon ond ammon, sef Duw—he is not an origin but he who is without an origin, that is, God. *D.*

Ammonia, *s.* (the root is not ascertained: some suppose it to be from *Ammon*, a title of Jupiter; others, from *Ammonia*, a Cyrenaic territory; and others deduce it from the Gr. *ammos*=sand, as it was found in sandy ground) ammony, ammonia, volatile alkali.—Hedalcali: math ar alcali neu wrthsur.

Ammoniol, *a.* ammoniac, ammoniacal; pertaining to ammonia.—Hedalcalig.

Ammor au, *s.* (amp) calmness, pleasantness; loveliness; fortune; a welcome.—Tawelwch, hyfrydwch; hawddgarwch; ffawd, llwyddiant; croesaw, arfoll.

Ammor, *s.* (amp? Gr. *amarantos;* L. *amaranthus*) amaranth, amarantus; flower-gentle.—Blodau ammor, llysiau ammor, llys ammor; anedwaint, anfarwaint.

Ammor llosgyrnog—love lies a bleeding.

Ammoraidd, *a.* pleasant; beauteous; amaranthine.—Hyfryd; prydferth; anedwinol, anwyw, anniflanedig.

Ammordwyaeth, au, *s.* (am—mordwy) periplus; circumnavigation; a voyage round a certain sea or sea coast.—Cylchfordwyad, amfordwyad, amfordwyaeth, cylchfordwyaeth.

Ammorfaen, feini, fain, *s.* (ammor—maen) a cork; a fossil.—Corcyn, corc, twythwydd, madarch; cloddel, cloddelid, cloddbeth; mwn.

Ammori, a, *v.* to become pleasant.—Llawenhau, ymhyfrydu.

Ammraint, einiau, eintiau, *s.* (an—braint) dishonor.—Dianrhydedd, gwarth, ammharch, sarhâd.

Ammraint pob tor defod—every violation of custom is a breach of privilege. *D.*

Ammraint, *a.* without right or immunity.—Difraint, anfreiniol, dihawl.

Ammrawdd, oddion, *s.* (am—brawdd) circumlocution, periphrase.—Cylchymadrodd, amgylchialth, ameiriad.

Ammreg, *a.* (am—breg) fragile on every side. — Bregus o bobtu; cylchfregus.

Ammreiniedig, *a.* (ammraint) unprivileged.—Anfreintiedig, anfreiniedig, anfreiniog.

Ammreiniad, au, *s.* a depriving of immunity or privilege.—Anfreiniad, difreiniad.

Ammreinio, ia, *v. a.* to violate privilege; to dishonor.—Anfreinio, difreinio; dianrhydeddu.

Ammreiniog, *a.* unprivileged. — Anfreiniog, anfreiniedig.

Ammreiniol, *a.* unprivileged.—Anfreiniol, ammreiniedig.

Ammreintwisg, oedd, *s. f.* (an—breintwisg) a livery; a particular dress worn by the servant of noblemen and gentlemen.—Gosgorddwisg, swyddwisg, nodwisg, nodebwisg, llifrai, dillad gwasanaeth, dillad ammraint.

Ammri, *a.* (an—bri) without honor, without dignity.—Anfri, difri, dianrhydedd, annheilwng.

Ammrith, *a.* (am—brith) variegated or mottled on every side.—Brith o bobtu, cylchfrith.

Ammriw, *a.* (an—briw) without a cut or break; without a wound.—Diarcholl, didoriad, diglwyf.

Ammriwadwy, *a.* invulnerable; that cannot be wounded.—Anarcholladwy, anghlwyfadwy, anhyfriw.

Ammrod, au, *a.* (am—brod) a braid, a knot.—Pleth, cwlm.

Ac ammrod hardd o flodau—and a beautiful braid of flowers.

Am dal y ferch ſwynserch fau - around the forehead of my kindly affectionate maid. *H. Swrdwal.*

Ammroddol, *a.* (ammrawdd) ambiguous; circumlocutory, periphrastic.—Amwys; ameiriog, cylchymadroddol.

Ammrwd, *a.* (an—brwd) unheated, unboiled; crude.—Ammerwedig, cleuar, clauar; crai, anaddfed.

Ammrwyd, au, *s.* (am—brwyd) a lace border, a fringe.—Amaerwy, ymylwe. *Ls. M.*

Ammrwys, *s.* (am — brwys; Gr. *ambrosia*, from *a—brotos*) ambrosia; the food of the gods, according to the ancient Greek mythology; whatever is very pleasing to the taste or smell; a genus of plants belonging to the order Compositæ. — Amrwysai; bwyd y duwiau yn ol hen chwedloniaeth y Groegiaid; melusbeth; tylwyth o blanhigion perthynol i lwyth y Cyssoddolion.

Ammrwysai, *s.* ambrosia.=Ammrys.

Ammrwysaidd, *a.* ambrosiac; having the qualities of ambrosia.—Ammrwysog.

Ammrwysg, *a.* (an—brwysg) not inebriated.—Anfeddwol, ammadronol, difrwysg.

Ammrwysgedd, *s.* sobriety, soberness. — Difrwysgedd, anniodgarwch; sobrwydd; cymedroldeb.

Ammrwysog, } *a.* (ammrwys) ambrosial; par-
Ammrwysol, } taking of the nature or qualities of ambrosia; fragrant.—Ammrwysaidd; peraroglaidd, aroglber, persawrus.

Ammrydaidd, *a.* (ammrwd) unfervid; not ardent.—Anwresaidd, annherwyn, annhwymaidd, ammrwdfrydig.

Ammrydedd, *s.* want of being heated; crudity; rawness. — Ammhoethiant; creider, ofder; garwedd.

Ammuriaeth, au, *s.* (am—mur) an immuring. —Amgaeriad.

Ammuriant, nau, *s.* circumvallation. — Amglawdd, amgloddiant, amgaer, amgaeriad.

Ammuriedig, *a.* circummured; encompassed with a wall.—Amfuriedig, cylchfuriedig, amgaerog, amgadarn.

Ammurio, ia, *v. a.* to immure; to inclose within walls; to shut up; to confine; to wall.—Amfurio, amgaeru; cau o fewn muriau; caethiwo; murio, gwalio.

Ammwlch, *a.* (an—bwlch) having no breach or notch.—Difwlch, didoriad, diagen.

Ammwlch, ylchau, *s.* (am—bwlch) an opening on all sides; opportunity. — Cylchagoriad; cyfleusdra, arfod.

Ni throaf yn fy ammwlch—I will not turn in my opportunity. *D.*

Ammwyth, on, *s.* (am—mwyth) a carousal. — Cyfeddach, gloddest, wttres.

Ammynedd,† au, *s.* (am—mynedd: *mynedd is* not to be found in the dictionaries: it might come from *myn*, but most likely from *mwyn*) patience.=Amynedd.

Gweddw pwyll heb ammynedd—reason is destitute without patience. *D.*

Ammyneddgar,† *a.* long-suffering, patient.= Amyneddgar.

Ammyneddgarwch,† *s.* long-sufferance.=Amyneddgarwch.

Ammyneddus,† *a.* patient.=Amyneddus.

Ammyrlymiad, au, *s.* (an—byrlymu or bwrlymu) ineffervescence.—Annyferwad, annyfrydiad ammrydiad, anferwad.

Amnad,† *a.* (am—nad) keeping off on all sides. —Diommedd (*G. T.*); dim (*T. W.*).

Amnad, *a.* (am—nâd) that proclaims all about.

Amgyhoeddol, amlefol.

Awen amnad—the proclaiming muse.

Amnaddiad, au, *s.* (am—naddu) circumrasion; the act of shaving or paring round.—Amrasgliad; ameilliad.

Amnaid, neidiau, *s.* (am—naid) a sign made with the head or hand; a beck; a nod.—Awgrym, munud; amnaid pen, awgrym pen.

Amnawdd, *a.* (am—nawdd) defending on every sides; protected on all sides.—Cylchddiffynol, amddiffynol.

Amneidiad, au, *s.* (amnaid) a beckoning.—Awgrymiad, munudiad.

Amneidio â llygad—nictation; the act of winking.

Amneidio, ia, *v. a.* to beckon, to nod.—Awgrymu, munudio; awgrymu â phen, penogwyddo, penoblygu.

Amneidio â llygad—to nictate, to wink.

Amneidio, *a.* beckoning.—Awgrymol, munudiol.

Amner,† au, *s.* (am—ner) a purse.—Alwar, pwrs, pwtner; balleg, cod.

Amneru, a, *v. a.* to purse.—Alwaru, pyrsu; rhoddi mewn pwrs.

Amnerydd,† on, *s.* a purser.—Alwerydd, pwtnerydd, pyrswr.

Amneryn, au, *s. dim.* a little purse.—Alweryn, pyrsyn.

Amnewid, *v. a.* (am—newid) to barter, to commute. — Nwyddnewid, cyfnewid; ffeirio, cyfwerthu.

Amnewid, iau, *s.* a commutation.—Cydnewid, newidwriaeth.

Amnewidiad, au, *s.* a commutation, an alteration.—Cyfnewidiad, cydnewidiad; ffeiriad.

Amnewidiaeth, au, *s. f.* a change; exchange.—Newidwriaeth, newidiadaeth.

Amnewidio, ia, *v. a.* to commute, to barter.—Amnewid.

Amnewidiol, *a.* commutative; interchangeable.—Cydnewidiol, cydgyfnewidiol, cylchgyfnewidiol.

Amnewidiwr, wyr, *s.* a barterer.—Nwyddnewidiwr; cyfnewidiwr, ffeiriwr, cyngwerthydd.

Amnhêdd, *v. a.* (am—tedd? is it not from am—dy—hedd,—the *d* in *dy* changing to *n*?) to beseech, to intreat earnestly.—Attolygu, erfyn, deisyf, dymuno, ymbil.

Amnhwyth,† au, *s.* (am—twyth) elastic on all sides; forcing every way.—Amystwyth; amyriad, amwthiad.

Drud afrdwyth amnhwyth amnifer—bold his rising passion overwhelming all. *C.*

Amnifer, oedd, *s.* (am—nifer) an uneven or odd number; innumerablness; an aliquant number.—Anghynnifer; aneirifedd, afrifedd; anghydrif, amrif.

Amniferedd, au, *s.* imparity, oddness.—Anghynniferedd, anniferedd; anghyfathrwydd, odrwydd.

Amniferog, *a.* uneven in number; abounding in number; innumerable.—Anghydrif, anghynniferog; aneirif.

Ar wyneb neuadd yn amniferog nerth Rodri—ranged in the hall innumerably were the power of Rodri. *Meil.*

Amniferogrwydd, *s.* inequality; oddness.—Anghyfartalrwydd; anghynniferwch, angnodrwydd.

Amniferol, *a.* innumerable.—Afrifed, annifeiriol, afrifadwy, dirifedi.

Amniferwch, *s.* imparity, unevenness of number.—Anniferwch, anniferedd, anghynniferwch; annifeirioldeb.

Amnod, au, *s.* (am—nod) a mark; a token by which any thing is known.—Arwydd, marc, nod, arwyddnod, amlygyn, arnod.

Amnodedig, *a.* marked on all sides.—Arnodedig, cylchnodol.

Amnodi, a, *v. a.* to mark about.—Arnodi, cylchnodi.

Amnodiad, au, *s.* a marking.—Cylchnodiad, arnodiad.

Amnoddedig, *a.* (amnawdd) on all sides protected.—Cylchnoddedig, arnoddedig; amgaeredig.

Amnoddi, a, *v. a.* to protect on all sides.—Damnoddi, cylchnoddi; amgaeru.

Amnoddiad, au, *s.* a protecting on all sides.—Arnoddiad, damnoddiad, cylchnoddiad; amgaeriad, caerofyddiad.

Amnoddiant, iannau, *s.* protection on every side.—Arnoddiant; amgaeriant.

Amnoddog, *a.* protected on every side; fortified on all sides.—Arnoddog; amgaerog, amgadarn, amnawdd.

Amnoeth, *a.* (am—noeth) naked on every side.—Arnoeth, damnoeth; gornoeth.

Amnoethain,† *a.* exposed on every side.—Dynoethain, dynoethedig.

Amnoethain yng ngwarthaf naint—exposed on all sides on the summit of the cliff. *Meig.*

Amnoethaint,† *s.* a denuded state.—Cylchnoethiant, damnoethiant.

Amnoethi, a, *v. a.* to denudate.—Darnoethi, damnoethi, dihatru.

Amnoethiad, au, *s.* denudation.—Darnoethiad, dynoethiad, dattuddiad.

Amnoethiant, *s.* denudation.—Damnoethiant.

Amnwyth, au, *s.* (am—nwyth) pleasantry.—Digrifwch, cellwair; hoywedd.

Amnwythig, *a.* lively on all sides.—Amhawntus, amarialus, amhoenus.

Blaidd aerflawdd, amnawdd amnwythig—a wolf, nimble for slaughter, protecting, and spreading mirth around. *C.*

Amnyddiad, au, *s.* (amnyddu) a twining around.—Amdroad, amdorchiad, amddyrwyniad.

Amnyddol, *a.* entwining round.—Amddyrwynol, amdroawl.

Amnyddu, a, *v. a.* (am—nyddu) to twine about, to wrest.—Cordeddu; nydd-droi, nyddu.

Amobr, au, *s.* (am—gobr; am—gwobr) a commutation fee; the act of giving one thing for another.—Amobrwy, gwobrwy, gwobr, dobr, dobrwy; maelobr; cynnysgaeth a rhodd (*Gen.* xxxiv. 12).

Amobrwy, on, *s.* a commutation fee.=Amobr.

Amobrwyad, au, *s.* a commuting or giving an equivalent for.—Amnewidiad; pridwerth.

Amobrwyo, a, *v. a.* to commute.—Amnewidio; rhyddobrwyo, rhyddbrynu.

Amobrwyol, *a.* commutative.—Cydnewidiol, amnewidiol.

Amobrydd, ion, *s.* a commutator; a collector, a collector of fines of commutation.—Amnewidiwr; casglydd, tollur, cyllidwr, ceisiad, cynnulludd.

Mesur cwyn Madog ap Llywelyn, amobrydd i Harri Frenin Lloegr—the complaint of Madog ap Llywelyn, collector of the commutation to Henry king of England. *C. C.*

Amobryddiaeth, *s.* collectorship; the office of a collector of customs or taxes.—Cyllidyddiaeth, tolluriaeth; swydd amobrydd.

Amofod, au, *s.* (am—gofod) an exergue: a little space around or without the figures of a medal.—Cylchofod: y gwagle bychan o amgylch y lluniau ar fathodyn.

Amogawr,† orau, *s.* (am—gogawr) a shelter or protection on every side.—Amnoddiant, amgaeriad; ymogawr; "ty annedd." *T. J. Ll.*

Amonglig, } *a.* (am—ongl) polygonal.—Amry-
Amonglog, } onglog, amlonglog, amlochrog.

Amolwg, ygon, *s.* (am—golwg) a circular view; periscope.—Cylcholwg, ambaith; golwg gyffredinol, golwg gynnwysfawr.

Amolygol, *a.* periscopic; viewing on all sides.—Ambeithiol; amadrychol; yn taflu golwg ymhob ffordd.

Amollid,† au, *s. f.* (a—moll, from *mwll*) cheering warmth.—Arfoll, croesaw.

Ni mag nag neges amollid—a kind inviting message will not create a denial. *P. M.*

Amor, au, *s*, (am—or) a border, a rim, a limit.—Goror, ymyl, ffin, terfyn.

Amorchudd, ion, *s.* (am—gorchudd) a cover on all sides; an overwhelming.—Amdo, amgudd, amwisg; gorchuddiad.

Amorchuddiad, au, *s.* a covering all round.—Amdoad, amhuliad, amgysgod.

Amorchuddio, ia, *v. a.* to cover all about.—Amguddio, amdoi, amwisgo, amhuddo.

Amorchuddiol, *a.* covering on every side.—Amguddiol, amgysgodol.

Amorestig, *a.* (am—gorest) open or waste on every side.—Agored neu ddiffaeth o bobtu.

Ymmrwystir amorestig, } in the luxuriant
Y can hoff organ o'i phig, } and on all sides
open land; she emits from her beak the
favorite strains of the organ. *I. G. I. Ll.*

Amorweddol, *a.* (am—gorwedd) circumjacent. —Cylchorweddol; ar orwedd o amgylch; amgyffiniol, amminiog.

Amosglog, *a.* (am—osgl) penninerved: a term in botany applied to leaves with a midrib, branched on either side.—Pinwythïog.

Amosgre,† on, *s. f.* (am- osgre? *osgre* is not in P's—is it derived from *ysgre*?) opportunity. —Arfod, cyfleusdra.

Tair amosgre pob peth; amser, lle, a rhyw. —the three opportunities of all things; time, place, and kind. *Tri.*

Amp, au, *s. r.* calmness, serenity; pleasantness. —Arafwch, gwarineb; areuledd; sirioldeb. Cyfeiria'r Dr. D. at *Wmp* fel gair cyfystyr.

Ampwy,† *a.* calm, gentle, pleasant, lovely.—Tawel, llariaidd, gwâr, canllaid. Tybia R. ei fod yn gyfystyr â *Mympwy*.

Amrafael, ion, *s.* (am—rhy—gafael) contention, strife, variance, quarrel, debate.—Ymrafael, ymryson, cynnhen, cweryl, dadl, ffrwgwd, ymgiprys.

Amrafael, *a.* (amryw—mal) divers, sundry.—Amryfal, amryw, amrywiol, llawer, aml.

Amrafael fanau—Sundry places. *Ll. G.*

Amrafaelgar, *a.* quarrelsome. — Ymrafaelgar, cwerylgar, achwyngar, tuchanllyd.

Amrafaelgarwch, *s.* quarrelsomeness, contentiousness. — Cwerylgarwch, achwyngarwch, cwyngarwch, tuchanusrwydd.

Amrafaeliad, au, *s.* a quarrelling.—Cweryliad, achwyniad, ymrafaeliad.

Amrafaelio, ia, *v. a.* to contend, to strive, to debate.—Amryson, cwerylu, ymryson; dadleu, cystadlu, ymrafaelio.

Amrafaeliwr, wyr, *s.* a quarreller.—Cwerylwr, ymrysonwr, ymdrechydd, ornestwr, ymrafaeliwr.

Amrafaelus, *a.* quarrelling, quarrelsome.—Cwerylus, ymrafaelus, croes, gwrthdarawol.

Amrain, reiniau, *s.* (am—rhain) marsh pennywort, white-rot; pennywort.—Toddaid wen, toddedig wen, cron y gweunydd, dail y gron lleiaf, llys y geiniog, llysiau'r geiniog, ceinioglys.

Amrain dyfrdrig—floating white-rot.

Amran, au, *s. f.* (am—rhan) a circular division. —Cylchran, amgylchran.

Amraniad, au, *s.* a dividing round.—Cylchraniad, amgylchraniad.

Amranol, *a.* dividing round.—Cylchranol.

Amrant, au, rannau, *s.* (am—gran; Arm. *abrant*; C. *abrans*) the eyelid, the eyelash; an instant.—Clawr y llygad, clawr llygad, cauad y llygad, gail; tarawiad llygad; tremiad.

D' *amrannau* heb gau ga'd—thy eyelids have been found unclosed. *G. G.*

Amrant llygad—eyelid.

Amrantaidd, *a.* ciliary; belonging to eyelids.—Geilaidd, amrantol.

Amrantflew, *s. pl.* (amrant—blew) eyelash; the line of hair that edges the eyelid.—Geilflew, blew yr amrantau, blew amrant.

Amrantflewog, *a.* ciliated: a term in botany.—Geilflewog, aelflewog: gair mewn llysieuaeth.

Amrantgryd, *s.* (amrant—cryd) cilosis, cillosis; a spasmotic trembling of the eyelid.—Geilgryd, geilwyneg.

Amrantiad, au, *s.* (amrant) a wink, a twinkle, a twinkling; a motion of the eye; an instant.—Tarawiad amrant, ysmiciad, ysmigwingciad; cythrum, munydyn.

Amrantol, *a.* ciliary.—Amrantaidd.

Amrantu, a, *a. v.* to wink. to blink.—Ysmicio, ysmician, llygadgamu, gwingcio; amneidio â llygad.

Amrantu ar un—to wink at one, to tip one the wink.

Amrantwr, wyr, } *s.* a winker; one who winks.
Amrantydd, ion, } —Gwingciwr, llygadgamwr, ysmiciwr llygad.

Amrantun, au, *s.* (amrant—hun) a nap, a doze, a short sleep, a wink of sleep.—Amrentun, hun, hunell, cyntun, hunyn; dargwsg, darlun.

Ni chysgais i amrantun heno—I have not slept a wink all night.

Amra·tuno, a, *v. a.* to slumber; to take a nap. —Cyntuno, hepian, gogysgu, dargysgu, lledgysgu, darhun; cymmeryd hun.

Ym mron tân 'r amrantunai—he slumbered by the fire side. *L. M.*

Amranu, a, *v. a.* (amran) to divide round; to dilate.—Cylchranu, ambarthu.

Amranwen, *s. f.* (amran—gwen) the whitewort, the wild chamomile, the may-weed.—Bronwen, camri gwyllt.

Amranwen Elen Lueddog—Spignel, meu, meum, bald-money.—Ffenigl Elen Lueddog.

Amrasgliad, *s.* au, (am—rhasglu) circimrasion; the act of shaving or paring round.—Amnaddiad, ameilliad.

Amrawdd, roddion, *s.* (am—rhawdd) a discourse, conversation.—Ymadrodd, ymddiddan, cydymddiddan, siarad, cydsiarad.

Hawdd amrawdd—an easy conversation.

Amreain, *v.* (am—rhe) to run about.—Rhedeg o amgylch, damredeg.

Amred, ion, *s.* (am—rhed) a compassing or running about; a circular motion.—Cylchred, amgylchred, cylchrawd.

Myned yn amred.—to become dissipated, diffused, or disseminated.

Amredeg, amred, *v. a.* to run about; to perambulate, to circumambulate.—Rhedeg o amgylch; damredeg, cylchdeithio, amrodio, amdeithio, amdramwy.

Ymborth amred i'r gwledydd—provision circulating round the country. *D. G.*

Amrediad, au, *s.* perambulation.—Amdeithiad, amdramwyad, cylchymdeithiad, amrodiad.

Amrediadon, *s. pl.* the organs of circulation.—Peiriannau amrediad.

Amredol, *a.* running about; ambulatory, circumambient.—Yn rhedeg o amgylch; amdramwyol, amrodiol, amgylchynol.

Amredoldeb, *s.* circumambiency, the act of encompassing; perambulation.—Amgylcholdeb, amgylchynoldeb, amgylcholrwydd, amgylchyniad, amdramwyad.

Amredu, a, *v. a.* to imitate, to counterfeit.—Efelychu, dynwared, efelyddu, eilfyddu, tebygu, arddullio.

Amredydd, ion, *s.* a mimic; one that skips about; a harlequin.—Dynwaredwr, munuddiwr, ystumiwr, mydumiwr; ysgentyn.

Amrefder, *s.* (am—rhefder) bigness about.—Praffder, breisgedd, rhefder.

Amreilio, ia, *v. a.* (am—rhail) to rail; to inclose with rails or palisades; to impale.—

Amgledru, cylchreilio, cylchgledru, rheilgan, amgau â chledr; ambolioni, cylchgan.

Amrentyn, *s. dim.* (amrant) the eyelid half shut, a dozing, a wink.—Amrantun, darhuniad, cyntun, gogygiad.

Amres, i, *s.* (am—rhes) a border.—Cylchwy.

Amresymeg, *s. f.* (am—rheswm) logic; reasoning; the science and art of reasoning.—Rhesymeg, arbwylleg, arbwylleb; rhesymegyddiaeth, dadlyddiaeth: Y wyddor a'r gelfyddyd o ymresymu.

Amresymiad, au, *s.* a reasoning; conversation.—Ymresymiad, rhesymiad, cymmhwylliad; cydymddiddan. [reasoning.

Amresymiad arweinddadl — a posteriori

Amresymiad difynddadl—a priori reasoning. See Ymresymu.

Amresymu, a, *v. a.* to reason; to examine by argument, to debate.—Ymresymu, rhesymu; dadlu.

Amrif, *s.* (am—rhif) aliquant number.—Amnifer, anghydrif.

Amrifebion, *s. pl.* circular numbers.—Cylchrifau, cylchrifnodau.

Amrifol, *a.* aliquant.=Anghydrifol.

Amrill, ian, *s.* (am—rhill) a border, edging.—Ymylwaith, cylchwy, rhidens. *Le. M.*

Amrith, *a.* (am—rhith) of various kinds or appearances.—Edrith, amrywedd.

Pob amryw amrith bobloedd—every sort of people of various appearances. *E. P.*

Amrith, ion, *s.* variable appearance.—Edrith, eddrith, gwedd newidiol.

Amrithder, au, *s.* variegation.—Darfrithder, amliwder, amryfeilder.

Amrithiad, au, *s.* a variegating.—Amryweddiad, darbrithiad, amryfeiliad.

Amrithiadur, on, *s.* phantascope.—Edrithiadur.

Amrithio, ia, *v. a.* to variegate or diversify the appearance.—Edrithio, amryweddu, amryfalu.

Amrod, au, *s.* (am—rhod) a circumvolution; peritrochium.—Amchwyl, amdro, chwyldro, amdraill, amdreigl; amdroell.

Meddylia amrod yr wybren—ponder the revolution of the firmament. *Cyng.*

Amrodfa, feydd, *s. f.* (am—rhodfa) an ambulatory.—Cylchrodfa, rhodfa.

Amrodi, a, *v. a.* to revolve, to circumvolve.—Amdreiglo, amdreillio, cylchdroi, chwyldroi, amchwylo, amrolio.

Amrodiad, au, *s.* (am—rhodio) circumambulation, chambulation; periphery.—Cylchrodiad, amdramwyad, amdreighiad, amdroad; amgylchedd, dargylchiad.

Amrodiad, iaid, *s.* peripatetic.=Amrodiadur.

Amrodiadol, *a.* circumrotary, circumrotatory; turning or whirling round—Amdroawl, cylchdroawl, amroliadol, amdreigliadol, chwyldroawl.

Amrodiadur, on, *s.* a peripatetic (a follower of Aristotle, so called from the walks in the Lyceum where Aristotle taught); a great walker.—Amrodiwr, amrodienydd, amrodiedydd, amrodiad, damrodiwr (dilynwr Aristotel, a elwir fally oddi wrth y rhodfeydd yn y Ddysgeidfa lle yr arferai Aristotel ddysgu); dargrwydriad.

Amrodiaeth, au, *s.* peripatetism; the doctrine of the Peripatetics.—Damrodiaeth, dargrwydriaeth; Periphateticiaeth; athrawiaeth y Peripateticiaid.

Amrodiana, *v.* to walk about; to obambulate.†—Rhodiaw o amgylch, amrodio, amgerdded.

Amrodianol, *a.* peripatetic, walking about.—Amrodiol, damrodianol, amgrwydrol, amgerddol.

Amrodiedydd, ion, *s.* a peripatetic.=Amrodiadur.

Amrodiena, *v.* to walk about.=Amrodiana.

Amrodio, ia, *v.* to obambulate,† to walk about.—Amrodiana, rhodiaw o amgylch.

Amrodiol, *a.* peripatetic, walking about.—Amrodianol, cylchrodiol.

Amrodiwr, wyr, *s.* a peripatetic.=Amrodiadur.

Amrodol, *a.* (amrod) circumvolutory;† peritropal.—Amdroawl, cylchdroawl, cylchredol.

Amroddi, a, *v. a.* (am—rhodd) to give round; to lavish.—Cylchroddi, damroddi; difrodi.

Amroddiad, au, *s.* a lavishing or distributing on all sides.—Cylchroddiad, cylchraniad; afradloniad.

Amroglaidd, *a.* (am—aroglaidd) fragrant on every side.—Aroglaidd o bobtu; cylcharoglaidd.

Amroliad, au, *s.* (am—rholio) circumgyration; the act of turning or rolling round of any body about a centre.—Amdreigliad, amdreillad, cylchdreigliad, cylchroliad.

Amrolian, *v. a.* to roll or turn round; to circumgrate.†—Amrolio, amdreiglo, amdreillio, cylchdreiglo.

Amrolio, ia, *v. a.* to circumvolve; to put into a circular motion.—Amrolian, amrodi, amdreiglo, amdreillio, chwyldroi, amchwylo; peri cylchdroad.

Amrosgo, *a.* (am—rhy—osgo) unwieldy; vast, large.—Anferth, abrwysgl, anferthol, enfawr, aruthr, gorfawr.

Amrosgöedd, *s.* unwieldiness; vastness.—Anferthedd, gorfawrder, anhylwythedd, dirfawredd.

Amrosgoyw,† *a.* in various directions; unwieldy; diagonal.—Amaruthr; croesymgroes; o gongl i gongl.

Ef a erchis beri gwneuthur dwy ffordd arall yn amrosgoyw, croesymgroes—he commanded to be made two other roads in various directions, traversing one another. *Gr. A.*

Yr ysgwyd amrosgoyw—the shield of divers motions. *I. G.*

Amrudd, *a.* (am—rhudd) redstained.=Amgoch.

Amrwbiad, au, *s.* (am—rhwbio) circumrasion;† the act of rubbing round.—Cylchrwbiad.

Amrwth, *a.* (am—rhwth) yawning or opening on all sides.—Amystwyrol, cylchrwth.

Amrwydo, a, *v. a.* (am—rhwyd) to entangle round.—Cylchrwydo, amfaglu, cylchfaglu.

Amrwydd, *a.* (am—rhwydd) free of course every way.—Cylchrwydd.

Amrwyg, *a.* (am—rhwyg) rending on every side.—Cylchrwyg.

Amrwygiad, au, *s.* a tearing all round; dilapidation.—Cylchrwygiad, amddrylliad.

Amrwygo, a, *v. a.* to tear round.—Amddryllio, amddarnio, cylchrwygo.

Amrwygol, *a.* tearing on all sides.—Amddarniol, cylchrwygol.

Amrwym, au, *s.* (am—rhwym) a bandage.—Amrwymyn, cyfrwym, rhefog, rhwymyn.

Amrwymedig, *a.* bound with a fillet or bandage; fascisted.—Rhwymedig â ffunen neu rwymyn; ffasedig.

Amrwymiad, au, *s.* a tying or binding round; fasciation.—Amglymiad, cylchrwymiad; cyfrwymiad, rhwymiad; ffasgiad, ffasgelliad.

Amrwymo, a, *v. a.* to bind round about.—Amglymu, cylchrwymo; rhwymaw o amgylch ogylch; rhwymo am.

Amrwymyn, au, *s.* a bandage, fasciation.—Cyfrwymyn, amrwym, rhwymyn; amrwymiad.

Amrwyog, *a.* (am—rhwy) annulated, annulate; furnished with many rings or circles like rings; having belts.—Modrwyog, cylchrwyog; modrwyedig.

Milod amrwyog—annulated animals; ringbodied animals.

Amrwyolion, *s. pl.* (am—rhwyol) annulosans.—Rhwyfilod, rhwyolion.

Amryallu, *a.* (amryw—gallu) multipotent.—Amrynerth, amlalluog; lliosrym.

Amrybar, *a.* (amryw—par) multijugous; consisting of many pairs.—Amlieuog, lliosbar; yn cynnwys amryw barau.

Amrybarth, *a.* (amryw—parth) many-parted, multifid; partide.—Amlbarthog, lliosbarth, lliosranog; parthedig, rhanedig.

Amrybed, *s.* (amryw—ped) multipede; polypode; an insect that has many feet.—Lliosdroed, amldroed, lliosbed; trychfilyn âg aml draed iddo.

Amrybed, *a.* multipede, having many feet.—Amldroediog, lliosdroed.

Amrybedog, *s.* multiped, polypous, many-footed.—Amrybed, amldroediog, amldroed.

Amrybedogion, } *s. pl.* pœcilipoda; class of
Amrybedogod, } crustacea.—Llwyth o greston.

Amryben, *a.* (amryw—pen) many-headed; having many heads.—Amlbeniog amrybeniog; â llawer o benau iddo.

Amrybenfil, od, *s.* (amryw—penfil) the hydra.=Ambenfil.

Amrybeniog, *a.* (amryben) many-headed.=Amryben.

Amryblith, *a.* (amryw—plith) mixed, promiscuous.—Brithedig, cymmysg; traphlith, blith draphlith.

Amryblith dorf—a mixed crowd.

Amryblyg, *a.* (amryw—plyg) multifold, multiplex; voluminous.—Lliosblyg, amlblyg; amlran, amlranog.

Amryblygedd, *s.* voluminousness; the state of being bulky or in many volumes.—Amlranogrwydd, amlblygedd; tewblygedd, amrylyfr; cyfrologrwydd.

Amrybobl, *a.* (amryw—pobl) many-peopled; having a numerous population.—Amrybobliog, amlboblog, poblog; â llawer o bobl ynddo neu ynddi.

Amryboblog, *a.* many-peopled.=Amrybobl.

Amrybriod, *s.* (amryw—priod) polygam, polygamian.—Amrybriodol, llysieuyn amrybriod, planhigyn amrybriodol.

Amrybriod, } *a.* polygamian, polygamous.—
Amrybriodol, } Amlbriodol, amlbriod.

Amrychydig, *a.* (amryw—ychydig) polymicrian, comprehensive.—Yn cynnwys llawer mewn ychydig; byr a chynnwysfawr; cynnwysfawr.

Amrydant, *a.* (amryw—tant) polychord; having many chords or strings.—Ag amryw dannau iddo.

Amrydant, *s.* polychord; a bow instrument with ten strings.—Math ar offeryn cerdd degant.

Amrydon, *a.* (amryw—tôn) many-toned; giving many sounds.—Amryseiniog, amrylef, amrylais, amlseiniog, amrysain, lliossain.

Amrydraeth, *a.* (amryw—traeth) diversiloquent; speaking in different ways.—Amrydraith, amrylef, amrylais, amrylafar.

Amrydraith, *a.* (amryw—traith) diversiloquent.=Amrydraeth.

Amrydreigl, *a.* (amryw—treigl) heteroclite, heteroclitic; irregular, anomalous.—Amgendreigl, anhydreigl; afreolaidd, direol.

Amrydreigl, iaid, *s.* heteroclite; a noun irregular in declension; any thing irregular.—Enw amrydreigl, gair amrydreigl, amrydreiglair, amrydreiglyn, anhydreigliad, enw afreol; unrhyw beth afreolaidd.

Amrydreiglair, *s.* (amryw—treiglair) heteroclite.=Amrydreigl.

Amrydreigliad, au, iaid, *s.* (amrydreigl) a variety of declensions, heteroclite.=Amrydreigl, amrydreiglair.

Amrydrumain, *a.* (amryw—trum) multicarinate.—Amrydrumiog.

Amrydrumiog, *a.* multicarinate.=Amrydrumain.

Amrydwll, *a.* (amryw—twll) full of holes; foraminous, multicavous; porous.—Amdwll, trydyllog, tyllog, amrydyllog, mandyllog, amlgeuog, chwysdyllog.

Amrydyb, iau, ion, *s.* (amryw—tyb) a paradox; a seeming contradiction; an assertion contrary to appearance.—Amgendyb, anghyttyb, anghyfdyb; daliad anhydyb neu anhygoel; haeriad croes i ymddangosiad.

Amrydyb awsafol—hydrostatic paradox.

Amrydyb gallofyddol—mechanical paradox.

Amrydybiol, *a.* paradoxical; having the nature of a paradox; inclined to tenets or notions contrary to received opinions.—Anhydyb, anghyfdybiol, anghyfdybus, amgendybiol; tueddol at dybiau neu syniadau croes i'r farn gyffredin.

Amrydybioldeb, *s.* paradoxicalness; the state of being paradoxical.—Amrydybiolrwydd, anhydybrwydd, anhydybedd, anghyfdybusrwydd.

Amrydybiolrwydd, *s.* paradoxicalness.=Amrydybioldeb.

Amrydylledd, *s.* (amrydwll) porosity; the quality or state of having pores or interstices.—Tyllogrwydd; mandyllogrwydd; chwysdyllogrwydd.

Amrydyllog, *a.* porous; having small pores or spiracles.—Amrydwll, tyllog; mandyllog; chwysdyllog.

Amryddail, *a.* (amryw—dail) many-leaved, polyphyllous.—Amryddeiliog, amlddeiliog, amlddalenog, lliosddalenog.

Amryddaint, *a.* (amryw—daint) multidentate; having many teeth.—Amryddeintiog, amlddeintiog, amlddanneddog.

Amryddarn, *a.* (amryw—darn) of various pieces; inlaid.—Amrywaith; brithosodedig; hulgoediog.

Amryddawn, *a.* (amryw—dawn) versatile; readily applied to a new task or to various subjects; turning with ease from one thing to another.—Hyfder, hyddysg; amrywiog ei ddawn; hawdd ganddo droi at y peth a fyner; hydro; cyfrdwyth.

Amryddeiliog, *a.* (amryddail) many-leaved.=Amryddail.

Amryddeintiog, *a.* (amryddaint) multidentate. = Amryddaint.

Amryddeintogion, *s. pl.* polyodenta: a kind of dentated shells.—Math ar gregyn danneddog.

Amryddoniaeth, *s.* (amryddawn) versatility; the faculty of easily turning one's mind to new tasks or subjects; variableness.—Hŷfedredd, hyddysgrwydd; amryfeiliant.

Amryddoniog, *a.* of various acquirements. = Amryddawn.

Amryddull, *a.* (amryw—dull) multiform; various. — Amrylun, amrywedd, amddull, amlwedd, amlddull, amryffurf; amryfath, amryw.

Amryddulledd, *s.* multiformity; diversity of forms; variety of shapes or appearances in the same thing.—Amrylunedd, llioslunedd, amryweddrwydd.

Amrydduw, *a.* (amryw — duw) polytheistic; holding a plurality of gods.—Amldduwiaeth-ol; yn dal amryw dduwiau.

Amrydduwiad, iaid, *s.* polytheist: a person who believes in or maintains the doctrine of a plurality of gods.—Amldduwiad, amldduwydd; un yn credu mewn amldduwiaeth neu yn dal yr athrawiaeth hòno.

Amrydduwiaeth, *s. f.* polytheism.—Amldduw-[iaeth.

Amryddygell, au, *s. f.* (amryw—dy—cell) polyphore: a fleshy receptacle with numerous ovaries (a term in botany).—Derbynfa gigog âg amryw rithfaoedd iddi (gair perthynol i lysieuaeth).

Amryddysg, *s.* (amryw—dysg) polymathy; the knowledge of many arts and sciences. - Amlwybodaeth, amlddysg; gwybodaeth o lawer o wyddorau a chelfyddydau.

Amryddysgol, *a.* polymathic; pertaining to polymathy. — Amlddysgol; perthynol i amryddysg; dysgedig mewn llawer o bethau.

Amryfal, *a.* (amryw - mal) divers, sundry, heterogeneous.— Amryw, amrywiol, amryfath; llawer, aml; amryfeilryw, allryw.

Amryfaledig, *a.* diversified, varied.—Amrywiedig, amrywiog, amryfeilus; amrywedd, amryfath.

Amryfaledd, *s.* dissimilitude, diversity, variableness; heterogeneity, heterogeneousness —Amrywiaeth, amryfeiliaeth, gwahaniaeth; allrywiaeth, allryw.

Amryfaliad, au, *s.* a diversifying.—Amrywiad, amgeniad, amryfeiliad.

Amryfalog, ion, *s.* (amryw—balog) multivalve; an animal which has a shell of many valves. —Amrygloryn, creadur lliosgaffell, milyn amrygaffell.

Amryfalu, a, *v. a.* (amryfal) to vary, to diversify.—Amrywio, amrywioli, amgenu.

Amryfarn, au, *s.* (amryw—barn) disopinion; dissent.—Amrydyb, amrywiaeth barn; gwahandyb.

Amryfath, *a.* (amryw — math) multifarious; miscellaneous; polygenous. — Amryw, amlryw, amrywedd, amryddull, amryfodd; cymmysg.

Amryfawl, *a.* (am — rhyf) haughty, arrogant, proud.—Trahaus, sarhaus, ffroenuchel, balch, tordyn, gorhydrus.

Amryfeilawdl, odlau, *s. f.* (amryfal—awdl) polyrhythm; diversity of rhymes.— Amryfyfydr, amryfesur.

Amryfeilhyd, *a.* (amryfal — hyd) of various lengths.—O amryw hyd.

Amryfeiliad, au, *s.* (amryfal) variation.—Amrywiad, amryfaliad, amryfeiliant; newid.

Amryfeiliaeth, au, *s.* difference, variegation. —Amrywiaeth, amrywiogaeth, amrywiolaeth; amryliwiad, darfrithiad.

Amryfeiliant, iannau, *s.* diversity, difference, variety.— Amrywiant, amryfaledd, gwahaniaeth.

Amryfeilion, *s. pl.* sundries: several small things or miscellaneous matters.—Amrywion, amrywolion, amryw fân bethau; manion.

Amryfeilryw, *a.* (amryfal—rhyw) heterogeneous, heterogeneal; of another kind. — Allryw, arallryw, allrywiol, brithrywiol.

Amryfeilwedd, *a.* (amryfal—gwedd) multiform. —Amryddull, amryffurf, amrylun, amlwedd.

Amryfelu, a, *v. a.* (amryfal) to damask; to variegate, to diversify.—Fflurioni; amrywioli, neillio.

Amryfiad, † au, *s.* (am—rhyf) excessiveness.— Gormodedd, gormodoldeb.

Amryfigfaen, fain, *s.* (amryw—mig—maen) polymnite.—Amrygorsfaen.

Amryflodeuddail, *a.* (amryw — blodeuddail) polypetalous.—Amryffiurddail.

Amryflodeuog, *a.* (amryw—blodau) multiflorous, many-flowered. — Amlwulliog, amryffiurog, amlflodeuog.

Amryfodd, *a.* (amryw—modd) of divers manners or forms; multitudinous, multifarious. —Llioswedd, amryfath, amrywedd, amryddull.

Amryfoldeb, *s.* (amryfawl) haughtiness, arrogance, presumption, excessiveness.—Trahauster, balchder, amryfoldeb, rhyfyg, gormodedd.

Amryfolder, *s.* haughtiness.=Amryfoldeb.

Amryfu, a, *v. a.* (am—rhyf) to arrogate, to presume; to boast.—Rhyfygu, rhydresu, cymmyreddu, hòni, hunanu.

Amryfus, *a.* excessive, arrogant, erroneous. —Trahaus, uchelfrydig, rhyfygus, rhodresgar, hunanol.

Amryfusedd, au, *s.* excess; oversight; a falling out. — Gormodedd, rhysedd, arddigonedd; camsyniad, camgymmeriad, bai, cwympiad ymaith.

Amryfuseddu, a, *v. a.* to commit an excess.— Rhyseddu, camsynio; cwympo allan.

Amryfuso, a, *v. a.* to exceed the bounds.=Amryfuseddu.

Amryfwyd, ydd, *s.* (amryw—bwyd) a variety of viands; collation, many viands.—Cyfluniaeth, ad-wledd, adfaeth, cynarmaeth, arlwy, ymborth.

Amryfydr, au, *s.* (amryw—mydr) diversity of rhymes.=Amryfeilawdl.

Amryfygus, *a.* (am—rhyfyg) assuming; arrogating, pretending.— Rhyfygus, edryfygus, cymmyreddus, rhodresgar, trahaus.

Amryfysgem, *s.* (amryw — mysg — gem) polymignite.—Math ar ddelidfaen.

Amryfysgwr, wyr, *s.* (amryw—mysg—gwr) a jumbler.—Cymmysgwr, cyfysgwr, cydgymmysgydd, mwchlwr.

Amryffiau,† *a.* (amryw—ffiau) very great; vast, huge.— Dirfawr, gorfawr, aruthrol.

Careg amryffiau—a huge stone.

Gwae cybydd a gasgl amryffiau—woe to the miser that hoards much. *G. Y. C.*

Amryffiurddail, *a.* (amryw — ffiurddail) polypetalous.—Amryflodeuddail.

Amryffiurog, *a.* multiflorous, many-flowered.— Amlflodeuog, amlwylliog, amryflodeuog.

Amryffordd, *a.* (amryw — ffordd) multivious; having many ways or roads.—Lliosahynt, lliosdaith; âg iddo amryw ffyrdd.

Amryffrwyth, au, *s.* fruitage; various fruit.—Ffrwythyddiaeth; ffrwythau.

Amryffurf, *a.* (amryw — ffurf) multiform, of sundry fashions; multiversant.—Amryddull, amrylun, amrywedd, amddull, lliosddull; amlagweddog.

Amryffurfiog, *a.* multiform.=Amryffurf.

Amrygaffell, *a.* (amryw—caffell) many-valved, multivalved. — Amryglawr, lliosglawr, amlgaffellog, aml gloriog.

Amrygaffellog, *a.* many-valved.=Amrygaffell.

Amrygan, au, *s. f.* (amryw—cân) rhapsody; a collection of songs or verses joined without natural cohesion.—Amrygerdd, clergan; amrygasgl, cymmysedd; casgliad amryfath o gerddi neu bennillion anghydwedd.

Amrygant, *s.* (am—rhygant) a rim that goes quite round. — Amgant, amgantel, amrimyn.

Amrygant, *a.* surrounded with a wall.—Amgant, amgantol, amgeurol.

A dinas Emrys amrygant—and the city of Emrys surrounded with a wall. *P. M.*

Amryganwr, wyr, *s.* rhapsodist.—Amrygerddwr, ffregodwr, clerwr.

Amrygar, *a.* (am—rhy—câr) greatly beloved on all sides.—Amgar, cylchgarol.

Amrygasgl, *a.* (amryw—casgl) compiled.—Amgasgl, amgasgledig; amgrynhoawl.

Amrygasgl, ion, *s.* a complex.=Amrygasgliad.

Amrygasgliad, au, *s.* a complex, a collection of particulars. — Amrygasgl; cynnulliad, cydgasgliad.

Amrygasglu, a, *v. a.* to compile.—Amgasglu, amgrynhoi, cynnull.

Amrygelf, *a.* (amryw—celf) polytechnic, comprehending many arts.—Amgelfyddol, amrygelfig, amgelfyddydol; yn cynnwys aml gelfyddydau.

Amrygelfeg, *s. f.* polytechnics.—Amlgelfyddiaeth, celfofyddiaeth.

Amrygelfig, } *a.* polytechnic.=Amrygelf.
Amrygelfyddol, }

Amrygell, *a.* (amryw—cell) polythalmous, having many cells, multilocular.—Amlgellog, lliosgell, lliosgellol.

Amrygerddwr, wyr, *s.* (amryw—cerdd) rhapsodist.—Amryganor.

Amrygib, *a.* (amryw—cib) multisiliquous, having many pods or seed vessels.—Amlgibog, amlhadgellog, amlhadgibog, amlgodog, â chanddo amryw hadlestri.

Amrygloryn, au, *s.* (amryw—cloryn) multivalve.=Amryfalog.

Amrygoes, au. *a.* (amryw—coes) many-legged.—Amlgoesog.

Amrygongl, *a.* (amryw—congl) polygonal.—Amlonglog, amrygongl, amrygonglog.

Amrygonglog, *a.* polygonous.—Amryonglog, amlgonglog, amrygongl.

Amrygoll, ion, *s.* (am—rhygoll) perdition, destruction, loss, damage.—Cyfrgoll, distryw, colledigaeth, llwyrgoll; niwed, niwaid.

Amrygolled, ion, *s.* perdition.—Amrygoll, cyfrgoll.

Amrygolli, a, *v.* to be utterly deprived of.—Cyfrgolli, llwyr amddifadu.

Amrygornel, *a.* (amryw—cornel) multangular.—Amlgornel, amlgornelog.

Amrygornelog, *a.* having many corners.—Amrygornel, amrygonglog, âg amryw gorneiau iddo.

Amrygur, on, *s.* (am—rhygur; amryw—cur) torment on all sides, tribulation, affliction; a striking or percussing on all sides.—Amryboen, amartaith; amrygwyn, cymmhelri, dirdr; ymosodiad.

Amrygur i'm hir rwygaw—sundry pangs to lacerate me for a long time. *H. Mack.*

Amryguro, *v. a.* to beat on all sides.—Amlguro, curo ar bob llaw.

Amrygwll, *a.* (amryw—cwll) polygastric, having many stomachs.—Amrygyllaog, yn meddu amryw gyllaon.

Amrygwydd, au, *s.* (amryw—cwydd) a falling divers or several ways.—Amrygwymp.

Amrygwymp, au, *s.* (amryw—cwymp) a falling diversally.—Amrygwydd. amlgwymp.

Amrygwyn, ion, *s.* (am—rhygwyn) a complaint on all sides, tribulation.=Amrasgur, amalgwyn.

Amrygydiad, au, *s.* (amryw—cydio) polysyndeton.=Amlgyssylltеb, amlgyssylltiad.

Amrygyffyriaeth, *s.* (amryw—cyffyr) polypharmacy, medicines of many ingredients.—Amlgyffyriaeth; meddyginiaeth o amryw gyffyriau.

Amrygyllaog, *a.* (amrygwll) polygastric.=Amrygwll.

Amrygyllog, ion, *s.* a polygastric, an animal having many stomachs.—Milyn amrygwll, milyn âg aml gylla iddo.

Amrygymmal, *a.* (amryw—cymmal) multiarticulate.—Amlgymmalog, amlreddog.

Amrygymmysg, *a.* (amryw—cymmysg) complicated, involved, intricate.—Cymmhleth, cymmhlyg, cydblethedig; cymmysgryw, cynghawog, dyrys.

Amrygysgodog, *a.* (amryw—cysgod) inshaded, marked with different shades. — Cysgodog, huddog.

Amrygysswllt, *s.* (amryw—cysswllt) polysyndeton.=Amlgyssylltеb, amlgyssylltiad.

Amryholit, *a.* (amry—holit) having many clefts, multifidous.—Amlholit, âg iddo amryw hollau; lliosbarth, amlbarthog, amrybarth, lliosran.

Amryiaith, *a.* (amryw—iaith) many-languaged, polyglot.—Amliaith, amlieithog, lliosiaith.

Amryieithog, *a.* many-languaged.=Amryiaith.

Amrylafar, *a.* (amryw—llafar) diversiloquent, speaking in different ways.—Amryleſ, amrylais, amrydraeth.

Amrylais, *a.* (amryw—llais) of divers sounds; many voiced, polyphonic.—Amryleſ, amryleisiog; amrysain.

Amrylais gynghanedd—a variety of sounds of consonancy. *Bs.*

Amrylaw, *a.* (amryw—llaw) of several hands; done by several hands.—Amryddwylaw, a wnaed gan amryw ddwylaw.

Amrylawr, *a.* (amryw—llawr) having several floors.—Amrybarth; âg iddo amryw loriau.

Ty amrylawr—a house of several stories.

Amryleſ, *a.* (amryw—lleſ) of many tones; many tones; polyphonic.—Amryseiniog, amseiniog, amrylais, amlseiniog, amrysain, amrydon.

Amryleſ ganiadaeth—a variously toned harmony. *Bs.*

Amryleisiaeth, *s. f.* (amryw—llais) polyphon-

iaeth, polyphony; multiplicity of sounds.—Amlseiniaeth, amryseiniaeth, lliosseiniaeth, amrysain, llawer o seiniau,

Amryleisiog, *a.* polyphonic, many-voiced.—Amrylais, amlseiniog, amryllef, amrysain.

Amryllif, oedd, *s.* (amryw-llif) many floods.—Amryw lifiant.

Amrylin, *a.* (amryw—llin) multilineal, having many lines.—Amrylinell, llioslin amlinellog.

Amrylinell, *a.* multilinear.=Amrylin.

Amryliw, *a.* (amryw—lliw) of divers colors, versicolor.—Amliwiog, amliw; symmudliw, newidliw; ag iddo amryw liwiau.

Amryliwiaeth, *s.* polychromy: the ancient practice of coloring statues, and the exteriors and interiors of buildings.—Amliwiaeth: yr hen arfer o liwio asfluniau a rhanau allanol a mewnol adeiladau.

Amryliwiad, au, *s.* variation of colors; variegation.—Amliwiad, brithiad, darfrithiad.

Amryliwio, is, *v. a.* to variegate colors.—Amliwio, dyfritho, brithweithio.

Amryliwiog, *a.* of many colors.=Amryliw.

Amrylon, *a.* (am—rhylon) surrounded with gladness.—Amlawen; amgylchedig gan lawenydd neu londer.

Amrylun, *a.* (amryw—llun) diversity of forms; multiform.—Amryddull, amrywedd, amryffurf, amddull, amlun.

Amrylunedd, *s.* multiformity; variety of shapes or appearances.—Amryddulledd, llioslunedd, amrywedd rwydd; amrywiaeth ffurf neu wedd.

Amlunio, ia, *v. a.* to diaper, to flower; to variegate.—Gwan yn gaerog neu flodeuog; blodeuo, gwullio; amrywioli, amrywio.

Amryluniog, *a.* diapering.—Caerog, amluniog.

Amrylwyth, } *a.* (amryw—llwyth) many-
Amrylwythog, } tribed.—Aml-lwythog; yn cynnwys aml lwythau.

Amrylyfr, au, *s.* (amryw—llyfr) miscellany; a collection of short literary compositions or extracts.—Cylchgrawn, greal, brithnodach; amrygasgliad.

Amrylyfr, *a.* voluminous; consisting of many volumes of books.—Cyfrolog, tewblyg; amryblyg, amlran.

Amrylygad, *a.* (amryw—llygad) multocular; having many eyes.—Aml-lygeidiog, lliosdrem.

Amrylys, ieu, *s.* (amryw—llys) variety of plants; herbage.—Llysiau, llys; amrywellt, allwest, gwellt y ddaear, porfa.

Amrylythyr, *a.* (amryw—llythyr) pluriliteral, many-lettered.—Aml-lythyrenog; â llawer o lythyrenau ynddo.

Amrynerth, *a.* (amryw—nerth) multipotent; having manifold power.—Amlnerthog, aml, allnog, amryallu; lliosrym.

Amryochr, au, *s.* (amryw—ochr) a polygon.—Dull amlonglog, llun amryongl, amlochr-amryongl, amlongl.

Amryochredd, *s.* the principle of a polygon.—Amryongledd, amlongledd.

Amryochri, a, *v. a.* to make a polygon.—Amlochri, amryongli.

Amryochrog, *a.* polygonal, multilateral.—Amlonglog, amryongl, amrygongl, amrygonglog, amlochrog, amlochr.

Amryongl, au, *s.* (amryw—ongl) a polygon.=Amryochr.

Amryongliaeth, au, *s. f.* polygonometry; the doctrine of polygons; an extension of trigonometry.—Mesuriaeth amlochrau ac amlonglau; athrawiaeth amlonglau; cangiad triongliaeth.

Amryongledd, *s.* the principle of a polygon.=Amryochredd.

Amryongli, a, *v. a.* to make a polygon.=Amryochri.

Amryran, *a.* (amryw—rhan) complicated.—Amlran, amlryw, amryw, lliosryw.

Amryred, *a.* (amryw—rhed) circumforaneus; going about.—Amwibiol, cylchdramwyol, cylchfynedol, crwydredigol.

Amrysain, *a.* (amryw—sain) many-toned, polyphonic.—Amryseiniog, amrylais, amrydon, amryllef, lliossain.

Amrysawdd, *a.* (amryw—sawdd) of divers qualities, of various qualities.—O amryw ansoddau; amlsawdd.

Amrysedd, au, *s.* (am—rhysedd) excess on all sides.—Amlrysedd.

Praff wiber wibiad amrysedd.—the thick serpent with excess of windings. *C.*

Amryseiniaeth, *s. f.* (amrysain) polyphonism; multiplicity of sounds.—Amlseiniaeth, amryleisiaeth, lliosseiniaeth, amrysain.

Amryseiniog, *a.* many-toned, polyphonic.—Amlseiniog, amrysain, amrylais, lliosseiniog.

Amrysgrifiaeth, *s. f.* (amryw—ysgrif) polygraphy; the art of writing in various ciphers and of deciphering them.—Amlysgrifiaeth; y gelfyddyd o ysgrifenu â gwahanol gelnodau ac o'u darllen hwy.

Amrysill, *a.* (amryw—sill) polysyllabic, multisyllable.—Amlsilliog, lliossill, amlsillafog.

Amrysillair, eiriau, *s.* (amrysill—gair) multisyllable, polysyllable.—Amlsillair, amlsill, gair amlsilliog, gair lliossill, gair amrysill.

Amrysilliaid, *s. pl.* (amrysill) polysyllables, multisyllables.—Amlsillau, amrsilliogion.

Amryson, au, *s.* (am—rhyson; amryw—son, *Dr. D.*) a debating, a contending about; contention; strife.—Ymryson, amrafael, ymrafael, anghydfod, cecr, cecraeth, cweryl, cynnhen, gwrthryn; dadl, ymddadleu.

Amryson, *v. a.* to contend; to strive in words; to debate, to quarrel.—Ymryson, ymrafaelio, cecru, cweryla, ymeirio, cywaethlu, cynnhenu; arddadleu, ymddadleu; argymmhenu.

Amrysonol, *a.* contending about.—Ymrysonol, amryfaelus, ymrafaelus, gwrthymdrechol, cyfergydiol.

Amrysongar, *a.* contentious.—Ymrysongar, amrafaelgar, cynnhengar, cwerylgar; dadleugar.

Amrysongarwch, *s.* contentiousness.—Ymrysongarwch, cynnhenusrwydd, amrafaelgarwch, cwerylgarwch.

Amrysoniad, au, *s.* a contending.—Ymdrechiad, ymrysoniad, amrafaeliad.

Amrysonwr, wyr, *s.* a contender.—Ymrysonwr, ymdrechwr, amrafaeliwr, ornestydd, cwerylwr.

Amrysut, *a.* (amryw—sut) polygenous; consisting of many kinds.—Amryfath; o amryw fath neu ryw.

Amrysyllur, on, *s.* (amryw—syllur) polyhedron; polyscope.—Lliosiadur, amrywelwydr; amliadur, amlsyllur, lliosur.

Amryw, *a.* (am—rhyw) divers, sundry, various.—Amrywiol, amryfal, amryfath, amrywadd, amlryw; gwahanol, amgen.

Amryw amneuthynion—kickshaw.

Amrywaith, weithiau, *s.* (amryw — gwaith) variegated work; inlaid work.—Brithwaith, gwaith amrywiog.

Amrywdeb, *s.* (amryw) diversity, miscellany. —Amrywiolaeth, amrywiant, amryfeiliant, amrywiaeth.

Amrywedd, *a.* (amryw—gwedd) of many forms; multiform.—Amryddull, amrylun, llioswedd, amlwedd, amryffurf.

Amrywedd feddwl—a variously formed thought. *Bs.*

Amryweddiad, au, *s.* multiformity.—Amryddulledd, amrylunedd, amryweddrwydd, llioslunedd.

Amryweddig, *a.* poikilitic.—Amrywig.

Amryweddu, a. *v. a.* to diversify forms or appearances. — Amryddullio, lliosweddu, amrylunio.

Amrywelfa, feydd, *s. f.* (amryw—gwelfa) polyorma; a view of many objects.—Amlwelfa; golygfa ar lawer gwrthrych.

Amrywelwydr, au, *s.* (amryw—gwelwydr) polyscope, polyhedron. — Amliadur, lliosiadur, amrysyllur.

Amrywellt, *s. ag.* (amryw—gwellt) a variety of grass; herbage. — Amrylys, glaswellt, allwest, gwellt y ddaear.

Amrywellt y ddaear—herbage; diversity of grass.

Amrywelltog, *a.* herbaged; covered with grass. — Glaswelltog, porfaog, gwelltog, llysieuog.

Amrywgan, au, *s. f.* (amryw—cân) a variation; canto.—Amryfeilgan, amlrywgan; canbarth, canran, gosgan.

Amrywiad, au, *s.* (amryw) diversification, variation.—Amryfaliad, amryfeiliad; amrywiogaeth, neilliogaeth.

Amrywiaeth, au, *s.* variety, diversity.—Amryfeiliant, amrywiant, amryfeiliaeth, amryfaledd, amrywiogaeth.

Amrywiaethedig, *a.* diversified.—Amrywiedig, amryfathedig; amrywedd, amryddull.

Amrywiaethog, *a.* variegated. — Amrywiog, amryfeiliog.

Amrywiaethol, *a.* diversifying. — Amrywiol, amryfalog, amryfathol.

Amrywiaethu, a, *v. a.* to diversify.—Amrywio, amrywioli, amryfeilio; gwahaniaethu.

Amrywiaith, leithoedd, *s. f.* (amryw—iaith) a variety of language; a dialect. — Amliaith, gwahaniaith; priodiaith, adiaith, adraniaith, llafariaith.

Amrywiant, *s.* (amryw) miscellany, diversity. —Amrywiaeth, amrywiolaeth, amrywdeb.

Amrywiedig, *a.* (amryw) variegated, diversified. —Amrywiaethedig amryfathedig.amrywedd.

Amrywiodigaeth, au, *s.* diversification, variegation.—Amrywiolaeth, amrywiogaeth, amryfeiliant; amryweddiad.

Amrywio, ia, *v. a.* (amryw) to diversify, to differ; to make different.—Amrywioli, amryfalu, amryfeilio, amgenu, amrywiaethu; gwahaniaethu.

Amrywiog, *a.* that differs, varying.—Amryfeiliog, amrywiaethog, amrywiol.

Amrywiogaeth, au, *s.* variation; an intermixture.—Amryfeiliant, amrywiaeth, amrywiolaeth.

Amrywiogaethol, *a.* multifarious.—Amrywiog, amrywiaethol, amrywiol, amryfeilfodd.

Amrywiogaethu, a, *v. a.* to diversify.—Amrywio, amryfeilio, amrywioli.

Amrywiol, *a.* miscellaneous, multifarious. — Amryfath, amrywiaethol, amryw, amrywiog.

Amrywiolaeth, au, *s.* variety, diversity.—Amrywiaeth, amrywiant.

Amrywioldeb, *s.* diversification, manifoldness. —Amrydeb, lliosogrwydd.

Amrywioli, a, *v. a.* to diversify; to conjugate. — Amrywio, amryfalu; cyfymredu, cyfieuo.

Amrywioli berf neu berwyddiad—to conjugate a verb.

Amrywion, Amrywolion, *s. pl.* sundries: several small things or miscellaneous matters too minute to be classified. — Amryfeilion, amryw bethau; manion.

Amrywulliog, *a.* (amryw—gwull) many-flowered, multifloreous. — Amryflodeuog, amryfflurog, amlflodeuog.

Amrywus, *a.* (amryw) complex, various.—Amrywiog, amrywedd; cymmhlyg, cymmhlith.

Amrywyddfod, *s.* (amryw—gwyddfod) multipresence; the power of being present in many places at once. — Amlwyddfodoldeb, amrywyddfod, amlbresennoldeb.

Amrywyn, ion, *s.* (amryw) exception.—Eithriad.

Amsang, au, *s.* (am—sang) a treading round; parenthesis.—Amsathr, amrodiad, cylchsangiad; ymsang, gwahansang; crymfach=( ).

Amsangedig, *a.* trodden on all sides. — Amsathredig, amrodiedig.

Amsangiad, au, *s.* a treading about.—Amsathriad, amrodiad.

Amsathr, au, *s.* (am—sathr) a treading about. —Amsang, amrodiad.

Cadgno i gilio gelyn—a whinyard to chase a foe. *D. G.*

Cadgofeb, ion, *s.* (cad—cofeb) a trophy of battle.—Cadfudd.

Cadgor, au, *s.* (cad—côr) a time of solemn meeting; a solemn fast, hunger (*Dimet*); rifle corps.—Amserwyl; gwyl ympryd; aergor, rheifflgor.

Cadgordd, *s.* (cad—cordd) troop of soldiers.—Aergordd, catrawd, mintai o filwyr.

Cadgorn, *s.* (cad—corn) the horn of battle.—Llugorn, cadfan.

Cadgun, au, *s.* (cad—cun) the support of battle; a brave warrior.—Aergun, cadlyw, aerner, cadner; arwr.

Cadgyffro, *s. f.* (cad—cyffro) the stir or din of battle; a hero.—Aergyffro, aerdwrf; arwr.

Cadgymmhell, *s.* (cad-cymmhell) the impulse of battle.—Aergymmhell, aerbair, aergre.

Cadgynnhen, au, *s.* (cad—cynnhen) the turbulence of battle.—Aergynnhen, aergyffro.

Cadiaith, *s. f.* (cad—iaith) the language of battle.—Aeriaith, iaith rhyfel.

Cadlan, au, *s. f.* (cad-llan) field of battle.—Cadfaes, aerfan, cadfa, aerfa.

Cadlais,† *s.* a yard.=Cadlas.

Cadlas, lesydd, *s.* (cad-glas; cad-clas) a small close, a yard, a court; a corn or hay yard; an enclosed plat of ground; the butts or artillery ground for practising archery; a green for sports and games.—Buarth, clawr, clos, beili, cwrt; ydlan; buarthgae, coedgae, llanerch, talwrn; cemmaes; pelgadlas, treiglesin, cnaplas, twmpath chwareu.

Cadlas cnapan—a bowling-green.
Cadlas ŷd—a corn yard.
Cadlas wair—a hay yard.
Tir cadlas a thir coedgae—enclosed pasture or hayfield and open land in a ring fence.
Mae cadlas yno heno—there is a dance in that place to night. *Sil.*

Cadle, oedd, *s.* (cad—lle) a place of battle.—Cadfa, cadfan, aerfle.

Cadlid, iau, *s.* (cad—llid) a rage of battle.—Cadfar, aerfar, aerflawdd.

Cadlong, au, *s. f.* (cad—llong) a ship of battle.—Llong rhyfel.

Cadlun, iau, *s.* (cad—llun) a battle piece.—Cadarlun.

Cadlys, oedd, *s.* (cad—llys) an army court martial; a camp or entrenchment.—Llys cad, cadreithlys, cadraith, cadreithgor, llys milwrol; goagordd, gwarchglawdd.

Cadlys drain—a place defended with chevaux-de-frise.
Y Gadlys—of a noble race was Sieneyn; the name of an old Welsh tune.

Cadlyw, iau, *s.* (cad—llyw) a chief of battle.—Aergyn, cadgun, aerner, cadner.

Cadnaw, on, *s.* (cad—naw; Gr. *cinados*) a fox.—Llwynog, cadno, gwyddgi, madyn, madog, madryn, llostog, rhus (*Sil.* canddo, *pl.* canddoaid).

Cadnaw gwryw—a dog-fox.
Cadnaw y gogledd—an arctic fox.
Ci cadnaw—a foxhound.
Chwareu y cadnaw—to play the fox.

Cadnawes, au, *s. f.* a she-fox, a bitch-fox.—Llwynoges, cadnöes, llwynogast, maden, madren, llostoges, gwyddast.

Cadnawgi, gwn, *s.* (cadnaw-ci) a foxhound.—Ci cadnaw, ci llwynog, rhurgi.

Cadner, au, *s.* (cad-ner) a chief of battle.—Cadlyw.

Cadno, aid, *s.* (cadnaw) a fox.=Cadnaw.

Cadnoaidd, *a.* vulpine, like a fox.—Cadnöus, llwynogaidd, madynaidd; cyfrwys, ffel.

Cadnoawl, *a.* pertaining to foxes; wily.

Cadnöedd, *s.* foxship.—Cadnoeiddrwydd.

Cadnoeiddrwydd, *s.* behaviour like that of a fox.—Ymddygiad cadnoaidd.

Cadnöes, au, *s. f.* a she-fox.=Cadnawes.

Cadnöus, *a.* vulpinary, foxy—Cadnoaidd.

Cadnöusrwydd, *s* the qualities of a fox; cunning.

Cadog, *a.* (cad) abounding with battles.—Rhyfelog.

Cadol, *a.* relating to war.—Rhyfelgar.

Cador,† *s.* a warrior.—Cadwr, rhyfelwr.

Cadorfod, au, *s.* (cad-gorfod) a striving or contending in a battle.—Cadymdrech, aergawdd.

Cadr, *a.* (cad) strong, stout, robust, mighty.—Cadarn, nerthol, grymus, galluog.

Cadrail, reiliau, *s.* (cad—rhail) a war fence.—Aerwrych, amgae rhyfel.

Cadraith, reithiau, *s. f.* (cad—rhaith) the law of war; military discipline.—Cyfraith filwraidd, cyfraith arfau, cattrefn.

Cadredd, *s.* (cadr) strength, might; fortitude.—Cadernid, nerth; gwroldeb.

Cadres, i, *s. f.* (cad—rhes) a line of battle.

Cadrod, *s.* (cad—rhod) the rage of battle.—Cadfar, aerfar, cadlid.

Cadrwch, *s.* (cadr) fortitude, puissance.—Glewder, dewrder.

Cadseirch, *s. pl. ag.* (cad—seirch) war-harness.—Cadger, aerseirch, aerdreo.

Cadu, *v. a.* (cad) to battle, to fight, to conflict.—Brwydro, ymladd, rhyfela, aerdrodi.

Cadw, *s.* a keeping, protection, a herd.—Cadwad, gwarchad, amddiffyn.

Cadw, ceidw, *v. a.* to keep, to preserve; to save; to guard; to look after.—Dal, dala, cynnal, achadw; achub, gwared; gwarchod.

Cadw cyn coll—to have custody before loss.
Cadw cyfrinach—to keep silence.

Cadwad, au, *s.* a preservation.—Cadwraeth.

Cadwadog, *a.* that preserves—Ceidwadog.

Cadwadol, *a.* saving, preservative.—Ceidwadol.

Cadwadwy, *a.* conservable, preservable.

Cadwaith, *s.* (cad—gwaith) a battle or action.—Brwydr, ymladd, trin, aergad.

Cadwayw, *s. f.* (cad—gwayw) a war lance.—Aerwayw, cadlost, cadysper.

Cadwedig, *a.* (cadw) preserved, saved, guarded.—Achubedig, arbededig.

Cadwedigaeth, au, *s.* a preservation, a state of custody.—Ceidwadaeth, cadwraeth.

Cadwedigol, *a.* preservative.—Cadwadol.

Cadweidiaeth, au, *s.* preservation.

Cadweini, *s.* (cad—gweini) knight-service.—Cadweinid, cadwasanaeth.

Cadwen, i, *s. f.* (cadw) a chain, a bandage.—Cadwyn, tid, tres, syg, ystid; rhwym.

Cadwenig, *s. dim.* a small chain.—Cadwynig.

Cadwent,† wennoedd, *s. f.* (cad—gwent) a field of battle; a fight, an engagement.—Cadfaes, cadgae, aerfan, maes y gad, cadfan, aerfle; brwydr, aer.

Cadwfa, feydd, *s. f.* (cadw-ma) a reservoir, a receptacle for custody.—Ceidwadfa; dalfa.

Cadwgan, *s.* (cad—gwgawn) the mighty in battle; a proper name, Cadogan.—Cadffer, aerbost, aergun; enw priod, Cadwogawn. *R.*

Cadwogawn,† *s.* (cad—gwogawn) the mighty in battle.=Cadwgan. *R.*

Cadwr, wyr, *s.* (cad—gwr) a warrior.—Aerwr, brwydrwr, cadwr, brythwr.

Cadwr,† *s.* (cadw) a shield.—Tarian, astalch.

Cadwraeth, au, *s.* perservation.—Ceidwadaeth, cadweidiaeth.

Cadwraidd, *s.* (cadw—rhaidd) a radiation or spreading out.—Rheiddiad; ymlediad.

Cadwraidd y llaw—the back of the hand, from the wrist to the knuckles.

Cadwy, au, *s.* (cadw) a rug, covering.—Torsed, huling, rhuwchen, rhuwch, brycan.

Cadwyd,† *v. a.* to keep, to preserve.—Cadw.

Cadwydd, *s. ag.* (cad—gwydd) a place full of bushes or brambles; a brake.—Dyryalwyn, gwyddelwern, gwyddle.

Cadwyn, au, *s. f.* (cadw; Arm, *chaden*) a chain or bond.—Cadwen, tid, syg, tres, ystid; rhwymyn; llyffethar, llyffethair; rhes, cyfres. Arferir y gair bob amser yn y Beibl ac ar lafar gwlad yn y rhyw benywaidd.

A dwy gadwyn o aur coeth—and two chains of pure gold. *B.*

Canys o achos gobaith Israel y'm rhwymwyd i â'r gadwyn hon—because that for the hope of Israel I am bound with this chain. *B.*

Cadwyn aur—a golden chain.

Cadwyn ddidor—a continued chain.

Cadwyn fer, } brachyosiridic; the twenty
Cadwyn fyr, } third metre in the Carmarthen system, being a species of the recurrent catenation in the Glamorgan system. *G. M.*

Cadwyn gwddf—a neck chain.

Cadwyn gyrch—recurrent catenation; the twelfth compound canon in the Glamorgan system of poetry, and the twenty first metre. *G. M.*

Cadwyn o fynyddoedd—a chain of mountains.

Cadwynaidd, *a.* catenarian, as a chain.

Cadwynan, *s. dim.* a small chain.—Cadwynig.

Cadwynawdl, *s.* (cadwyn—awdl) an alternate rhyme.=Cadwynodl.

Cadwynbröest, au, *s.* (cadwyn—pröest) a catenated alternate rhyme.=Pröest cadwynodl.

Cadwynedig, *a.* (cadwyn) catenated; chained.—Tresedig, tidedig; godrwyedig.

Cadwynedigaeth, au, *s. f.* a catenation.

Cadwyngyrch, au, *s.* (cadwyn—cyrch) a catenated recurrence; a recurrent catenation (*G M.*).=Cadwyn gyrch.

Cadwyniad, au, *s.* a chaining.—Cadweniad, rhwymiad, llyffetheiriad.

Cadwynig, *s. dim.* a small chain.—Cadwynan, cadwenig, cadwyn fechan.

Cadwyno, a, *v. a.* to chain, to bind.—Tido, tresu, godrwyo; rhwymo; caethiwo.

Cadwynodl, au, *s. f.* (cadwyn—odl) a catenated rhyme, an alternate rhyme.—Awdl gadwynog, awdl gadwynodl.

Cadwynodl, *a.* alternate, catenated, concatenated.—Adgyrchol, cyfnewidiol; eiliadol, cylchynol; cadwynedig, cydgadwynol.

Pröest cadwynodl—a combined alternate rhyme (*G. M.*); alternate concatenated rhyme (*Dr. P.*).

Cadwynodlaeth, au, *s.* (cadwyn—odl) catenated rhyming, an alternate rhyming.—Cadwynodl, odlaeth gadwynog.

Cadwynodli, a, *v. a.* to rhyme alternately, or in a catenated manner.—Odli yn gadwynog.

Cadwynog, *a.* (cadwyn) catenated, formed as a chain; wearing a chain.—Cadwynodl.

Pröest cadwynog=Pröest cadwynodl.

Cadwynol, *a.* relating to a chain.—Tidol.

Cadwynor, ion, *s.* a binder; a leader of captives.

Cadwyol, *a.* (cadw) conservative, keeping.—Ceidwadol, daliadol.

Cadymdrech, ion, *s.* (cad—ymdrech) a contend-
—Cadorfod.
-dug) a mist, a gloom, an obscurity.—Baddug, ysmwcan, ffrwyl, tawch, tarth, niwl.

Caddugo, a, *v.* to darken, to become overcast; to obscure.—Tywyllu, baddugo.

Caddugol, *a.* misty, gloomy, obscure.

Cae, au, ceuau, *s.* (cau; Arm. *cae*) an enclosure, a hedge; a field; any ornamental wreath or ring; a necklace, an ornament to hang about the neck *C. C.* (*R.* thinks that the last is the original meaning, "for the neck," says he, "is enclosed in it; hence *cae* is used for a hedge, by which fields are fenced from other fields that are nigh them, and the field itself thus enclosed is called *cae.*")—Amgaead, gwarchauad, clawdd, gwrych; maes, ceufaes, buarthgae, cadlas; addurndorch, torch gwddf, torch mwnwgl, mwndorch, mwndlwa.

Cae bedw—a birchen garland.

Cae gwastad - a plain field.

Cae o ŷd a field of corn.

Cae o wair—a field of hay.

Gwraig ym mron y cae—a woman nearly brought to bed.

Cae, *a.* shut, bound up, enclosed; close=Cau.

Caead, } au, *s.* (every word of the following
Ceuad, } group may be written with *eu* as well as *ae*, as ceuadog, ceuadlen, &c., changing *ae* into *eu*, as in *maes, meusydd*) a cover, a lid.—Clawr, llen, gorchudd, gwerchyr.

Caead y cylla - the top of the throat.

Caead, *a.* shut up or enclosed; close.—Ceuad.

Caeadlen, i, au, *s. f.* (caead—llen) a curtain.—Ceuadlen, croglen, cylchedlen, rhedlen.

Caeadog, *a.* (caead) tending to close.—Cauedig, ceuedig.

Caeadrwydd, *s.* closeness; obscurity.

Caeadu, a, *v. a.* to close, to enclose; to cover.—Cau, ceuadu; clorio, caeaio.

Caeadu llyfr—to bind a book.

Caeadwr, wyr, *s.* one that covers up; a binder.—Ceuadwr; rhwymwr.

Cael, ca, caiff, *v. a.* (ca) to get, to have, to obtain; to attain or come by; to find; to enjoy.—Caffael, meddu, meddiannu, perchenogi, cyrhaedd, cyrhaeddyd; canfod.

A ga gan Dduw—God grant!

Mal y ceilent ddaioni—so that they may obtain good. *Sil.*

Caen, au, *s. f.* (cae) the covering, a coat, a surface; a peel or skin.—Tudded, caenen, haen, haenen; pil, cropen, croen.

Caened, *s. f.* a thin covering; hoariness.—Haenen; gwynder, llwydedd.

Caenen, au, *s. f.* a covering; a surface or outside.—Haenen, clawr, crawen.

Caenen o wlith—a fall of dew.

Caenen o eira—a fall of snow.

Caeneniad, au, *s.* incrustation.—Crawcniad.

Caenenol, *a.* incrusting or covering.

Caenenu, a, *v. a.* to incrustate or case.

Caeniad, au, *s.* an incrustation.—Cresteniad.

Caenog, *a.* having a cover enclosed.

Caenol, *a.* tending to cover or enclose.

Caenu, a, *v. a.* to incrustate, to coat.

Caeog, *a.* enclosed; closing up; wearing a wreath, wreathed.—Ceuog, cauog; torchog.

Caeol, *a.* tending to close or shut up.

Caeor, au, *s.* a sheep-fold, a sheep-pen.—Corlan, cail, lloc, ffal, corfa; defeitty.

Caer, au, ydd, ceurydd, *s. f.* (cae; cau; C. *caer*; Ar. *karia*; Ch. *keri*) a wall or mound for defence; the walls of a city or castle, the wall of

a fortress, a walled or fortified town, a city. (Such places as were called *caer* by the Britons, were called by the Saxons *caester, cester, chester:* and *castrum* by the Romans.)—Mur, gwal, caered, magwyr, pared, parwyd; amgaer, gwarchlawdd, diffynfur, diffynglawdd; mur dinas neu gastell, mur amddiffynfa; tref gaerog, dinas.

Caer dinas—the wall of a city.

Caer gwydion—the gallaxy, so called from Gwydion ab Don, who, having a knowledge of astronomy, was deemed a conjurer.

Caer mynwent, } the church-yard wall.
Caer y fynwent, }

Mae yr haul dan ei gaeran—the sun is set or gone down.

Caered, au, *s.* the wall of a city.—Caer dinas, mur dinas.

Caerfa, feydd, *s.* a fortified place; a stronghold.—Cadarnfa, cadarnfan.

Caerog, *a.* walled about.—Amgaerog, murio.

Caeru, *v. a.* to encompass with a wall.—Murio, gwalio, magwyro.

Caerwaith, *s.* (caer—gwaith) a fortification.—Amgaerwaith, caered, diffynwaith.

Caerwr, wyr, *s.* (caer—gwr) a man that defends a fortress.—Muriwr, amddiffynwr.

Caes, ydd, ceusydd, *s.* (cae; Fr. *caisse;* Sp. *caxa;* Syr, *casha*) a case; a covering or sheath; that which incloses or contains.—Cloer, clawr, crud, caen, amlen, amgloer; gorchudd, gwain; blwch, cod (*col.* cas).

Caes o gelfi—a case of instruments.

Y caes isaf—the lower case; small letters.

Y caes uchaf (mewn argraphyddiaeth)—the upper case, the capital letters.

Caesio, ia, *v. a.* to case, to put cases; to bind.—Clorio, amlenu; rhwymo (*col.* casio).

Caesio llyfrau—to bind books.

Caesiwr, wyr, *s.* one who cases or covers.—Cloriwr, amlenwr; rhwymwr (*col.* casiwr)

Caesiwr llyfrau—a bookbinder.

Caeth, ion, *s.* (cae, cau; Arm. *caeth;* C. *caid;* L. *captuus,* from *capto=cipio;* It. *cattivo*) a bondman, slave, captive.—Caethwas, caethwr, caethfab, berrwyog, caethddyn, cystog, gweurydd, gwr caeth; aillt, adwr.

Caeth dofaeth—one that serves by his own consent.

Caeth gweinyddol—a domestic slave.

Caeth, *a.* bound, strait, close, captive.

Caethadwy, *a.* that may be bound or restricted, that may be confined.—Caethiwadwy.

Caethanedig, *a.* (caeth—geni) slave-born.—Wedi ei eni yn gaeth.

Caethberchenog, ion, *s.* (caeth—perchenog) a slave-holder.—Perchen caethion.

Caethder, *s.* restriction, captivity.—Caethiwed.

Caethedig, *a.* bound, restricted, captured.

Caethes, au, *s. f.* (C. *caites*) a female slave.—Caethferch, caethforwyn, caethddynes, caethwraig.

Caethfab, feibion, *s.* (caeth—mab) a bondman, a slave, a captive.—Caethwas, caethddyn.

Caethfarsiandwr, wyr, *s.* (caeth—marsiandwr) a slave-dealer, one who trades in slaves.—Caethfasnachwr.

Caethfasnach, au, *s. f.* (caeth—masnach) slave-trade, the act of buying and selling men for slaves.—Masnach mewn caethion.

Caethfasnachwr, wyr, *s.* a slave-trader.—Caethfarsiandwr, masnachwr caethion.

Caethfeddiannwr, wyr, } *s.* (caeth—meddian-
Caethfeddiannydd, ion, } nu) a slave-owner.—Caethberchenog, meddiannwr caethion.

Caethforwyn, ion, *s. f.* (caeth—morwyn) a bondwoman or female slave.—Caethferch.

Caethfyd *s.* (caeth—byd) a state of slavery.—Caethiwed, caethder, caethrawd.

Caethglud, ion, *s. f.* (caeth—clud) a captive condition, a captive.—Carcharor rhyfel.

Y gaethglud those led into captivity.

Caethgludedig, *a.* led captive.—Caethiwedig.

Caethgludiad, au, *s.* a leading into captivity or slavery.—Caethiwed, caethialedd.

Caethgludo, a, *v. a.* to carry into captivity, to remove into bondage.—Caethiwo.

Caethgludwr, wyr, *s.* a captor, one that takes a captive.—Cadwynor, ysgafaelwr.

Caethgyfieithiad, au, *s.* (caeth—cyfieithu) a verbal translation, a metaphrase.—Cyfieithiad caeth, cyfieithiad llythyrenol, cyfieithiad air yng ngair, cyfyng gyfieithiad.

Caethgyfieithol, *a.* metaphrastic, literal in translation.—Caeth neu lythyrenol o ran cyfieithiad.

Caethgyfieithu, *v. a.* to translate closely.—Cyfieithu yn llythyrenol.

Caethgyfiaethwr, wyr, } *s.* a literal translator,
Caethgyfieithydd, ion, } a metaphrast.—Cyfieithwr llythyrenol.

Caethiad, au, *s.* (caeth) a binding or straightening; the act of enslaving.—Caethwasiad, caethiwed, argaethiad; difreiniad.

Caethiadu, a, *v. a.* to captivate.—Caethiwo.

Caethialedd, *s.* (caeth—ial) the act of enslaving.—Caethiad.

Caethiant, *s.* restraint, confinement.

Caethiw,† *a.* confined; under restraint.

Caethiwed, *s.* confinement, bondage, captivity, straitness, distress.—Caethiad, caethder.

Caethiwedig, *a.* confined; captured.

Caethiwo, *v. a.* to confine, to bind.—Caethu, caethiadu; dwyn yn gaeth.

Caethiwol, *a.* restrictive, confining

Caethlong, au, *s. f.* (caeth—llong) a slaver, a ship employed in the slave trade.—Llong caethfasnach.

Caethlwngc, *s.* (caeth—llwngc) a difficulty of swallowing.—Gwrthlwngc, aflwngc.

Caethlyngcu, a, *v. a.* to swallow with difficulty.—Gwrthlyngcu, traflyngcu.

Caethnawd, *s.* (caeth—gnawd) a slavish condition, slavery, bondage.—Caethrawd.

Caethrawd, *s.* (caeth—rhawd) a state of bondage or slavery.—Cyflwr caeth, caethnawd.

Caethol, *a.* (caeth) tending to bind or straiten.

Caethu, a, *v. a.* to straiten, to restrain.—Caethiwo, caethiadu, dwyn yn gaeth.

Caethwarogaeth, *s.* the condition of a slave.

Caethwas, weision, *s.* (caeth—gwas) a bondman, a slave.—Caethddyn, caeth; carcharor rhyfel.

Caethwasaidd, *a.* slavelike.—Fel caethwas.

Caethwasaeth, *s.* slavery.—Caethwasanaeth.

Caethwasanaeth, *s.* compulsory servitude.—Caethwasiaeth, caethwarogaeth, caethyd.

Caethwaseiddrwydd, *s.* slavishness.

Caethwasiaeth, *s.* bondage, slavery.—Caethder.

Caethwasol, *a.* slavish.—Caethwasaidd.

Caethwasoldeb, *s.* servility.—Gweisyndod.

Caethwesyn, *s.* a young slave.—Caethyn.

Caethwr, wyr, *s.* (caeth—gwr) a bondman or slave; a captive.—Gwr caeth, caethwes.

Caethwraig, wragedd, *s. f.* (caeth—gwraig) a bondwoman, a female slave.—Caethes, caethddynes, caethforwyn.

Caethyn, *s.* (caeth) a little slave, a young slave.—Caethwesyn.

Caf, au, *s.* (ca; Arm. *cavo; caff;* Fr. *cave;* L. *cavea;* Ar. *gaufa*) a void or hollow; a hold; a cave.—Gwagle, gwagfa, gwag; ceudod; ogof, ffau; celfa.

Cadfad, au, *s.* a hollow; a grasping or holding.—Ceule, ceudod, dalfa.

Cafaeth, au, *s.* a taking hold of.—Gafaelfa.

Cafael, *v. a.* to enclose, to grasp, to hold.

Cafaw,† *s.* attainment, profit, success.—Caffad.

Cafell, au, *s. f.* a grotto; an apartment; the choir or chancel of a church—Caf, hyfrydfan, hyfrydgell, cell; ogof, ogofdy; canghell; llogawd; cyssegrfa.

Cafellaidd, *a.* like a grotto; appertaining to a choir; choral.—Cellaidd, ogofaidd; canghellog; coraidd.

Cafn, au, *s.* (Ar. *cafan;* C. *cafat,* a vessel) a tray or trough; a canoe or boat.—Heilyr, heilyn; ceulor, ciler; ceufad, ceubal, cwch unpren, cwch, bad.

Cafn dellt—a lattice-worked canoe. *I. T.*
Cafn dylifo—a weaver's tray.
Cafn enlli—a flat bottomed boat.
Cafn glo—a scoop, a coal-box.
Cafn melin, } a mill conduit.
Cafn ysgwyd, }
Cafn moch—a swine trough.
Cafn pobi, } a baker's brake or trough.
Cafn tylino, }
Cafn traed, ceiniog a dâl—a trough for the feet, its value is a penny. *C. C.*

Cafnbeithyn, *s. ag.* (cafn—peithyn) gutter tiles.—Crombeithyn, ffosbeithyn.

Cafnbeithynen, cafnbeithyn, *s. f.* a gutter tile.

Cafniad, au, *s.* (cafn) a scooping.—Ceuegiad.

Cafnio, *v. a.* to scoop, to make hollow.

Cafnu, *v. a.* to hollow out like a spout or trough.—Cafnio, ysgeuo, ysgeuegu.

Cafod, au, ydd, *s. f.* (cawod) a shower; something shed or poured down.—Cawad, cawod; tywalltiad.

Cafod o wlaw—a shower or scud of rain.

Cafodi, a, *v. a.* to shower down.—Cawodi.

Cafodog, *a.* showery.—Cawodog, cawodlyd.

Cafrwy,† *v.* to hear.—Clywed. *F. H.*

Caff, iau, *s.* (ca) a grasp, a grasper; a rake with curved prongs for unloading dung-carts.—Crafangc, ysbach, afflau, bachell; rhacai, rhac, rhaca, crafiedydd, trasgl, rhaca tail.

Rhoi craff arno, taro craff arno, rhoi pump arno—to lay hand upon it, to pilfer it.

Caffad, *s.* (caff, caffael) an attainment or getting hold of; acquisition, acquirement.—Caffawd, caffaeliad.

Caffael, caiff, *v. a.* (caff, cael; C. *gaval, cafus;* Arm. *caffont;* Ar. *cofi, kebbel*) to get, to obtain, to attain.—Cael, meddu, meddiannu; bod gan; cyrhaedd, cyrhaeddyd.

Caffael hawl—to obtain a suit.

Caffaeliad, au, *s.* a getting hold of; acquisition, acquirement, attachment.—Cafawd.

Caffaeliwr, wyr, *s.* one that lays hold of or acquires, an attainer.—Meddiannwr.

Caffaelydd, ion, *s.* one that lays hold of, one who obtains.—Caffaeliwr.

Caffawd, *s.* acquirement; attainment.

Caffell. au, *s. f.* a grasper, any thing that curves round or grasps; a valve.—Ysbach, caff; cloryn, ceuadyn, balog; gwerthyryn, clawr, tafod.

Caffellan, *s. f. dim.* a valvet, a valvule.—Caffellig, balogen, clawr bychan.

Caffellig, *s. dim.* a valvula, a little valve.

Caffellog, *a.* valved, valvuler.—Cloriog, clorynog, balogaidd, dorynog.

Caffellog, ion, *s.* a valve—Cloryn, clawr.

Caffiad, au, *s.* a throwing the arms to grasp at any thing.—Breicheidiad, cofleidiad.

Caffio, ia, *v. a.* to throw the arms about, to catch; to over-reach; to cheat.—Cofleidio; cipio, ł achellu; somi.

Caffiwr, wyr, *s.* one that struggles with his arms to catch a thing.—Breicheidiwr.

Cag, au, *s.* (cach; Ir. *cac;* Arm. *cac'h*) dirt, ordure.—Tom, baw, llaca, llwtra, ystlom.

Cagl, au, *s.* the dung of sheep and some other animals; a daggle.—Tail defaid a rhai anifeiliaid ereill; llwtra, brynti.

Caglen, od, *s. f.* a daggle-tail, a slattern. Yslebren, dibled, yslebog, dwgan, llwtren.

Caglog, *a.* that is bedaggled or bespattered.

Cynffon gaglog—a daggle-tail.

Cang, au, *s. f.* (cy—ang; caingc) a branch, a bough.—Caingc, cangen, brigyn, osglen.

Cangawg, *a.* full of branches or boughs.

Cangen, canghenau, *s. f.* a branch; an epithet for a young woman; a nymph.—Caingc, clofen, gwrysgen, osglen; geneth hoyw, meinir, meinwen, bun; angyles, duwies, dwyfan, elen, eigren.

Cangen fechan—a little branch.
Cangen o fôr—a branch of the sea.

Canghebog, ion, *s.* (cang—hebog) a brancher, a young hawk.—Hebog ieuange (yn dechreu hedeg i'r cangau).

Canghell, au, *s. f.* (can—cell; cyn—cell [*Dr. D.*]; L. *cancelli;* It. *cancello;* Ch. *kankl*) a chancel.—Cafell; cyssegrfa.

Canghell eglwys—the chancel of a church.

Canghellfa, feydd, *s. f.* chancery.—Canghellys.

Canghell-lys, oedd, *s.* chancery, =Canghellys.

Canghellog, *a.* having a chancel.—Cafellog.

Canghellor, ion, *s.* a president of an assembly; a chancellor.—Llywydd cymmanfa; canghellydd, canghellwr.

Canghellor urdd y Gardas—the Chancellor of the order of the Garter.
Canghellor yr Argedlys—the Chancellor of Exchequer.

Canghelloriaeth, au, *s. f.* a chancellorship, the office of a chancellor.—Canghellyddiaeth.

Canghellorlys, oedd, *s.* (canghellor—llys) chancery; the high court of equity.—Canghellfa; llys y canghellor.

Canghellwr, wyr, *s.* a chancellor, an officer of the revenue.—Canghellydd, canghellor, swyddog y cyllid.

Canghellwr Duciaeth Lancaster—the Chancellor of the Duchy of Lancaster.
Canghellwr eglwys gadeiriol—the chancellor of a cathedral.
Canghellwr prifysgol—the chancellor of an university.
Canghellwr y Sylltty—the Chancellor of the Exchequer.

Canghellwriaeth, au, *s.* a chancellorship.

Canghellydd, ion, *s.* constable (as of a fortified

place); chancellor.—Penceidwad (amddiffynfa, neu'r cyffelyb); canghellor.
Canghellydd Dugiaeth Hirgaer—the Chancellor of the Duchy of Lancaster.
Canghellydd y Trysorlys—the Chancellor of the Exchequer.

Canghellyddiaeth, au, *s. f.* a chancellorship.—Canghelloriaeth, canghellwriaeth.

Canghellys, oedd, *s.* (canghell—llys) chancery; the high court of equity.—Canghellorlys, canghellfa.

Canghenan, *s. f. dim.* a little branch.—Ceingoen, canghenig; planigyn, planhigyn.

Cangheniad, au, *s.* ramification.—Ceingciad.

Cangheniadau, *s. pl.* branchery.—Ceingciadau.

Canghenig, ion, *s. f. dim.* a little branch.—Canghenan.

Canghenog, *a.* having branches.—Ceingciog.

Canghenogrwydd, *s.* branchiness.

Canghenol, *a.* tending to branch out; branching.—Ceingciol, cangol, brigol, colfenol.

Canghenu, a, *v. a.* to ramify, to branch out, to form branches.—Ceingcio; osgli, colfenu, ysbagu; tyfu yn ganghenau; dosbarthu, adranu.

Canghenydd, ion, *s.* a brancher.—Ceingciedydd.

Cangogrwydd, *s.* branchiness.—Ceingcogrwydd.

Cangol, *a.* branching.—Canghenol, ceinciol.

Cai, eion, *s.* (ca) a concrete; a collection or adhesion of things together.—Cynghreth; cydgorph, cyfansawdd, clamp, talp.

Caib, ceibiau, *s. f.* a mattock, a hoe.—Matog, batog, ceiben.

Caiff, *v.* (*3d. p. of* cael or caffael, and many writers prefer it to *ca*) he will have or get.—Ca; efe a ga neu a gaiff.
Ni chaiff y llygaid ddigon o edrych—the eye is not satisfied with seeing. *B.*

Caing, ceingiau, *s. f.* (cang) a branch.—Cangen.

Cainge, ceingciau, *s.* a branch.—Cangen, clofen, osgl, osglen, grysgen pingcyn, brigyn, braich; rhan, adran, ceingciadur.
Cainge cenedl—the branch of a pedigree.
Cainge gyfarystlys, Cainge ystlysol, Cainge ystlysol o ach, } collateral branch.
Cainge o fôr—a branch or arm of a sea.
Cainge o gerdd—a tune in music.
Cainge pren—the branch of a tree.
Ceingciau corn carw—the branches of a stag's horn.
Ceingciau ffrwyn—the branches of a bridle.

Cail,† ceilian, *s. f.* (H. *cala*) a fold, a sheepfold.—Corlan, ffald, lloc, caeor, corfa, defeitty; buarth.

Caill,† ceillian, *s.* (Arm. *caill;* H. *ciliah*, the kidney) a testicle.—Eirinen, careg, testicl.
Caill y ci—dog's stones, cullion, orchis.

Cain, *a.* (can) clear, bright, fair, beautiful.—Claer, gloyw, disglaer, llachar, teg, hardd, glain.

Cain-eirian, *s.* (cain—eirian) the twayblade or twyblade,—Gefellys, gefell-lys, dwyddalen.
Cain-eirian gefellys—common twayblade, ovate ophrys.
Cain-eirian nydd-drôedig—ladies' traces, spiral ophrys.
Cain-eirian yr ednogyn—fly ophrys.

Caint, ceintiau, *s.* (cain) a plain or open country; a field, a field of battle; an engagement. (There are many places called by the appellation of *Caint;* as Caer Gaint—Canterbury).—Gwastadedd, gwastattir; maes, cadfaes, aerfa; brwydr, trin, cad.

Caiog, *a.* that abounds with things; concrete.—Heigiog, byw; cyttyrog; ceuledig, ceiedig.

Caiog,† ion, *s* (C. *caiauc*) a volume, a book.—Cyfrol, cyflyfr, claing, llyfr.

Cair, ceirion, *s. ap.* (air; Arm. *ceir*) the fruit or produce of trees; berries. (There is a district in the east part of Arfon, called *Ceiriogydd*, where the celebrated bard Taliesin lived; and at the end of the lake of that name there is a small agger of stones, which is shown as the ruins of his dwelling.)—Ffrwyth coed, cynnyrch, toraeth; aeron, addon, grawn, magon, bacon, crawel, mwyar.

Cais, ceisiau, *s.* (cy—ais; Arm. *cais*, a cause; L. *quæso*, to desire: *causa*, a cause) an effort, an attempt; a getting, what is got; a tax, an assessment.—Ymdrech, ymgais, dirgais, argais, cynnyg, egni; antur; caffawd, caffaeliad; treth, cyllid; tollwr (medd *W. S.*).
Rhoi cais arno—to make an attempt upon it or him.
Cylch cais—a free gift which tenants are accustomed to give to the bailiff of the manor in some parts of Wales.

Cal,† iau, [ion?] *s. f.* (al; Arm. *cal'h;* C. *kal*) a stalk; a prickle. (The primary and general sense of the word is not used now, because it has been appropriated to be the term for *penis*).—Tywysen, rhonell, gwialen, cloren, *penis.*

Cala, †on, *s. f.* a stem, a stalk; a prickle.—Corsen, paladr, callodryn, coesig; *penis.*
Cala'r gethlydd, Cala'r wynach, } cuckoo-pint, water robin.

Calaf,† on, *s. f.* a stalk, a stem; a reed or cane.—Callodryn, paladr; corsen, corswelltyn, ceeysen.
Calaf ŷd—the stalk of corn.

Calafaidd, *a.* like a reed or cane.—Corseuaidd.

Calafog, *a.* abounding with reeds or canes; having a stalk or stem.—Corsenog; calladrog, ceeysog.

Calan, au, *s.* (C. *calan;* L. *calendæ*) the calends; the first day of each month (among the Romans); the first day of the year or of the months (in Britain).—Dydd Calan; y dydd cyntaf o bob mis (ym mysg y Rhufeiniaid); dydd cyntaf y flwyddyn neu'r misoedd ym Mhrydain).
Calan Ebrill—the calends of April, the first of April.
Calan fara—sweet cake-bread. See Chwiogen.
Calan gauaf, Calan Ionawr, } the calends of winter, the first day of January: this is called, particularly, among the Welsh, *Dydd Calan.*
Calan Mai, dydd Calanmai—the calends of May, the first of May.

Calanddyddiau, *s. pl.* (calan—dydd) the calends.—Y Calanau, y dyddiau Calan. Gwel Calan.

Calaniadur, on, *s.* (calan) a calendar; a register for the year; a memorandum book; a daybook; an almanac; a register.—Calanur; blwyddiadur, blwyddlyfr; cofiyfr; dyddiadur; amseroni, amseriadur, almanac, almynag; cofres.
Y Calaniadur Groegaidd—the Gregorian Calendar.

Y Calaniadur Iwlaidd—the Julian Calendar.
Calaniadur Prifysgol—the Calendar of an University.

Calanmai, *s.* (calan—Mai) the Calends of May, the first day of May.—Calan Mai, y dydd cyntaf o Fai, dydd Calanmai (*col.* Clamai.)

Calanur, on, *s.* (calan) a Calendar.=Calaniadur.

Calcedon, *s.* (from *Chalcedon*, a town in Asia Minor) chalcedony, calcedon; a species of agate.—Math ar emfaen a elwir agat.

Calcedonaidd, *a.* calcedonic, calcedonian.—Calcedonig.

Calcedonig, *a.* calcedonic.—Calcedonaidd.

Calch, *s. ag.* (cy—alch; C. *calk;* Ir. *calc, cailc;* L. *calx;* D., Dan., G. *kalk*) lime; chalk; a covering; enamel (for arms and harness for wars); armor (*Dr. D.*); a battle (*G. T.*).—Priddgalch; arlud; caen, haen; emgaen, gleinlliw (at arfau a threo rhyfel); arfogaeth; ymladd.
Efe a'i curodd ef yn galch—he beat him to pieces, he conquered him completely. *Sil.*
Llathrai galch llasar — the azure tinted armor gleam. *C.*
Calch brwd, } quicklime; chloride of
Calch poeth, } lime.
Calch tawdd—slacked lime; hydrate of lime.
Dwr calch—limewater.

Calchadwy, *a.* calcinable.—Creisionadwy.

Calchaid, eidiau, *s.* what is limed; what is done over with enamel.—Eurgalchaid.

Calchaid, *a.* calcareous.—Calchaidd.

Calchaidd, *a.* of the quality of lime, calcareous; like a covering.—Calchaid, calchog.

Caichbridd, *s. ag.* (calch—pridd) a chalk, a white calcareous earth.—Marm, gwynbridd, sialc, siôc.

Calchdir, oedd, *s.* (calch—tir) calcareous earth.—Calchddaear, tir calch, daear galchog.

Calchdo, au, *s.* (calch—to) an enamelled covering; painted armor.—Calchamwisg; arfau arliwiog.

Calchdöed, *s.* an enamelled armor.—Calchdo.

Calchddaear, *s.* (calch—daear) calcareous earth.

Calchddelid, au, *s.* (calch—delid) calcium. = Calchid.

Calchddwyn, *a.* (calch—dwyn) calciferous.—Calchddygol.

Calchddygol, *a.* producing lime.—Calchddwyn.

Calchedig, *a.* limed, covered, enamelled.

Calcheidio, ia, *v. a.* to lime; to cover over; to enamel.—Calchu; arliwio; emliwio.

Calcheiddrwydd, *s.* calcareousness.

Calchen, au, *s. f.* limestone.—Careg galch.

Calchfa, *s.* the dung of such birds as turns white (as of crows or peacocks)—Adarlud.

Calchfaen, feini, fain, *s.* (calch—maen) calcareous stone.—Maen calchaidd, careg galch.

Calchfraith, *a.* (calch—braith) covered, coated or enamelled with various colors.—Amliwiog.

Calchfrith, *a.* (calch—brith) covered over or enamelled with various colours.—Arliwiog.

Calchgallestraidd, *a.* (calch—callestr) calcareo-silicious; consisting of calcareous and silicious earth.—Calchgallestrig, calchlechog.

Calchgallestrig, *a.* calcareo-silicious.

Calchgleilyd, *a.* (calch—clai) calcareo-argillaceous.—Calchgleiog, cleigalchog.

Calchgleiog, *a.* calcareo-argillaceous.

Calch-haldir, oedd, *s.* (calch—hal) calcimurite; calcareous earth and magnesia tinged with iron.

Calchiad, au, *s.* (calch) a reducing to lime or calx; calcination; a liming, a covering over.—Calchogiad, calchlosgiad, ulwad, siniad, creisioniad; llosgiad yn galch.

Calchid, au, *s.* calcium; the metallic bases of lime.—Calchddelid, delid calch.

Calchio, ia, *v. a.* to lime; to enamel.—Calchu, adarludio, ysgrolingo.
Calchio tir—to lime land.

Calchlasar, *a.* (calch—llasar) enamelled with blue.—Glaslywiog.

Calchlechog, *a.* (calch—llech) calcareo-silicious.—Calchgallestraidd.

Calchlestr, i, *s.* (calch—llestr) calcinatory.—Creisier, ulwadur, ceirionur, ffoddell, marmiadur.

Calchlosgfeinin, *a.* (calch—llosgfaen) calcareo-sulphurous; having lime and sulphur in combination.—Calchlosfeinig; calchaidd ac ufelurdidd.

Calchlosfeinig, *a.* (calch—llosfaen) calcareo-sulphurous.—Calchlosgfeinin.

Calchlosgi, a, *v.* (calch—llosg) to calcine.

Calchlosiad, au, *s* (calch—llos) calcination.—Calchiad.

Calchog, *a.* (calch) calcareous, enamelled.

Calchogi, a, *v.* to calcine; to reduce a substance to a powder; to oxidise; to dissolve—Calchlosgi, creisioni, ulwynu; llosgi yn ulw; toddi; egridio.

Calchogiad, au, *s.* calcination.—Calchiad.

Calchogrwydd, *s.* calcareousness.

Calchu, a, *v. a.* to reduce into lime, to lime; to cover over; to enamel.—Calchio; haenu; calcheido, emliwio.

Calchwedd, *a.* (calch—gwedd) calciform.—Creisionaidd.

Calchwr, wyr, *s.* (calch—gwr) a lime-burner.—Calchydd, llosgwr calch.

Calchwy, on, *s.* (calch—gwy) limewater.—Dwr calch, dwfr calch.

Calchwynu, a, *v. a.* (calch—gwyn) to white-lime, to white-wash.—Gwyngalchu.

Calchyrog, *a.* (calch) calcareous.—Calchaidd.

Calchysger, au, *s.* (calch—ysger) calcareous spar.—Ysger calch.

Caldrist,† *a.* (cal trist) having a drooping stalk.—Coeslipa, bonllaes.

Caldrist, *s.* the helleborine.
Caldrist llydanddail — the broad-leaved helleborine.
Caldrist y banadl—the broom-rape.
Caldrist y gors—the marsh helleborine.

Caled, *a.* (cal; Arm. *calet;* C. *cals, cales, calish;* Ir. *caladt, cruaidd*) hard, parched, hardy; severe.—Durfing, dwys, clwn, cras; gerwin, annhyner; egr, sur.

Caled, ion, *s.* a hardship, a strait.—Caledi, blinfyd, ing, cyfyngder.

Caleden, au, *s. f.* the corn or hardness on the hand from labor.—Caledyn, pedgorn, corn (ar law neu droed).

Calededd, *s.* hardness, severity.—Caledwch.

Caledfyd, *s.* (caled—byd) hardship, a grievance.—Blinfyd.

Caledi, *s.* (caled) hardness, hardship.—Caledrwydd.

Caledïad, au, *s.* a hardening.—Caledu, duriad.

Caledrwydd, *s.* hardness, obduracy.—Caledi.

Caledryd, *s.* (caled—rhyd) a hard, a ford or passage across a river.—Rhyd, rhyd caled.

Caledu, a, *v.* (caled) to harden; to become hard.

Caledwaith, weithian, *s.* (caled—gwaith) a hard work.—Gwaith caled, gwaith dygn.

Caledwr, wyr, } *s.* (caled) a hardener.—Un yn
Caledydd, ion, } caledu, durfingwr.

Calefyn, *s.* (calaf) a small stalk or reed.—Calorlyn, corsenan.

Calen, au, *s. f.* (cal) a whetstone: a lump of butter or soap (or the like).—Hogfaen, hogalen, agalen, hogal, careg hogi, maen hogi.

Calen hogi—a stone for sharpening; a whetstone.

Calen o sebon—a stick of a soap.

Calen o ymenyn—a lump of butter.

Calfelfed, *s.* (cal—melfed) the cat's-tail, the reedmace.—Cynffon y gath, rhodell, ffon y plant, ffynwewyr y plant, ffynwewyr ellyllon, hesgen felfedog, penfelfed, rholbryn.

Caliwlyn, *s.* agrimony.—Tryw, trydon, troed y dryw.

Caliwlyn y mel—the common agrimony.

Calon, au, *s. f.* (cal: Arm. *calon;* C. *calon:* Ar. *calbon*) the heart; the middle; the womb.—Canol, craidd; rhuddin, rhudding; sagre; croth † (*C. C.*).

Brawd un galon—a brother by the mother's side.

Calon derwen, } a heart of oak.
Calon dderwen, }

Calon drom, } a broken heart.
Calon friw, }

Calon drom, y Drom galon—the Heavy Heart; an old Welsh tune. *G. M.*

Calon ddewr—a stout heart.

Calon pren—a heartwood.

Calonaidd, *a.* heart-shaped.—Calonwedd.

Calonchwyddol, *s.* (calon chwydd) heart-swelling.—Yn chwyddo'r galon.

Calondid, *s.* (calon) heartiness; courageousness.

Calondyner, *a.* (calon—tyner) tender-hearted.

Calonddewr, *a.* (calon—dewr) stout of heart.—Dewr ei galon, gwrolwych.

Calonegor, *a.* (calon—egor) open-hearted.

Calongaled, *a.* (calon—caled) being hard-hearted.

Calongaledwch, *s.* a hard heart.—Creulondeb, calon galeddedd, diddeimladrwydd.

Calonglwyfol, *a.* (calon—clwyf) heart-wounding.—Yn archolli'r galon.

Calonglwyfus, *a.* heart-wounded.—Clwyfus ei galon.

Calongyfan, *a.* (calon—cyfan) heart-whole.

Calonhadog, ion, *s.* (calon—had) a heart-pea, a heart-seed.—Pysen y galon.

Calonl, a, *v. a.* to heart; to encourage.

Calonig, *s. dim* a little heart.—Calon fechan.

Calonlosg, *a.* (calon—llosg) heart-burned.—Ag ennynfa yn ei ga'on.

Calonog, *a.* (calon) hearty; courageous, valiant.

Calonogi, a, *v. a.* (calon) to encourage.—Cefnogi.

Calonogol, *a.* tending to encourage.

Calonogrwydd, *s.* heartiness.—Calondid.

Calonogwr, wyr, } *s.* a heartener; one who en-
Calonogydd, ion, } courages.—Cefnogwr.

Calonrod, au, *s.* (calon—rhod) a heart-wheel.—Olwyn ar lun calon.

Calonrwym, au, *s.* (calon—rhwym) a heart-bound; the lapping of one stone over two others in the walls of a building.—Careg rwymo (mewn mur).

Calonus, *a* (calon) heated, full of heart—Calonog.

Calonwedd, *a.* (calon—gwedd) heart-shaped.—Calonaidd; ar lun calon.

Calonysgafn, *a.* (calon—ysgafn) light-hearted.

Calonysol, *a.* (calon—ysol) heart corroding.—Yn ysu'r galon.

Call, *a,* (all, gall? L. *callidus*): "that goes or turns out or about," seems to be a fanciful explanation of the supposed root *all*) wise, prudent, discreet, cunning; circumspect.—Doeth, synwyrol, ffel, deallus; gochelgar.

Call, od, *s.* what is divergent or out of its place; what starts out. (Perhaps Dr. P. designed this word to be the singular of *callodr;* but I do not know of any example of it in that capacity).—Callodryn?

Callaidd, *a.* tending to be circumspect.—Gochelgar.

Callawd,† *s.* cunningness; circumspection.

Callawdr,† *s. ag.* (call; cal?) knotted stalks.=Callodr.

Callawr,† orau, *s.* (call; celf? C. *caltor;* Arm. *cauter;* L. *calarium*) a kettle, a pot, a caldron.=Callor.

Callawydd,† *s.* (call—awydd) a straying disposition; incliniug to haunt or wander about.—Crwydriad; clerddyn.

Callder, *s.* (call) circumspection, prudence.

Called, *s. ag.* the stalks of thistles.—Coesau ysgall.

Calledd, *s* the stalks of pulse; circumspection, discretion—Callodr ffa neu bys; gochelgarwch, gofal; pertrwydd.

Callestr, cellystr, *s. f.* (ca—llestr; call—estyr? H. *chalamist*) the pyrites; a flint-stone.—Cyllestr, cellt, careg dân, maen tân, tânfaen; maen cellt, alltfaen.

Calon gallestr—a heart of flint.

Y graig gallestr—the flinty rock.

Callestraidd, *a.* flinty, consisting of flint.

Callestren, au, *s. f.* a flint—Cellten.

Callestricol, *a.* of a flinty quality.—Callestrig.

Callestrig, *a.* having the quality of the pyrites; flinty.—Cyllestrig, tân-feinin.

Callestrigol, *a.* apt to be flinty.—Celltig.

Callestrin, *a.* flinty—Callestraidd.

Callestrog, *a.* having the quality of the flint.

Callestrol, *a:* having the quality of the pyrites; flinty.—Cyllestrol, tanfeinaidd.

Callestrwy, *s* (callestr—gwy) a liquor of flint.—Celltwy, llyn callestr.

Callineb, *s.* (call) circumspection, discretion.—Callder, calledd, synwyr, doethineb.

Callod, *s. ag.* (callawdr) fungi; agaric (Dr. P); foliaceous liverworts (H. D.).—Callodr, callawdr. Gwel Ffwng.

Callod y coed—the fungi of trees.

Callod y derw, clustiau'r derw, llysiau yr ysgyfaint—lungwort.

Callodr, *s. ag.* (callawdr) those stems or stalks of a plant that are knotty or of irregular growth, knotty stalks.—Callawdr, callod; clymgallod.

Callodren, au, *s. f.* a knotted stalk; that is full of angles.—Callodryn; clinogon.

Callodrenaidd, *a* like knotty stalks.

Callodryn, *s. dim.* stalk of a plant.—Coesyn.

Callor, au, *s.* (callawr) a kettle, a pot, a caldron.—Callawr, crochan, pair; tegell.

Calloraid, eidiau, *s.* a chaldron-full; a measure of coals consisting of thirty six bushels.—

Peiraid; mesur o lo yn cynnwys un pwysel ar bymtheg ar hugain.

Callu, a, *v.* (call) to be circumspect or discreet. —Doethi, ymgallu; bod yn gall.

Callus, *a.* tending to be discreet or cunning.

Callusder, *s.* discreetness, cunningness.

Cam, *a.* (cy—am; Arm. *cam;* C. *cabm;* Ir. *caim*, crookedness) crooked, bent, bowed; awry; wrong, false.—Gŵyr, crwc, gwyrgam, trofaog; camweddus, beius.

Cam neu gymmhwys—hit or miss.

Cam, au, *s.* (Arm. *camet*) a bend, a crooked form; wrong, injury; a step or stride; a pace in going.—Plygiad, gwyrogiad; geudeb, niwed; llam, camre.

Cam anghywir, } a false step.
Cam ar ddidro, }

Ar y cam—on a foot pace.

I gam o gam=igam ogam—in a tottering or uneven pace.

Tair troedfedd yn y cam—three feet in the stride. *C. C.*

Camaccen, cenion, *s. f.* (cam—accan) a false accent.=Camaccen.

Camaccen, ion, *s. f.* (cam—accen) a false accent, wrong pronunciation.—Cam accen, accen anghywir; camgynnaniad, camynganiad.

Camacceniad, au, *s.* false accentuation.

Camaccenu, a, *v. a.* to accent falsely.

Camachwyn, ion, *s.* (cam—achwyn) a false accusation.—Camgwyn, camgyhudded.

Camachwyn, *v.* to accuse falsely.

Camachwyniad, au, *s.* a false accusation.—Camgyhuddiad, achwyniad twyllodrus.

Camachwynwr, wyr, *s.* a false accuser.

Camadrodd, ion, *s.* (cam—adrodd) a false recital, a false relation.—Camfynegiad.

Camadrodd, *v.* to misrecite.—Camhysbysu.

Camadroddiad, au, *s.* a misreciting; a misrepresentation.—Camddarluniad.

Camaddasiad, au, *s.* (cam—addas) a misapplication.—Camgymhwysiad; camarferiad.

Camaddasu, a, *v. a.* to misapply.—Camdriodoli.

Camaddoliad, au, *s.* (cam—addoli) a misdevotion.—Camddyhewyd.

Camaddysg, *s. f.* (cam—addysg) false instruction; heterodoxy.—Drwg addysg; camgred, geufarn.

Camaddysgedig, *a.* miseducated.

Camaddysgu, a, *v. a.* to misinform.—Camhyfforddi, camarwain, camddysgu.

Camalw, eilw, *v. a.* (cam—galw) to call wrongly. —Galw ar gam; camwahodd.

Camalwad, au, *s.* a miscalling.—Camorchwyl.

Camamgyffred, ion, *s.* (cam—amgyffred) misapprehension, misconception.—Camddirnadaeth, camsyniad.

Camamgyffred, *v. a.* to misapprehend, to misconceive; to mistake.—Camsynied.

Camamil, *s.* (Gr. *chamai* and *melon*) the chamomile.=Camri.

Camamseriad, au, *s.* (cam—amser) parachronism; a mistiming.—Camfrudiad.

Camamseru, a, *v. a.* to mistime.—Anamseru.

Caman,† au, *s. f.* (cam) a way, a path.—Ffordd, llwybr, arweinfa.

Camansawdd, soddion, *s.* (cam—ansawdd) a false or wrong property or quality.—Camdeithi; ammhriodoldeb.

Camarddelw, on, *s.* (cam—arddelw) a misclaim, a false security or warranty.—Camhawl, camwarant.

Camarddelw, *v. a.* to misclaim.—Camofyn.

Camarddelwad, au, *s.* a misclaiming.

Camarfer, ion, *s. f.* (cam—arfer) misusage.

Camarferiad, au, *s.* a misusing, misapplication, catachresis.—Camddefnyddiad.

Camarferu, camarfer, *v. a.* to misapply.

Camargraph, ion, *s.* (cam—argraph) a press error, an error of the press.—Gwall argraph, gwall y wasg.

Camargraphiad, au, *s.* a misprint.

Camargraphu, a, *v. a.* to misprint.—Cambrintio, argraphu yn wallus.

Camarwain, *v. a.* (cam—arwain) to misguide. —Camdywys, camhyfforddi.

Camarweiniad, au, *s.* a misguidance, a misleading.—Camdywysiad.

Camarwedd, a, *v. a.* (cam—arwedd) to misconduct.—Camymddwyn; camdrin.

Camarweddu, a, *v. a.* to manage ill.

Camarweiniwr, wyr, *s.* a misguide, a misconductor.—Camdywyswr.

Camarweinydd, ion, *s.* a misleader; one who leads out of the way.—Camdywysydd.

Camas, au, *s. f.* (cam—as) parade, walk.—Rhodfa, rhodle, llanerch rhodio, talwrn rhodio.

Camattal, *v. a.* (cam—attal) to with-hold wrongly—Attal, rhwystro, lluddias.

Camattaliad, au, *s.* a with-holding unjustly; a misrestriction.—Camgyfyngiad.

Camattaliwr, wyr, *s.* one who unjustly withholds.—Camgaethiwydd, camgyfyngwr.

Camathraw, on, *s.* (cam—athraw) a false teacher, one that is not orthodox.—Camaddysgwr, camddysgawdwr.

Camathrawiaeth, au, *s. f.* heterodoxy, a wrong instruction.—Camhyfforddiad.

Camathrawiaethu, a, *v. a.* to misinstruct, to teach heresy.—Camaddysgu.

Camathrawu, a, *v. a.* to misinstruct.

Camawg, *s.* (cam) a kind of salmon (so called, because, when three years old, its mandibles begin to curve one over the other, Dr. P.; a kind of salmon that has a krooked nose, *R.*)—Math ar eog (a elwir felly am y dechreu esgyrn ei enau blygu, pan yn deirblwydd oed, y naill dros y llall); eog trwyn-gam.

Camawn,† *s.* (camp) a battle.=Cammawn.

Cambill, au, *s.* (cam—pill) a camel; a sort of large machine.—Gorgambill; math ar beiriant mawr.

Camblaid, bleidiau, *s. f.* (cam—plaid) a heretical sect.—Geublaid, plaid gyfeiliornus.

Cambost, byst, *s.* (cam—post) a pillar, a buttress, a prop.=Canbost.

Cambrintiad, au, *s.* (cam—print) a misprint, a misprinting.—Camargraphiad.

Cambrintio, ia, *v. a* to misprint.

Cambriodoli, a, *v. a.* (cam—priodol) to misapply.—Camgymhwyso, camaddasu.

Cambwl, bylau, *s.* (cam—pwl) the prominent part of a bone.—Pen asgwrn, oddf, efwrn, ysgwrn.

Camchwant, au, *s.* (cam—chwant) unlawful lust; false desire.—Camawydd.

Camder, *s.* (cam) crookedness, obliquity.—Camedd, cemni, gwyrni.

Camdrefn, au, *s. f.* (cam—trefn) wrong order. Camdriniaeth, camlywyddiaeth.

Camdrefniad, au, *s.* false arrangement, a wrong ordering.—Camreoliad.

Camdrefnu, a, *v. a.* to misarrange.

Camdreulisd, au, *s.* (cam—treulio) a consuming wrongly; a misemploying.—Diffyg treuliad, camysiad; camddefnyddiad.
Camdrin, *v. a.* (cam—trin) to mismanage.—Camdrefnu, camarwedd.
Camdreulio, ia, *v. a.* to misemploy, to misspend.—Oferdreulio; camwario.
Camdriniad, au, *s.* a mismanaging, a managing or ordering wrongly.
Camdriniaeth, au, *s. f.* mismanagement.
Camdro, ion, *s.* (cam—tro) a wrong turn.—Camymddygiad; tro gwael.
Camdröedd, *s.* a perversion.—Gwyrdroad.
Camdroi, au, *v. a.* to pervert, to distort.
Camdroiad, } au, *s.* perversion.—Camdröedd,
Camdroad, } dattroad; gwyrdro.
Camdroiadwy, } *a.* pervertible.—Gwyradwy,
Camdroadwy, } hydro, dymchweladwy.
Camdroiedig, } *a.* perverted, distorted.—Gwyr-
Camdröedig, } dröedig, trawswyredig.
Camdrosi, a. *v. a.* (cam—trosi) to pervert.—Gwyrdroi, trawswyro.
Camdrosiad, au, *s.* a perversion.—Gwyrdroad.
Camdrowr, wyr, *s.* a perverter, one who distorts.—Gwyrdrowr, llygrwr.
Camdwy,† on, *s.* (cam—twy) iniquity.—Drygioni, camwedd, trawsedd, anwiredd.
Camdwyad,† au, *s.* a ruling or ordering wrongly; a misdemeaning.—Troseddiad.
Camdwyaeth,† au, *s. f.* a misrule, wrong ordering; a misdemeanor.—Pechod.
Camdwyo,† a, *v. a.* to misrule, to misorder; to misdemean.—Camlywio.
Camdwyal,† *a.* iniquitous, disorderly.
Camdwywr,† wyr, *s.* one who misdemeans; one who behaves wrongly.—Troseddwr.
Camdyb, iau, ion, *s.* (cam—tyb) a wrong opinion, a false notion.—Camddychymmyg.
Camdybiad, au, *s.* a misconceiving, misconception, misunderstanding.—Camfeddwl, camddeall.
Camdybiaeth, au, *s.* a misconduct, misconception.—Camddirnadaeth, camsyniad.
Camdybied, *v. a.* to misconceive, to misunderstand.—Camddirnad, camsynied.
Camdybio, ia, *v. a.* to misconceive.—Camsynio.
Camdybiol, *a.* misapprehending.—Camsyniol.
Camdyngu, a, *v. a.* cam—twng), to swear falsely.—Anudoni, tyngu anudon.
Camdywys, *v. a.* (cam—tywys) to misguide.—Camarwain, camhyfforddi.
Camdywysedig, *a.* misguided.—Camarweiniol.
Camdywysiad, au, *s.* misguidance, a misleading.—Camarweiniad, camhyfforddiad.
Camdywyso, a, *v. a.* to misguide.—Camdywys.
Camdywyswr, wyr, *s.* a misguider, a misleader.—Camarweiniwr.
Camddadgen, ion, *s.* (cam—dadgan) a misrecite.—Camadrodd, camfynegiad.
Camddadgan, *v. a.* to misrecite.—Camddywedyd.
Camddadganu, a, *v. a.* to pronounce falsely; to misrecite.—Camgynanu; camddfynu.
Camddadleu, } *v.* (cam—dadleu) to misplead.—
Camddadlu, } Camsynied wrth ddadleu.
Camddangos, *v. a.* (cam—dangos) to misrepresent; to exhibit falsely.—Camddarlunio.
Camddangosiad, au, *s.* misrepresentation; a false delineation.—Camddarluniad.
Camddangosol, *a.* misrepresenting.
Camddal, *v. a.* (cam—dal) to hold wrongly.—Camattal, camoresgyn, camfeddiannu.
Camddaliad, au, *s.* usurpation.—Trawsfeddiant.
Camddarluniad, au, *s.* (cam—ddarlunio) misrepresentation; a false exhibition.—Camddangosiad, gaufynegiad.
Camddarlunio, ia, *v. a.* to misrepresent; to delineate wrongly.—Camddangos.
Camddarogan, *v. a.* to misconjecture, to prognosticate falsely.—Camddyfalu; cambrophwydo.
Camddarogan, au, *s.* (cam—darogan) a false foreboding; a false prophecy.
Camddeall, au, *s.* (cam—deall) misapprehension, misconception.—Camystyr.
Camddeall, *v. a.* to misapprehend.—Camddirnad.
Camddefnydd, iau, *s.* (cam—defnydd) a wrong structure; a misusage.—Camarfer.
Camddefnyddiad, au, *s.* misconstruction, a misapplication, misusage.—Camgymmhwysiad, camarferiad.
Camddefnyddio, ia, *v. a.* to misconstruct; to misfashion; to misemploy.—Camarfer, camdrin.
Camddefnyddiol, *a.* of a wrong structure or matter, of a wrong intention.—Diddefnydd, annefnyddiol.
Camddefnyddu,† a, *v. a.* to misconstruct.
Camddefod, au, *s. f.* (cam—defod) a false custom, a false usage.—Drygfoes.
Camddeffiniad, au, *s.* (cam—deffinio) a wrong definition.—Camddarluniad, camddosbarthiad.
Camddeffinio, ia, *v. a.* to define falsely.
Camddirnad, au, *s.* (cam-dirnad) a misapprehension; a mistake.—Camddeall, camsyniad; camgymmeriad.
Camddirnad, *v. a.* to misapprehend.—Camddeall.
Camddirnadaeth, au, *s. f.* misapprehension, misconception.—Camsyniadaeth.
Camddodi, *v.* (cam—dodi) to mislay, to misplace.—Camgyfleu, camosod.
Camddodiad, au, *s.* a mislaying, a misplacing.—Camlead, camosodiad.
Camddosbarth, au, *s.* (cam—dosbarth) a false distinction or elucidation; misconstruction.—Camgystrawen; cameglurhad.
Camddosbarthiad, au, *s.* a wrong elucidation; a false definition.—Camddeongliad, camddeffiniad.
Camddosbarthu, a, *v. a.* to make a false elucidation, to misdefine.—Camegluro, camddarlunio, camddeffinio.
Camddull, iau, *s.* (cam—dull) a wrong form or manner.—Camffurf, camagwedd.
Camddychymmyg, ion, *s. f.* (cam—dychymmyg) a wrong conjecture; a misconception.—Camddirnadaeth.
Camddychymmyg, *v. a.* to misconjecture; to misapprehend.—Camddyfalu; camddirnad.
Camddychymmygiad, au, *s.* a misconjecturing, misconception.—Camsyniad.
Camddychymmygol, *a.* misconjecturing, misapprehensive, misconceiving.
Camddyfaliad, au, *s.* (cam—dyfalu) a miscalculation, a misconception.—Camamcaniad, camgyfrifiad, camsyniad.
Camddyfalu, a. *v. a.* to guess wrongly.—Camdybio, camsynio, camddyfeisio.
Camddysgu, a. *v. a.* (cam—dysg) to misteach.—Camhyfforddi, camarwain.

Camddywediad, au, *s.* (cam—dywedyd), a mispronouncing; a false enunciation.—Camgynaniad; camymganiad.

Camddywedyd. *v. a.* to mispronounce, to speak wrongly.—Camfynegi.

Camedd, *s.* (cam) crookedness, a bending.—Plygiad, camder, gwyredd.

Cammedd braich—the bend of the arm, the elbow.

Camedd gar—the bending of the ham.

Cameg, au, cemyg, *s. f.* the felly of a wheel.—Camen, camen, camog.

Cameiddwellt, *s. ag.* (camaidd—gwellt) the hard-grass.—Corwellt. *H. D.*

Cameiddwellt, y morfa—the sea hard-grass. *H. D.*

Camel, od, *s.* (L. *camelus;* Gr. *camelos;* P. Lyr. Eth. *gamal;* ch. *gamale;* s. *gamele, gamol*) a camel; a large quadruped used in Asia and Africa for carrying burdens and for riding.—Cammarch, camyll, cawrfarch, cammul; pedwarcarnol mawr crwbanog a ddefnyddir yn Asia ac Affrica i gario pynau ac i gario marchogwyr.

Camel Arabia—an Arabian camel, a dromedary; a camel that has one hunch on the back.

Camel Bactria—a Bactrian camel, a camel that has two hunches on the back.

Camel fenyw—a female camel.

Camel gwryw—a male camel.

Camelewpart, iaid, *s.* (camel—llewpart) the camelopard.=Camlewpard.

Cameles, au, *s. f.* a female camel.—Camell, camel fenyw, cammules.

Camelion, au, *s.* (*L. chamælion; Gr. chamaileon*) a chameleon; a lizard-like reptile noted for changing its color.—Lledrithfil, edrithfil, madfil, madfall, madliw, nadliwiad.

Camelwr, wyr, *s.* a camel-driver.—Camel-yrwr, gyrwr camelod, camyllwr.

Camelyrwr, wyr, *s.* (camel—gyrwr) a camel-driver.—Camelwr.

Camell, od, *s. f.* (cam) a female camel.—Cameles, camel fenyw, cammules.

Camen, au, *s. f.* a bend, a whirl; the felly of a wheel.—Plygiad; chwyrnell; cameg, camog.

Camenw, au, *s.* (cam-enw) a misnomer; a wrong name, a false name.—Methenw.

Camenwad, au, *s.* a misnaming, a misnomer.—Methenwad; newidiad enw.

Camenwedig, *a.* that is misnamed.

Camenwi, a, *v. a.* to misname.—Camalw.

Camfa, fâu, feydd, *s. f.* (cam-ma) a stile.—Llamfa, llamog, ystigl, cymmed.

Camfalchedd, *s.* (cam—balch) false pride.—camgoegedd, camgoegni.

Camfalhau, hâ, *v. a.* (cam—balhau) to drive out unjustly; to dispossess wrongfully.—Camddiarddel; camddefnyddio.

Camfarn, au, *s. f.* (cam-barn) a wrong sentence; a false judgment.—Camddedfryd, camfrawd, gwallfarn.

Camfarniad, au, *s.* a judging falsely, a misjudgment; a misconception.—Geufarniad.

Camfarnu, a, *v. a.* to judge falsely.—Trawsfarnu, geufarnu.

Camfeddiannol, *a* (cam—feddiant) usurping.—Trawsfeddiannol, camoresgynol.

Camfeddiannu, a, *v. a.* to possess unjustly; to usurp.—Treisfeddiannu, camoresgyn.

Camfeddiannwr, wyr, *s.* an unjust usurper.

Camfeddiant, iannau, *s.* (cam-meddiant) unjust possession; usurpation.—Traisfeddiant.

Camfeddylied, *v. a.* (cam-meddwl) to think wrongly; to misconceive.—Camddirnad.

Camfeddylio, ia, *v. a.* to misapprehend, to misconceive.—Camsynied.

Camfrawd, † *s.* (cam—brawd) a false judgment, an unjust sentence.—Cam farnu.

Camfuchedd, au, *s. f.* (cam buchedd) an unjust course of life; a wrong course of life.—Drwg fuchedd, camymddygiad.

Camfwrw, ia, *v. a.* (cam—bwrw) to misreckon.—Camgyfrif; camfeddwl.

Camfwynhad, *s.* (cam-mwynhad) a possessing or enjoying unjustly.—Camfeddiant, gaufwynhâd.

Camfwynhau, hâ, *v. a.* to enjoy unjustly; to usurp.—Trawsfwynhau, camfeddu.

Camfwyniant, *s.* a false enjoyment.

Camfynegi, Camfynegu,† } **a,** *v. a.* (cam—mynegi) to relate falsely, to misreport.—Camhysbysu, camgyhoeddi.

Camfynegiad, au, *s.* a false relation; a misrecital. Camddywediad, camhysbysiad.

Camganlyn, *v. a.* (cam—canlyn) to follow wrongly; to deduce or infer wrongly.—Camddilyn; camgasglu.

Camganlyniad, au, *s.* a wrong deduction, a misinference.—Camgasgliad.

Camganlynol, *a.* following wrongly.

Camgarchariad, au, *s.* (cam—carchara) a false imprisonment.—Trawsgarchariad.

Camgarcharu, a, *v. a.* to imprison falsely or unjustly.—Camgaethiwo.

Camgerdded, *v. a.* (cam—cerdded) to walk wrongfully; to proceed on a wrong course.—Camrodio; camymddwyn.

Camgerddediad, au, *s.* a walking unjustly; an improper course.—Camymddygiad.

Camglywed, *s.* (cam—clywed) a mishearing.—Camwrandawiad.

Camglywed, *v. a.* to mishear.—Camwrando.

Camgoel, ion, *s. f.* (cam—coel) heresy.—Camgred, geugred, geuffydd, heresi.

Camgoelio, ia, *v. a.* to misbelieve.—Camgredu.

Camgolledu, a, *v. a.* (cam—golled) to defraud.—Twyllo, hocedu, difuddio.

Camgred, au, *s.* (cam—cred) heresy.—Gaugrefydd, camgoel, gwrthgred, geuffydd.

Camgrediniaeth, au, *s. f.* a misbelief, a miscreant.—Gau grediniaeth.

Camgrediniwr, wyr, *s.* a misbeliever.—Geugredwr, camgoeliwr, camgredwr.

Camgredu, a, *v. a.* to misbelieve.—Camgoelio.

Camgredwr, wyr, *s.* a misbeliever, a heretic.—Camgoeliwr, heretic.

Camgredydd, ion, *s.* a heretic.—Geugredwr.

Camgwl,† *s.* (cam—cwl) a penalty.—Dirwy.

Camgychwyniad, au, *s.* (cam—cychwyn) a wrong commencement.—Camddechreuad.

Camgydiad, au, *s.* (cam—cydio) a misconnexion.—Camgyssylltiad, camuniad.

Camgyssylltu, a, *v. a.* to misconnect.

Camgyfansawdd, soddau, *s.* (cam—cyfansawdd) a false construction.—Camddosbarth.

Camgyfansoddi, a, *v. a.* to compose falsely; to misconstruct.—Camysgrifenu; camdrefnu.

Camgyfansoddiad, au, *s.* a false composition; a misconstruction—Camgystrawiad.

Camgyfarwyddiad, au, *s.* (cam—cyfarwyddo) misinformation; a misconducting.—Camhyffordiad, camarweiniad.

Camgyfarwyddo, a, *v. a.* to direct wrongly; to misinform.—Camarwain; camfynegi.

Camgyfeiriad, au, *s.* (cam—cyfeirio) a wrong connection; a false direction.—Camgyfarwyddiad.

Camgyfeirio, ia, *v. a.* to misconnect; to misapply.—Camhyfforddi, camgymmhwyso.

Camgyflead, au, *s.* (cam—cyfleu) a misplacing, a mislaying.—Camosodiad.

Camgyfleol, *a.* wrongly connected; misconnective.—Camosodol; annhrefnus.

Camgyfleu, a, *v. a.* to misplace.—Camleoli.

Camgyfrif, on, *s.* (cam—cyfrif) a misreckoning, a miscounting.—Camrif.

Camgyfrifiad, au, *s.* miscalculation, a misreckoning.—Camrifiad, camgyfrif.

Camgyfrifol, *a.* miscalculating.—Camrifol.

Camgynghor, ion, *s.* (cam—cynghor) a misadvise; a wrong counsel.—Camaddysg.

Camgynghori, a, *v. a.* to misadvise.—Camhyfforddi.

Camgyhuddedig, *a.* (cam — cyhuddo) falsely accused or calumniated.—Camachwynol.

Camgyhuddiad, au, *s.* a false accusation; calumny.—Camachwyniad; cabledd.

Camgyhuddo, a, *v. a.* to accuse falsely; to calumniate.—Camachwyn; athrodi.

Camgyhuddo, *a.* accusing falsely; calumniating.—Athrodol, enllibiol.

Camgyhuddwr, wyr, *s.* a false accuser.—Camachwynwr, athrodwr, enllibiwr.

Camgylus,† *a.* (camgwl) blameworthy, culpable.—Beius; euog; troseddol.

Camgymmedroli, a, *v. a.* (cam—cymmedrol) to misproportion; to misconnect.—Camdrefnu, camgyfartalu.

Camgymmeriad, au, *s.* (cam—cymmeryd) a mistaking, a mistake.—Camsyniad.

Camgymmeriaeth, au, *s. f.* a wrong acceptation.—Camddirnadaeth, camddealltwriaeth.

Camgymmeryd, mera, *v. a.* to mistake, to misapprehend.—Camsynied.

Camgymmhariaeth, au, *s. f.* (cam—cymmharu) misconnection, a wrong comparison.—Camgyfartaliad, camddosbarth.

Camgymmharu, a, *v. a.* to mismatch, to misconnect; to compare wrongly.—Camgyssylltu; camgyferbynu.

Camgymmhwysiad, au, *s.* (cam—cymmhwyso) misapplication.—Camaddasiad.

Camgymmhwyso, a, *v. a.* to misapply.—Camgyfaddasu, cambriodoli.

Camgynnal, *v. a.* (cam—cynnal) to hold or detain unjustly.—Camddal, camattal.

Camgynnaliad, au, *s.* unjust detention or upholding.—Camattaliad.

Camgyssylltiad, au, *s.* (cam—cyssylltu) a misjunction; a misconnection.—Camgydiad, camgyfuniad.

Camgyssylltu, a, *v. a* to misjoin.—Camgyplysu.

Camhawl, holion, *s.* (cam—hawl) a misclaim; an unjust claim.—Camhoniad, camarddelw.

Camholi, a, *v. a.* to misclaim, to make a wrong or unjust claim; to question wrongly.—Camhoni, camarddelwi, camofyn.

Camholiad, au, *s.* a misclaiming; a questioning or examining wrongly.

Camhôniad, au, *s.* (cam—honi) a misclaiming.—Camholiad, camarddelwad.

Camhôni, a, *v. a.* to misclaim.—Camofyn.

Camhyder, au, *s.* (cam—hyder) false dependence; presumption.—Camymddiried; rhyfyg.

Camhyderu, a, *v. a.* to confide wrongly.

Camlad, au, *s.* (from *camel=camelot*) a camlet; a thin cloth or stuff (originally made of silk and camel's hair, now chiefly of wool or goat's hair, sometimes mixed with silk, cotton, or linen). Camlod, camled; cymmysgwe (a wneid gynt o sidan a blew camel, ond yn awr yn benaf o wlan neu flew geifr, ac weithiau yn gymmysg â sidan, cotwm, neu liain).

Camlas, au, *s. f.* (cam—glas) a trench or ditch; a narrow inlet of the sea.—Clawdd, ffosglawdd, rhigol, rhewyn; mornant, moryd, morebach.

Tir camlas—a land intersected with rivulets.

Camled, au, *s.* a camlet.=Camlad.

Camlefariad, au, *s.* (cam—llefaru) a mispronouncing.—Camynganiad, camseiniad.

Camlefaru, a, *v* to mispronounce.

Camlehâd, *s.* (cam—llehau) a misplacing, a putting in a wrong position.—Camgyflead, camosodiad.

Camlehau, hâ, *v. a.* to misplace.—Camgyfleu.

Camluniad, au, *s.* (cam—llunio) a misformation, a forming wrongly, camffurfiad, camagweddiad, camdrefniad.

Camlewpard, iaid, *s.* (cam—llewpard) the camelopard; an African ruminant animal; the giraffe.—Camlewpart, marchlewpard, cawrlewpart, y giraff.

Camlod, au, *s.* (*camlad*) a camlet.=Camlad.

Camlunio, ia, *v. a.* to misform.—Camffurfio.

Camluniedig, *a.* misformed.—Anffurfiol.

Camlwrw,† lyrau, *s.* (cam—llwrw) a fine, an amercement for injury.—Dirwy, camgwl, fforffed; sarhâd.

Mesur camlwrw yw tair buw, neu naw ugaint—the extent of a fine of satisfaction is three kine, or a hundred and eighty pence. C. C.

Camlwrw dauddyblyg—a double fine. *C. C.*

Camlwrw tridyblyg—a triple fine. *C. C.*

Camlwrw undyblyg—a simple fine. *C. C.*

Camlwybr, au, *s.* (cam—llwybr) a false path; deceitful road.—Gau lwybr.

Camlyrus,† *a.* (camlwrw) incurring a penalty.—Dirwyd, sarhaus.

Camlythreniad, au, *s.* (cam—llythyrenu) a false othography.—Camarddygraph, camlythyriad.

Camlythyrenu, a, *v. a.* to mis-spell.—Camysgrifenu.

Camlythyriad, au, *s.* (cam—llythyru) a false orthography, a mis-spelling.—Camsillebiad, camlythyreniad.

Camlythyru, a, *v. a.* to mis-spell.—Camsillebu, camlythyrenu.

Camlywiad, au, *s.* (cam—llywio) a mismanaging, a misgoverning.—Camlywodraethiad.

Camlywiawd, *s.* a misgoverning.—Dryglywiad.

Camlywio, ia, *v. a.* to mismanage.—Camdrefnu.

Camlywiodawr, orion,† *s.* one that misgoverns.—Camlywodraethwr, dryglywiwr.

Camlywodraeth, au, *s. f.* a misgovernment; a misrule.—Camreolaeth, aflywodraeth.

Camlywodraethu, a, *v. a.* to misgovern, to misrule; to misconduct.—Camreoli.

Cammarch, od, *s.* (cam—march) a camel.—Canwyll, camel, cawrfarch.

Cammawn,† *s. f.* (camp) a conflict, a combat, a tournament.—Trabludd, brwydr, trin, aeraf, ymladd.

Cammin, *s.* (cam—min) a peregrine falcon (so called from his crooked bill).—Hebog dramor, hebog tramor, hebog piccam.

Cammined, au, *f.* the flower-de-luce, the fleur-de-lis.—Elestr.

Cammined y dwr - the water fleur-de-lis.

Camnul, od, *s.* (cam—mul) a camel.

Cammules, au, *s. f.* a female camel.—Cammeles, camell, camel fenyw.

Camog, an, *s.* (cam) an oppressor† (Ll.); a kind of salmon; the felly of a wheel.—Gorthrymwr;† camawg; cameg, camen.

Camogwydd, ion, *s.* (cam—gogwydd) a wrong bias or inclination.—Camdueedd.

Camogwyddiad, au, *s.* a wrong biassing, a misinclining.—Camdueddiad.

Cammonfa,† *s. f.* (cammawn, a parade for military exercise.—Camas, rhodfa; ymarferfa, ymddangosfa, rhesfa milwyr.

Camorchwyl, ion, *s.* (cam—gorchwyl) a misemployment, an improper action.—Camwaith, camddefnydd; camweithred.

Camorchwyliaeth, au, *s.* a misemployment, a wrong application.—Camweithrediad.

Camoresgyn, ion, *s.* (cam—goresgyn) usurpation, an unjust possession, a deforcement or disseisin in law.—Trawsfeddiant, camfeddiant, treisattafael.

Camoresgyn, *v. a.* to make a disseisin or eject wrongfully; to usurp.—Trawfeddiannu.

Camoresgyniad, au, *s.* a taking unjust possession.—Trawsfeddianniad.

Camoresgynol, *a.* usurping, apt to make an unjust conquest.—Treisfeddiannol.

Camoresgynu, a, *v. a.* to take unjust possession; to unsurp.—Camfeddiannu.

Camoresgynwr, wyr, *s.* one that seizes unlawfully.—Treisgipiwr, camfeddiannwr.

Camoresgynydd, ion, *s.* an unlawful possessor; an usurper.—Gormesydd.

Camosod, *v. a.* (cam—gosod) to misplace.—Camgyfleu, camddodi, camleoli.

Camp, au, *s. f.* (camp; Ir. *campa;* L. *campus;* S. *camp*) a circle; a feat; a game; the prize obtained in the games. (The Welsh had twenty four games, or qualifications that may be called their course of education. These where divided into three classes; ten manly qualifications; ten qualifications of youth; and four inferior qualifications).—Cylchmawd; gorchest, gwrolgamp; gwronwaith, gwrhyari; gweithred; taplas; gwobr; tlws, campulws. (Yr oedd gan y Cymry bedair camp ar hugain, y gellir eu hystyried megys eu cylch addysg. Rhenid y rhai hyn yn dri dosbarth; deg gwrolgamp; deg mabolgamp; a phedair o'r gogampau.)

Camp dda—a good quality.

Camp ddrwg—a bad quality or trick.

Campau gorchest, } feats of activity.
Campau llamidyddol, }

Campau Olympig, } the Olympic
Campau Olympaidd, } games.

Campau rhyfel — the feats of war, the feats of arms.

Campfa, on, feydd, *s. f.* a theatre.—Chwareufa. chwareule, chwareudy, cemmaes.

Campgystadlwr, wyr, *s.* (camp—cystadlwr), a contender at games.—Ornestwr, ymladdwr.

Camprio, ia, *v. a.* (camp) to contend at games.

Campiwr, wyr, *s.* one that contends in the games.—Ymorchestwr, campgystadlwr.

Campus, *a.* excellent, surpassing.—Godidog.

Campwri, *s.* active qualification.—Gwrolwaith.

Camphir, } *s.* (Low. L. *camphora; F. camphre;*
Camphor, } A. *kafor, kaforon;* H. Ch. Syr., *kafur*) camphor, camphore.

Cangen o rawn camphir—a cluster of camphor. *B.*

Olew camphir—camphor oil.

Pren camphir—a camphor tree.

Camphiraidd, *a.* camphoraceous.—Camphoraidd.

Camphirig, *a.* camphoric.—Camphorig.

Camphoraidd, *a.* camphoraceous.—Camphiraidd.

Camphorain, *a.* camphorate, camphorated.—Camphoraidd, nawseiddio â champhir.

Camphoreiddio, ia, *v. a.* to camphorate.—Nawseiddio, golchi â champhir.

Camphoriant, *s.* a camphorate.—Hal camphor.

Camphorig, *a.* camphric.—Camphirig.

Camphorlawryf, *s.* (camphor—llawryf) a camphor-laurel.—Llawryf camphoraidd.

Camphoron, *s.* (camphor) a camphorone; a volative liquid obtained from camphor.—Camphorwy.

Camphorwy, *s.* (camphor—gwy) opodeldoc; a camphorone.—Sebonwy; camphoron.

Camraw, iau, *s. f.* (cam—rhaw) a shovel.—Rhawbol, llwyar; rhawlech.

Camre, au, camrau, *s.* (cam) a pace, a step.—Llum, cam llwyf, cerddediad brisg.

Camreol, au, *s. f.* (camreol) a misrule.—Camlywodraeth, afreol.

Camreoli, a, *v. a.* to misgovern, to misrule.

Camri, *s.* (cam - rhi) camomile.—Milwydd, camomil.

Camri cyffredin.—common camomile.

Camri 'r ewn.—stinking camomile, mayweed.

Camrif, au, *s.* (cam—rhif) a wrong number; a wrong reckoning.—Camgyfrif.

Camrifiad, au, *s.* a miscounting.—Camgyfrifiad.

Camrifo, a, *v. a.* to miscount.—Camgyfrif.

Camrwysg, au, *s. f.* (cam—rhwysg) abuse of power; tyranny or usurption.—Trawsrwysg, camoresgyn.

Camrwysgiad, au, *s.* an abusing of power; a tyrannizing.—Gormesiad, gorthrymiad.

Camrwysgo, *a. v, a.* to abuse authority; to sway wrongly.—Gormesu, gormeilio.

Camrwysgwr, wyr, *s.* one that abuses authority.—Camoresgynwr.

Dan y gamrwysg ddiweddar—under the late oppression. *Ll. G.*

Camrysedd, *s.* (cam—rhysedd) unjust excess.—Gormodedd, camryfiant, traha.

Camse,† *s.* a gown.—Gŵn, hug, twyg. *E. L.*

Camseiniad, au, *s.* (cam—seinio) a sounding falsely.—Camynganiad, camgynganiad, drygseiniad.

Camseinio, *v. a.* to sound falsely, to pronounce wrongly.—Camsynio, camynganu.

Camsiwn,† *s.* a youth.—Mebyd maboed. *H. S.*

Camsyniad, au, *s.* (cam—synio) misapprehension, misconception.—Camddirnad, camddeall.

Camsyniadol, *a.* misapprehensive.—Camddirnadol.

Camsyniad, *v. a.* to misapprehend, to misconceive, to mistake.—Camddeall, camamgyffred.

Camsyniwr, wyr, *s.* one that misapprehends.—Camddirnadwr, camgymmerwr.

Camu, a, *v. a.* (cam) to bend, to bow, to curve; to step, to take a stride.—Plygu, gwyro, gwyrgamu; rhoddi llam; cerdded.

Camwedd, au, *s.* (cam—gwedd) iniquity; trespass; wrong; injustice.—Drygioni, bai, troedd, pechod.

Camweddog, *a.* iniquitous.—Anwir.

Camweddiad, au, *s.* doing an iniquitous act; trespassing.—Troseddiad.

Camweddu, *v. a.* to do an unbecoming act; to trespass; to transgress.

Camweddus, *a.* iniquitous; injurious.—Drygionus; peryglus.

Camwedduswydd, *s.* injuriousness.—Niweidioldeb.

Camweithred, ion, *s. f.* (cam—gweithred) a misdeed, a wrong doing.—Drygweithred, camwedd.

Camweithrediad, au, *s.* a wrong operation; a false transaction.—Camymddygiad.

Camweithredu, *v. a.* to transgress.—Camweddu.

Camweithredwr, wyr, *s.* a transgressor.—Troseddwr.

Camwneuthur, *v. a.* (cam—gwneuthur) to misconstruct; to do a thing wrongly.—Camymddwyn; camarwedd, camdrin.

Camwr, wyr, *s.* (cam) a bender, one that bends; a strider.—Gwyrgamwr, ymblygwr; llamwr, cerddedwr.

Camwri, *s.* perversion; abuse.—Gwyrdro; llwgr; camwy.

Camwy,† on, *s.* perversion; abuse.—Camwri.

Camwyr, *a.* (cam—gwyr) bending obliquely.—Gwyrgam, plygedig, nydd-droawl.

Camyll, od, *s.* a male camel.—Cammarch, camel, cawrfarch, cammul.

Camymarwedd, ion, *s.* (cam—ymarwedd) misbehaviour, misconduct, misdemeanour.—Camymddwyn, gwallymddygiad.

Camymarwedd, *v. a.* to misbehave.—Camymddwyn, camarweddu.

Camymarweddiad, au, *s.* a misdemeanour, a misbehaviour.—Camymddygiad.

Camymddwyn, *s.* (cam-ymddwyn) a misdemeanour; discomformity; disagreement; misconduct.—Camymarwedd.

Camymddwyn, *v.* to misbehave.—Camymarweda, camarweddu.

Camymddygiad, au, *s.* a misbehaving; a misconduct, a misdemeanour.—Camymarweddiad, camdwyaeth.

Camystum, iau, *s.* (cam-ystum) a wrong position; distortion.—Camagwedd.

Camystyr, iau, *s.* (cam-ystyr) a false conclusion, misapprehension.—Camddirnad, camddeall,

Camystyriaeth, au, *s.* misapprehension; misconstruction.—Camddealltwriaeth.

Camystyried, *v. a.* to misapprehend.—Camfeddwl, camsynied, camfarnu.

Camystyriol, *a.* misconceiving.—Camddeallol.

Cân, canau, caint,† *s. f.* (ca—an; Arm. *can*; Ir. *cantic, caintic*; Ll. *canto*; L. *canticum*, from *cano*, to sing) discant, a song; a ballad; a poem; strain; hymn; poetry; notes of birds.—Cathl, canu, achan, canon; cywydd, cywyddau; caniad; cerdd, cwndid, dyri, dyrit; cywyddoliaeth; emyn; prydyddiaeth; adargan, cathl adar.

Cân addysg—a didactic poem.
Cân benrhydd, Can benrydd, } blank verse.
Cân briodas—a nuptial song.
Cân cariad, Cân serch, } a love-song.
Cân Dafydd Brophwyd—the Song of David the Prophet: the name of an old tune.

Can, *a.* (an; Arm. *can*; C. *can*; L. *candidus*: these are from the same root as *cân, cano, &c.*, says Dr. Ogil., and have the same radical sense, to throw or shoot as rays of light, to shine) bright, shining; white.—Disglaer, dysglaer, claer, canaid, llachar, gloyw, cain; gwyn (*f.* gwen); pur.

Bara can—white bread.

Can, *s. ag.* sight; brightness; whiteness.—Golwg, edrychiad, gwedd; disgleirdeb; gwynder, gwyn.

Can, *c.* because, for, forasmuch; since, since that.—Gan, o blegid, o herwydd, herwydd. o ethryb; canys, o waith, waith, yn gymmaint a; rhag.

Can dy fod yn disgwyl—as thou art expecting.
Can ddywedyd o hono felly—since he spoke in that manner.
Can gynted a'r gwynt—as swift as the wind.
Can hyny—therefore.
Can wired—as true.

Can, *prp.* with; of.—Gyda, gyd â, gydag, gyd âg, efo, â, âg.

Da gan bawb delyn—liked by everybody is the harp.

Cânad, au, *s.* a bleaching.—Darwyniad.

Cânaid, *s. f.* what abounds with brightness; a luminary.—Gwynogrwydd; goleuad, goleugorph.

Y Gânaid—an epithet for the sun in North Wales; it is also applied to a young woman: in *Dimet* it is an epithet for the moon.
Goleu 'r Gânaid—the light of the moon, the moon-shine.—*Dimet.*

Cânaid, *a.* bright; white.—Can, disglaer; gwyn.

Canastr,† on, *s.* (cant—astr) a hundred recurrences or junctions.—Cyhyryn; cancyroh, cantadred, can adred, cant attro.

Canaw,† on, canson,† *s.* a whelp.=Cenaw.

Canawd,† *s.* (cân) a discanting; a singing.—Canaid, cynghaniad; pyngciad.

Cânawg, *a.* whitened, abounding with white.—Gwynog, gwynedig; cânaid.

Canawl,† *s.* the middle=Canol.

Canbost, byst, *s.* (can—post) a buttress, or press; a balluster.—Cambost, seilddar, ategwydd, atteg, attegbost, gwanas; attegwaith, attegfur, cynnalfur: cynnaliawdr.

Canclawdd, *s. f.* (cant—clawdd)=Canclwm.

Canclwm, *s. f.* (cant—clwm) the knotgrass, the common knotgrass, the centinody.—Canclawdd, clymog, y glymog, clymlys, gwaedlys, berw 'r iar, berwy'r iar.

Canclwyf, *s. f. ag.* (cant—clwyf) the moneywort, creeping loose strife, herb twopence.—Ceinioglys, dwygeinioglys.

Canclymig, *s. f.* (can—clwm) sand strapwort.—Corglymig.

Canderawg,† *a.* mad.=Cynddeiriog.

Candoll, *s. f. ag.* (cant—toll) perforated St. John's wort.—Eirinllys trydwll, tarfwgan.

Candryll, *a.* (cant—dryll) all to pieces, shivered.—Ysgyrionllyd, carpiog.

Canddo,† aid, *s.* a fox.=Cadno. *Sil.*
Cànedig, *a.* (can) blanched; whitened.—Gwynedig; wedi ei gànu.
Caneidlu, oedd, *s.* (canaid—llu) a blessed host, a glorified company.—Gwynfydlu, caneittorf, llu cànaid.
Caneiddrwydd, *s.* (canaid) brightness; splendor.—Gwynder, disgleirdeb, gloywder.
Canel, *s.* (can—el); Arm. *canel*; H. *caneh*) cinnamon; a spicy bark of a tree of Ceylon.—Cinamon, sinamon; chwaethrisg pren o Ceylon.
Canel,† au, *s.* a faucet.—Dwsel, twsel. *R.*
Tap a chanel—tap and faucet. *R.*
Canelfaen, fain, *s.* (canel—maen) a cinnamon stone.—Maen cinamon.
Canel gwyn—white ceiramon:
Canelwy, on, *s.* (canel—gwy) cinnamon water.—Dwfr cinamon, dwr sinamon, sinamonwy, dwr canel.
Canelwydd, *s. ag.* (canel—gwydd) the cinnamon tree.—Y pren sinamon, coed cinamon.
Canewin, *s. f.* (cant—ewin) the orpine, the live-long.—Bywlys llydanddail, bywydog llydanddail, berwy Taliesin, berwr Taliesin, llysiau Taliesin, ffaen Taliesin.
Canfed, *a.* (cant) hundredth.
Canfod, *v. a.* (can—bod) to behold, to perceive.—Gweled, synied, deall, dirnad, craffu.
Canfodadwy, *a.* that may be seen.—Gweladwy; syniadwy.
Canfodiad, au, *s.* a descrying.—Gwelediad, canfyddiad, amgyffrediad.
Canfodoldeb, *s.* visibleness.—Amlygedd.
Canfodolrwydd, *s.* Discernibleness.—Canfodrwydd.
Canfodrwydd, *s.* perceptibility.
Canfyddiad, au, *s.* the act of perceiving.
Canfyddadwy, *a.* perceivable.—Canfodadwy.
Canfyddwr, wyr, *s.* a perceiver.—Dirnadwr.
Canfys, *s.* (can—bys) the ring finger.—Greinfys, bys y fodrwy, meddygfys, bys y gyfareddd.
Canhauol, *s.* (can—hau) pellitory of the wall.—Paredlys, murllys, murllwyn, berthlys, pelydr y gwehydd, cantafod, llysiau'r mur, llysiau'r pared.
Canhebrwng, ryngau, *s.* (can—hebrwng) an accompanying; a funeral.—Cynhebrwng, cydhebrwng, cydanfon, cydganlyn; anglaad, arwyl, claddedigaeth.
Canhebryngiad, au, *s.* accompaniment; attendance on a funeral.—Cynhebryngiad; arwyliad.
Canhebryngu, a, *v. a.* to accompany, to attend with; to attend a burial.—Cynhebryngu; cydanfon.
Canhebryngwr, wyr, *s.* one who accompanies or attends on a journey.—Cynhebryngwr, cydhebryngydd.
Canhwynol,† *a.* genuine.=Cynnwynol.
Canhyad,† *s.* a messenger.=Cenad. *H. S.*
Canhymdaith,† *v.* to accompany.—Canymdaith.
Cànisd,† iaid, *s.* (can) a bearing with; licence, leave, permission, allowance.—Caniatâd, goddefiad, cenad; trwydded.
Canisd, au, *s.* (cân) song; music; versification.—Cân, cerdd, cathl, cywyddaid; cerddoriaeth; mydr, mydriad.
Caniad penrhydd—blank verse.
Caniadaeth, au, *s.* the science of singing and of versification; music.—Cynghanedd, oethlyddiaeth, cerddofyddiaeth, alawiaeth; cerddoriaeth.
Caniadu,† a, *v. a.* (cân) to permit, or consent to.—Cydsynio, caniatau; goddef.
Caniadwr,† wyr, *s.* one that consents, one that accedes to.—Cydsyniwr, cyttunwr.
Caniadydd, ion, *s.* (cân) a singer.—Caniedydd.
Caniadyddes, au, *s. f.* a songstress; a female singer.—Cantores, ceiniades, canwraig.
Caniatâd, *s.* (can) permission, consent, allowance, concession.—Cenad, cydsyniad, goddefiad; trwydded; rhyddid.
Caniatäedig, *a.* permissioned, allowed.
Caniataol, *a.* permissive, allowable.—Ceniadol.
Caniatau, caniatâ, *v. a.* to permit, to consent, allow, or concede.—Cenatau, goddef, cynnwys, gadael; rhoi cenad.
Caniatawr, wyr, *s.* a permitter, one that consents or allows.—Goddefwr, cydsyniwr.
Caniedydd, ion, *s.* (cân) a singer; one skilled in singing.—Canwr, cantwr, canor, pyngciwr.
Caniedyddes, au, *s. f.* a songstress.=Caniadyddes.
Canig, au, ion, *s. f. dim.* a little song; a sonnet.—Cenig, canuan.
Canigwr, wyr, *s.* a sonneteer; a writer of sonnets; a small poet.—Cenigwr; ysgrifenwr canigion: gofardd, crachfardd.
Canloyw, (can—gloyw) very bright or clear.—Gorloyw, claerloyw, disglaer.
Canloywder, *s.* pellucidness.—Disgleirder.
Canlyn, *v. a.* (can—glyn) to follow, to accompany; to pursue; to prosecute:—Dilyn, dilyd, arganlyn; erlyn, dynwarèd, efelychu.
Canlynadwy, *a.* that can be followed.
Canlynawdr, odron, *s.* a plaintiff; one who commences a suit.—Cwynwr, achwynydd, hawlydd, erlyniwr, hawlblaid, gofynydd. *C. C.*
Canlyniawd, au, *s.* a following; accompaniment; consequence.—Dilyniad; casgliad, cynghlo, cydgload.
Canlyniadol, *a.* consequential.—Cyfymlynol; casgliadol.
Canlyniawd,† iodau, *s.* a consectary or inference; consecution.—Casgliad.
Canlyniawdr,† iodron, *s.* a prosecutor or pursuer of a design.—Cynlluniwr.
Canlynol, *a.* following, consequential.—Dilynol, olynol.
Canlynwr, wyr, *s.* a follower; a dependant.—Dilynwr; ymddibynwr.
Canllaid,† *a.* (can—llaid) calm or still.—Tawel, distaw, llonydd.
Tywydd canllaid—calm or serene weather.
Canllaidd, *a.* (can—llaidd) very calm or serene.—Digynnhwrf, llariaidd.
Canllaith, *a.* (can—llaith) calm and open.—Tawelgain.
Canllaw, iau, *s. f.* (can—llaw) a support; a battlement of a wall or bridge; a balustrade; an assistant in a court of law; a counsellor; an attorney.—Cynnalydd, atteg, murganllaw; pontganllaw; rheilwydd; dadleuydd mewn llys cyfraith; cynghorydd, cynghawsydd; cyfreithiwr, attyrnai. *C. C.*
Canllawiaeth, au, *s.* a supportation; the office of an assistant.—Attegydd.
Canllid,† au, *s.* (can—llid) inveteracy.—Hen lid, cildynrwydd.
Canllyn,† *v. a.* to follow; to prosecute.=Canlyn.

Canmawl, *v. a.* (cân—mawl) to commend, to praise.=Canmol.

Canmhlyg,† *a.* (cant—plyg) of a hundred fold. =Canplyg.

Canmhlygu,† *v. a.* to centuplicate.=Canplygu.

Canmol, *v. a.* (canmawl) to commend, to praise.—Clodfori, moli, moliannu; cyflwyno, cymmeradwyo, gorchymyn.

Canmoladwy, *a.* commendable.—Clodwiw.

Canmolawd, *s.* commendation.—Canmoliaeth.

Canmolawl, *a.* commendatory.—Moliannol.

Canmoliad, au, *s.* commendation, a commending, a praising.—Moliant, clodforedd.

Canmoliadol, *a.* praiseworthy.—Gwiwglod.

Canmoliaeth, au, *s. f.* commendation, applause. —Cymmeradwyaeth. [letter.

Llythyr canmoliaeth—a recommendatory

Canmoliaethol, *a.* commendatory.—Cymmeradwyol.

Canmoliaethus, *a.* applauding.—Moliannus.

Canmoliant, *s.* commendation.—Moliant, gair da.

Canmolwr, wyr, *s.* one that praises, a commender.—Moliannwr.

Canmolydd, ion, *s.* an encomiast, a commender; an eulogist.—Clodforydd.

Canmwyaf,† *ad.* (can—mwyaf) for the most part.—Gan mwyaf.

Cannalen, *a.* (cant—dalen) of a hundred leaves. —Can nalen, canplyg.

Cannalenog, *a.* centifolious.—Candalenog.

Cannerth,† au, *s.* (can—nerth) assistance, support, aid.—Cymmhorth, cynnorthwy.

Cannerthiad,† au, *s.* a co-operating, assisting. —Cynnorthwyad.

Cannerthol,† *a.* co-operating.—Cydweithredol.

Cannerthu,† *a*, *v. a.* to co-operate.—Cydnerthu.

Cannhrawd,† nhrodion, (can—trawd) accompaniment. — Cydymdeithiad, cydfynediad; cyttrawd.

Cannhwysg,† au, on, *s.* (can—twysg) an accompanying portion; an accompaniment.—Cydran; cyd-deithiad, cydymdeithiad; canymdoad; cyngherddawd.

Cannog,† *a.* (can; can—dog) having in, containing.—Cynnwysedig.

Cannorth,† *s.* (can—dorth) succour; assistance. —Cymmhorth, cynnorthwy.

Cannorthwy,† *s.* succour, assistance, help, aid, support.—Cynnorthwy, help, cyfnerthiad.

Cannorthwyad,† *s.* a succouring.—Cynnorthwyad.

Cannorthwyo,† *v. a.* to succour.—Cynnorthwyo.

Cannorthwyedig,† *a.* that is helped.—Cynnorthwyedig.

Cannorthwyol,† *a.* aiding, or assisting; subsidiary.—Cyfnerthol.

Cannorthwywr,† wyr, *s.* a succourer, an assistant.—Helpwr.

Cannorthwydd,† ion, *s.* a helper, an assistant; a supporter.—Cyfnerthydd, helpydd.

Cannu,† *v. a.* (cant) to contain.—Gannu,† ànu, annu,† gèni; cynnwys.

Cymmaint ag a gannai y llestr—as much as the vessel would contain.

Cannwyn,† *v. a.* (can—dwyn) to bear with.—Dwyn gyda; cyd-ddwyn.

Cannwynol,† *a.* that is carried or borne with; congenial.—Dygedig; cynnwynol, naturiol.

Cannyn, *s. ag.* (cant—dyn) a hundred men.—Cant o ddynion, can dyn.

Canol, au, *s.* (cant—ol) a middle or centre; an umpire.—Canolbarth; yr hanner; craidd; perfedd, calon; canolwr, dyddiwr.

Canolaidd, *a.* central, middle sized.—Canolog, canolig, creiddiol.

Canolbarth, au, *s.* (canol—parth) a centre, the middle point. — Canolbwngc, canolbwynt, craidd, canol.

Canolbost, byst, *s.* (canol—post) a middle post.—Post canol.

Canoldant, dannau, *s.* (canol—tant) the middle string of a harp.—Creidd-dant, tant canol (telyn).

Canoldir, oedd, *s.* (canol—tir) an inland region —Canol tir, canol gwlad, cylchdir, canolbarth.

Môr y Canoldir
Y Môr Canoldir } the Mediterranean sea.
Y Canolfor

Mynyddoedd y Canoldir—the Mediterraneous mountains.

Canoldir, *a.* encircled by land; inland; mediterranean, mediterraneous. — Canoldiraidd, canoldirog, canoldirol, amdirol, cylchdirol; diarfor, diarforol, anarforol.

Canoldiraidd, *a.* lying between land; inland; mediterranean.—Canoldir, canoldirol.

Canoldirog, } *a.* inland; mediterraneous; re-
Canoldirol, } mote from the sea.—Canoldir; pell o'r môr.

Canolfaint, *a.* (canol—maint) middle-sized. — Cyffredin o faint; cyffredin, canolig; cryn.

Canolgais, *a.* (canol—cais) centripetal.—Canolgyrchol, creiddgais.

Canolgyrch, *a.* (canol—cyrch) centripetal. — Canolgais, creiddgyrch.

Canolgyrchol, *a.* centripetal.—Creiddgeisiol.

Canoli, *a*, *v. a.* (canol) to place in the middle.—Gosod yn y canol; creiddioli.

Canoliad, iaid, *s.* what is in the middle or centre.—Peth yn y canol; creiddioliad.

Canolig, *a.* that is in the middle, middling; indifferent, ordinary; middle-sized.—Rhwng y ddau, yn y canol; cymmedrol, lledweddol, symol, gweddol.

Canoloediog, *a.* (canol—oed) middle-aged. — O ganol oedran; rhwng hen ac ieuango.

Canolog, *a.* (canol) central, middlemost.—Canolaidd.

Canolwr, wyr, *s.* a mediator.—Cyfryngwr, canolydd; eiriolwr.

Canolydd, ion, *s.* one that is in the middle, a mediator.—Dyddiwr, canolwr, cyfryngwr.

Canon, au, *s. f.* (cân; Gr., L., Por., Sp., Fr., S., *canon:* if *cân*, according to Dr. P., is the right root, it corresponds to the L. *cano:* the sense of *canon*, says Dr. Og., is that which is set or established) a song; a rule, a prescript, a canon: a law, a formula; a large sort of type.—Cân; rheol, cynon, rheithiadur, gofyddeb; deddf, cyfraith, rhaith, gosodiad, glwysraith; canondeben, canonen, math o argraph-lythyren fras.

Canon eglwys—the canon law.
Canon Eglwys Rhufain—the canon of the Romish Church.
Canon gwlad ac eglwys—the civil and canon law.
Canon mynachlog—the canon of a monastery.
Canon trigiannol—canon residentiary.
Canon ymadrodd—the canon of speech.

Canon yr Ysgrythyr—the canon of Scripture.

Canonaidd, *a.* conformable to rule; regular; ecclesiastical.—Canonawl; rheolaidd; eglwysaidd; cyfreithiol, awduraidd.

Buchedd canonaidd—canonical life.

Cospau canonaidd—canonical punishment.

Llythyrau canonaidd—canonical letters.

Oriau canonaidd—canonical hours.

Pechodau canonaidd—canonical sins.

Yr Epistolau Canonaidd—the Canonical Epistles. [Scriptures.

Yr Ysgrythyrau canonaidd—canonical

Canonawl, *a.* canonic, canonical; pertaining to the canon; regular.—Canonaidd, perthynol i'r canon; rheolaidd; eglwysol.

Canoneiddrwydd, *s.* agreeableness to rule, canonicalness.—Canonoldeb, rheoleiddrwydd.

Canonfudd, *s.* (canon—budd) canonry, the office of a canon.—Cynonfudd, cynoniaeth.

Canoni, *v. a.* to put under regulations, to render canonical.—Canoneiddio, seintio.

Canoniaeth, *s.* conformity to rule; canonicate, a canonry.—Swydd ac urddau canon.

Canonolion, *s. pl.* canonicals.—Glwyswisgoedd.

Canonwisg, oedd, *s. f.* (canon—gwisg) the full dress of a clergyman; canonicals.—Offeiriadwisg, clerigwisg, gwisg clerigwr, glwyswisg.

Canonwr, wyr, *s.* a member of a cathedral; a canonist.—Proffeswr cyfraith eglwys.

Canonydd, ion, *s.* a canonist.—Cynonydd.

Canonyddol, *a.* canonistic.—Cynonyddol.

Canotor, † *sup.* (canawd, canu) singing, hymning.—Yn canu.

Canpen, *s.* (cant—pen) a hundred heads.—Can pen, cant o benau.

Canpeniog, *a.* a hundred headed.

Canplyg, *a.* (cant—plyg) being hundred-fold.—Cannyblyg, canmhlyg; cantro.

Canrain,† } einion, *s. f.* (can—rhain) a train of
Canrhain, } followers.—Gosgordd.

Canrawd, rodion, } *s.* (can—rhawd) convolu-
Canrhawd, rhodau, } tion.—Cyd-ddirwyniad.

Canre,† } on, *s. f.* (can—rhe) the pursuit or
Canrhe, } running with.—Cyfrediad.

Canred,† } ion, *s. f.* (can—rhed) a pursuit or
Canrhed, } following after.—Erlyniad, ymlidiad.

Canreg,† } ion, *s. f.* (can—rheg) endowment or
Canrheg, } natural gift; accomplishment.—Gwaddol, cynnysgaeth; dawn; rhodd.

Canri, } *s. f.* (cant—rhi) centaury.—Arlladlys,
Canrhi, } bustl y ddaear.

Canrhi felen—yellow centaury.

Canrhi felen eiddil—least gentianella.

Canrhi goch—common centaury.

Canrhi goch arfor—dwarf tufted centaury.

Canrhi leiaf—the lesser centaury.

Canrhi 'r gors—marsh centaury.

Canryg, } *s. ag.* (can—rhyg) rye flour.—Blawd
Canrhyg, } rhyg.

Bara canrhyg—rye bread.

Cans,† *c.* for=canys.

Cant, oedd, cannoedd, *s.* (can; Arm. *cant*; C. *cans*; F. *cent*; It. *cento*; L. *centum*) a complete circle, a series of numbers; a hundred.—Pum ugain.

Cant i un—a hundred to one.

Un o gant—one in a hundred.

Cant, au, *s.* a circle, the strake or hoop of a wheel; the rim (of any thing round); a wall, a wattled work.—Cylch, rhwym olwyn, cantel, ymyl, min, rhim; pared, llogail.

Cant, *a* hundred.—Can, pum ugain=100.

Cant o ddynion—a hundred men.

Cânt,† *3rd p. sing. prt. of* canu, to sing; to sound—canu; seinio.

Cânt cânt ei foliant mal Elifri—he sang and sang his praises like Elivri.—*E. Gwalch.*

Fal Meugant pan gânt ei gyrn—like Meigant when he sounded his trumpets.—*L. G. C.*

Cantafod, *s.* (cant—tafod) pellitory of the wall.—Paredlys, murlys, murlwyn, berthlys, palydr y gwelydd, canhaiol, llysiau 'r mur, llysiau'r pared.

Cantel, au, *s.* a rim, a border.—Cant, rhim.

Cantell, au, *s. f.* a circle; a rim.—Cyloh.

Cantor, ion, *s.* (cân) a songster.—Cantwr.

Cantores, au, *s. f.* a songstress.—Canores.

Cantref, i, *s.* (cant—tref) a division of a country, a canton, a hundred.—Cantir, talaeth.

Cantref a ddosberthid fel hyn—(a canton had the following divisions):—4 erw, 1 tyddyn; 4 tyddyn, 1 rhandir; 4 rhandir, 1 afael; 4 gafael, 1 dref; 4 tref, 1 faenor; 12 maenor a 2 dref, 1 cwmmwd; 2 gwmmwd, 1 gantref.

Cantrefwr, wyr, *s.* a hundreder, a juror of a hundred.—Cantrefydd.

Cantrefydd, ion, *s.* a hundreder.=Cantrefwr.

Cantro, *a.* (cant — tro) centuple, hundred times.—Canplyg.

Cantroed, *s. ag.* (cant—traed) a hundred feet; centipede.—Pryf cantroed, canped.

Cantroediog, *a* having a hundred feet.

Cantwn,† *a.* (cant—twn) all to pieces or shivers.—Yn chwilfriw.

Cantwr, wyr, *s.* (cân—gwr) a singer.—Cantor.

Cantwraig, wragedd, *s. f.* (cân—gwraig) a songstress.—Cantores, caniadyddes, cethlyddes.

Canu, cân, *v. a.* (cân; C. *kana*; Ir. *canain*; Ar. *gani*; L. *cano, cantum*: "the terms *can*, white or bright," says Dr. P., "and *cân*, a song, have a common fundamental root, and, it seems, from the same primitive idea; so *canu*, to sing, is as if we were to say, to elucidate or display in the light; it being the original medium of promulgating laws and maxims: the words *canfod, ceiniaw*, and *dadgan* are usedin their several meanings from the same reason") to descant; to sing; to play on a musical instrument.—Pyngcio, cyweiriciio, cynghanu; cethlu: lleisio, perleisio.

Canu cân y gwcw—to sing always the same tune.

Canu cloch—to ring a bell.

Canu corn—to blow a horn.

Canu gyda'r delyn, } to sing to the harp;
Canu gyda'r tannau, } to sing to music.

Canu huw—to sing as a nurse to a child.

Canu'n iach—to bid farewell.

Canu'n iach i Geiniog—Farewell Penny: the name of an old tune.

Canu och—to complain.

Canu telyn—to play on a harp.

Canu, au, caneuau, *s.* a descant; a song.—cân.

Caned un canu—let him recite one song.—*C. C.*

Canuan, *s. f.* a little song; a sonnet.—Canig.

Canüog, *a.* abounding with song; having a disposition to sing.—Tueddol i ganu.

Canwaith, *a.* (cant—gwaith) hundred times.—Cantro.

Canwelw, *a.* (can—gwelw) whitish inclining to blue, pale; livid. — Llwydwyn, glaswyn, gwelwlas, dyddon.

Canwelwder, *s.* bluish white or a very pale blue.—Gwelwedd, glaswynder.

Cànwr, wyr, *s.* (càn—gwr)—A bleacher.—Cànydd, arwŷnwr.

Canwr, wyr, *s.* (cân — gwr) a singer.—Cantwr.

Cànwraidd, *s f. ag.* (cant—gwraidd) what has a hundred roots.—Peth yn meddu cant o wraidd.

Canwraidd goch—the amphibious knotgrass.

Canwraidd las—ground ivy.

Canwraidd lwyd—mugworth.

Canwraig, wragedd, *s. f.* (cân - gwraig) a songstress; a chauntress.—Cantores.

Canwriad, iaid, *s.* (cant—gwr) a centurion; a captain of a hundred men.—Pen ar gant o wŷr.

Canwriadaeth, au, *s.* the rank or post of a centurion.—Swydd canwriad.

Canwriaeth, au, *s. f.* a company of a hundred men.—Cant o wŷr.

Canwy,† on, *s.* (can) a white or bright glare; splendour.—Disgleirdeb.

Canwyl, on, *s.* (can—gwyl) a mask; a part of a horse's furniture.—Mwgwd, miswrn; rhan o drec march.

Canwyll, au, *s. f.* (can—gwyll; Arm. *cantoel;* C. *cantl;* Ir. *cainneall;* S. *candel;* L. *candela*, from *cándeo*, to shine) a candle; a lamp; a light. — Llugorn, llusern, lamp; goleu, goleuni.

Goreu canwyll pwyll i ddyn—reason is for man the best light.—*M. Ll.*

Canwyll fold—a mould candle.

Canwyll frwyn—a rush candle.

Canwyll frwynen—soft rush; the name of a plant.

Canwyll gorph—a corpse candle, a fetch candle.

Canwyll gŵyr—a wax candle.

Canwyll llygad—apple or pupil of the eye.

Canwyll yr adar—the great mullein; the name of a plant.

Canwyllan, } *s. f. d.* a small candle.—Can-
Canwyllen, } wyllig; canwyll fechan.

Canwyllarn, au, *s* a candle-holder, a candlestick. — Canwyllyr, canwyllbren, goleuddal, goleusaf.

Canwyllbren, au, *s.* (canwyll—pren) a candlestick.—Canwyllarn, canwyllyr.

Canwyllig, *s. f. d.* (canwyll) a small candle.—Canwyllan.

Canwyllwr, wyr, *s.* a chandler; a dealer in candles.—Canwyllydd.

Canwyllwr cŵyr—wax chandler.

Canwyllwr gwer—tallow chandler.

Canwyllydd, ion, *s.* a chandler; a candle or torchbearer (he was the sixteenth officer in the prince's court).—Canwyllwr; dygedydd y ganwyll.

Canwyllyr, ion, *s.* chandelier.—Canwyllarn.

Canwyr, au, *s.* (can—gŵyr) a plane; a criterion; an indented mark cut in the ears of beasts in the shape of *V*.—Llyfniedydd, gwastedydd, plân, plaen; safon; nôd bylchog a dorir yng nghlustiau anifeiliaid ar lun *V*.

Canwyrad, *s.* ag, a planing.—Llyfnhâd.

Canwyredig, *a.* that is planed.—Llyfnedig.

Canwyriad, iaid, *s.* a planer, or one who uses a plane.—Canwyrwr, llyfnhawr.

Canwyro, *a. v. a.* to plane; to mark beasts in the ear by indenting.—Gwastatau; bylchnodi clustiau anifeiliaid.

Canwyrwr, wyr, *s.* a planer.—Canwyriad.

Canwyrydd, ion, *s.* a planer.—Canwyriad.

Canyd,† *c.* seeing not.—Gan nad.

A chanyd oedd plant iddaw—and in regard he had no issue. *G. A.*

Canydd, ion, *s.* (cân) a songster.—Canwr.

Canyddiaeth, au, *s. f.* the art of composition.—Cerddoriaeth.

Canymdaith,†eithion, *s.* (can—ymdaith) a fellow traveller, a companion.—Cydymaith, cymdeithydd.

Canymdaith,† *v. a.* to accompany or go along with, to convoy.—Cydymdeithio, hebrwng.

Canymdeithiad,† au, *s.* an accompanying, concommittance.—Cydymdeithiad, cydfynediad.

Canymdeithiedig,† *a.* accompanied.—Cydymdeithiedig.

Canymdeithio,† ia, *v. a.* to go along with, or to bear company.—Cydymdeithio, cydgerdded.

Canymdeithiol,† *a.* accompanying.—Cydfynedol.

Canymdeithiwr,† wyr, *s.* an accompanier, a fellow-traveller.—Cydymaith.

Canymdeithydd,† ion, *s.* one that accompanies; a fellow-traveller.—Cydymdeithydd.

Canymdo,† ion, *s.* (can—ymdo) a convoy.—Nawddosgordd, diffynlu.

Canymdoad,† au, *s* a convoying, or accompanying.—Teithnoddiad.

Canymdoawl,† *a.* accompanying.—Teithnoddol.

Canymdöedig,† *a.* that is convoyed.—Teithnoddedig.

Canymdoi,† a, *v. a.* to accompany, to conduct, to convoy, to attend for protection.—Teith noddi, canhebrwng.

Canymdöwr,† wyr, *s.* a conductor, a fellow traveller.—Arweiniwr, cyd-deithiwr.

Canymdöydd,† ion, *s.* a conductor, one who accompanies as a guard.—Arweinydd, teithnoddwr.

Canys, *c.* (can—ys) for, because, since.—Cans, o blegid, oblegid, o herwydd, o herwydd; o achos; gan, am; o ran, yn gymmaint a.

Canyseol,† *s.* occasioning; necessitating.—Achlysurol; angenrheidiol.

Cap, iau, *s.* (*mut. of* cab; Is. *Kap;* G. D. *Kappe;* S. *cæppe;* F. *chape, chapeau*) a cap; a covering for the head; the top.—Capan; cwflen, cwlen, cwowll, too; top.

Cap benyw—a woman's cap.

Cap canonawl, } a canonical cap.
Cap côr, }

Cap cyflegr—a cap of a cannon.

Cap cynorog, } a cardinal's cap.
Cap cardinal, }

Cap ffwr, } a fur cap.
Cap pân, }

Capan, au, *s.* a cap, a hat; a small cap.—Cap, het; cepyn, cap bychan.

Capan côr—canonical cap.

Capan drws—the lintel of a door.

Capanu, a, *v. a.* to cap; to cover.—Capio; gorchuddio.

Capanwr, wyr, *s.* a cap-maker. — Capwr, gwneuthurwr capiau.

Capel, i, au, ydd, *s.* (cap; L. *capella;* Sp.

capilla; Fr. *chapelle*) a chapel; a house for public worship; a meeting house.—Addolfa, addoldy, tŷ cwrdd; eglwysan.
Capel anwes—a chapel of ease.
Capel coleg—a college chapel.
Capel côr—a chantry chapel.
Capel plwyf—a parochial chapel.
Capel teulu, Capel teuluaidd, } a domestic chapel.
Capel y brenin, Capel y freninos, } chapel royal.

Capelan, Capelyn, } *s. dim.* a small chapel.—Capel bychan.

Capelogaeth, au, *s. f.* a chaplainship.—Caplaniaeth.

Capelu, a, (cap) *v. a.* to chapel.—Gosod mewn

Capelwr, wyr, Capelydd, ion, } *s.* a chaplain.=Caplan. [capel.

Capelwriaeth, Capelyddiaeth, } au, *s. f.* a chaplaincy.—Caplaniaeth.

Capeol,† *a* smooth.—Llyfn.

Capio, ia, *v. a.* (cap) to cap; to take off another's cap—Capanu; digapio.

Capio, ia, *v. n.* to cap, to uncover the head in respect.—Ymgrymu, tynu cap, tynu het.

Caplan, iaid, *s.* (capel) a chaplain; one who performs divine service in the army, navy, a public body, or a family.—Capelwr, capelydd, offeiriad teulu.
Caplan teulu—a family chaplain.
Caplan cyffredin y frenhines—a chaplain in ordinary to the queen.
Caplan y fyddin—an army chaplain.
Caplan y llynges—a navy chaplain.
Caplaniaid y pab—chaplains of the pope.

Caplaniaeth, au, *s. f.* chaplainship, chaplaincy.—Capelyddiaeth, capelwriaeth, capelogaeth.

Capten, iaid, *s.* (Arm. *cubiten;* L. *caput;* F. *capitaine;* It, *capitano*) a captain; a leader, a commander.—Cadben, pen y gad; pen, penaeth, blaenor; cadlywydd.
A chapten meibion Iudah fydd Nahson—and Nahshon shall be captain of the children of Judah. *B.*

Capteniaeth, au, *s. f.* a captainship, a captaincy—Cadbenaeth, cadbenogaeth; cadlywiaeth.

Capwllt, ylltiaid, *s.* (cap) a capon, a castrated cock.—Capwrn, cabwllt, adgeiliog.

Capwrn, yrniaid, *s.* a capon.=Capwllt.

Car, oeir, *s.* (cy—ar; Arm. Ir *carr, carra, cairt;* Gr. *carrhon;* Ch *caron;* L. *carrus*) a raft or rack to place or carry things on; a dray, a drag, a sledge; a waggon.—Cerbyd, clud; ysled, ysledeu.
Car dirwyn—a winding reel.
Car hidlo—a frame to place a sieve upon.
Car llusg—a dray, a sledge, a drag.
Car pysgota—the troll of a fishing-line.
Car trol—a cart frame.
Car yr ên—the jaw-bone.

Car,† *a.* a *prp.* near; on, by, at.—Cer, gar, ger, agos, cyfagos; ar, wrth, yn.
Car llaw†—near at hand.

Câr, oeraint, cerynt,† *s.* (ca—ar; Arm. C. *câr;* Ir. *cara;* Ar. *caris*) a friend; a relation.—Cyfaill; carwr, hoffddyn, anwyliad; carennydd, tras, cyfathrach, cystlwn.
Câr clud—the ninth cousin, reckoned the last degree of consanguinity, used as a bye-word for one that is so distant a relation, that he is not reckoned so, but on account of his wealth.
Câr y publicanod—the friend of publicans. *W. S.*

Carad,† *s.* a loving; an endearment.—Cariad.

Carad,† au, *s.* (car) a carrying.—Cludiad.

Caradas,† *s.* (câr) concubinage.—Gordderchwraig.

Caradawg,† *a.* abounding with love.—Cariadlawn.

Caradawg, *s.* Caradock, Caractacus. Old Welsh proper names.

Caradwy, *a.* amiable, lovely.—Caredig; a ellir ei garu.

Carai, eiau, eion, *s. f.* a bandage, a lace, a thong.—Llinyn, pwyntl, ffunen.
Carai esgid—a shoe latchet.

Caraid, eidiau, *s.* (car) a dray full.—Yaledaid, ysledfenaid, llonaid car.

Carain,† *a.* (câr) amiable, charming, lovely.—Caredig.

Caraint,† *s.* amiableness, loveliness.—Hawddgarwch.

Caran,† au, *s. f.* crown of the head.—Coryn, copa, copa pen, siâd, siôl.

Caranaid,† *a.* having or wearing a crown.—Coronog, corynog.

Caranog,† *a.* wearing a crown.—Coronog.

Carant,† ceraint, *s.* a relation or kin.—Tras, carennydd.

Carawd,† *s.* a loving, or the act of loving.

Carawg,† *a.* amatory, friendly, generous.—Cariadus.

Carawg, ogion, *s.* a wild boar.—Carog, baedd gwyllt, baedd coed, gwyddfaedd.
Bedd Carawg—the grave of Carrog; a tumulus at Eglwysfach, in Denbighshire, which, as tradition says, is the grave of a huge wild boar, killed by Bach ap Carwed, on the river Carrog.

Carbwl, *a.* (carp) clumsy, awkward.—Trwsgl, trwstan, clogyrnog.

Carc, *s.* (câr) solicitude, care, anxiety.—Gofal, pryder. *Sil.*

Carco, a, *v. n.* to care, to be anxious.—Gwylio, *Sil.*

Carcus, *a.* solicitous, anxious, careful.—Gofalus. *Sil.*

Carch, *s.* (car) a confined state, restraint.—Attaliaeth, lludd, caethiwed.

Carchar, au, cedd, *s.* a prison; confinement.—Geol; gwarchae, caethiwed.

Carchardy, dai, *s.* (carchar—tŷ) a prison-house.—Carchar, geol.

Carcharedig, *a.* imprisoned, confined.

Carcharedigaeth, au, *s.* carceration; imprisonment.—Carchariad, gwarchaead.

Carchares, au, *s. f.* a female prisoner.

Carchariad, au, *s.* a confinement.—Gwarchaead.

Carcharol, *a.* relating to imprisonment.

Carcharor, ion, *s.* a prisoner, one who is in confinement.—Carcharwr, caeth, caethwas.

Carcharores, au, *s. f.* a female prisoner.

Carcharu, a, *v. a.* to imprison, to confine.—Taflu i garchar; caethiwo.

Carcharwr, wyr, *s.* a prisoner.=Carcharor.

Cardail, *s. m. ag.* (car—tail) manure.—Gwrtaith, tail.
Tir cardail—land that is manured.

Cardeilo, a, *v. a.* to manure with a drag.—Gwrteithio.

Cardod, au, *s. f.* (câr) charity; alms.—Elusen, alwysen; rhodd. [fa.

Cardodfa, fâu, feydd, *s. f.* an almonry.—Elusen-

Cardodi, a, *v. a* to give charity.—Rhoddi cardod neu elusen.
Cardodol, *a.* eleemosynary.—Elusenol.
Cardodwen, *s f.* the last of the litter.=Cardydwen.
Cardodwyn, *s.* the youngest of a brood.—Cardydwyn, carbedwyn, tin y nyth.
Cardota, *v. a* to ask charity, to beg.—Gofyn elusen, ceinioca.
Cardotai, eion, *s.* one that lives by charity, a common beggar.—Cardotwr, rheidusyn; crefwr.
Cardotaidd, *a* beggarly.—Cardotynaidd.
Cardotaiaeth, au, *s.* mendicity, the state of living by charity.—Cardotyniaeth, begeriaeth.
Cardoteig, *a.* given to begging, living by charity, mendicant.
Cardoteiol, *a.* mendicant, begging.—Cardotlyd.
Cardotlyd, *a* mendicant, beggarly.—Cardotol.
Cardottir, oedd, *s.* (cardod—tir) frankalmoigne-land, or land bestowed for perpetual alms.—Elusendir.
Cardotty, tai, *s.* (cardod—tŷ) an almonry.—Elusenfa, cardodfa.
Cardotwr, wyr, *s.* a beggar.—Cardotai.
Cardotyn, *s.* (cardod) a beggar, a mendicant.—Cardotai.
Cardotynaidd, *a.* beggarly, vagrant.—Cardotaidd.
Cardotyniaeth, *s.* beggary.—Cardoteiaeth.
Cardws, *s.* (car—tws) worsted binding.—Ysnoden hirwlan, llinyn wstyd.
Cardydwen, *s. f.* (cardod—gwen) the youngest or darling female child; the last of a brood of any animal; a dilling pig, or the last in the litter.—Corbedwen, cardodwen, tin y nyth, bach y nyth.
Cardydwyn, *s.* (cardod—gwyn) the youngest of a brood.—Carbedwyn, cardodwyn, cordydwyn, bach y nyth, tin y nyth.
Cardd,† **ceirdd**, *s.* (cy—ardd) exile; shame, disgrace, dishonour.—Alltud; caeth; gwarth, anfri.
Cardd,† *a.* drove out, exiled, degraded.—Alltudog, difro.
Carddagl,† au, *s. f.* (car—dagl) a skirt.—Godre, cwr, dibl, cwt.
Cardden,† au, *s. f.* (cardd) a wild place, a thicket, a brake.—Dyrysglwyn, prysglwyn, llwyn, perth.
Carddenin,† *a.* banished, wandering.—Alltudiedig, crwydredig.
Carddenyn,† *s.* an exile, a wanderer.—Alltud, crwydryn.
Carddgas,† *a.* (cardd—cas) hating, shame, disgrace.—Dirwarthus.
Carddgoll,† *a.* cardd—coll) ending in disgrace.—Gwarthgoll.
Carddod,† au, *s.* (cardd) banishment.—Alltudiaeth.
Carddol,† *a.* of a straying disposition.
Carddotai,† eion, *s.* one that is an exile or wandering about.—Alltud, crwydrai.
Carddu,† a, *v.* to exile; to cause to wander.
Carddwy, *s.* common caraway.—Garddwys, carwas.
Carddychwell,† *a.* (cardd—chwel) advenient; alienated.—Atchwanegol; alltudiedig.
Caredig, *a.* (cār) beloved, loving, kind.—Anwyl, hoff, cariadus.
Caredigo, a, *v. a.* to caress; to endear.—Mynwesu, anwylo, llochi.
Caredigol, *a.* caressing, loving.—Anwylaidd.
Caredigrwydd, *s.* amiableness, kindness, civility, affection.—Hoffusrwydd, addfwynder.
Caredd,† *s.* excess of love, immoderate desire; sin.—Traserch, trachwant.
Careddog,† full of lusting; sinful.—Trachwantus.
Careddu,† *v. a.* to lust immoderately.—Chwennych.
Careg, ceryg, *s. f.* (car) a stone.—Maen, llech.
Gareg Lwyd—the Grey Stone; the name of an old Welsh tune.
Careg clo—a kerb stone.
Careg dân—a flint-stone.
Careg derfyn, Careg ffin, } a boundary stone.
Careg farch, Careg feirch, } a horse block.
Careg gallestr—a flint stone.
Careg las—blue stone, sulphate of copper.
Careg lefain—an echo-rock, an echo-stone.
Careg nadd—a free-stone.
Careg sylfaen—a foundation stone.
Careg yr athronydd—philosopher's stone.
Ceryg delltog—flaky stones.
Ceryg y lluched, Ceryg y cythraul, } meteoric stone.
Caregan, *s. f.* a little stone, pebble.—Careg fechan, careg fach.
Caregedig, *a.* petrified, like stones.—Maenedig.
Caregiad, au, *s.* petrifaction.—Maeniad.
A mynegi a wnai iddi ei holl gyfrangc.—And he declared to her his whole concern. *Mab.*
Cyfrangiad,† au, *s.* a battling.—Brwydriad.
Cyfrangol,† *a.* apt to strive.
Cyfrangu,† a, *v.* to contest together.
Cyfraid, reidiau, *s.* (cyf—rhaid) a competency; necessary.—Digon, dogn, angenrhaid.
Er lles na ollwng o'r llaw dy gyfraid.—For thy good let not the needful slip from thy hand. *M. S.*
Yn cyfranu i gyfreidiau'r saint.—Distributing to the necessity of saints. *B.*
Cyfraid, *a.* necessary, needful.
Cyfraidd, *v. a.* (cyf rhaidd) to push with a pike.—Pigffoni, bidogi.
Arfaidd ym cyfraidd i'm cyffroi.—He dares with the pike thrust at me to cause my being disturbed. *M. G.*
Cyfrain,† reiniau, *s.* (cyf rhain) a junction of spears, a battle or conflict with spears.—Cadwayw, ymladd à gwaywffyn.
Perchen parchus gyfrain.—The owner of the honorable conflict of spears. *E. ap G.*
Cyfrain, *v. a.* to battle with spears.

Cyfraith, reithiau, *s. f.* (cyf—rhaith) a mutual compact; a law, a judicial process; an action at law.—Cyttundeb; deddf, rhaith; rheol, trefn, gosod; cwyn, cŵyn cyfraith.
Cyfraith adgipiad, Cyfraith attrais, } Law of marque.
Cyfraith arfau, Cyfraith rhyfel, } Martial law, law martial.
Cyfraith cenhedloedd, Cyfraith y byd, } laws of nations.
Cyfraith crefydd, Cyfraith yr eglwys, } The canon law.
Cyfraith cyhydedd.—The law of equation, being a rule for sharing the cause of suit between the parties, which was done in some special cases.
Cyfraith defodau, Cyfraith ddefodol, Cyfraith seremoniol, } The ceremonial law.
Cyfraith draddodiadol, Cyfraith y wlad, } The common law.
Cyfraith ddinesig, Cyfraith freiniol, } The municipal law.
Cyfraith filwraidd.—Military law.
Cyfraith foesol.—Moral law.
Cyfraith fôr, Cyfraith morwriaeth, } The marine law.
Cyfraith gwlad ac eglwys, Cyfraith y byd a'r eglwys, } Civil and canon law.
Cyfraith masnach, Cyfraith trafnid, } Commercial law.
Cyfraith Moses (Moesen).—The Mosaic law.
Cyfraith seneddol, Y gyfraith osodol, } The statute law.
Cyfraith troseddau.—The criminal law.
Cyfraith wladol, Cyfraith y byd, } The civil law.
Cyfraith y pastwn.—The lynch law.
Cyfraith y tlodion.—The poor law.
Cyfraith y sydd osodedigaeth gyflawn, wneuthuredig o gyfundeb y brenin a'i deyrnas.—A law is a just establishment, that is made by the agreement of the king and his kingdom. *C. C.*

Cyfran, au, *s. f.* (cyf—rhan) a proportion, a portion, a share; a quantity; a rate.—Cydran, cyfymran; dosbarth, rhan; swm, dogn-edd, twysged.

Cyfranadwy, *a.* that may be shared.

Cyfranai, eion, *s.* a participle (in grammar).—Cyfraniad, rhangymmeriad, parthgymmeriad (mewn grammadeg).

Cyfranair, eiriau, *s.* (cyfran—gair) a vote, a suffrage.—Pleidair, pleidlais, tueb, tuebair.

Cyfranawr,† orion, *s.* (cyfran) a participant.—Cyfranor.

Cyfrandal, *s.* (cyfran—tâl) part payment.—Rhandal, tâl o ran.

Cyfrandaliad, au, *s.* a compounding, a paying in part; composition.—Rhandaliad, godaliad.

Cyfrandalu, a, *v. a.* to compound a debt.

Cyfranddwyn, *a.* (cyfran—dwyn) bearing a part, taking a share.

Cyfranedig, *a.* (cyfran) shared, parted.

Cyfranedigol, *a.* distributive.—Dosbarthedig.

Cyfraneïus,† *a.* participial, of the nature of a participle, of a tendency to participate.—Rhangymmeriadol.

Cyfrangar, *a.* communicative, sharing.

Cyfrangarwch, *s.* communicativeness; the state of being shared.—Cymmwynasgarwch.

Cyfraniad, au, iaid, *s.* participation; communication; a mutually sharing; a participle.—Cyfranogiad, ymgyfraniad; cydgyfranog; cyfranai, rhangymmeriad.

Cyfranog, *a.* participant, having a share.

Cyfranog, ion, *s.* one who shares; a partner.—Cydranog, cydranor.
Cyfranogion o'r galwedigaeth nefol.—Partakers of the heavenly calling. *B.*

Cyfranogaeth, au, *s.* a sharing; the act of sharing, the act of partaking in.—Cydranogaeth.

Cyfranogi, a, *v.* to participate.

Cyfranogiad, au, *s.* a sharing, a participating, a getting a joint share.

Cyfranogol, *a.* tending to share.

Cyfranogrwydd, *s.* a partaking.

Cyfranogwr, wyr, *s.* one who shares with, a partaker.—Cydgyfranog.

Cyfranogydd, ion, *s.* a partaker.

Cyfranol, *a.* participant, sharing.

Cyfranor, ion, *s.* a participant, one who participates.—Cyfranawr, cyfranogydd.

Cyfranu, a, *v.* to partake, to divide, to share together; to communicate, to impart.—Cyfranogi, cydranu; cyfroddi; caniatau.

Cyfranwr, wyr, *s.* one who divides with; a communicator.—Cydranwr.

Cyfranydd, ion, *s.* a sharer.—Cyfranogydd.

Cyfrau, *s. ag.* (cyf—rhau) ornaments, jewels.—Addurniadau, tlysau.

Cyfrawd,† rodau, *s.* (cyf—rhawd) an onset, an attack.—Ymgyrch, ymosod, rhuthr. *G. A.*

Cyfrben,† *a.* (cyfor—pen) complete, perfect.—Cyflawn, perffaith.
Câr côr cyfrben.—The friend of the perfect choir. *C.*

Cyfrbeniad,† au, *s.* consummation; a perfecting, a completing.—Cwblhâd; perffeithiad.

Cyfrbenu,† a, *v. a.* to consummate.

Cyfrbwn,† *a.* (cyfor—pwn) wholly laden.—Cyfanbwn, cyfanfaich.

Cyfrbwyll,† *s.* (cyfor—pwyll) sound reason or mind.—Cyfymbwyll, cyfanbwyll.

Cyfrbwyll,† *a.* of a sound mind; reasonable.—Trybwyll; rhesymol.

Cyfrdal,† *s.* (cyfor—tâl) equivalence, equivalent value.—Cyfwerth, cydwerth, cydwerthedd.

Cyfrdan,† au, *s.* (cyfor—tân) variance.—Amrafael, ymryson, cynnhen.
Gwnaynt dau deyrn uch cyrn cyfrdan.—Two kings over the horns made discord. *O. C.*

Cyfrdelaid, *a.* (cyfor—telaid) altogether graceful; elegant, beautiful.—Gwir delaid, prydferth.

Cyfrdeleidio, ia, *v. a.* to make graceful, to render elegant.—Gorbrydferthu, gordeleidio.

Cyfrdelid, *a.* (cyfor—telid) very graceful.—Cyfrdelaid.

Cyfrdelido, a, *v. a.* to make very graceful; to make very elegant or beautiful.—Cyfrdeleidio.

Cyfrdo, *a.* (cyfor—to) compact, complete, entire, whole.—Cryno, cyflawn, cyfan.

Cyfrdoi, doa, *v. a.* to make quite complete.

Cyfrdost, *a*, (cyfor—tost) very rigorous.—Gordost, tra thost.

Cyfrdrefn, *s. f.* (cyfor—trefn) complete order.—Llawn drefn.

Cyfrdrefn, *a.* in perfect order or arrangement. —Cyfundrefn.
Cyfrdrefniad, au, *s.* a setting in complete order.
Cyfrdrefnu, a, *v. a.* to set in order.
Cyfrdrist, *a.* (cyfor—trist) very pensive or sad. —Trathrist, athrist.
Cyfrdwy, *s. ag.* (cyfor—twy) the polypody, the oak-fern, the osmund royal. — Llawredyn, llawredyn cyfrdwy, rhedyn cyfrdwy.
Cyfrdwyth, au, *s.* (cyfor—twyth) complete elasticity.—Trydwyth, cyfadlamrwydd.
Cyfrdwyth, *a.* full of spring, very elastic.
Cyfrdwytho, a, *v.* to make elastic; to become springing.—Gordwytho.
Cyfrdy, tai, *s.* (cyfor ty) an assembly-house; a meeting house. — Cyfordy, tŷ cyfarfod. *Ll. H.*
Cyfrddawn,† ddonau, *s.* (cyfor—dawn) a virtue, a property; medicinal virtue.—Cyforddawn; cyfrinwedd.
Cyfrddwyn,† *v.* (cyfor—dwyn) to bear wholly. —Tryddwyn, dwyn yn hollol.
Cyfred, ion, *s. f.* (cyf—rhed) a running together; concurrence. — Cydred, cydrawd; cydymgyrch.
Cyfred, *a.* of equal speed; of equal pace.
Cyfred a gwylan.—As swift as a sea-gull.
Cant gorwydd cyfred.—A hundred steeds of equal pace. *Tal.*
Cyfredeg, *v.* to run together.—Cydredeg.
Cyfrediad, au, *s.* a running together; a concurrence, a coincidence.—Cydrediad; cyddarawiad.
Cyfredlin, au, *s. f.* (cyf—rhed—llin) a parallel, a parallel line.—Cyflin, cyflinell, llinell gyfochrog, llinell ogyhyd.
Cyfredlinell, au, *s. f.* a parallel line.
Cyfredol, *a.* (cyfred) running together; concurrent.
Cyfref,† *a.* (cyf—rhef) of equal thickness, as thick.—Cyfdrwch, cyn dewed, mor ffyrf. *C. C.*
Cyfreidiad, *s.* (cyfraid) necessitation.—Cydreidiad, angenrhaid.
Cyfreidio, ia, *v. a.* to make necessary.
Cyfreidiol, *a.* necessary, needful.
Cyfreidrwydd, *s.* a necessary.
Cyfreion,† *s. ag.* (cyfrae) couplets, bracers.—Cyplau, cyfrwymau, creffynau.
Mal cŵn gan gyfreion.—Like dogs in the couplets. *D.*
Cyfreithgar, *a.* (cyfraith) litigious, quarrelsome.—Hoff o gyfraith, cwerylus.
Cyfreithgarwch, *s.* litigiousness.
Cyfreithiad, *s.* litigation.—Cynghawsiad.
Cyfreithio, ia, *v.* to conjure or combine under an oath; to go to law.—Cydymdyngheddu; mynedi gyfraith â.
Cyfreithiol, *a.* litigant; legal.
Cyfreithioldeb, *s.* legality; litigiousness.
Cyfreithioli, a, *v.* to legalize.—Cyfreithloni.
Cyfreithiolrwydd, *s.* legalness,† legality.
Cyfreithiwr, wyr, *s.* a practitioner of the law, an attorney; a litigant.—Attyrnai, twrnai, dirprwy; ymgyfreithiwr.
Cyfreithlawn, } *a.* lawful, legal.—Cyfreithiol,
Cyfreithlon, } deddfol, yn ol y gyfraith.
Cyfreithlondeb, *s.* lawfulness.
Cyfreithlonedd, *s.* legality.—Cyfreithioldeb.
Cyfreithloni, a, *v. a* to render legal, to legalize.
Cyfreithlonrwydd, *s.* legalness,† lawfulness.
Cyfreithus, *a.* lawful, legal.
Cyfreithwra, *v. a.* to follow the profession of the law.—Bod yn gyfreithiwr, dilyn y gyfraith fel galwedigaeth. *I. D. R.*
Cyfreithlwrio, ia, *v. a.* to practice the law.
Cyfreithydd, ion, *s.* a lawyer.—Cyfreithiwr.
Cyfreithyddu, a, *v. a.* to follow the law.
Cyfrenin, *s.* (cyfran) a sharing together.—Cydgyfraniad.
Cyfrenin, *a.* participant; mutually sharing.
Ofeg cyfrenin.—A song of participation. *A.*
Cyfres, au, i, (cyf—rhes) contexture, texture; a list, a catalogue.—Cyd-drefn, cyttrefn; cofres, cofrestr, rhestr.
Cyfrestr, au, *s.* (cyf—rhestr) a range, a list.—Rhenge, dosbarth; cofrestr.
Cyfrestriad, au, *s.* intertexture, contexture.
Cyfrestrog, *a.* interwoven.—Cofrestrog.
Cyfrestrol, *a.* ranged together.
Cyfrestru, a, *v. a.* to interweave; to work together; to knit or wrap together.—Cymmhlethu; cofrestru.
Cyfrwysdra ei cyfrestriodd.—It was craftiness that wove it together. *D. Ed.*
Cyfrestrwr, wyr, *s.* one who interweaves or ranges together. — Cymmhlethwr; cyddrefnwr.
Cyfrestrydd, ion, *s.* a marshaller, one who ranges in order.—Cyfrestrwr.
Cyfresu, a, *v. a.* (cyfres) to range in order.—Trefnu, rhestru.
Cyfreswr, wyr, *s.* an arranger.
Cyfrgain, *a.* (cyfor—cain) very fair or elegant. —Gorgain, ysblenydd.
Arddwyreaf hael hwyl cyfrgain yng nghad.—I will magnify the generous one whose course is altogether splendid in the battle. *B. F.*
Cyfrglod, au, *s. f.* (cyfr—clod) perfect fame, unsullied fame. Cyfanglod, tryglod. *B. F.*
Cyfrglod, *a.* of complete fame.
Cyfrgoll, *s.* (cyfor—coll) perdition, total loss. —Llwyrgoll; colledigaeth.
Mab y gyfrgoll (map y cyfergoll, *W. S.*). The son of perdition.
Cefais win cyfrgain, nid cyfrgoll o fedd.—I had wine superlatively fine, without any loss of mead. *C.*
Cyfrgolladwy, *a.* that may be lost.
Cyfrgolledig, *a.* lost, undergone.—Llwyr golledig.
Cyfrgolledig ddefaid tŷ Israel.—The lost sheep of the house of Israel. *B.*
Cyfrgolledigaeth, *s. f.* the state of being totally lost; total loss.—Llwyr golledigaeth, llwyr ddinystr.
Cyfrgolli, a, *v.* to lose utterly, to perish.—Cwbl golli. *Mat.* xviii. 14.
Cyfrgron, *a.* (cyfor—crwn) spheric, globular.—Cynghron, cronellaidd.
Cyfrgrwn, *a.* perfectly round.—Cynghrwn.
Cyfrgrynharn. *s.* (cyfor—crwn—harn) a loggerhead; a spherical mass of iron with a long handle to heat tar.—Haiarn pendew; math o haiarn cyfrgrwn hirgroes i boethi pyg.
Cyfri, ïau (cyf—bri) honor, glory, preeminence. — Anrhydedd, gogoniant, arddcrchawgrwydd. *P. M.*
Cyfrif, on, *s.* (cyf—rhif) an account, a reckoning; a number; esteem.—C. nifant, edrif; nifer, rhif; parch, bri.
Gwneu'thur cyfrif mawr o.—To esteem greatly, to esteem highly.

Heb fawr gyfrif o hono.—Little esteemed.

Cyfrif, *v. a.* to count, to reckon up; to esteem. —Dyfrifo, gwneyd cyfrif, bwrw; mawr brisio, parchu.

Cyfrif yn deilwng.—To esteem worthy.

Cyfrifadwy, *a.* that may be reckoned.

Cyfrifawr, orion, *s.* an accountant, a reckoner. —Cyfrifydd, rhifyddwr.

Pan fych yn dri chyfrifawr.—When thou shalt be three numerists. *S. C.*

Cyfrifed, *s.* numerosity, plenty.

Cyfrifedig, *a.* reckoned; esteemed.

Cyfrifedigaeth, au, *s. f.* the act or art of reckoning.—Cyfrifiaeth, rhifyddiaeth.

Cyfrifedigol, *a.* numerary; imputative, that may be esteemeed or imputed.—Edrifol; cyfrifol.

Cyfrifiad, au, *s.* a reckoning, a calculation, a counting; esteem. — Cyfrifiant, rhifiad; parch.

Cyfrifiadur, on, *s.* an abacist.—Cyfrifydd.

Cyfrifiaeth, au, *s. f.* the art of reckoning.

Cyfrifiant, *s.* a reckoning, an account; esteem.

Cyfrifed a chyfrifiant. — Plenty and esteem. *Tal.*

Cyfrifiech, au, *s. f.* (cyfrif—llech) abacus; an instrument for calculating.—Bwrdd cyfrif, coplech.

Cyfrifol, *a.* (cyfrif) accounted, reputed; of account, of good esteem, respected; responsible.—Parchus, anrhydeddus, cymmeradwy; attebol.

Cyfrifus, *a* numerical, numeral.

Cyfrifwr, wyr, *s.* a reckoner, a numberer, one who accounts.—Rhifyddwr.

Cyfrifydd, ion, *s.* an accountant.—Cyfrifawr.

Cyfrifyddiaeth, *s. f.* numeration, the art or act of numbering. — Cyfrifyddiaeth, rhifyddiaeth.

Cyfrin, ion, *s. f.* (cyf—rhin) one who is to or in the secret; a confidant.—Cyfrinachydd, un yn y gyfrinach; rhingyfaill, ymddiriedyn, llatai.

Na fid dy wraig dy gyfrin.—Let not thy wife be thy confidant. *Eng. C.*

Cyfrin, *a.* privy to, in the secret; conscious.

Ni wn fy mod yn gyfrin o bechod.—I do not know that I am conscious of sin.

Cyfrinach, au, *s.* a secret.—Dirgelwch, cel, rhin.

Nid cyfrinach ond rhwng dau.—It is no secret except it is between two. *D.*

Cyfrinachiad, au, *s.* a making a secret of, a taking of secrets.—Dirgeliad.

Cyfrinachol, *a.* privy, private, secret.

Cyfrinachu, a, *v.* to talk of secrets.

Cyfrinachwr, wyr, *s.* one who talks, or deals in secrets.—Dirgelwr; cyfranogwr.

Cyfrinachydd, ion, *s.* one who deals in secrets.

Cyfrinfa, feydd, *s. f.* a privacy, a place of private communication.—Cyfrinle, celfan, ystafell ddirgel.

Cyfringynghor, au, *s.* (cyfrin—cynghor) a privy council.—Dirgel-gynghor, teyrngynghor.

Cyfringynghorwr, wyr, *s.* a privy councillor.—Teyrngynghorwr, prif gynghorwr.

Cyfringynghorfa, fau, *s. f.* a privy chamber.—Ystafell ddirgel, ystafell cyfrinngynghor.

Cyfriniad, au, *s.* (cyfrin) a making mystic.—Dirgeliad, rhiniad.

Cyfriniaeth, au, *s. f.* mystery.—Dirgeliaeth.

Cyfrinio, ia, *v. a.* to mysterize, to secrete.

Cyfriniol, *a.* mystical, mysterious.

Cyfriog, *a.* (cyfri) honorable, illustrious.—Anrhydeddus, mawreddog.

Cyfriol, *a.* tending to honor, or dignify.

Cyfrith, au, ion, *s.* (cyf rhith) image; show, color; pretence.—Delw, delwedd, arlun; ymddangosiad, lliw; rhodrhes, lledrith, ffuant.

Cân ddammegol: ei hamcan yw adrodd digwydd o grebwyll a dychymmyg ar gyfrith hanes.—An allegoric poem: its design is to describe an event of imagination and invention under the color of history. *Bs.*

Cyfrithiad, au, *s.* assuming.—Lledrithiad.

Cyfrithiant, *s.* appearance, show.

Cyfrithiedig, *a.* being made to seem.

Cyfrithio, ia, *v.* to appear; to show.

Cyfrithiol, *a.* imaginary, specious.

Cyfrodaidd, *a.* (cyfrawd) concurrent, uniting; tending to be twined.—Cyfrodaidd, cymmhlethaidd, cordeddaidd.

Cyfrodedd, au, *s.* a concurrent state.—Cordedd.

Cyfrodedd, *a.* twisted together.—Cordeddog.

Lliain main cyfrodedd. — Fine twined linen. *B.*

Cyfrodeddedig, *a.* twisted, twined.—Cordeddedig.

Cyfrodeddiad, au, *s.* a twisting, a twining, a going together.—Cordeddiad, nydd-droad.

Cyfrodeddig, *a.* intertwined.—Cordeddig.

Cyfrodeddog, *a.* having a twist.—Cordeddog.

Cyfrodeddol, *a.* twining together.—Cordeddol.

Cyfrodeddu, a, *v. a.* to twist together.

Cyfrodeddwr, wyr, *s.* a twister, one who twines together.—Cordeddwr.

Cyfrodd, ion, *s. f.* (cyf—rhodd) a mutual gift. —Cydrodd, cyfddawn.

Cyfroddiad, au, *s.* a contributing; a mutually giving.—Cydroddiad.

Cyfroddol, *a.* contributory; aiding.

Cyfroddwr, wyr, *s.* one who contributes; a contributor.—Cydroddwr, cyfranwr.

Cyfrudd, *a.* (cyf—rhudd) altogether ruddy.—Trygoch, llwyrgoch, rhuddgoch.

Arfau cyfrudd.—Crimson tented weapons. *Ein. Off.*

Cyfrugl, *a.* (cyf—rhugl) rubbing together.—Cydrugl, cydrwbiol.

Cyfrugliad, au, *s.* confriction; a rubbing together.—Cydrugliad, cydrwbiad.

Cyfruglo, a, *v.* to rub together.

Cyfrwch,† rychau, *s.* (cyf—rhwch) a meeting; an interview.—Cyfarfod; ymweliad

Tri chyfrwch dirgel a ddyly brenin eu caffael.—Three private interviews the king ought to have. *C. C.*

Cyfrwch,† *v.* to meet, to rencounter.

Dos i gyfrwch a'r dyn rhaco.—Go to meet the man yonder. *Mab.*

Cyfrwnt, *a.* (cy—brwnt) dirty, vile, mean.—Cydfrwnt, budr, gwael.

Cyfrynted bryfed.—Such vile reptiles.

Cyfrwng, ryngau, *s.* (cyf—rhwng) an intermedium: a space of time, or place.—Cyfrwng; ystod, ysbaid.

Cyfrwng,† *prp.* between, amongst.—Rhwng, cydrhwng.

Yn y lle bo ymryson cyfrwng awdurdodwyr am ddeallu dwy gyfraith.—Where there is a dispute between men of

authority about the import of two laws. *C. C.*

Cyfrwy, au, *s.* (cyf—rhwy) a saddle.—Gobell, ysgobell, sadell, dib, cyfystrawd.

Cyfrwy untu, cyfrwy merch, cyfrwy untuog (pilyn).—A side saddle.

Bwa cyfrwy, Cambren cyfrwy, } A saddle-bow.

Ceffyl cyfrwy, March cyfrwy, } A saddle-horse.

Pren cyfrwy.—A saddle-tree.

Cyfrwyaidd, *a.* saddle shaped.—Saddellaidd.

Cyfrwydd, *a.* (cyf—rhwydd) expeditious, prosperous.—Cydrwydd, rhwydd, hwylus.

Cyfrwyddawd, odau, *s.* a facilitating, a making clear.—Rhwyddhâd.

Cyfrwyddiad, au, *s.* a making clear, or easy to do; a prospering.—Cydrwyddiad, hyrwyddiad.

Cyfrwyddol, *a.* tending to facilitate.

Cyfrwyddwr, wyr, *s.* one who facilitates.

Cyfrwyddyd, *s.* expedition.—Rhwyddhâd.

Cyfrwym, au, *s.* (cyf—rhwym) a bandage.—Cydrwym, rhwymyn.

Cyfrwymiad, au, *s.* a bracing together; a ligature; a constriction.—Cydrwymiad, cydglymiad.

Cyfrwymo, a, *v. a.* to connect, to tie together.

Cyfrwymol, *a.* tending to connect, or tie together.—Cydrwymol, cydglymol.

Cyfrwymydd, ion, *s.* a bracer.—Cyplysydd.

Cyfrwymyn, au, *s.* a bracer.—Rhwymyn.

Cyfrwyo, a, *v. a.* (cyfrwy) to saddle, to put on a saddle.—Ysgobellu, sadellu.

Cyfrwyog, *a.* having a saddle.

Cyfrwys, iau, *s.* (cyfor—gŵys) a general summons, a citation; a full invitation.—Cydwŷs, dyfyn, gwŷs; llawn wahoddiad.

Cyfrwys, *a.* (cyf—rhwys) cunning, crafty, subtle.—Ffel, ffetus, call, craff, ystrywgar.

Nid cyfrwys ond epa.—None so crafty as the ape. *D.*

Cyfrwysder, } *s.* craftiness, subtilty.—Ffelder,

Cyfrwysdra, } ffeldra, hoced, ystryw.

Cyfrwysdro, ion, *s.* (cyfrwys—tro) a quirk, quiddity.—Ystrangc, gwibl, ymdro ystrywgar.

Cyfrwysddrwg, *a.* (cyfrwys—drwg) craftily bad.—Ystrywddrwg, ystrywgar.

Cyfrwysgryf, *a.* (cyfrwys—cryf) craftily strong.—Ffelgryf, ystrywgryf.

Cyfrwyslym, *a.* (cyfrwys—llym) craftily sharp.—Ystrywlym, medruslym.

Cyfrwystr, au, *s.* (cyf—rhwystr) a let, or hindrance.—Cydrwystr, cyfludd.

Cyfrwystri,† *s.* obstruction, let.

Pob cyfrwystri.—Every obstruction. *Cat.*

Cyfrwyswaith, *s.* (cyfrwys—gwaith) crafty work, cunning work.—Twyllwaith, ffelwaith.

Cyfrwywr, wyr, *s.* (cyfrwy—gwr) a saddler; a dealer in saddles.—Sadellwr, sadellyddiaeth.

Cyfrwywriaeth, *s. f.* a saddler's trade.—Sadellwriaeth, gobellwriaeth.

Cyfrychiad,† au, *s.* (cyfrwch) a meeting.—Cyfarfod.

Cyfrychol,† *a.* congressive, meeting.

Cyfrychu,† *a, v.* to meet, to come together.

Cyfryd, *s.* (cy—bryd) unanimity.—Unfryd, cydfryd.

—d, *a.* of one mind, unanimous.

Cyfrydd, *a.* (cyf—rhydd) altogether free, or at liberty.—Cwbl rydd, cydrydd.

Cyfryfel, *s.* (cyf—rhyfel) a mutual warfare, combined war.—Cydryfel, cydfrwydr.

Cyfryngaidd, *a.* (cyfrwng) apt to intervene.—Cyfyngaidd; a ddelo yn y cyfwng, neu'r cyfamser.

Cyfryngasio, *v. a.* (cyfrwng—asio) to mediatise.—Cyfrynguno; uno yn gyfryngaidd.

Cyfryngdaff, *s.* (cyfrwng—taff) interjection.—Cyfryngiad, taflodiad.

Cyfryngdod, au, *s.* (cyfrwng) mediation, interposition.—Cyfryngiad, cyfryngwriaeth, cyfryngoliaeth, rhwng-osodiad, rhyngosodiad; eiriolaeth.

Cyfryngedig, *a.* intermediate, mediate.

Cyfryngedigaeth, *s. f.* the act of going between; intermediacy.—Cyfryngwriaeth.

Cyfryngedigol, *a.* intercedent.—Cyfryngol.

Cyfrynges, au, *s. f.* mediatrix.—Cyfryngyddes.

Cyfryngfarn, *s. f.* (cyfrwng—barn) an umpire's award.—Canolfarn; barn canolwr, neu gyfryngwr.

Cyfryngiad, au, *s.* (cyfrwng) intervention; a mediating, an interposing.—Cyfryngdod, rhyngosodiad.

Cydwybod yw gwreiddyn cyfryngiad.—Conscience is the root of mediation. *Tri. Dyf.*

Cyfryngiaeth, au, *s. f.* intermediacy, mediation.—Cyfryngoliaeth, cyfyyngwriaeth.

Cyfryngol, *a.* intermediate, mediate.

Cyfryngoli, a, *v. a.* to interpose.—Cyfryngu.

Cyfryngoliad, au, *s.* a mediation.—Cyfryngiad.

Cyfryngoliaeth, *s. f.* interposition, mediation.—Cyfryngwriaeth, cyfryngiaeth.

Cyfryngrwydd, *s.* a mean state.—Cyfryngdod.

Cyfryngu, a, *v. a.* to mediate.—Sefyll, rhwng; canoli, eiriol.

Cyfrynguniaeth, *s. f.* mediatisation.—Cymylliad penaduriaethau bychain yr Almaen wrth y rhai mawrion cyfagos. [asio.

Cyfrynguno, a, *v. a.* to mediatise.—Cyfryng-

Cyfryngwr, wyr, *s.* a mediator; an intercessor; an umpire.—Cyfryngydd; eiriolwr; canolwr, canolydd.

Cyfryng-wraig, wragedd, *s. f.* (cyfrwng—gwraig) mediatress.—Cyfrynges.

Cyfryngwriaeth, *s. f.* (cyfrwng) mediatorship, the office of mediator.—Cyfryngyddiaeth.

Cyfryngydd, ion, *s.* a mediator.—Cyfryngwr.

Cyfryngyddes, au, *s. f.* a mediatrix.—Cyfryngces, cyfryng-wraig; eiriolyddes.

Cyfryngyddiaeth, *s. f.* mediatorship; the office of an umpire.—Cyfiafaryddiaeth, canolwriaeth; swydd dyddiwr, neu ganolwr.

Cyfryngyddol, *a.* mediatorial.—Cyfryngol.

Cyfrym, *s.* (cyf—grym) equality of force.—Cyfartalrym, cyfnerth.

Cyfrymus, *a.* equipolent.—Cydnerth.

Cyfrys,† *a.* (cyf—rhys) that rushes on, comes in contact.—Cydfrys, rhuthrol.

Cyfrysedd,† au, *s.* contention.—Cweryl.

Cyfrysedd Gwenhwyfar a Gwenhwyfach a barai'r gad Gamlan.—The contention of Gwenhwyvar and Gwenh vvach caused the battle of Camlan. *Tri.*

Cyfrysiad,† au, *s.* a striving together; a quarrelling, wrangling.—Arysoniad.

Cyfrysol, *a.* apt to rush together.

Cyfryw, *a.* (cyf—rhyw) homogeneous, similar, like, such.—Cyffelyb, tebyg, math.

Cyfryw, *pr.* (by the ellipsis of a pronoun) the same, the same that, such.—Yr unrhyw.
Yn erbyn y cyfryw nid oes deddf.—Against such there is no law. *B.*

Cyfrywiad, *s.* assimilation.—Cyffelybiad.

Cyfrywiaeth, au, *s.* homogeny.

Cyfrywio, ia, *v.* to make homogeneous; to become of the same nature.—Cydrywio; ymdebygoli.

Cyfrywiol, *a.* homogeneous.—Cydrywiol.

Cyfu,† cyfyd, *v.* to accord, or fit together.—Cydfod, cyd-daro, cyfuno.
Ni chyfyd diriaid â da.—The wicked was not made to match with the good. *D.*

Cyfuch,† *s.* (cy—much) gloom, darkness.—Caddug, gwyll, tywyllwch.

Cyfucn, *a.* (cyf—uch) of equal height.—Cyfuwch a (ag), cyn uched a (ag); mor uchel a (ag).

Cyfucn, *ad.* equally high.—Cyfuwch.

Cyfuchiad,† *s.* a making equally high.

Cyfuchio,† ia, *v. a.* to make of one height.

Cyfun, *a.* (cyf—un) united, agreeing, accordant.—Cyttûn, cyttun, unol.

Cyfunant,† au, *s.* (K. *covenant*; F. *couvenant*; L. *convenio*) a covenant, an agreement, a compact.—Cyfammod, cyttundeb, cynghrair. *L. G. C.*

Cyfunawd, *s.* (cyfun) accordance, agreement.—Cydundeb, cydweddiad.

Cyfunbwys, *a.* (cyfun—pwys) of equal weight.—Cydbwys, cyfartalbwys.

Cyfundeb, *s.* (cyfun) unity, confederacy.—Cydundeb, cyttundeb, cynghrair.

Cyfundod, au, *s.* concord, agreement, unity.—Cydgord, cyfundeb.

Cyfundon, au, *s. f.* (cyfun—tôn) symphony.—Cydseinedd, cyflawndon, cyd-don, cyfunllef; cynghan, cynghanedd.

Cyfundon, *a.* having unity of sound.—Cydlais.

Cyfunedig, *a.* united, made to accord.

Cyfuneddu, *s.* unity, connection.—Cyfundeb.

Cyfunhyd, *s.* (cyfun—hyd) equal length.—Cymmeintedd.

Cyfunhyd, *a.* of equal length.—Gogyhyd.

Cyfunhydfan, au, *s.* (cyfunhyd—ban) a verse of equal length with another.—Ban cyhyd ag un arall, ban gogyhyd, mydr cyfunhyd, mydr gogyhyd.

Cyfunmynian, *a.* having lines of equal length.

Cyfuniad, au, *s.* (cyfun) a joining, or uniting together; connection, conjunction.—Cyduniad, cysylltiad.

Cyfunllef, *s. f.* (cyfun—llef) unity of sound.—Cydlais, cyfundon, cydsain.

Cyfunllef, *a.* agreeing in sound; symphonous.

Cyfuno, a, *v.* to unite together; to agree, to accord, to consent; to combine.—Cyduno; cyttuno, cydsynio; ymgyfuno â.

Cyfunol, *a.* tending to unite; agreeable.

Cyfunodl, *a.* (cyfun—odl) unirhythm.—Cyfawdl.

Cyfunrhyw, *a.* (cyfun—rhyw) homogeneous.—Cydryw. gogydryw, unrhywiol.

Cyfunsawdd, *a.* (cyfun—sawdd) agreeing in quality; of the same nature.—Cyfansawdd, cydansawdd, cyfanian.

Cyfunwedd, *a.* (cyfun—gwedd) uniform, equal.—Cydunwedd, unffurf, cyfartal.
Dylai fod un gyfunwedd athrylith yn treiddienwi'r gerdd.—There ought to be one uniform idea filling and pervading the song. *Bs.*

Cyfurdd, *a.* (cyf—urdd) equal in rank, or quality.—Cyfradd, cyfri.

Cyfurddator,† *ger.* equally honoring.

Cyfurddedig, *a.* of equal rank.

Cyfurddedigaeth, au, *s. f.* coequality of rank, or condition.

Cyfurddiad, au, *s.* a levelling.—Cydraddiad.

Cyfurddo, a, *v. a.* to make equal in rank.

Cyfurddog, *a.* holding equal rank.

Cyfurddol, *a.* of equal rank, or esteem.

Cyfurddoldeb, *s.* coequality of rank, or order.

Cyfurddor, ion, *s.* a compeer, one of equal rank; a peer.—Cydradd, cydraddwr, cyfraddwr; pendefig, por.

Cyfurddores, au, *s. f.* a female of coequal rank; a peeress.—Cydraddes; pendefiges.

Cyfurddoriaeth, *s. f.* coequality of rank, or honor; a peerage.—Cydraddoliaeth, pendefigaeth.

Cyfuwch, *a.* (cyf—uwch) of equal height; so high.—Cyfuch, gogyfuwch, cyn uched, mor uchel.
Cofier nad oes neb cyfuwch.—Let it be remembered that there is none equal in height. *Gr. O.*

Cyfuwchder, *s.* equality of height.

Cyfwasg, *a.* (cyf—gwasg) squeezed together.—Cydwasg, cyd-dyn.

Cyfwasgiad, au, *s.* compression; a closing, or pressing together.—Cydwasgiad, dirwasgiad.

Cyfwasgol, *a.* compressive; apt to close to.

Cyfwasgu, a, *v. a.* to press together.

Cyfwedd, *s. f.* (cyf—gwedd) consimility.—Cydwedd.

Cyfweddiad, au, *s.* a comparison; a mutually resembling.—Cymmhariad, cyffelybiad, cystadliad.

Cyfweddol, *a.* of joint likeness.—Cydweddol.

Cyfweddu, a, *v.* to resemble to each other.

Cyfweddus, *a.* tending to conform.

Cyfwerth, *a.* (cyf—gwerth) equivalent, equal in value.—Cydwerth, cyfartalbris.

Cyfwerthedd, *s.* an equivalence.

Cyfwerthiad, au, *s.* a rendering equivalent, or of equal value.—Cyfwerthiad.

Cyfwerthu, a, *v. a.* to make of equal value.

Cyfwng, fyngau, *s.* (cyf—wng) intermediate space, intersection, intervention; separation.—Cyfrwng, rhyngle; canoldrwch; gwahaniad.

Cyfwlch,† *a.* (cy—bwlch) intersecant, fitting used to a breach; suitable, convenient, commodious.—Cydfwlch; cyfaddas.

Cyfwrdd,† *a.* (cyf—gwrdd) of equal power, or dignity.—Cyfnerth, cydnerth.
Gŵr cyfwrdd a hwnw.—A person of such dignity as that man. *G. A.*

Cyfwrdd, *s.* (cyf—hwrdd) a meeting.—Cyffwrdd.

Cyfwrdd, *v.* to meet, to touch.—Cyffwrdd.

Cyfwriad, au, *s.* (cyf—bwriad) a jointly projecting, a mutually designing.—Cydfwriad, cydamcaniad; cydfradwriaeth.

Cyfwriadu, a, *v.* to combine together.

Cyfwrw, *v.* (cyf—bwrw) to cast, or project together.—Cydfwrw, cydfwriadu.

Cyfwyl,† *s.* (cyf—gwyl) presence.—Gwyddfod, presennoldeb.

Cyfwyl,† *a.* opposite.—Cyferbyniol.

Cyfwyneb, *a.* (cyf—gwyneb) face to face, confronted.—Wyneb yn wyneb, cydwyneb, cyferbyn.

Cyfwynebiad, au, *s.* confrontation, a coming face to face.—Cyfwynebiad.

Cyfwynebol, *a.* confronted.—Cyferbyniol.

Cyfwynebu, a, *v. a.* to confront.—Cydwynebu.

Cyfwyrain,† *s.* (cyf—gwyrain) a rising up together; universal exaltation.—Cyd-dderchafiad, cydgwniad.

Dy ganred, dy ged, dy gyfwyrain.—Thy company, thy bounty, thine universal exaltation. *Gwalch.*

Cyfwyrain,† *v.* to rise up, to arise; to arise together.—Cydgyfodi. *Dr. D.*

Cyfwyrain mawr-dan.—The mighty fire sends on high together. *Tal.*

Cyfwyre,† *s.* a rising up altogether.—Cyddyrchafiad.

Rhag cadarn gyfwyre.—Before the mighty rising. *Tal.*

Cyfychwin,† *s.* (cy—mychwin) universal light; intellectual light.—Cyflewyrch; athrylith.

Rhwyf cyfychwin.—The guide of intellectual light. *D. B.*

Cyfyfed, *s.* (cyf—yfed) a drinking together.—Cydyfed, cyd-drafiyngciad.

Cyfyfed, *v.* to drink together.—Cydyfed.

Cyfing, *a.* (cyf—ing) narrow, strait, close.—Cyfyng, ing, cul, caeth.

Cyfyng, *a.* (cyfwng) narrow.—Cyfing.

Cyfyngder, au, *s.* narrowness, straitness; a strait; a difficulty; perplexity.—Culder, culni, cyfyndra; ing, caledi, cyni; anhawsder.

Yn mhob dewis y mae cyfyngder.—In every choice there is perplexity. *D.*

Cyfyngdra, *s.* narrowness.—Cyfyngder.

Diwrnod cyfyngdra, a cherydd, a chabledd, yw'r dydd hwn.—This day is a day of trouble, and of rebuke, and blasphemy. *B.*

Cyfyngedig, *a.* that is narrowed.

Cyfyngfor, oedd, (cyfyng — môr) a strait, a narrow sea.—Culfor, meinfor.

Cyfyng-gynghor, *s.* (cyfyng—cynghor) a distraction, perplexity of mind, a quandary.—Cythrudd, cythrwfl, dyryswch.

Yr ydym mewn cyfyng-gynghor, ond nid yn ddiobaith.—We are perplexed, but not in despair. *B.*

Cyfyngiad, au, *s.* (cyfyng) a narrowing, a contraction.—Culhâd, lleihâd.

Cyfyngol, *a.* apt to straiten.—Cul, main.

Cyfyngu, a, *v. a.* to make narrow.

Cyfyngwedd, *a.* (cyfyng—gwedd) of a narrow form, or appearance.—Culffurf.

Cyfyl, *s.* (cy—byl; Ch. *kevel*) contiguity.—Cyfagosrwydd, cyffwrdd, cyfnesafedd.

Cyfyl, *a.* nigh, near to; hard by, over against, in presence of.—Cyfagos, yn ymyl, ger llaw, yn ngwydd.

Ni bu ete ar ei chyfyl.—He has not been near her.

Dygychwyn, cenad, cyfyl mordwy gwyrdd.—Hie thee, messenger, towards the green laving sea. *O. C.*

Cyfylchig, *a.* (cyfwlch) in the form of a gap.—Ar lun cyfwlch.

Cyfylfin, au, *s.* (cyf—gylfin) a beak that is even, or equal.—Gwastadbig, gylfin cyfartal.

Cyfylfinn, *a.* having an even beak.

Cyfymborth, *s.* (cyf—ymborth) a joint messing.—Cydymborth.

Cyfymborthi, a, *v.* to mess together.

Cyfymborthol, *a.* jointly messing.

Cyfymbwyll, *s.* (cyf—ymbwyll) mutual counsel.—Cydymbwyll, cydgynghor.

Cyfymbwyllo, cyfymbwyll, *v.* to reason together, to reason mutually.—Cydymbwyllo.

Na chais gyfymbwyll ond â doethion.—Seek not mutually to reason but with the wise. *Cat.*

Cyfymbwys, *s.* (cyf—ymbwys) correspondence.—Cydymbwys, cyfartalbwys.

Cyfymbwyso, cyfymbwys, *v.* to equiponderate; to become an equipoise.—Cydbwyso, cydglorianu.

Cyfymbwysol, *a.* correspondent.

Cyfymdange, *s.* (cyf—ymdange) a joining mutually in amity.—Cydymdange, cyd-dangneiedd.

Cyfymdange, *v.* to join in mutual amity.

Cyfymdrech, *s.* (cyf—ymdrech) a mutual struggle.—Cydymdrech, cydegni.

Cyfymdrechiad, au, *s.* colluctation; a mutually striving.—Cydymdrechiad.

Cyfymdrechol, *a.* apt to strive together.

Cyfymdrechu, a, *v.* to colluctate, to strive together.

Cyfymglo, *a.* (cyf—ymglo) mutually closing.—Cydymglo, cydgysswllt.

Cydseiniaid cyfymglo.—The consonants that mutually connect together. *G. R.*

Cyfymgload, au, *s.* interjunction; a mutually closing.

Cyfymgloi [cyfymglòi], *v.* to interjoin.

Cyfymgydio, ia, *v.* (cyf—ymgydio) to become mutually joined or connected.—Cydymgydio.

Cyfymgyrch, *s.* (cyf—ymgyrch) a mutual attraction.—Cydymgyrch.

Cyfymgyrchiad, *s.* a mutual attraction.

Cyfymgyrchol, *a.* attractive.—Cyd-dynol.

Cyfymgyrchu, a, *v.* to attract.—Attynol.

Cyfymliw, *v.* (cyf—ymliw) to expostulate mutually; mutually to upbraid.—Cyfedliw, cyfddannod.

Cyfymliwiad, au, *s.* mutually chiding or accusing.

Cyfymliwied, *v.* to upbraid each other mutually.

Cyfymliwio, ia, *v.* to chide mutually.

Cyfymliwiol, *a.* apt to chide or charge each other.

Cyfymlyn, *a.* (cyf—ymlyn) mutually adherent.—Cydymlyn, cydlynol.

Cyfymlyniad, au, *s.* a cleaving mutually; a following each other.—Cydymlyniad; cyddilyniad.

Cyfymlynol, *a.* mutually adherent.

Cyfymlynu, ymlŷn, *v.* to adhere together.

Cyfymraniad, au, *s.* (cyf—ymranu) a proportioning or adjusting equally.—Cydymraniad, cyd-drefniad.

Cyfymranol, *a.* proportionate.

Cyfymranu, a, *v.* to proportionate.

Cyfyrder, dyr, *s.* (cyfer dar) a second cousin.—Cyfyrderw, cyferder,† plentyn cefnder.

Nid cenhedlog ond cyfyrdyr.—No tribe so numerous as second cousins. *D.*

Cyfyrderw,† dyrw, *s.* a second cousin.

Cyfyrgir†[cyfyrgyr], *v.* to meet.—Cyfarfod. *F.*

Cyfys, *s.* (cyf ys) an universal devouring or eating.—Cyd-ddifrod.

Llathrai lafn o'i law ar gyfys.—The blade would glean from his hand on the havoc. *C.*

Cyfys, *a.* devouring, voracious, gnawing.

Cyfysedig, *a.* that is devoured.

Cyfysgar,† *s.* (cyf—esgar) a joint foe.—Cyfesgar.

Cyfysgwn,† *a.* (cyf—ysgwn) mutually rising up.—Cyfesgynol.

Cyfysgwr,† *a.* (cyf—ysgwr) covered, encircled.—Gorchuddiog, arfog.

Ni ffy cyfysgwr heb noeth.—The covered with armor will not flee without the naked. *Lief.*

Cyfysgyn,† au, *s.* (cyfysgwn) an universal or joint rising up, a mutual rising up.—Cyfesgyn, cydesgyn.

Cyfysgyniad,† au, *s.* a rising or ascending together.—Cydesgyniad, cyd-ddyrchafiad.

Cyfysgynol, *a.* that rise together.

Cyfysiad, au, *s.* (cyfysu) a devouring, an eating; corrosion.—Cydysiad, cyd-ddifrodiad.

Cyfysol, *a.* devouring, corrosive.

Cyfysolrwydd, *s.* corrosiveness.

Cyfysoldeb, *s.* corrosiveness.—Ysoldeb.

Cyfystlys, *a.* (cyf—ystlys) equilateral, collateral.—Cyfochr, gogyfystlys.

Cyfystlysiad, au, *s.* a placing collaterally, or side by side.—Cyfochriad.

Cyfystlysol, *a.* side by side.—Cyfochrol.

Cyfystlysu, a, *v. a.* to place collaterally.

Cyfystrawd, trodau, *s.* (cyf—ystrawd) a saddle with its furniture.—Celfi cyfrwy; siarch.

Cyfystyr, *a.* (cyf—ystyr) of like meaning; synonymous.—Cydystyr, unystyr; cydarwydd, o'r un arwyddocâd.

Geiriau cyfystyr.—Synonymous words. *Bs.*

Cyfystyriad, au, *s.* a becoming of like import; sameness of meaning.—Cydystyriad; cyfattebiad.

Cyfystyriaeth, *s.* a sameness, a likeness of import.—Cydystyriaeth, cydarwyddocâd.

Cyfystyrio, ia, *v. a.* to synonymize.

Cyfystyriol, *a.* of the like meaning; synonymous.—Cydystyr, cydarwyddol.

Cyfystyron, *s. pl.* synonyma, synonymous words.—Geiriau cyfystyr.

Cyfystyru, a, *v. a.* to synonymize.

Cyfystyriwr, wyr, *s.* a synonymist.—Cynnullwr cyfystyron.

Cyfysu, a, *v. a.* (cyfys) to devour, to consume.—Cydysu, cyd-ddifrodi.

Cyfyswr, wyr, *s.* a devourer, a consumer.—Cydyswr, difrodwr, difäwr.

Cyfysydd, ion, *s.* a devourer.—Cyfyswr.

Cyff, ion, *s.* (cy--yff? Arm. *Kuf*; Rab. *Kapha*) a stern, a stump; a stock; a trunk. a body.—Boncyff, bon, bonyn, cippill, pill. celff; bonedd, gwelygordd, gwehelyth, gwely cenedl, ach, hynafiad, cynrain, llinach, edryd; corph, cwrf.

Cyff achau, } the stock of a tribe.
Cyff cenedl, }

Cyff clér.—A butt of ridicule.

Cyff cynnalawdr.—The stock of him that holds tenure, which signifies the original possessor of land, and being such as the parties who are at law for a real estate dispute their claim of descent from.

Cyff elusen.—A poor box.

Cyff gwenyn.—A stock of bees.

Cyff-nwyddau.—A stock of goods.

Cyff o ddyn.—A blockhead.

Cyff o gardiau.—A stock of cards.

Cyff pandy.—The box for fulling cloth.

Cyff pren.—A stump of a tree.

Nid tân heb gyff. It is no fire without a block. *D.*

Cyff, *prp.* (cyf) com-, con-.—Cy-, cyf-, cym-, cyn-, cys-, cyt-.

Cyffaeth, ffaethiau, ffeithiau, *s.* (cy ffaeth) a confect or mixture of enriching liquids or substances; manure; preparations for dressing leather.—Ancwyn, cyffaeth, cymmysg, cyfansawdd, ammeuthyn; gwrtaeth; cymmysg i drin lledr.

Cyffaid, *s.* (cyff) the quantity of cloth that fills the box of a fulling mill=seven stones of wool.—Llonaid cyff pandy=saith pwys cyfelin o wlan.

Cyffawd, *s.* (cy—ffawd) mutual pleasure or joy.—Cydffawd, cyd-ddifyrwch.

Cyffbysg, *s. ag.* (cyff—pysg) the torpedo, the electric fish.—Cyffledydd; pysg sy'n peri iasau fel trydan wrth eu cyffwrdd.

Cyffeithdy, dai, *s.* (cyffaeth) a confectionary.—Ancwyndy, cyffeithgell, moethfa.

Cyffeithgell, au, *s. f.* (cyffaeth—cell) a confectionary.

Cyffeithiad, au, *s.* (cyffeithio) an enriching confection; a confecting, a preserving.—Cyweiriad.

Cyffeithiedig, *a.* enriched.—Ancwynedig.

Cyffeithiedydd, *s.* a confectioner.—Ancwynydd.

Cyffeithio, ia, *v. a.* (cyffaeth) to enrich, to cultivate; to conserve or preserve fruits.—Ancwyno, ammoethu; cyweirio, pereiddio.

Cyffeithio crwyn.—To dress skins.

Cyffeithio tir.—To manure land.

Cyffeithiol, *a.* confectory; tending to enrich or cultivate; conserved, candied.—Ancwynol, cyweiriol.

Cyffeithiwr, wyr, *s.* one who prepares or dresses; a confectioner.—Ancwynwr.

Cyffeithydd, ion, *s.* a cultivator; a confectioner.

Cyffeithyddes, au, *s. f.* a female confectioner.

Cyffeithyddol, *a.* confectory.—Cyffeithiol.

Cyffelyb, ion, *s.* (cyfal) something that is like; likeness.—Tebygrwydd, cyfelwch.

Cyffelyb, *a.* like, similar.—Tebyg, cynnhebyg, eilfydd, hafal, cyfal.

Cyffelybiad, au, *s.* a comparison; a comparing, a likening.—Cymmhariad.

Cyffelybiaeth, au, *s. f.* a similitude, a likeness.

Cyffelybiaethiad, au, *s.* a drawing a comparison or simile.—Cyffelybiad.

Cyffelybiaethol, *a.* parabolical.

Cyffelybiaethu, a, *v. a.* to draw a simile; to form a comparison.—Cymmharu.

Cyffelybrwydd, *s.* similitude.—Tebygrwydd.

Cyffelybu, a, *v. a.* to compare, to liken.

Cyffelybwr, wyr, *s.* a comparer, one who makes a comparison.—Cymmharwr.

Cyffer, i, *s.* (cy — ffer) substance, matter; ingredient; medicine.—Sylwedd, defnydd; cyffyr, meddyglyn.

Cyfferddysg, *s. f.* (cyffer—dysg) pharmacology.—Cyfferiaeth.

Cyfferfaen, *s.* (cyffer—maen) pharmacolite.—Maen cyfferi.

Cyfferi, *s. ag.* (cyffer) confects, medicines.—Cyffyrion, moddion meddygol.

Cyfferiadur, on, *s.* pharmacopœia; a book containing directions for the preparation of medicines.—Cyfferlyfr, meddygiadur.

Cyfferiaeth, au, *s. f.* pharmacopœia, pharmaceutics; the science of preparing medicines.—Cyffyriddysg, cyffyrofyddiaeth; gwyddoriaeth darparu meddyginiaethau.

Cyfferiedydd, ion, *s.* pharmaceutist; one who prepares medicines.—Cyfferofydd.

Cyfferiol, *a.* pharmaceutic, relating to pharmacy.—Cyffyriol.

Cyfferïwr, wyr, *s.* pharmaceutist, one who mixes or prepares medicines; pharmacopolist, one who sells medicines, an apothecary.—Cyfferofydd, darparwr meddyginiaethau; cyfferwerthwr.

Cyfferlyfr, au, *s.* (cyffer—llyfr) pharmacopœia.—Cyfferiadur.

Cyfferofydd, ion, *s.* (cyffer—ofydd) pharmaceutist.—Cyfferïwr, cyfferiedydd.

Cyfferofyddiaeth, *s. f.* pharmaceutics.—Cyfferiaeth.

Cyfferofyddol, *a.* pharmaceutical.—Cyfferiol.

Cyfferyddiaeth, *s. f.* (cyfferi) pharmacy.—Cyfferiaeth.

Cyffes, ion, *s. f.* (cy—ffes? L. *confessio*) a confession, an acknowledgement.—Cyfaddefiad, cydnabyddiad, cydnabyddiaeth, addefiad; proffes.

Cyffes ffydd.—Confession of faith.

Cyffes glust.—Auricular confession.

A'm cyffes a ddygaf i ti.—I confess to thee, I protest to thee. *R.*

Cyffesfa, feydd, *s. f.* a confessionary.

Cyffesfaingc, feingciau, *s. f.* (cyffes—maingc) a confessional.

Cyffesgell, oedd, *s. f.* (cyffes—cell) a confessional. a place for confession.—Cyffesfa, cyffesfaingc, ysgafell gyffes.

Cyffesiad, au, *s.* (cyffes) a confessing.—Cydnabyddiad.

Cyffesle, oedd, *s.* (cyffes—lle) a confessional

Cyffesol, *a.* tending to confession, relating to acknowledgment or owning.

Cyffesu, *v.* to confess, to acknowledge.

Cyffeswr, wyr, *s.* one who acknowledges; a confessor.—Cyfaddefwr; derbynydd cyffes.

Cyffesydd, ion, *s.* a confessionist.—Proffesydd.

Cyffiad, au, *s.* (cyff) a becoming rigid.—Sythiad, anystwythiad.

Cyffiedig, *a.* torpid, benumbed.—Sythig.

Cyffiedigrwydd, *s.* torpescence.—Syrthni.

Cyffiedydd, ion, *s.* the torpedo, an electric fish; a machine invented by Robert Fulton to blow up ships.—Cyffbysg, sythbysg, pysg sy'n peri iasau fel trydan wrth eu cyffwrdd; peiriant o ddyfais Robert Fulton i ddinystrio llongau.

Cyffin, iau, *s.* (cy—ffin; L. *confinium*) a confine, a limit; the marches or frontier of a country.—Ffin, terfyn, min, ymyl; goror, cymminiog, cynghyd deudir, bargod, gororwy.

Cyffini, *s.* a limitation, a bound.—Terfyniad.

Cyffini,† *s.* agony.—Gloes, ing, gofid. *F.*

Cyffiniad, au, *s.* a bounding upon; limitation.

Cyffinid, *s.* abutment; a boundary.

Cyffiniden, *s. f.* a spider; a cobweb.—Pryf copyn, copyn cor, còryn; gwe'r pryf copyn, adargopwe, copwe.

Cyffinidwr, wyr, *s.* a limitarian.—Cyffiniwr.

Cyffinio, ia, *v.* to bound, to abut, to limit.—Ffinio, cyd-derfynu, ymylu, amminiogi.

Cyffiniol, *a.* adjacent, bounding, bordering.

Cyffiniwr, wyr, *s.* one who places limits.

Cyffinolion, *s. pl.* abuttals, limits.—Cyffiniau, bargodion, terfynau, ffiniau, gororau.

Cyffinydd, ion, *s.* a confine.—Cyffin, terfyn.

Cyffio, ia, *v.* to benumb, to become torpid.

Cyffiog, *a.* torpent, torpid.—Cysglyd, hurt.

Cyffiol, *a.* torpent; of benumbing quality.

Cyffiolion, *s. pl.* torpeats.—Cysgolion, cysgeion.

Cyffiyd, *a.* torpid, torpescent.—Swrth.

Cyffni, *s.* torpor, torpidity.—Syrthni.

Cyffoden, au, *s. f.* (cyffawd; cyd—bod, *Dr. D.*; cy—bod) a concubine.—Gordderch, gordderchwraig, gordderches, cariadferch, putain gadw, cymmones, meiriones.

Collais, heb glod, gyffoden. I have lost, without credit, a mistress. *G. I. Ll. F.*

Cyffodiad,† au, *s.* (cyffawd) a mutual happiness; a becoming mutually fortunate.—Cyddedwyddwch, cydhapusrwydd, cydffodiad.

Cyffodio,† ia, *v.* to happen fortunately.

Cyffodiog,† *a.* mutually prosperous.

Cyffrawd, *s.* (cy—ffrawd) impulse, influence, motion.—Cyffro, cynnhyrfiad, dylanwad, ysgog.

Cyffrawd, *a.* having impulse or activity; active.

Cynran cyffrawd.—The active chieftain. *Meig.*

Cyffrawdd, *s.* (cy—ffrawdd) activity, impulse.—Cyffrawd.

Graid gyffred gyffrawdd.—The fiery cause of activity. *C.*

Cyffre,† oedd, *s. f.* (cy—ffre?) pervation; a blending together.—Traidd, trwyad; cymmhlethiad.

Cyffre,† *a.* pervasive, pervading.—Treiddiol.

Ail gawdd gne gnawd gyffre.—Like the repelling of light wont to be pervasive. *Gwalch.*

Cyffred, ion, *s.* comprehension, cause, reason; a whole, entirety, fulness.—Amgyffred, achos, rheswn; cyfander, cyflawnder.

Trwy gyffred einioes.—Through the whole course of life.

Trwy gyffred y flwyddyn.—Through the whole course of the year.

Cynan cad gyffred a'm anlloddes ged.—Cynan the cause of battle bestowed on me treasure. *Tal.*

Cyffred, *v.* to comprehend, to comprise.

Cyffred, *a.* universal, whole.—Cyffredin, cyfan.

Trwy'r dydd cyffred.—Through the whole day.

Yn gyffred.—Together, all under one, at once.

Cyffredadwy, *a.* comprehensible.—Amgyffredadwy, dealladwy, dirnadwy.

Cyffrededig, *a.* comprehended.

Cyffrediad, au, *s.* comprehension, inclusion.

Cyffrediaith, *s. f.* (cyffred—iaith) communication.—Cydymddiddan; gohebiaeth,

Cyffredin, *a.* (cyffred) universal, common; impartial; regular.—Cyffredinol; arferedig; holl, cyfoll, cyfan, cyffred; ammhleidiol; rheolaidd.

Y cyffredin.—The commonality, the common people.

Ty'r Cyffredin.—The House of Commons.

Y gyfraith gyffredin, cyfraith gyffredin gwlad.—The common law.

Cynghor cyffredin.—Common council.
Yr iaith gyffredin, iaith gyffredin y wlad.—The common tongue or language.
Arglwydd gwir cyffredin.—The lord of universal truth.
Cas cyffredin heb gyfraith.—Odious is a rabble without law. *D.*

Cyffredinder, } *s.* universality. — Cyffredin-
Cyffredinedd, } olrwydd; llwyredd, cyflwyredd.

Cyffrediniad, au, *s.* a rendering universal.

Cyffrediniad, iaid, *s.* a commoner.—Gwreng, gŵr cyffredin, un o'r werin.
Y cyffrediniaid, y cyffredinolion.—The commonality, the common people.

Cyffrediniaeth, *s. f.* generality, universality.

Cyffredino, a, *v. a.* to make universal or general, to publish, to proclaim.—Cyffredinoli; cyhoeddi.
Mae yn darfod i ni, y Prydeiniaid, fel na chy ffredino neb gydan ni.—It is become necessary for us, the Britons, that none shoul l have communications with us. *Car*

Cyffredinog, ion, *s.* a commoner.—Cyffrediniad.

Cyffredinol, *a.* universal; general.

Cyffredinoldeb, *s.* universalness.

Cyffredinoldeb, *s.* commonness.—Cyffredinwch.

Cyffredinoli, a, *v. a.* to universalize.

Cyffredinoliaeth, *s. f.* universalism.—Cyffrediniaeth—yr athrawiaeth y bydd pawb yn gadwedig yn y diwedd.

Cyffredinolion, *s. pl.* universals.

Cyffredinolrwydd, *s.* generalness.

Cyffredinolwr, wyr, *s.* an universalist.—Un yn credu adferiad pob peth.

Cyffredinrwydd, *s.* universality, commonness.
Cyffredinrwydd y saint.—Communion of saints.

Cyffredinwch,† *s.* commonness, generality general verdict.—Cyffredinrwydd; dedfryd yffredin.
Herwydd yr hawl a'r atteb barner cyffredinwch, a chosper y neb a ddigwyddo.—With respect to the complaint and the answer, let a general verdict be ju lged, and let him that is cast be punished. *Yst. Rhudd.*

Cyffredinwr, wyr, *s.* a commoner.

Cyffredol, *a.* universal, whole, entire.

Cyffreu,† au, *s.* (cyffre) pervasion.—Cyffre. *D. D.*

Cyffreuad,† au, *s.* a flowing together; a communication.—Cydrediad; cydymddiddan.

Cyffreuedig,† *a.* made to pervade.

Cyffreuedigaeth,† *s. f.* communication.

Cyffro, au, *s.* (cy—ffraw) concussion, agitation, common; a motion, a stir.—Cyffrawd, cynnhyrfiad; ysgog, cythrwfl.
Cornor y cyffro.—The leader of a faction.
Tri chyffro dial y sydd.—There are three instigations to revenge. *C. C.*

Cyffro, *a.* movable, agitated.—Symmudol.
Da cyffro ac anghyffro.—Movable and immovable goods.

Cyffroad, au, a concussing, a stirring, a moving, an agitating, a disturbing.—Cyffro.

Cyffroadwy, a. agitated.—Cynnhyrfadwy.

Cyffroawl, *a.* impulsive, moving. [turbed.

Cyffröedig, *a.* agitated, moved, actuated; dis-
Da cyffröedig ac anghyffröedig.—Movable and immovable goods.

Cyffröediaeth *s.* agitation, stir.
Cyffröedigaeth y gwynt.—The agitation of the wind. *Dam.*

Cyffröedigol, *a.* tending to move.

Cyffroi [cyffròi], a, *v.* to concuss, to agitate, to move, to stir; to disturb, to trouble; to ruffle, to flurry; to commence; to be moved; to be troubled.—Cynnhyrfu; cythryblu.
Cyffroi hawl.—To commence a suit. *C. C.*

Cyffröwr, wyr, *s.* an agitator, a mover, a stirrer; a disturber.—Cynnhyrfwr.

Cyffröydd, ion, *s.* an agitator.—Cyffröwr.

Cyffrwy,† on, *s.* (cy—ffrwy) a mutual aid.—Cydgynnorthwy.

Cyffrwyo,† a, *v. a.* to conduce, to produce; to support.—Cynnyrchu; cynnal.
Addfwyn gaer y sydd a'i cyffrwy cedau.—A pleasant town there is that is supported with gifts. *T'al.*

Cyffrwyol,† *a.* conducive, bringing on.

Cyffrwyth, au, *s.* (cy—ffrwyth) produce.—Cynnyrch, cydffrwyth.

Cyffryd,† au, *s.* (cy—ffryd: *Dr. P.* has not *ffryd* as a separate word: does the word come from *cy—ffrwd*? or *cyf—rhyd*?) protection.—Nawdd.

Cyffrydiad,† au, *s.* a protecting.

Cyffrydiol,† *a.* defensive, protecting.

Cyffrydiwr,† wyr, *s.* a protector, a defender.

Cyffrydu,† a, *v. a.* to defend, to protect.

Cyffryn,† au, *s.* (cyff—rhyn? cyf—rhyn) agitation.—Cyffro, cynnhwrf.

Cyffrynol,† *a.* apt to tremble or shake.

Cyffurf, *a.* (cy—ffurf) conformed, of the same form.—Cydffurf.

Cyffurfiad, au, *s.* configuration.

Cyffurfio, ia, *v.* to configurate.—Cydffurfio.

Cyffwrdd, *s.* (cyf—hwrdd) a touching, or meeting.—Cyfarfod, cwrdd, cyfhwrdd.

Cyffwrdd, *v.* to touch, to meet.—Cyfarfod, cwrdd, cwrddyd, cyfarfod â; ymgyfarfod.

Cyffyloca, *v. a.* (cyffylog) to catch woodcocks.—Dal cyffylogod.

Cyffylog, od, *s.* (cy—byl: *byl*, is a *brim* or *edge*: *R.* thinks that it might come from *ysgylfog* =a bill-bird, which comes from *gylf* or *gylfin*=the bill of a bird; Arm. *kufulog*; C. *kyvelak*) a woodcock.
Cyffylog y môr.—The fin-foot runner.
Nid wrth ei big y mae prynu cyffylog y môr.—The woodcock is not to be bought by its bill. D.

Cyffylliog,† *a.* (cy—ffylliog) abounding with wilds.—Anial anniwylliog.

Cyffyr, iau, *s.* (cy-ffyr) substance, matter, ingredient; medicine.—Sylwedd, defnydd; cyffer, meddyglyn.

Cyffyrddiad, au, *s.* (cyffwrdd) a meeting together; a coming in contact.—Cyfarfod, cydgyfarfyddiad; cyfhyrddiad, cyhyrddiad.

Cyffyrddol, *a.* tending to meet or touch.

Cyffyrddwr, wyr, *s.* one who meets; or who comes in contact.—Cyhyrddwr.

Cyffyrddysg, *s. f.* (cyffyr—dysg) pharmaceutics, pharmacology.—Cyfferïaeth.

Cyffyriol, *a.* (cyffyr) pharmaceutic.—Cyfferïol.

Cyffyrofyddiaeth, *s. f.* (cyffyr—ofydd) pharmaceutics.—Cyffyrddysg, cyfferïaeth.

Cygly,† *s.* (cy—cly) the sense of hearing.—Clybod, clyw.

Cyglyw,† *v.* to hear, to hearken.—Clywed.

Cygnog, *a.* (cwgn) full of knots, knotty.—Clymog, cymmalog, cnapiog.

Cygydio, ia, *v. a.* (cy—cydio) to conjoin; to fasten together.—Cynghydio.

Cyngall, *s.* (cy—call) a co-operative power.—Cydall, cyfnerth.

Cyngan, *s. f.* (cy—yngan) a speech, a discourse.—Ymadrodd, cynan, yngan, araeth.

Cynganiad, au, *s.* a talking, a discoursing; enunciation.—Llefariad, mynegiad; cynaniad, ymganiad.

Cynganol, *a.* talkative, enunciatory.

Cynganu, *v.* to talk, to discourse.

Cyngel, *s.* (cy—gel) an animal, a beast.—Mil, milyn; ymlusgiad.

Cyngelyn, ion, *s.* (cy—gelyn) a mutual foe.—Cydelyn.

Cyngeni, *a.* (cy—geni) coeval with the birth.—Cydenedigol.

Ban cyngeni.—A mole on the skin.

Cynghad, au, *s. f.* (cy—cad) a concourse—Cydgasgl, cyrch, ymgynnull.

Cynghadw, *v.* (cy—cadw) to keep mutually.—Cydgadw.

Cynghadwyn, i, au, *s. f.* (cy—cadwyn) a joint, or continued chain; concatenation.—Cydgadwyn; cadwyniad, cyfrwyniad.

Cynghadwyniad, *s.* concatenation.—Cydgadwyniad, cynghlymiad.

Cynghadwyno, a, *v. a.* to concatenate, to interchain, to link together.—Cydgadwyno.

Cynghadwynol, *a.* concatenated.

Cynghaf, au, *s.* (cy—caf) a clinging together; the bur, burdock.—Cynghlwm; cynghaw, cynghawf, cynghar, cacamwci, cribau'r bleiddiau, ciog, cedowrach, cedor y wrach, baw mwci.

Cynghaf bychan.—The small burdock, the lesser burdock.

Cynghaf mawr.—The great burdock, the clot-bur.

Cynghafaidd, *a.* clinging together.

Cynghafan, *s.* the cleavers, the goose-grass.—Gwlyddyn garw, gwlydd geirwon, gwlydd y perthi, llysiau'r hidl.

Cynghafan gorweddol, } The great goose-
Cynghafan mwyaf, } grass, the german madwort, the madwort.

Cynghafog, *a.* clinging together; embarrassed; like burs, abounding with burs.

Cynghafog, ion, *s.* the bindweed.—Ffrithlys.

Cynghafog arfor.—Sea bindweed.

Cynghafog fawr.—The great bindweed.

Cynghafog fechan.—The small bindweed.

Cyweithaswr, wyr, *s.* a sociable man.
Cyweithau,† *v.* (cywaith) to co-operate.—Cydweithio.
Cyweithawr,† wyr. *s.* a co-operator; an auxiliary.—Cydweithiwr.
Cyweithi,† *s.* a co-operation.
O gyfrange barwn byr ei gyweithi.—From the contention of a baron of short co-operation. *A. F.*
Cyweithiad, au, *s.* auxiliation; co-operation.
Cyweithiant, *s.* co-efficiency.—Cydweithiant.
Cyweithiedydd, ion, *s.* a co-operator.
Cyweithio, ia, *v. a.* to co-operate.
Cyweithiol, *a.* co-efficient, auxiliary.
Cyweithioldeb, *s.* a state of co-operation; co-efficaciousness.—Cydweithioldeb.
Cyweithioli, a, *v.* to make coefficient; to be auxiliary.—Effeithioli; cynnorthwyo.
Cyweithiolrwydd, *s.* coefficiency.
Cyweithiwr, wyr, *s.* a co-operator, an assistant, a supporter.—Cydweithiwr.

Cyweithydd, ion, *s.* what co-operates; a co-efficient; a multitude.—Cydweithydd; llu, cad.

Cyweithydd o wŷr a gwreigedd a ddoai i'w cyfarfod.—A multitude of men and women did come to meet them. *Mab.*

Boed angeu eu cyweithydd.—Let death be their auxiliary. *Tal.*

Cywely, *s.* (cy—gwely) a bedfellow.—Cydwely, cydymaith gwely.

Cywely, *a.* laying in the same bed, having a common bed.—Cydwely.

Cywelyes, au, *s. f.* a female bedfellow; a concubine.—Cydwelyes; gordderch, gordderches, cyffoden.

Cywelyog, *a.* having a bedfellow.

Cywelyogaeth, *s.* a concubinage.—Cydwelyogaeth, cydwelyaeth.

Cywelyogaeth, au, *s. f.* a lying together, a conjugal state; concubinage.—Cydwelyogaeth. *C. C.*

Cywelyogi, a, *v.* to cohabit together, to have a common bed.—Cydwelyogi.

Cywen, au, *s. f.* (cyn) a chicken, a chickling, a pullen.†—Cywenan, cywenig.

Cywenaidd, *a.* chicken-like.—Fel cywen.

Cywenan, } *s. f. dim.* a little chicken, a chick-
Cywenig, } ling.—Cywen bach, cywen fach.

Cywer, *s.* (cy—gwer) a curdler, rennet.—Caul, ceuled, cywair, cywair llaeth.

Cywer (cwer, cwar) aradr.—The sole of a plough.

Cywerdeb, *s.* rennet, runnet.—Cywer.

Cywerth, *s.* (cy—gwerth) value, equivalence.—Cydwerth, cyfartaliaeth.

Cywerthadwy, *a.* rateable.—Cywerthadwy.

Cywerthiad, au, *s.* a valuation.—Cydwerthiad.

Cywerthol, *a.* equivalent in value.

Cywertholrwydd, *s.* an equivalent.

Cywerthu, a, *v.* to bargain together.

Cywerthydd,† ion, *s.* a compensation, an equivalent, a requital; value.—Cydwerydd, cyferthydd.

Gwell gan Iorwerth gywerthydd ei wawd, nag anrheg o wydd.—Iorwerth would rather have a compensation for his panegyric, than a present of a few twigs. *D. G.*

Cywerthyddiad,† au, *s.* a being made of equal value; a valuation.—Cydwerthyddiad.

Cywerthyddio,† ia, *v.* to estimate, to set a value upon; to appraise; to be worth.—Cydwerthyddio. *C. C.*

Cywerthyddiwr, wyr, *s.* one who valnes, an appraiser.—Cydwerthyddiwr, prisiwr.

Cywerthyddol, *a.* compensative.

Cywes, *s. f. dim.* (cyw) a little chick.—Cywenig.

Cywest, au, s. (cy—gwest) a connection.—Cyfwest, cyssylltiad.

Cywestach, *s.* connection, union; familiarity; sensual connection; a wife.—Undeb; cystlwn; cydymgydiad; gwraig.

Câr dy gwestach.—Love thy familiar connection. *D.*

Can ni syniaist halogrwydd corph trwy gywestach.—Since thou didst not think of the defilement of thy body by connection. *D. Dd. H.*

Cywestiad, au, *s.* consociation.—Cydgyfeillach.

Cywestol, *a.* connective, connected.

Cywestrwydd, *s.* a familiarity.

Cywestu, a, *v.* to associate together

Cywestwch, *s.* society, cohabitation.

Cywestwr, wyr, *s.* one who is connected; a consociate.—Cydymaith, cymmrawd.

Cywng,† *a.* (cy—wng) near together, adjoining.—Cyfwng, cyssylltiol.

Arfau briw trilliw trillu cywng.—The broken three-colored arms of their hosts in contact. *E. M. Rh.*

Cywilydd, *s.* (cy—gwilydd? cy—gwyledd?) shame; disgrace.—Gwarth, gwaradwydd, gwarthrudd, achlod, mefl.

Cywilydd pobloedd yw pechod.—Sin is a reproach to any people. *B.*

Tri chywilydd morwyn.—The three blushings of a maid. *C. C.*

Cywilyddgar, *a.* being shameful.—Gwylaidd.

Cywilyddgarwch, *s.* shamefulness.—Gorchwyledd.

Cywilyddiad, au, *s.* a shaming.—Gwyleiddiad.

Cywilyddiedig, *a.* that is ashamed.

Cywilyddio, ia, *v.* to shame, to abash, to confound; to be ashamed, to blush.—Gwyleiddo, gwladeiddio; gwrido, cochi.

Cywilyddiol, *a.* tending to shame.

Cywilyddiwr, wyr, *s.* one who shames, one who blushes.

Cywilyddus, *a.* shameful, scandalous.

Cywilyddusrwydd, *s.* shamefulness.

Cywir,† *s.* (cy—gwir) executive power, dominion.—Llywodraeth.

Trystan, yn gywir gad finnau.—Trystan will leave me the dominion. *Y. A. Th.*

Cywir, *a.* correct, true, just, sincere, faithful.—Gwir, cyfiawn, gonest, iawn, didwyll, dihoced, ffyddlawn; sicr, dilys.

Bod yn gywir.—To be true to a promise. *C. C.*

Nid cywir ond meddylgar.—No one is sincere but the thoughtful. *D.*

Cywir, *s.* the True One, the True.—Y Cywir.

Ac wele farch gwyn; a'r hwn oedd yn eistedd arno a elwir Ffyddlawn a Chywir.—And behold a white horse; and he that sat upon him was called Faithful and True. *B.*

Ac yr ydym ni yn y Cywir hwnw.—And we are in that True. *B.*

Cywirdeb, *s.* perfection, sincerity, faithfulness, trustiness, uprightness.—Ffyddlondeb, geirwiredd.

O gywirdeb y galon y dywed y genau.—From the sincerity of the heart will the lips speak. *D.*

Cywiriad, iaid, *s.* a faithful, or sincere one, an upright one; a loyalist.—Dyn ffyddlawn, gonest; teyrngarwr.

Cywiriedig, *a.* that is corrected.

Cywiriol, *a.* tending to perfect.

Cywiriwr, wyr, *s.* a true upright man.

Cywiro, a, *v.* to perfect; to fulfil a promise, or trust; to be sincere, or upright; to become perfect; to become just.—Cyflawni; unioni; bod yn gyfiawn.

Cas a addawo bob peth ac ni chywiro ddim.—Hateful is he that promises every thing and performs nothing. *D.*

Cywirwedd, *a.* (cywir—gwedd) justly formed.—Iawnddull, iawnwedd.

Cywiw, *a.* (cy—gwiw) well worthy, deserving.—Teilyngwiw, rhyglyddus, haeddiannol.

Cywiwdeb, *s.* condignness, desert.—Teilyngdod.

Cywlad, oedd, wledydd, *s.* (cy—gwlad) a bordering country; one of the same country, a countryman —Cydwlad, cyffinwlad, goror; cydwladwr, cydwleidiad, un o'r un wlad.

Cywlad, *a.* of the same country.

Bod yn gywlad.—To be present in a country. *C. C.*

Cywladol, *a.* of the same country.

Cywladoleb, *s.* a federate community.—Cydwladwriaeth, cyfwladwriaeth.

Cywladolion, *s. pl.* the inhabitants of the country, united countrymen.

Dirfawr ollyngedigaeth gwaed y cydwladolion.—An immense spilling of the blood of the united countrymen. *B. y S.*

Cywladu, a, *v.* to naturalize.—Cyfwladu.

Cywladwriaeth, *s. f.* a federal community.—Cydwladwriaeth, gwladwriaeth gyfunol.

Cywledd, au, *s. f.* (cy—gwledd) a banquet.—Cydwledd, cyfedd, gwledd, cyfeddach.

Cywleddu, a, *v.* to carouse together.—Cydwledda.

Cywleidiad, on, wleidiaid, *s.* (cywlad) a compatriot, a fellow countryman.—Cydwleidiad, cydwladwr, cywlad.

Cywleidiadon cyhoedd.—Conspicuous compatriots. *Gwalch.*

Cywleiddiad, on, *s.* (cywledd) a companion in the banquet; a convivialist.—Cydwleddolwr, cyfeddachwr.

Cywoed,† *a.* (cyfoed) of the same age, coetaneous.—Cyfoed, cydoed.

Boch gywoed a'r baich gwiail.—Let you be of the same age as the burden of twigs. *T. A.*

Cywoeth,† *s.* (cyfoeth) power; wealth, riches.—Gallu, awdurdod; golud, da.

Rhoes gywoeth yn rwysg Ieuan.—He gave riches for Evan's advancement. *L. G. C.*

Cywrain, *a.* (cy-gwrain: *gŵrain*, according to *Dr. P.*, is "masculine, virile, male;" which, if it bears any relation at all to *cywrain*, must be very far indeed: the L. *accuratus* is much nearer to it than *gŵrain*, especially to its synonym *cywraint*. The truth is, that the real etymons of many words, even of the most familiar ones, are now unknown) skilful, accurate, expert.—Celfydd, medrus, manwl, hwylus, cynnil, campus.

Cywraint, reimies, *s.* one who is expert, or accurate.—Celfyddwr, cyfarwydd.

Dau waith a fydd gan gywraint.—The skilful has two works. *D.*

Gwell cynnil na chywraint.—The saving is better than the skilful. *D.*

Cywraint, *a.* skilful, accurate.—Cywrain.

Cywreindeb, *s.* skill, accuracy.—Medr.

Cywreiniad, au, *s.* a using skill, or expertness; a rendering accurate.—Manyliad.

Cywreinin,† *a.* elaborate, accurate.

Cywreinio, ia, *v. a.* to make accurate, to elaborate, to improve, to use skill.—Manylu.

Cywreiniol, *a.* tending to rectify.

Cywreiniwr, wyr, *s.* one who makes perfect, or accurate.—Manylwr.

Cywreinrwydd, *s.* skilfulness, skill.

Cywreinwaith, *s.* (cywrain—gwaith) a skilful, or curious workmanship.—Celfyddydwaith, medruswaith.

Cywres,† au, *s. f.* (cy—gŵres) a joint wife or that is common to a husband; a concubine.—Cydŵres; cyffoden, putain. *C. C.*

Cywrys,† au, *s.* (cy—gwrys) contention.—Ymryson.

Cywrys am fwyd, carant am ofid.—Contention for food, friendship in trouble. *D.*

Cywrysedd,† *s.* contention.—Cyfrysedd, cynnen.

Cywrysedd Prydain.—The contention of Britain. *C.*

Cywryseddiad,† seddiaid, *s.* a contender, a striver, a quarreller.—Amrysoniad.

Tri chywryseddiaid cywir, Bleiddyn, Hyddyn, a Hychdwn hir.—The three faithful combatants, Bleiddyn, Hyddyn, and the tall Hychdwn. *Mab.*

Cywryseddol,† *a.* contentious.—Cwerylgar.

Cywryseddu,† a, *v.* to contend together; to be mutually striving.—Cyfryseddu.

Cywryseddwr,† wyr, *s.* a contender, a quarreller.

Cywrysiad,† au, *s.* a striving.—Ymrysonu.

Cywrysio, ia, *v.* to contend together.

Cywyd,† *s.* (cy—gwŷd) temperament, passion.—Tymmer, cyfnwyd, gwŷd.

Dy wynfyd i'm cywyd nid cas.—Thy happiness is not disagreeable to my passion. *P. M.*

Cywydiad,† au, *s.* temperature.

Cywydiaeth,† *s. f.* temperament, habit.

Cywydio,† ia, *v.* to habituate; to give way to passion or impulse.—Cyfnwydo.

Cywydiol, *a.* temperamental.

Cywydd, au, *s.* (cy—gwŷdd. *Dr. P.* says that this word is written *cowydd*, with equal propriety as to etymology and sense. It may be so; but this is the form now generally used, while the form *cowydd* grows obsolete) a homœodistich, a recitative; a metre consisting of from two to five lines with rhyme and concatenation; a short poem consisting of rhyming and concatenated couplets of fourteen syllables, seven in each verse.—Cowydd; mesur yn cynnwys o ddwy i bum llinell yn meddu odl a chynghanedd, cân fer yn cynnwys cyplau odlog a chynghaneddol o bedair sill ar ddeg, saith yn mhob llinell.

Tri rhyw gywydd y sydd; cywydd deuair, cywydd llosgyrniog, ac awdl gywydd.—There are three kinds of homœodistiches; a homœodistich, a caudate homœodistich, and a rhythmic homœodistich. *D. Dd. H.*

Deuryw gywydd deuair y sydd; cywydd deuair fyrion, a chywydd deuair hirion.—There are two kinds of homœodistiches; a short homœodistich, and a long homœodistich. *Etto.*

Cywydd deuair fyrion a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd fer (pedair sill), y naill yn terfynu yn unsill, a'r llall yn lliawsill, ac yn cydodli.—The short homœodistich consists of two verses on the short autometre (of four syllables), the one ending in a monosyllable, and the other in a polysyllable, and rhyming with each other. *R.*

Cywydd deuair hirion a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd gaeth (saith sill),

ac yn cydodli â'u gilydd, megys deuair fyrion, y naill yn terfynu yn unsill, a'r llall yn lliawssill.—The long homœodistich consists of two verses on the confined autometre (being seven syllables), and rhyming with each other, like the short homœodistich, the one ending in a monosyllable, and the other in a polysyllable.

Cywydd llosgyrniog a fesurir o ddwy fraich, neu ragor, ar y gyhydedd draws (wyth sill) yn cydodli â'u gilydd, a braich o losgwrn ar y gyhydedd gaeth, â'i chanol yn unodli gyda diwedd y breichiau ereill, ac felly yn arwain yr awdl trwy'r mesur. — The caudate homœodistich consists of two verses, or more, on the cross autometre (of eight syllables), rhyming with each other, with a tail-verse on the confined autometre, the middle of which must be unirhythm with the endings of the former verses, terminating itself in a different rhyme, and so conducting the rhyme through the metre. *R.*

Awdl gywydd a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd gaeth; a bydd prifodl y fraich gyntaf yn unodli â'r orphwysfa yn yr ail fraich, a'r diwedd yn odl amryfal, ac felly yn arwain yr awdl trwy'r mesur. — The rhyming homœodistich consists of two verses on the confined autometre; and the leading rhyme of the first verse shall be unirhythm with the pause of the second verse, which terminates with a different rhyme; and so conducting the rhyme through the metre. *R.*

Cyfansoddir y gân a elwir cywydd, o'r mesur a elwir cywydd deuair hirion; a gellir newid prifodl pob cwpl heb ddosbarthu'r gân yn bennillion.—The poem called homœodistich is composed of the metre called the long homœodistich; and the leading rhyme of each couplet may be changed without dividing the poem into stanzas. *P.*

Cywydd,† *s.* the conscience; reason; knowledge; revelation.—Yr efengyl; y gydwybod; rheswm; gwybodaeth; dadguddiad.

Y maint a gredwys yn nghowydd, a gredis trwy ewyllys Dofydd. — As many as believed in the gospel, they believed through the will of the Renovator. *Tal.*

Cywyddawd, *s.* a ratiocination;† a poetising.

Cywyddawdl, odlau, *s. f.* (cywydd — awdl) couplet rhyme.—Cowyddawdl.

Cywyddiad, au, iaid, *s.* (cywydd) one endowed with ratiocination, or the impulse of the conscience;† a versifying.—Cowyddiad.

Cywyddiaeth, au, *s. f.* ratiocinability; versification; recitative poetry.—Mydryddiaeth.

Pechu yn erbyn cywyddiaeth. — To sin against rationality. *Ll. G. H.*

Cywyddodlaeth, *s. f.* (cywyddawdl) a rhyming in couplets.—Cyfodlaeth.

Cywyddodli, a, *v. a.* to compose in couplet rhyme.—Cowyddoli.

Cywyddodliad, au, *s.* a couplet rhyming.

Cywyddol, *a.* conscious;† metrical, poetical.

Cywyddoliaeth, *s. f.* poetical composition; poesy; harmony.—Cowyddoliaeth.

Cywyddu, a, *v. a.* to compose poems.—Barddoni.

Cywyddwr, wyr, *s.* a composer of poems; a poetiser.—Bardd, prydydd.

Cywyll,† *s.* (cy—gwyll?) tillage, culture.—Aredd, diwylliaeth.

Cywylliad.† au, *s.* a tilling, a ploughing; cultivation.

Cywylliawd,† *s.* cultivation.

Cywylliawdr,† iodron, *s.* a tiller of the ground; a cultivator.—Amaethwr.

Cywylliodraeth,† *s. f.* husbandry.—Amaethyddiaeth.

Cywylliwr,† wyr, *s.* a cultivator. —Cywylliawdr.

Cywyllu,† a, *v. a.* to culture, to till.

Cywyn,† *s.* (cy—gwŷn) a rising, or swelling up.—Cyfwyn, chwydd, crug, cnwc.

Cywynedig,† *a.* that is made to rise.

Cywynedigaeth,† *s. f.* the act of rising up; exaltation.—Derchafiaeth.

Cywyniad,† au, *s.* a rising up.—Chwyddiad.

Cywynol,† *a.* tending to rise up.

Cywynu,† a, *v.* to rise, or mount up; to set out; to move, to go forward.—Dyrchafu, cwnu.

Ac yna dewis ei farch a'i arfau, a chywynu rhagddo a orug. — And he then made choice of his horse and his arms, and did set off forward. *Mab.*

Cywyrain,† *a.* (cy—gwyrain) mutually rising up.—Cydgyfodol.

Cywyrain,† *v. a.* to rise together, to march together.

Cywyrain cedwyr cywreinin i Gattraeth. —The skilful warriors march together to Cattraeth. *A.*

Cywyre,† *v.* (cy—gwyre: *Dr. P.* does not insert *gwyre* as a separate word, and it is not to be found, any more than its derivatives, in any other dictionary before that of *Dr. P.*; and he does not quote any authority for *cywyre* or its derivatives. Does it come from *gwyra*=lively, or *gwyrain*=to exalt?) to ascend together.—Cydesgyn, cydymddyrchu.

Cywyreog,† *a.* mutually rising up.

Cywyreol, a rising up together.

Cywyro, a, *v.* (cy—gŵyr) to tend together.—Cydwyro, cydblygu, cydogwyddo.

Cywyrol, *a.* apt to incline together; of a common bias.—Cydogwyddol.

Cywystl, on, *s.* (cy—gwystl) a mutual pledge, or obligation.—Cyngwystl, adneu.

Cywystledig, *a.* united in a league.

Cywystliad, au, *s.* a giving a mutual pledge a confederating.—Cyngwystliad; cynghreiriad.

Cywystliaeth, au, *s.* a state of mutual pledge; confederation.—Cyngwystliaeth.

Cywystlo, a, *v. a.* to confederate.—Cynghreirio.

Cywystlog, *a.* in confederacy.—Cyngwystlog.

Cywystlor, ion, *s.* one who gives mutual pledge; a confederate.—Cyngwystlor.

Dafydd a ddienis rhag cynghorfynt y cywystlorion.—David ran away from the malice of the conspirators. *H. yr Y.*

Cywystlwr, wyr, *s.* one who joins in league, a confederate.—Ymdynghedwr; cynghreiriwr.

Cywyth,† *s.* (cy—gŵyth) mutual wrath.—Cydwyth, cydlid, cyd-ddigofaint.

Cywythiad,† au, *s.* a maddening, or raging mutually.—Cydlidiad, cydffromiad.
Cywythiawn,† *a.* infuriated, full of fury.
Rhi cywythiawn. — An enraged chief. *P. M.*
Cywytho,† a, *v.* to become infuriated.
Cywythog,† *a.* full of fury, or rage.
Cywythol,† *a.* infuriated, outrageous.—Cyfllidus.

CH.

Ch, ech, *s. f.* the fourth letter in the Welsh Alphabet, and the third consonant, is a guttural continuant of the same, or nearly of the same power as the Hebrew ח and כ; the Greek χ; the German *ch*, when joined to *a*, *o*, *u*, or *au*; the Spaniah *x* and *j* in *dexar* and *lejos*; the Scotch *ch*, in *loch*; and the Irish *gh*, in *lough*. It is also a radical and a secondary consonant:—when radical, it is always followed by the continuant *w* and a vowel, as *q* in Latin, English, and other languages, is followed by *u* and a vowel: as a secondary, it is the soft (or as some grammarians call it, the aspirate) mutation of *c*; as *cár* (relation), *ei chár* (her relation): in this position it may be followed by any vowel, among the rest by *w* also; as *cwch* (boat), *ei chwch* (her boat). This depends entirely upon what vowel does follow the radical *c*, for that vowel will follow the derivative *ch* also in the mutation.—Y bedwaredd lythyren o'r Egwyddor Gymraeg, a'r drydedd gydsain, yr hon sydd barhadoliad sefnigol, o'r un grym, neu o gyffelyb rym i'r ח a'r כ Hebraeg; y *x* Roeg; yr *ch* Almaen pan yn gyssylltedig âg *a*, *o*, *u*, neu *au*; yr *x* a'r *j* Yspaeneg, yn *dexar* a *lejos*; yr *ch* Ysgotaidd yn *loch*; a'r *gh* Wyddelig yn *lough*. Y mae hefyd yn gydsain wreiddiol ac adlawiadol; pan yn wreiddiol, dilynir hi yn wastad gan y parhadoliad *w*, a llafariad, megys y dilynir *q* yn Lladin, Saesneg, ac ieithoedd ereill, gan *u* a llafariad. Fel adlawiad, sain feddal (neu fel y myn rhai grammadegwyr, chwernsain) *c* ydyw; megys *cár*, *ei chár*: gall gael ei dilyn gan ryw lafariad, ac yn myag ereill gan *w* hefyd; megys, *cwch*, *ei chwch*; ymddibyna hyn yn hollol ar ba lafariad a ddilyn yr *c* wreiddiol, canys y llafariad hono a ddilyn yr *ch* darddiadol hefyd yn y treigliad.
Chw,† *s. r.* (this "radical substantive," as it is called, is a deviation from the general rule given above respecting the radical *ch*; and it is very doubtful whether it is a word at all, as no authority is brought for it; and it is not inserted in any dictionary before that of *Dr. P's.* The interjection—"*Hai hw chw!*—Oh murder!"—brought forward as an example containing *chw*, is not spelt correctly; the correct form is *Hai wchw!* see *P's Gram. pref. to his Dict. p.* 120) a tendency to impel, or act suddenly.—Tuedd i yru neu weithredu'n ddisymmwth.
Chwa, on, oedd, *s. f.* a blast, a gust, a puff.—Awel, cwthwn, pwff, piff, chwyth, hlwth, gwynt.
Chwad,† *s.* a quick gust, a jerk, a start.
Chwaedd,† au, *s.* a gust, a reliah.—Chwaeth, blas.
Chwaeddu,† a, *v.* to taste.—Profi, chwaethu.
Mal y bay yddo ef trwy ras Duw chwaeddu marfolaeth dros bawb.—That he by the grace of God should taste death for every man. *W. S.*
Chwaeg, *s. f.* a gust, a taste, a reliah.
Chwaen, *s. f.* a sudden impulse, or motion; a gust, a start; a hap, a chance; an incident, an event; leisure.—Chwaff; pwff, chwaw; damwain, ; hap, ennyd, cyfleusdra.
Chwaen dost.—A severe event.
Chwaen ddrwg.—A bad turn, or incident.
Chwaen hyll.—A dreadful thing.
Ar y chwaen.—Forthwith.
Oer chwaen.—A dire chance.
Pybyr chwaen.—A mighty event. *I. G.*
Chwaen ddu, Chwaen goch, Chwaen wen. —Places so called in Mona (Anglesey).
Ior a'u ceidw rhag diriaid chwaen.—The Lord will preserve us from a mischievous chance. *D. G.*
Chwaenad,† *s.* a happening, an occurring.
Chwaenol, *a.* incidental, casual.
Chwaenu,† a, *v.* to come abruptly.
Chwaer, chwiorydd, chwaiorydd,† chweirydd†, *s. f.* (chwai? Arm. *hoar*; C. *hor*) a sister.—Chwiawr.
Chwaer yn nghyfraith.—Sister in law.
Chwaer faeth.—Foster-sister.
Chwiorydd Elusen.—Sisters of Charity.
Chwiorydd Trugaredd.—Sisters of Mercy.
Cerid chwaer diriad can ni charer.—A sister will love the mischievous, though not loved by any. *D.*
Nid amgeledd ond chwaer.—There is a succour like a sister. *D.*

Chwaerol, *a.* sisterly, like a sister.
Chwaeroliaeth, *s. f.* a sisterhood; the office or duty of a sister.
Chwaeru,† a, *v.* to be active, or moving.
Pei chwaerai budd er barddoni, uwchawd noswaith y byddwn nesaf iddi.—If the treasure might operate aided by my muse, the next night I should be the nearest to her. *H. O. G.*
Chwaeth, oedd, *s.* (chwa) a savor, a taste.—Blas, archwaeth, chwaedd, chwaeg; sawyr.
Chwaethach, *ad.* (is seems to be the comparative from *chwaith*, and if so, would be better written *chwaethach*.—*R.* However, *chwaethach* is the form used most commonly at present) much less, so much the less; than; especially.—Chwaithach, chweithach, llawer llai, llai o lawer; chwaith; yn enwedig.
Na wnaed un dyn ddrwg, chwaethach plentyn Duw.—Let no man do evil, especially a child of God. *D.*
Chwaethedig, *a.* that is made sapid.
Chwaethiad, au, *s.* a tasting, a relishing; the sense of taste; gustation.—Archwaethiad.
Chwaethol, *a.* gustful, palatable.
Chwaethu, a, *v. a.* to taste, to savor.—Archwaethu, profi.
Yn wir y dywedaf ychwi, fod rhei o'r sawl sy yn sefyll yma, ar ny chwaethant angae.—Verily I say unto you, there be some standing here, which shall not taste of death. *W. S.*
Chwaethus, *a.* sapid, palatable, gustful.
Chwaethusrwydd, *s.* sapidness.—Archwaethusrwydd.
Chwaf, oedd, *s. f.* a strong gust.—Pwff.
Chwaff, iau, *s.* a quick gust.—Cwthwn.
Chwaff, *ad.* instantly.—Yn ddiattreg.
Mi ei gwnaf fo chwaff.—I shall do it instantly. *Sil.*
Chwai, *s.* activity; life.—Bywiogrwydd.
Chwai, *a.* quick, brisk, speedy, alert, active.
Chwain, *s. ag.* fleas.
Llysiau'r chwain.—The fleawort.
Chwaith, *ad.* neither, much, less.
Ni'm dawr, na hithau, na chwithau chwaith.—Neither she, nor you neither, shall make me concerned. *L. G. C.*
Chwaith,† *s.* a taste.—Chwaeth.
A chael chwaith ar araith yr eryr.—And to obtain a relish for the discourse of the eagle. *L. G. C.*
Chwaithach, *ad.* much less.—Chwaethach.
Chwal [chwâl], *s.* (chw—al? *chw*, is a fanciful root; see *Chw: chwal* is an etymon itself) a spread, a dispersion.—Taen, gwasgarfa.
Chwal, *a.* light, loose.—Ysgafn, llac, rhydd.
Pridd chwal.—A light soil.
Chwaladwy, *a.* dissipable; dispersible.
Chwalbon,† au, *s.* (S. *hwal-ban*) whalebone; a horny elastic substance found in the upper jaw of the whale.—Asgwrn morfil, asgwrn moran; sylwedd corniog hydwyth a geir yn ngên uchaf morfil. *Col.*
Chwaldod, *s.* (chwal) idle talk, a chat.—Ofersiarad, ffiloreg, coegchwedl, siarach.
Chwaldodi, a, *v.* to prattle, to chat.—Ffregodi.
Chwaldodog, *a.* full of chat.
Chwaledig, *a.* in a scattered condition.—Taenedig.
Chwaliad, au, *s.* a dissipating, a dispersing, a scattering; a dispersion.—Taeniad.
Chwaliedydd, ion, *s.* a disperser.—Taenwr.
Chwalu, chwal, chwala, *v.* to spread, to strew, to disperse; to babble, to talk idly.—Taenu, gwasgaru, hau; baldorddi, ffregodi, cyboli.
Chwalu gwlân.—To dress wool.
Chwalwr, wyr, *s.* a scatterer, a strewer, a disperser.
Chwan,† *s.* (chw—an? see *Chw.* If *chwan* is a word at all, it must be a radical word) an impulse, a tendency.—Tuedd, creth.
Chwanedig,† *a.* that is augmented.—Chwanegedig.
Chwanedigaeth,† *s. f.* addition, augmentation.
Chwanedigol,† *a.* augmentative.
Chwaneg, *a.* more, greater in quantity, greater in number.—Mwy, ychwaneg, rhagor, amlach.
Chwanegion, *s. pl.* addenda.—Attodion, atddodion.
Chwaneg, *s.* more.—Ychwaneg; mwy, peth mwy.
Chwanegadwy, *a.* capable of augmentation.
Chwanegedig, *a.* that is augmented.—Chwanedig.
Chwanegiad, au, *s.* an addition, an augmentation.—Ychwanegiad, helaethiad, mwyhad.
Chwanegol, *a.* additional, additive.—Mwyhaol.
Chwanegolion, *s. pl.* additions, appendices.—Chwanegion, attodion.
Perthynasau chwanegol.—Additive ratios. *C. C.*
Chwanegu, a, *v.* to increase, to add.—Ychwanegu, cynnyddu, mwyhau.
Chwanegwr, wyr, *s.* one who adds to, or augments. [egwr.
Chwanegydd, ion, *s.* an increaser.—Ychwan-
Chwanen, chwain, *s.* (chwain; Arm. *hoannen;* C. *hwadnan*) a flea.
Pigiad chwanen.—A fleabite, a fleabiting.
Chwannog, *a.* (chwant) having a strong desire, or inclination, desirous, ambitious, covetous, apt.—Awyddus, blysig, hiraethog; cybyddlyd, awchus.
Chwannog i ymladd.—Apt to fight.
Chwannog, ion, *s.* an ambitious or covetous man.—Uchelfryd, awyddwr.
Bychan teyrnas i chwannog.—A kingdom is small to the ambitious. *D.*
Chwannogaeth, *s. f.* avariciousness, covetousness, ambition.—Trachwant, crintachrwydd.
Chwannogi, a, *v. n.* to become lustful, or craving; to become ambitious.—Chwennychu, ymawyddu, gwynio.
Chwannogol, *a.* excitingly, desirous.
Chwannogrwydd, *s.* an ardent desire, or craving; covetousness, ambitiousness.
Chwannwch,† } *s.* concupiscence, lust.—Tra-
Chwannwg,† } chwant, chwantach, anlladrwydd.
Chwant, au, *s.* (chwan? Arm. *hoant;* C. *whans*) a desire, a longing, an appetite; a lust.—Awydd, hiraeth, awch, eisiau, blys, gwyn, aingc, dyre.
Chwant bwyd.—Hunger.
Chwant a dichwant.—Inclination and declination: terms applied to the regulating of the plough.
Dycid chwant tros peiriant pwyll.—Desir-

will entice beyond the bounds of reason. *D.*

Chwanta, *v.* to lust, to covet.—Awyddu.

Chwantach, *s.* concupiscence, lust. — Trachwant.

Chwantachrwydd, *s.* lustfulness. — Anlladrwydd.

Chwantaidd, *a.* concupiscible, lustful.

Chwantol, *a.* lustful, concupiscential.

Chwantrwydd, *s.* covetousness, lust.

Chwantu, *s, v.* to lust, to covet.—Blysio.

Chwantus, *a.* concupiscent, lustful.

Chwantwr, wyr, *s.* a luster.—Chwennychwr.

Chwaol, *a.* (chwa) gusty, puffy, explosive.—Chwythog, awelog, chwawiog.

Chwap, iau, *s.* a sudden stroke. — Chwad, chwat, llab, ffat.

Chwap, *ad.* instantly. — Chwaff, yn y fan, chwipyn.

Dyna fo chwap.—There it is at once.

Chwapiad, au, *s.* a striking.—Tarawiad.

Chwapio, ia, *v. a.* to strike sharply.

Chwar, *s.* (chw—ar? *chwar* is a radical word, or else it comes from *chwa*) a quick rise, or puff.—Codiad swta.

Chwara, eon, *s.* a play, a sport.—Chwareu, chwarae, gwarau; difyrwch.

Chwara, chwery, *v.* to play, to disport, to game. *Col.*

Chweris o'i haddaw hi addoed cynran.—I played on her promising the first assignation. *H. O. G.*

Chwarae, chwery, Arm. *hoari;* C. *gware, huari;* Gr. *chairô*) to play, to game.—Chwareu, chware, chwarau, chwara, gwareu, gware; prangcio, rhonta; maswedda, ofera.

A'r bobl a eisteddasant i fwyta ac i yfed, ac a godasant i fyny i chwarae.—And the people sat down to eat and drink, and rose up to play. *B.*—*Exod.* xxxii. 6.; gwel hefyd *Salm* civ. 26; *Zach.* viii. 5.

Chwarae ac na friw.—Play and wound not. *D.*

Chwarae, euon, *s.* a play, a game, a sport, a pastime.—Chwareu.

Chwarae hen gi a chenau.—The play of the old dog and puppy. *D.*

Hwarau,† euon, *s.* a play.—Chwareu, chware, gwareu.

Chwarau,† } *v.* to play, to game.—Chwareu,
Chwarhau,† } chwarae, chware.

Chwarăwr, awyr, *s.* a player; one who exercises at sports, or games.—Chwareuwr.

Chwardd, au, *s.* (chwar? chwerthin) a laughing; laughter.—Chwerthin, chwerthiniad.

Chwarddedig, *a.* joyous, laughing.

Chwarddedigaeth, *s. f.* laughter; the act of laughing out; a ridicule.—Chwerthiniad.

Chwarddiad, au, *s.* a laughing.—Chwerthiniad.

Chwarddiad dwfr tan iâ.—The playing of water under the ice. *D.*

Chwarddol, *a.* tending to laugh.

Chwarddu,† chwardd, *v.* to laugh, to rejoice.

Chwerddid bryd wrth a garer.—Let the mind be cheerful to the one beloved. *D.*

Chwarddus, *a.* apt to laugh.—Chwerthinus.

Chwarddwr, wyr, *s.* a laugher, one who laughs at, or ridicules.—Chwerthwr.

Chware, chwery, *v.* (chwarae) to play, to game.—Chwarae, chwareu.

A'r lefiathan yr hwn a luniaist i chwarae ynddo.—And the leviathan whom thou hast made to play therein. *Dr. M.*—*Salm* civ. 26.; gwel hefyd *Exod.* xxxii. 6.; *Zach.* viii. 5.

Chware, on, *s.* a game, a play, a sport, a diversion, a pastime.—Chwarae, chwareu.

Chware Cymro digrifwch, chware Sais angeu.—The Welshman's play is merriment, an Englishman's play is death. *D.*

Chwaread, au, *s.* a playing.—Chwareuad.

Chwareawl, *a.* sportive, blithesome.

Chwarel, au, *s.* what gives a sudden motion; a dart, a javelin; a kernel, or moving lump under the skin; a lump from the curdling of milk in the breast; the curdling of the milk, the milk fever.—Saeth, picell; chwaren, chweryn; ceuleden, ceuled; clefyd y llaeth.

Chwarel, i, au, *s. f.* (F. *carriere;* C. *cuarc*) a quarry; a stone mine; a slate or chalk mine; a pane of glass.—Cloddfa; cloddfa geryg, cloddfa lechi neu farm; cwarel o wydr.

Chwarelaidd, *a.* (chwar) apt to fly off suddenly, like a dart; moving like a kernel.

Chwareliad, au, *s.* the motion of a dart, a darting; a kerning, a curdling.

Chwarelog, *a.* having darts; kernelly, glandulous, having kernels.—Chwarenog.

Chwarelu, *v. a.* to move as a dart; to fling a dart; to kern, to curdle.—Saethu; chwarenu.

Llaeth yn chwarelu. — Milk becoming curdled.

Chwarelu, *v. a.* (F. *carriere*) to quarry, to dig out of a quarry. — Maengloddio, cloddio llechi, codi ceryg.

Chwarelwr, wyr, *s.* a quarryman.—Cloddiwr.

Chwaren, au, *s. f.* (chwar) a gland, a kernel, a concretion in the flesh; a botch, a swelling; the plague. — Chwarel, cilchweryn; llynoryn; chwydd; pla.

Chwarenaidd, *a.* like a gland, glandulous.

Chwareniad, au, *s.* the forming into glands, a kerning.—Chwareliad, cigfeseniad.

Chwareniaeth, *s. f.* glandular state; glandulosity; adenography.

Chwarenig, *s. f. d.* a glandula, a little gland.

Chwarenog, *a.* full of glands, botchy.

Chwarenol, *a.* glandulous, adenous; botchy.

Chwarenu, *v. a.* to kern, to form into glands; to concreate; to generate pustules.

Chwareu, on, *s.* (chware; C. *hwari, gware*) play; sport.—Chware; digrifwch.

Chwareu, *v.* to play, to sport, to gambol; to game, to act.—Chware; prangcio.

Chwareu ffon ddwybig.—To play at quarter staff, to prevaricate.

Chwareu mi trech.—To play roughly, or or at horse-play.

Chwareuad, au, *s.* a playing.—Chwaread.

Chwareuaeth, *s. f.* a diversion; a merriment, an amusement.—Chwaryddiaeth; difyrwch.

Chwareudy, dai, *s.* (chware—tŷ) a play-house, a theatre; a place for games.—Chwareule.

Chwareufa, oedd, *s. f.* (chware) a place for sports, or games; a theatre.—Chwareudy.

Chwareufwrdd, fyrddau, *s.* a stage.—Chwareufa.

Chwareugar, *a.* playful, blithesome, sportive.

Chwareugarwch, *s.* playfulness.—Chwareuoldeb.

Chwareule, oedd, *s.* a place for play, or games.
Chwareuol, *a.* sportive, playful.
Chwareuoldeb, *a.* playfulness, sportiveness.
Chwareus, *s.* playful, blithe, sportive.
Chwareusrwydd, *s.* playfulness. — Chwareugarwch.
Chwareuwr, wyr, *s.* a man who sports; a player; an actor.
Chwareuwraig, wragedd, *s. f.* a woman who plays; an actress.
Chwarëwr, wyr, *s.* a player; a gamester.
Chwarëwriaeth, *s. f.* play; gaming. — Hapchwareu.
Chwarëydd, ion, *s.* a player, gamester; actor.
Chwarëyddes, au, *s. f.* a female player, an actress.
Chwarëyddfa, oedd, on, *s. f.* a place for play or games; a theatre.—Chwareufa.
Chwarëyddiaeth, au, *s. f.* play, diversion, amusement; an acting.—Chwaryddiaeth.
Chwarf, au, *s. f.* a whirl, a fusee.—Chwerfan, gwerthyd.
Chwarian, chwarien, *a.* gentle, placid, soft, calm, mild; slow.—Tyner, addfwyn; araf.
Chwariena, *v. a.* to slacken; to go slow.
Chwarienach, *v.* to be slow, or calm.—Arafu.
Chwariensidd, *a.* of a slow nature.—Arafaidd.
Chwarieniad, au, *s.* a slackening, a becoming calm, or tranquil; a sauntering.—Arafiad.
Chwarienu, *v. n.* to become gentle, or slow, to become calm; to tranquilize.—Llarieiddio.
Chwarienus, *a.* tranquil, slow, calm. — Llariaidd.
Chwarienwr, wyr, *s.* a lingerer, a loiterer.
Chwarienydd, ion, *s.* a lingerer, a loiterer.—Ymdrŵr.
Chwart, iau, *s.* (chwar; L. *quartus*) a quart, the fourth part of a gallon; a vessel which holds a quart. — Pedraid, pedwaredd ran galwyn; chwarthor.
Chwarter, i, *s.* a quarter, a fourth part.—Chwarthor, pedwaran, pedeiran, pedwaredd ran.
Dydd pen chwarter.—Quarter-day.
Chwarterol, *a.* quarterly, occurring every quarter; containing a fourth part.
Chwarteru, *v.* to quarter, to divide into four parts.—Chwarthorio.
Chwarth, *s.* a quick turn of the voice, a laugh. —Chwardd.
Chwartharn, au, *s.* a quartern, a gill, the fourth part of a pint.—Gwartharn.
Chwarthor, ion, Chwarthawr, orion, *s.* a quarter, a fourth part.—Chwarter, pedeiran.
Chwarthoriad, *s.* a quartering.—Gwarthoriad.
Chwarthorio, *v.* to quarter.—Pedranu.
Chwarthorol, *a.* quarterly. — Pedranol; trimisol.
Chwarw,† *s.* disport, sport.—Chware; digrifwch.
Chwarw,† *a.* sportive, ludescent.—Digrif.
Chwarwfa, fäau, *s. f.* a theatre.—Chwareufa.
Chwarwr, wyr, *s.* a player, one who sports; one who diverts.—Chwareuwr.
Chwarwriaeth, au, *s. f.* the function of amusing, or playing; a play.—Chwareuaeth.
Chwarwy,† on, *s.* a disport.—Chwareu.
Chwarwyad, *s.* a sporting.—Chwareuad.
Chwarwyfa,† feydd, *s. f.* a place of entertainment, a theatre.—Chwareufa.
Chwarwyfaol,† *a.* theatrical.—Chwareuol.
Chwarwyo,† *v.* to disport, to play.—Chwareu.
Chwarwyol,† *a.* ludicrous, sportive.
Chwarydd, ion, *s.* a player, an actor.—Chwareuwr.
Chwaryddes, au, *s. f.* a female player, an actress.
Chwaryddiad, au, *s.* a playing.—Chwareuad.
Chwaryddiaeth, au, *s. f.* diversion, amusement, play; acting.—Chwareuaeth, chwarëyddiaeth.
Chwaryddol, *a.* ludescent, dramatic.—Chwareuol.
Chwat, iau, *s. f.* (chwa) a stroke.—Tarawiad.
Chwaw, iau, *s. f.* a blast, a breeze, a puff.—Chwyth, chwythiad, awel, pwff, cwthwn.
Chwawedig, *a.* squally, blustering.—Gwyntog.
Chwawiad, au, *s.* a puffing, a squalling.
Chwawio, *v.* to blast, to blow, to puff.
Chwawiog, *a.* squally, gusty, stormy. — Ystormus.
Chwawiogrwydd, *s.* squalliness. — Gwyntogrwydd.
Chwawiol, *a.* squally, blustering, puffing.
Chwchwi,† *pr. pl.* a wrong spelling of Chwychwi: which see.
Chwe, *a.* (chwech) six (used generally before words with consonant initials). —Chwech.
Chwebain, *s. f.* (chwe—ban) sextain, a stanza of six lines.—Pennill, chweban.
Chweban, au, *s.* sextain, a stanza of six verses. —Chwebain.
Chweban, chwebanog, *a.* of six lines, consisting of six lines.—Chwellinellog.
Chwebanogion, *s. pl.* hexameters.
Chweblwydd, *a.* (chwe—blwydd) of six years, sexennial.
Chweblwyddol, *a.* sexennial, of six years.
Chweblynyddol, *a.* sexennial; lasting six years.
Chwech, au, *s.* (Arm. *hwech;* C. *hwic;* Gr. *hex*) the number six, six, 6, vi.—Y rhif chwech.
Chwech, *a.* six, 6.
Chwechach,† *a.* more sweet. — Chwecach. *M. M.*
Chweched, chwechfed, *s. f.* a sixth part.
Chweched, chwechfed, *a.* sixth.
Chwechedran, *s. f.* (chweched - rhan) a sixth-part.
Chwechgwaith, *s. f.* (chweched—gwaith) the sixth time or turn.—Y(chweched waith.
Chwecheiniog, au, *s.* (chwe—ceiniog) sixpence. —Chwechan, hanner swllt.
Chwe cheiniog.—Six penny.
Chwecheiniog, *a.* sixpenny, worth sixpence.
Chwed,† *s.* (*Dr. P.* deduces this word from *chw—ed;* but *chw* is not a word, and *ed* is a prefix and an affix. If *chwed* is a word at all, it must be a root itself, like most other monosyllabic words) the faculty of utterance, or speech; a saying, an expression.—Ymadroddiaeth; dywediad.
Chwedeg, *s. a.* (chwe—deg) sixty, 60, lx.—Trigain, trugain.
Yna'r Aiphtiaid a'i harlwyasant ef ddeng niwrnod a thrugain.—And the Egyptians mourned for him threescore and ten days. *B.*
Chwedegfed, *s. f.* a sixth part:—*a.* sixth.—Trigeinfed, trugeinfed.
Chwedegol, *a.* sexagesimal, of sixty.
Chwedegwaith, *a.* (chwedeg—gwaith) sixtimes.

Chwedi,† *ad.* (gwedi) after; then:—*prp.* after. —Gwedi, wedi.

Chwedl, au, *s. f.* (C. *hwitel*) a saying, or sentence; a fable; a discourse; a story, a tale; report, news. — Dywediad; ffugeb, ffuglith; ymadrodd; ystori, ffugchwedl; hanes.

Trychu chwedl.—To speak brokenly.

Mae hi'n dywedyd chwedlau.—She is telling tales.

Chwedla, *v.* to talk; to gossip.—Chwedleua.

Chwedlai, eion, *s. f.* a gossip, a tattler.—Clebren.

Chwedleig, *a.* full of discourse, or story; talkative, loquacious.—Chwedleugar.

Chwedleua, *v.* to speak, to talk, to discourse together; to chatter, to gossip.—Chwedla.

Chwedleuaeth, au, *s. f.* conversation, discourse; a gossiping.—Chwedlyddiaeth; ymddiddan.

Chwedleugar, Chwedlgar, *a.* talkative, garrulous.

Chwedleugarwch, *s.* garrulosity,† garrulity.

Chwedleuo, *v.* to converse, to talk; to gossip, to tattle, to chatter.—Siarad; baldorddi.

Chwedleuog, *a.* full of chat; talkative.

Chwedleuol, *a.* apt to discourse.—Siaradus.

Chwedleuwr, wyr, *s.* a discourser, a talker; a chatterer.—Siaradwr; clebarddwr.

Chwedleuydd, ion, *s.* a fabulist.—Chwedlonydd.

Chwedliad, au, *s.* a discoursing.—Siarad.

Chwedlofydd, ion, *s.* (chwedl—ofydd) mythologist, one versed in mythology.—Chwedlorydd.

Chwedlofyddiaeth, *s. f.* mythology.—Chwedloniaeth.

Chwedlofyddol, *a.* mythologic, mythological.

Chwedlog, *a.* (chwedl) full of discourse, or talk; talkative, loquacious.—Chwedleugar.

Chwedloniaeth, *s. f.* mythology.—Chwedlddysg, chwedlofyddiaeth.

Chwedlonol, *a.* mythological.—Chwedlofyddol.

Chwedlonydd, ion, *s.* a mythologist.—Chwedlofydd.

Chwedlu, *v.* to fable.—Ffughanesu.

Chwedlwall, *s.* (chwedl—gwall) a catachresis, a metaphor.—Gwrthddull, camarferair.

Chwedlwall, *a.* faulty in speech.—Gwrthddulliol.

Chwedlwr, wyr, *s.* (chwedl—gwr) a discourser, or talker; a reporter.—Siaradwr; adroddwr.

Chwedlydd, ion, *s.* (chwedl) a fabulist.—Ffughanesydd.

Chwedl-wraig, wragedd, *s. f.* (chwedl—gwraig) a female talker, or chatterer.—Clebren.

Chwedlyddiaeth, *s. f.* fabulosity.—Geudeb.

Chwedd,† *s. r.* the faculty of utterance.—Ymadroddiaeth.

Chweddl,† au, *s. f.* a saying.—Chwedl.

Chwefr, au, *s.* (chwaf) violence, rage.—Cynddaredd.

Chwefr, Chwefraidd, *a.* severe, violent.

Chwefredd, *s.* violence, severity.—Tostedd.

Chwefriad, au, *s.* a raging.—Cynddeiriogiad.

Chwefrin, *a.* severe, raging.—Angerddol.

Chwefrol, Chwefror, *a.* violent, severe.

Chwefror, Chwefrol, *s.* February; the severe month.

Chwefru, *v.* to affect severely; to act violently.

Chwefrydd, ion, *s.* a severe or surly one; a violent one.

Chweg, (=chwêg), *a. r.* sweet, luscious, pleasant, dulcet.—Melus, peraidd, hyfryd.

Chwegaeronwy, *s.* (chweg—aeron - gwy) jam, conserved fruit.—Aerongyffaeth, sugraeron.

Chwegaidd, *a.* (chweg) dulcet, of a luscious taste.

Chwegiad, au, *s.* a dulcification.—Meliisiad.

Chwegol, *a.* of a sweetening tendency.

Chwegr, au, *s. f.* a mother in law.—Mam yn nghyfraith.

Chwegrwn, *s.* a father in law.—Tad yn nghyfraith.

Chwegrwydd, *s.* sweetness.—Melusder.

Chwegu, *v. a.* to dulcify, to sweeten.—Melusu.

Chwegwaith, *a.* (chwech—gwaith) six times.

Chweg-wraidd, *scag.* liquorice.—Gwylys.

Chweiad,† *s.* (chwai) a giving velocity to, a moving quickly; impulsion.—Cyflymiad.

Chweider,† *s.* activity, briskness, agility.—Bywiogrwydd.

Chweiedd,† *s.* briskness, activity.—Cyflymder.

Chweina, *v. a.* (chwaen) to flea, to catch fleas. —Hel chwain, casglu chwain.

Chweinfagl, *s.* (chwain—magl) the fleawort.—Chweinllys.

Chweiniad, *s.* (chwain) a killing fleas.

Chweinial, *v.* to leap about like fleas.

Chweiniog, Chweinllyd, *a.* abounding with fleas.

Chweinllydrwydd, *s.* abundance of fleas.

Chweinllys, *s. ag.* (chwain—llys) the fleawort. —Chweinfagl, llysiau'r chwain, llysiau'r lludw.

Chweinllys arfor.—Marine fleawort.

Chweio,† *v.* (chwai) to give velocity to; to quicken, to become brisk, or active.—Cyflymu; siongci.

Chweiol,† *a.* apt to quicken.—Gwisgi.

Chweithach, *ad.* (chwaith) much less, so much less. Chwaethach, llai o lawer.

Chwel (=chwêl), ion, *s. f. r.* a course; a turn. —Chwyl, rhawd; tro.

Chweledig, *a.* turned; rotated.—Trŏedig.

Chweledigaeth, *s. f.* a rotary motion; a revolution.

Chweliad, au, *s.* a rotation.—Troad.

Chweliedydd, ion, *s.* a rotator.—Trŏedydd.

Chweliedydd, ion, *s.* (chwalu) a disperser.—Gwasgarydd.

Chwelog, *a.* (chwel) tending to turn.

Chwelwr, wyr, *s.* a turner.—Trŏedydd.

Chwelyd, *s.* a detour, a turn back.—Troad.

Chwelyd, *v. a.* to turn, to overturn —Troi.

Chwelydr, au, *s.* a rotator; the mouldboard, the turnsoil of a plough. — Troedydd astyllen bridd, chwelyd.

Chwennych, *v.* (chwant) to lust for, to desire, to covet.—Trachwantus; deisyfu.

Chwennychadwy, *a.* that may be lusted.

Chwennychedig, *a.* lusted after; desired.

Chwennychedigaeth,† *s. f.* the act of longing, or wishing for.

Chwennychiad, au, *s.* a craving or longing after; a disideratum.—Dymunoldeb.

Chwennychol, *a.* desirable, pleasing.

Chwennycholdeb, *s.* appelibility, the quality of being desirable.—Arwyddolrwydd.

Chwennychu, *v.* chwennych, to long or lust after, to covet, to desire, to wish.—Dymuno.

Chwennychwr, wyr, *s.* one who longs after, a wisher.

Chweuchr, au, *s.* (chwech—ochr) a sexangle, a hexagon.—Chweongl, chwechor.
Chweochr, Chweochrog, *a.* sexangled, six-sided, cubic.
Chweochraidd, *a.* sexangular, sixsided.
Chweochri, *v. a.* to make sexangular.
Chweochriad, au, *s.* a making or becoming sexangular.—Chweongliad.
Chweochrol, *a.* sexangular, six-sided, hexahedral.
Chweongl, au, *s.* a sexangle, a hexagon.
Chweongl, Chweonglog, *a.* sexangular.
Chwepyn, *s. d.* (chwap) a sudden pat, or blow.—Flat, chwat.
Dos yn chwepyn.—Go instantly, or direct-[ly.
Chwephlyg, *a.* (chwech—plyg) a sextuple.—Chwethro; chwe chymmaint.
Chwerafal, au, *s.* (chwerw—afal) a bitter apple, a bitter gould.—Cicaion chwerw, sur gicaion.
Chwerfan, au, *s. f.* (chwarf) a fusee, a whirl for a spindle, or a pulley; a pulley.—Chwarf; troell.
Chwerfan dro.—A pulley.
Chwerfiad, au, *s.* a whirling.—Chwildroad.
Chwerfol, *a.* tending to whirl round, whirling.
Chwerfu, *v.* to whirl, to turn round.
Chwerfwr, *s.* a cucumber.—Chwewddwr.
Chwerfysgu, *v.* (chwar—mysgu) to play tumultuously together, to mix in play; to make confusion.—Mysgchwareu.
Chweriad, au, *s.* (chwar) a playing about.
Chwerig,† *a.* ludescent, sportive, play-like.—Digrif.
Gwedd chwerig.—Actor-like form.
Chwerio,† *v.* to play, to sport about.—Chwareu.
Chweriol,† *a.* playing about; sportive.
Chwerllys, *s. ag.* (chwerw—llys) the wormwood.—Chwerwlys.
Chwerlys yr eithin.—The wood-sage.
Chwern, *a. f.* (chwyrn) rapid, violent.—Chwai, chwimmwth, cyflym.
Chwerthin, *s.* (chwarth; Arm. C. *kwerthyn*, *wharthe*) a laugh, laughter.—Chwardd, crechwen.
Chwerthin, **chwardd**, *v.* to laugh.—Crechwenu.
Chwerthin gwatwar.—To ridicule, to laugh to scorn.
Chwerthinedd, *s.* laughableness.
Chwerthingar, *a.* apt to laugh; merry.
Chwerthingarwch, *s.* laughableness, a laughable disposition.—Chwardduswydd.
Chwerthiniad, au, *s.* a laughing; derision.
Chwerthinio,† *v.* to cause a laughter.—Chwerthin.
Chwerthinio, Chwerthinog, *a.* apt to laugh.
Chwerthiniol, Chwerthinol, *a.* tending to laugh.
Chwerthinllyd, *a.* given to laughing; merry.
Chwerthinus, *a.* laughable, risible.
Chwerthinusrwydd,† *s.* risibility.—Chwerthinedd.
Chwerthinwr, wyr, } *s.* a laughter, one given to
Chwerthwr, wyr, } laughter.—Chwarddwr.
Chwerw, *a.* (chwar? Arm. C. *kwero*, *wherow*) bitter, sharp; severe.—Llym; sarug.
Chwerwad, *s.* a becoming or making bitter.
Chwerwaidd, *a.* of a bitter quality.
Chwerwder, *s.* bitterness, sharpness.
Chwerwddwfr, Chwerwddwr, *s.* (chwerw—dwfr) cucumber.—Cucumer, chwerfwr.
Chwerwddyfrllys, *s. ag.* (chwerw—ddyfrllys) cucumber.—Chwerwddwfr.
Chwerwedig, *a.* (chwerw) embittered.
Chwerwedd, *s.* bitterness, acerbity, sharpness.
Chwerweidd-dra, *s.* bitterishness.
Chwerweiddiad, au, *s.* a growing or becoming bitter; exasperation.—Llymeiddiad.
Chwerweiddio, *v.* to embitter.—Chwerwi.
Chwerweiddiol, *a.* apt to embitter.
Chwerwi, *v.* to make bitter; to grow bitter; to imbitter; to snarl, to growl.
Chwerwiail, *s. ag.* (chwerw—gwiail) wormwood.—Chwerwlys.
Chwerwlid, *s.* (chwerw—llid) bitter enmity.—Tostelyniaeth.
Chwerwlys, *s. ag.* (chwerw—llys) wormwood.—Chwerlys, chwerwiail, chwerwyn llwyd, wermod lwyd.
Chwerwlys arfor.—See wormwood.
Chwerwlyslyn, *s.* (chwerwlys—llyn) a decoction of wormwood; wormwood ale.—Trwyth chwerwlys.
Chwerwol, *a.* (chwerw) tending to grow bitter.
Chwerwon, *s. pl.* bitters.—Chwerwlynoedd.
Chwerwyn, *s.* a bitter one; a tarter.—Chwiglyn.
Chwerwyn yr ardd, Chwerwyn gwyn. The fever few.
Chweryn, *s.* (chwar) a gland; a kernel.—Chwaren.
Chwesill, *v.* (chwech—sill) of six syllables.
Chwesillog, *a.* having six syllables.
Chwetheg,† *s. a.* (chwech—deg) sixteen, 16, xvi.—Un ar bymtheg, chwedeg.
Chwethegfed, *s. a.* a sixteenth part; sixteenth.
Chwethro, *a.* (chwech—tro) sextuple, sixfold.—Chwephlyg.
Chweu,† *v.* (chwa) to grow sharp or sour.—Chwerwi; suro.
Chweugain, Chweugaint,† *s. a.* (chwech—ugain) six score; 120 pence—10*s.*—chwech ugain; 120 ceiniog 10*s.*, deg swllt.
Chwi,† on, *s. r.* a swift turn, a whirl.—Chwildro.
Chwi, *pr. pl.* you, ye (used in the complaisant style to address a single person).—Chwychwi.
Chwiawr,† orydd, *s. f.* a fellow; a sister.—Cydymaith; chwaer.
Chwib, au, *s. f.* a pipe, a tube.—Pibell.
Chwiban, au, *s. f.* a whistle; a trill, a shake.—Chwythell, chwibanogl; crychlais.
Chwiban, *a.* giddy, whirling.—Syfrdanol.
Pen chwiban.—Giddy-headed.
Chwibanell, au, *s. f.* a flageolet.—Chwibanogl.
Chwibaniad, au, *s.* a whistling, a hissing.
Chwibanllyd, *a.* apt to whistle, hissing.
Seirph chwibanllyd.—Hissing serpents.
Chwibanog, *a.* having a whistling.
Chwibanogl, au, *s. f.* a flageolet, a flute, a pipe.—Chwibanell, pibell, pib.
Chwibanogl y mynydd.—The curlew.
Chwibanogli, *v. a.* to play on a pipe, to pipe; to play the flageolet.—Chwareu'r chwibanell.
Chwibanogliad, au, *s.* a playing of the flageolet, a piping.
Chwibanol, *a.* whistling, hissing.—Chwibanllyd.
Chwibanu, **chwiban**, *v.* to whistle, to hiss.
Chwibanwr, wyr, *s.* a whistler, a piper.

Chwibanydd, ion, *s.* a whistler, a piper; the bullfinch.—Pibydd; y rhawngoch, coch y berllan, y tingoch, llostruddyn.
Y chwibanydd brith.—The speckled bullfinch.
Y chwibanydd du.—The black bullfinch.
Y chwibanydd gwyn.—The white bullfinch.
Chwibiad, au, *s.* a trilling.—Dalysteiniad.
Chwibio, *v.* to trill, to quaver.—Crychleisio.
Chwibiol, *a.* trilling, quavering.
Chwibl, *a.* sharp; tart, sour, acid.—Cras; sur.
Chwibl, au, *s.* a sharp (in music).—Dyrchafnod, llonnod, cras. *G. C. A.*
Chwiblad, Chwibliad, au, *s.* a making, or waxing sour.
Chwiblaidd, *a.* of a sharp or acid quality.
Chwibledig, *a.* acidulated, poignant.—Suredig.
Chwibledigaeth, *s. f.* a turning sour; acidulation.
Chwibledd, *s.* sharpness, acidity.—Surni.
Chwibleian, od, *s. f.* a nymph.—Duwies.
Chwiblen, *s. f.* sour, or flat drink.—Surddiod.
Chwiblni, *s.* acerbity, tartness.—Surni.
Chwiblaer, *a.* of a tart quality.—Oersur.
Chwiblo, *v.* to grow tart, or sour.
Chwiblog, *a.* having an acid quality.
Chwibol, au, *s. f.* a tube, a pipe.—Pibell, chwib.
Chwibolog, *a.* having a tube, tubular.—Pibellog.
Chwibon, au, iaid, *s.* a whistler; the stork.—Chwibanydd; ciconia.
Chwiborn, *s.* (chwib—gwrn) reeling about, lightheadedness; giddiness.—Penddaredd.
Chwibwrn, *a.* lightheaded, giddy.—Chwdr.
Y bendro chwibwrn.—The reeling giddiness of the head.
Mae o'n wyllt chwibwrn.—He is stark staring mad.
Chwid, ion, *s. r.* a quick turn.—Chwimdro.
Chwido, *v.* to move quickly; to play tricks, to juggle, to quirk.—Chwareu'r andros; hocedu, castio, twyllo.
Chwidog, *a.* having a quick turn, full of quirks.
Chwidog, ion, *s.* a juggler, sorcerer.—Hudolwr.
Chwidogaeth, au, *s. f.* a juggling, legerdemain.
Chwidogi, *v. a.* to practise juggling.—Hudoliaeth.
Chwidogol, *a.* relating to juggling.—Lledrithiol.
Chweidr, *a.* flighty, crazy, wild, rash; giddy, hairbrained.—Syfrdan, chwibwrn.
Chwidrad, au, *s.* a fickle motion; a becoming giddy.
Chwidredd, *s.* wildness, giddiness; rashness.
Chwidfrys, *a.* (chwidr—brys) precipitant, giddy.—Ysgoywan.
Chwidro, *v.* (chwidr) to move giddily; to become giddy.
Chwidrog, *a.* full of wild motion, full of quirks.
Chwidrol, *a.* flighty, giddy.—Syfrdanus.
Chwidrwr, wyr, *s.* a giddy or hairbrained person.
Chwidryn, *s. d.* a crazy person.—Ynfydyn.
Chwidw, on, *s.* a sorcerer.—Chwidrog, swynwr.
Chwidwen, od, *s. f.* a coquette.—Coegen, hoeden.
Chwidwenwr, wyr, *s.* a flighty man, a male coquette.
Chwif, iau, *s. f. r.* a whirl, a turn.—Chwyldro.
Chwifiad, iaid, *s.* a stroller, a vagrant, a vagabond.—Crwydrad, gwibiad; cler.
Chwifiedig, *a.* flying about; vagabond.
Chwifiedydd, ion, *s.* a rambler.—Crwydryn.
Chwifio, *v.* to fly about, to wander.
Chwifiog, *a.* flying about; vagrant.
Chwifiwr, wyr, *s.* a wanderer, a strayer, a vagabond.
Chwiff, iau, *s. f. r.* a hiss, a whiff.—Pwff.
Chwiffiad, au, *s.* a sibilation.—Sisain, sis.
Chwiffio, *v.* to hiss, to puff, to whiff.—Pyffio.
Chwiffiol, *a.* sibilant; puffing, whiffing.
Chwiffiwr, wyr, *s.* a puffer, a hisser; a smoker.
Chwig, *s. r.* clarified whey, whey fermented with sweet herbs.—Meiddlyn, chwigwa.
Chwig, *a.* fermented; sour, sharp.
Chwig, Chwigiad, iaid, *s.* (Sc. *whiggam*) a Whig, a reformer, one of the great political parties in England.—Diwygiwr.
Y Chwigiaid a'r Toriaid.—The Whigs and Tories.
Chwigl, au, *s.* acid, tartar.—Suryn; surgen.
Chwiglen, od, *s. f.* a sharp one, one who is full of gibes; a tartar.—*m.* Chwiglyn.
Chwigwa, *s. d.* whey-drink.—Meiddlyn.
Chwigwa, *a.* sour, tart, sharp.—Sur.
Chwigyn, *s.* fermented whey-drink.
Chwil, od, *s. f.* (Arm. *kuill;* C. *kuilen*) beetle, a chafer.—Chwilen.
Chwil y bawai.—The hedge chafer.
Chwil, *a.* whirling, twirling.—Serfol.
Chwil, ion, *s. f.* a search, a scrutiny.—Chwiliad.
Chwilast, eist, *s. f.* (chwil—gast) a gadder.—Rhodienai.
Chwilboeth, *a.* (chwil—poeth) scorching, burning hot.
Deufanog, *a.* of two parts or lines.
Deufanog, *a.* (dau—man) bimaculate, having two spots.—A dau ysmotyn arno.
Deufasgl, } *a.* (dau—masgl) bivalve, bival-
Deufasglog, } vular, bivalvous.—Deugloriog.
Deufasglog, ion, *s.* a bivalve; a crustaceous animal having two valves.—Milyn âg iddo ddwy gragen neu gaffell.
Deufed, † *s.* ac *a.* (dau) the second; second.
Deufed=ddydd, †*s.* (deufed-dydd) the second day; the second day of the week.—Yr eilfed dydd.
Deufin, *a.* (dau—min) of two edges, two-edged.
Deufiniog, } *a.* having two edges.—Ag iddo
Dau-finiog, } ddeufin.
Cleddyf dau-finiog—a two-edged sword. *B.*
Deufis, *s.* (dau—fis) two months.—Dau fis.
Yn cael ei gyhoeddi bob deufis—published every two months. *G.*
Deufisol, *a.* bimensal, occurring every two months.—Yn digwydd bob deufis.
Deufiaen, *a.* (dau—blaen) bicuspid; having two points.—Dwybig, deubigol.
Deuflodeiliog, *a.* (dau—blodau) bipetalous, having two petals or flower leaves.
Deuflodeuddail, *a.* bipetalous.—Deuflodeiliog.
Deuflodeuol, } *a.* biflorous, two-flowered.—A
Deuflodynol, } dau flodeuyn iddo.
Deufoliog, *a.* (dau—bol) biventral, having two bellies.—A dau fol iddo.
Deufor-gyfarfod, *s.* (dau—môr—cyfarfod) the meeting of two seas.—Cyfarfyddiad deufor.
Ac wedi i ni syrthio ar le deufor-gyfarfod—and falling into a place where two seas meet. *B.*
Deufwaog, *a.* (dau—bwa) bivaulted, having two vaults or arches.—Dwygromenog.
Deufylchog, *a.* (dau—bwlch) biserrate, twice serrate.—Deurygnog, deudwn.
Deufylog, *a.* (dau—byl) bimarginate, having two margins.—Deuymylog.
Deuffurfiedig, *a.* (dau—ffurfio) biformed, compounded of two forms.—Deuddulliedig.
Deuffurfiad, au, *s.* biformity.—Deuddulliad.
Deugain, geiniau, *s.* ac *a.* (dau—ugain) forty.
Deugain mlwydd oed—forty years old. *B.*
Deugain mlynedd—forty years. *B.*
Deugain niwrnod—forty days. *B.*
Deuganolog, *a.* (dau—canol) bimedial, belonging to a quantity arising from a combination of two other quantities.—Deugymmysgol.
Deugeinfed, *s.* ac *a.* (deugain) fortieth.
Deugeinwaith, *a.* (deugain—gwaith) forty times.
Deugibellog, *a.* (dau—cibell) bicapsular, having two capsules.—Deugistiog.
Deugilddeiliog, *a.* (dau—cilddail) bibracteate, doubly bracteate.—Deugoes-ddeiliog.
Deugistanog, *a.* (dau—cistan) bicapsular.—Deugibellog.
Deugistiog, *a.* bicapsular.—Deugibellog.
Plisg deugistiog—bicapsular pericarp.
Deugloriog, *a.* (dau—clawr) bivalved, bivalvular; having two valves.—Deufasglog.
Deuglustenog, *a.* (dau—clust) biauriculated, having two auricles.—A dwy glusten iddo.
Deugnydiog, *a.* (dau—cnwd) biferous.—Yn dwyn dau gnwd yn y flwyddyn.
Deugoesddeiliog, *a.* (dau—coes—dail) bibracteated.—Deugilddeiliog.
Deugorn, **gyrn**, *s.* (dau—corn) a bicorn, a two-horned flower.—Dedgornog.
Deugorn, *a.* bicornous.—Deugorniog.
Deugornaidd, *a.* bicorned, of two horns.
Deugorniog, *a.* bicornous.—Deugorn.
Deugornog, ion, *s.* a bicorn.—Deugorn.
Deugorph, } *a.* (dau—corph) bicorporal, bi-
Deugorphog, } corporate, bicorporated; hav-
Deugorphol, } ing two bodies.—A dau gorph iddo.
Deugribog, } *a.* (dau—crib) bipectinate, having
Deugribol, } two margins toothed like a comb.—A dau ymyl cribog iddo.
Deugydrwymol, *a.* (dau—cydrwym) bicolligate; having the toes connected; web-footed.—Cyfandroed.
Deugyhyrog, *a.* (dau—cyhyr) bimuscular; having two attaching muscles.—A dau gyhyr iddo.
Deugylfinog, *a.* (dau—gylfin) birostrate, birostrated; having a double beak.—Dwybig.
Deugymmal, } *a.* (dau—cymmal) biarticu-
Deugymmalaidd, } lated; having two joints.—Deureddog.
Deugymmysgol, *a.* (dau—cymmysg) bimedial.=Deuganolog.
Deuhadgellog, *a.* (dau—had—cell) bicapsular.—Deugistog, deugibellog.
Deuhanner, *s. ag.* (dau—hanner) two halves.
Deuhannerog, *a.* two halved.
Deuhanneru, a, *v. a.* to divide in two.
Deuholltog, *a.* (dau—hollt) bifid, bifidated, cleft in two.—Deuranol, holltedig.
Deulabedog, *a.* (dau—llabed) bilobed, bilobated; having two lobes.—Deulostog.
Deulafnog, *a.* (dau—llafn) bilamellated; divided into two plates or lamellæ.
Deulais, **leisiau**, *s.* (dau—llais) two voices; a diphthong.—Dau lais; deusain, deuseiniad.
Deulais, *a.* having two sounds.
Deuleisiad, **iaid**, *s.* what has two sounds; a diphthong.—Deuseiniad, deusain.
Deulin, *s. ag.* (dau—glin) two knees, the knees.—Dau lin, y gliniau.
Ar dal ei ddeulin—upon his knees. *C. C.*
Deuliniad, au, *s.* a kneeling.—Penliniad.
Deulinio, a, *v.* to kneel down.—Penlinio.
Deuliw, *s.* (dau—lliw) two colors; two parties.—Dau liw; dwy blaid.
Y ddeuliw—both parties. *C. C.*
Deuliw y don—the colors of the wave. *D. G.*
Deuliw, *a.* of two colors, bicolored.
Deuliwiog, *a.* having two colors, bicolored.
Deulun, *s. ag.* (dau—llun) two forms; two parties.—Dau ffurf; dwy blaid.
Deulun o feirch—a couple of horses.
Deulun, *a.* of two forms; biformed.—Dwy ffurf.
Deulygadur, on, *s.* (dau—llygad) a binocle; a kind of telescope fitted for both eyes.—Deusylliadur.
Deulygedynol, *a.* biocellated; marked with eye-like spots.—Deulygfanol.
Deulygeidiog, *a.* binocular; employing both eyes at once.—Deuchibog.
Ysbiadur deulygeidiog—a binocular telescope.
Deulygeidiol, *a.* binoculated.—Deulygeidiog.
Deulygfanol, *a.* (dau—llwg—man) biocellated.—Deulygedynol.
Deulythyrol, *a.* (dau—llythyr) biliteral; consisting of two letters.—Dwy lythyrenol.
Deunaw, *s.* ac *a.* (dau—naw) eighteen=18.

Deunaw ceiniog—eighteen pence = 1s. 6d.
Deunawfed, s. ac a. eighteenth.
Deunawol, a. belonging to eighteen.
Deune,† s. ag. (dau—gne) two tints or hues. —Deuliw, dau liw.
Deune geirw—the two tints of waves. *D. G.*
Deune yr haf—the tints of summer. *D. G.*
Deune,† a. of two tints, of varied hues.
Deunifer, s. ag. (dau—nifer) two numbers.
Deunodol, a. (dau—nod) binotonous, consisting of two notes.—Dwydonol.
Deunydd,† iau, s. (*muta. of* defnydd) matter, substance; material. = Defnydd. *B. Br.*
Deuochr, s. ag. (dau—ochr) two sides.
Deuochr, a. bilateral.—Dwy ochr.
Deuochri, a, v. a. to render bilateral.
Deuochriad, au, s. a making bilateral.
Deuochrog, a. having two sides.
Deuochrol, a. bilateral; of two sides.
Deuoedd, s. ag. (dau) twain.
Ill deuoedd—they twain.
Deuol, a. binary, binous.—Dwyol, dyblyg.
Rhif deuol—a binary number.
Rhifyddeg ddeuol—binary arithmetic.
Deuol,† a. (dëu) future; coming. = Dyfodol.
Deuon, s. (dau; L. *duo*) a duet.—Deuawd, dwyawd.
Deuor,†v. (*muta. of* deor) to brood. = Deor. *Coll.*
Deuparth, s. ag. (dau—parth) two parts, two parts of a whole, two thirds.—Dwy ran o dair.
Deuparth a thraian—two thirds and a third. *C. C.*
Deuparth parch ffyw arfer—two-thirds of compliment is custom. *D.*
Deuparthog, a. having two shares of a whole; consisting of two thirds. *C. C.*
Deuped, ion, s. (dau—ped) a biped. = Deubedfil.
Deupediog, a. bipedal.—Deudroed, deubodiog.
Deupen, s. ag. (dau—pen) two heads; two ends.—Dau ben; dau derfyn.
Deupen, a. bicephalous; two-headed.
Deupenog, a. bicipital; having two heads.
Deupi,† v. (*muta. of* deubi) it would be. = Daw. *M.*
Deupo,† v. (2*nd fut. of* dyfod) it may come. = Delo.
Deuran, s. ag. (dau—rhan) two shares.—Dwy ran
Deuran, a. bipartite; of two parts.
Deuraniad, au, s. bipartition; bisection.
Deuranog, a. bipartient; having two parts.
Deuranol, a. bipartite; of two parts.
Deureiddiog, a. (dau—rhaidd) biradiate, biradiated.—Deubelydrog.
Deurith, s. ag. (dau—rhith) two appearances. —Dau rith; dau wyneb.
Deurith, a. of two appearances.
Deurithiol, a. of double appearance.
Deurudd, s. ag. (dau—grudd) two cheeks, the cheeks.—Dwy rudd, y gruddiau.
Deurygnog, a. (dau—rhwgn) biserrated.—Deufylchog; fel dannedd llif.
Deuryw, s. ag. (dau—rhyw) two kinds; two sexes.—Dau ryw; dau fath.
Deuryw, a. bisexous; of two sexes.
Deurywiog, a. having two sexes.
Deurywiol, a. bisexual, epicene.
Deusbardunog, a. (dau—ysbardun) bicalcarate; having two spurs.—A dau ysbardun iddo.
Deusbardunol, a. bicalcarated.
Deusill, iaid, s. (dau—sill) two syllables; a dissyllable.—Dwy sill, dau sill, gair deusill, dwysillair, deusillair.
Deusillair, s. (deusill—gair) a word of two syllables; a dissyllable.—Deusill.
Deusilliog, a. having two syllables.
Deusylliadur, on, s (dau—syllu) a binocle. = Deulygadur.
Deuwedd, s. ag. (dau—gwedd) two forms; twain.—Deuddull, deuffurf.
O'i da ill deuwedd cantant—of her goods they twain shall receive. *L. G. C.*
Deuweddog, ion, s. a bigamist, one who has two wives at once.—Dwyweddog, dwyweddogwr.
Deuwrychog, } a. (dau—gwrych) bisetous, bi-
Deuwrychynog, } setose, having two bristles. —A dau wrychyn iddo.
Deuwynebog, a. (dau—gwyneb) having two faces; bifronted; deceitful.—Dau-wynebog; deudal; twyllodrus.
Deuwynebog, s. the pansy violet, the heart's ease.—Y trilliw, llysiau 'r Drindod.
Deuymylog, a. (dau—ymyl) bimarginated.—Deufylog.
Dew,† s. (de; C. *deu*; L. *deus*; Arm. *del*) he who wills; the Deity.—Ewyllysiwr; y Duwdod.
Dewaint,† s. (dew; tewi, Dr. D.) midnight, the dead of night when all is still, the time of midnight to cock crowing.—Canol nos, dyfnder y nos, tawelwch y nos.
Yn newaint cyn plygeiniau—in the dead of night before matins. *T.*
O ddechreu nos hyd ddewaint—from the eve of night until midnight. *Ll. H.*
Dewid,† ion, s. f. a promise, a vow.—Addewid.
Dywedaf i'm dewidion—I will declare according to my promises. *T. Der.*
Dewin, ion, iaid, s. a diviner, a foreteller, a wizard; a prophet.—Dewinwr, daroganwr, swynwr; prophwyd.
Dewin o Nazareth—a prophet from Nazareth. *L. G. C.*
Och! am Fyrddin ddewinion—Oh! for the diviners of Myrddin. *I. Dyf.*
Dewin pob eiddig—every jealous one is a prophet. *D.*
Dewin, a. divine, theological; prophetic.
Mawl i Dduw gyntaf in, dewin Ddofydd—praise to God first, the divine Creator. *G. Bryeh.*
Dewindab, s. } a divining, a soothsaying;
Dewindabaeth, s. f. } a foretelling; prophecy. *Dr. D.* {Sibylle. *Dr. D.*
Dewindabaeth Sibylla—the divining of
Dewindabaeth daw 'n debyg—a divining is likely to come. *D. G.*
Dewindeb, s. a divining; prophecy.—Dewindab.
Dewines, au, s. a witch, a sorceress; a prophetess.
Y ddewines o Endor—the witch of Endor. *B.*
Dewiniad, au, s. a divining.—Daroganiad.
Dewiniaeth, s. f. divination.—Chwiliogaeth.
Dewiniaeth wyneb—physiognomy. *Dr. D.*
Dewiniaethol, a. divinatory, oraculous.
Dewiniaetholrwydd,† s. oraculousness.
Dewiniedydd, ion, s. a divinator, a foreteller.
Dewinio, ia, v. to divine; to prophesy.
Dewiniol, a. oracular, oraculous.
Dewiniwr, wyr, s. a diviner, a prognosticator.
Dewinydd,† ion, s. a theologian. = Duwinydd.
Dewinyddes, au, s. f. a divineress. = Dewines.
Dewinyddiaeth,† s. f. theology. = Duwinyddiaeth.

Dewinyddol, *a.* theological. = Duwinyddol.
Dewis, ion, *s.* a choice; the act of choosing,—Ethol.
Barn a dewis—judgment and preference. *Tri.*
Dewis, *a.* choice, select, excellent.
Dewis, *v. a.* to choose, to select; to elect.
Dewisadwy, *a.* capable to choose.—Dethol-adwy
Dewisaidd, *a.* choice, select; desirable.
Cyfoeth dewisaidd gorwag—choice vain riches. *M. Cr.*
Dewisedig, *a.* elected, chosen.—Etholedig.
Dewisiad, au, *s.* a choosing; selection.
Dewisig,† *a.* choice, preferable, desirable.
Dewiso, dewis, *v. a.* to choose, to select.
Iawn yw dewiso—it is right to choose. *H. O. G.*
Dewisog, *a.* having election.
Dewisogion, *s. pl.* election. *G. A.*
Dewisol, *a.* choice, select; excellent; pleasing.
Dewisolrwydd, *s.* desirableness.—Detholrwydd.
Dewiswr, wyr, } *s.* one who chooses or prefers;
Dewisydd, ion, } a chooser, an elector.
Dewr, ion, *s. r.* a valiant one, a herd.—Arwr.
Dewr, *a.* valiant, bold, brave, courageous.
Dewraidd, *a.* tending to be bold; stoutish.
Dewrder, *s.* valour; strength.—Gwrolder.
Dewredd, *s.* valour, prowess; strength.
Yn ei ddewredd—in his prime. *R.*
Clodfawr oedd o'i ddewredd ac o'i ddawn—he was greatly famed as to his prowess and as to his virtue. *G. A.*
Dewrfawr, *a.* bravely or boldly great.
Dewrhâd, *s.* a becoming bold or hearty.
Dewrhau, hâ, *v.* to become bold, to take courage; to become hearty.—Ymwroli.
Dewrlon, *a.* heartily pleased.
Dewrwas, weis, *s.* a hero, a man of courage or intrepidity.—Gwrolwas, arwr.
Dewryn, *s. d.* a pert or saucy chap.
Hap Duw ddewryn—good luck bold one! *D.*
Dewyr, *s. f.* (de—gwyr) Deira, Durham.—Deifr.
[The ancient name of a district mostly comprehended in the present county of Durham, and from which the modern name seems derived.—Hen enw rhandir yn cynnwys sir bresennol Deifr, oddi wrth yr hwn yr ymddengys fod yr enw Seisnig *Durham* yn deillio.]
Di, *prf.* without, void of, destitute of, not having; dis-, il-, im-, in-, ir-, un-, non-; -less; not.—Heb, amddifad o; dis-, an-.
[Although this privative *di* is generally connected with the word to which it is prefixed, as *difai*, *difudd*, *dilai*, *diles*, *dios*, &c.; yet it may be used separately, especially in poetry, and when it precedes a phrase or sentence, as *di fai*, *di fudd* (*Gr. O.*), *di lai*, *di les*, *di os* (*L. M.*); *di ben draw*, *di dderbyn wyneb*, *di droi'n ol*, *yn ddi ofn Duw*, &c. This negative *di* has a peculiar power to turn *nouns* as well as adjectives into negative adjectives, which no other negative particle has, even *an*, to the same extent; which is the reason that this class of negative adjectives is so very numerous. The old writers generally used the diæresis (¨) upon the i of this and the next *di* when prefixed to vowels, as *diachos*, *diadell*; *dïeithr*, *diolch*, &c.; but as this class is so numerous, and as it does not contain but a very few unimportant words in which the two vowels (*ia*, *ie*, &c.) are diphthongs (such as *diaf* and *diawl*, and their derivatives), it is better to leave off the diæresis, remembering at the same time that this and the next *di* are to be pronounced apart from the following vowel, thus,—*diachos*; *dieithr* (=diachos; dieithr), &c.—Er y cyssylltir y *di* negyddol yma yn gyffredin â'r gair y byddo yn rhagddod iddo, megys *difai*, *difudd*, *dilai*, *diles*, *dios*, &c.; etto gellir ei ddefnyddio ar wahân, yn enwedig mewn prydyddiaeth, a phan y rhagflaeno ddryll ymadrodd neu ymadrodd cyfan, megys, *di fai*, *di fudd* (*Gr. O.*), *di lai*, *di les*, *di os* (*L. M.*); *di ben draw*, *di dderbyn wyneb*, *di droi'n ol*, *yn ddi ofn Duw*, &c. Y mae gan y *di* negyddol yma allu neilldnol i droi *enwau* cystal ag ansoddeiriau yn ansoddeiriau negyddol, yr hyn nad oes gan un rhagddod arall hyd yn oed *an*, i'r un graddau; yr hyn ydyw yr achos fod y dosbarth yma o ansoddeiriau negyddol mor dra lliosog. Yr oedd yr hen ysgrifenwyr yn gyffredin yn defnyddio didolned (¨) ar i y *di* yma a'r nesaf pan y rhagddodid hwy at lafariaid, megys *diachos*, *diadell*; *dïeithr*, *diolch*, &c.; ond gan fod y dosbarth yma mor lliosog, a chan nad yw'n cynnwys ond pur ychydig o eiriau dibwys yn y rhai y mae'r ddwy lafariad (*ia*, *ie*, &c.) yn ddeuseiniaid, gwell gadael y didolnod allan, gan gofio ar yr un pryd fod y *di* yma a'r nesaf i gael eu parablu ar wahân oddi wrth y llafariad ddilynol, megys *diachos*; *dieithr* (=diachos; dieithr), &c.
Di, *prf.* (*mutat. of.* dy) *di* when it is a mutation of *dy*, denotes force and iteration; and sometimes a continuance of action.—*Di* pan yn newidiad o *dy*, a arwydda rym a mynychiad; ac weithiau barhad gweithrediad. = Dy.
[Dr. P. and his disciples laboured diligently and anxiously, though not successfully, to bring *dy* into general and uniform use in all words of this class that signify force or intensity, such as *diben*, *didoli*, *diddan*, *digwydd*, *disgwyl*, *disgybl*, *distaw*; and even before vowels in such words as *dieithr*, *dioddef*, &c., writing them *dyben*, *dydoli*, *dyddan*, *dygwydd*, *dysgwyl*, *dysgybl*, *dystaw*; *dyeithr*, *dyoddef*, &c.; and some ignorant zealots go so far as to write *dichell*, *dichon*, *dichlyn*, *diddym*, *dilyn*, *diogel*, &c. with *dy*, as *dychell*, *dychon*, *dychlyn*, *dyddim*, *dylyn*, *dyogel*, &c., although no speaker or orator, nor even the writers themselves, ever pronounce them in such an uncouth manner; and to *write* words in such a manner that no one will, or can, without too much effort, *pronounce* them, seems to be an absurd custom, especially in Welsh; besides that *dy* in this class of words is contrary to the usage of our best writers from Dr. Morgan downwards, contrary to the euphony and mutable functions of the Welsh letters, and contrary even to the analogy of the language. We therefore prefer *di* according to the authority of our classics.—Llafuriodd y Dr. P. a'i ddisgyblion yn ddiwyd ac yn awyddus, er yn aflwyddiannus, tuag at ddwyn *dy* i arfer gyffredinol a chysson yn mhob geiriau o'r dosbarth yma a arwyddant rym neu angerddoldeb, megys *diben*, *didoli*, *diddan*, *digwydd*, *disgwyl*, *disgybl*, *distaw*; ïe, ac o

flaen llafariaid, megys *dieithr*, *dioddef*, &c., gan eu hysgrifenu *dyben*, *dydoli*, *dyddan*, *dygwydd*, *dysgwyl*, *dysgybl*, *dystaw*; *dyeithr*, *dyoddef*, &c.; ac y mae rhai penboethiaid anwybodus yn myned mor bell ag ysgrifenu *dichell*, *dichon*, *dichlyn*, *diddym*, *dilyn*, *diogel*, &c. â *dy*, megys *dychell*, *dychon*, *dychlyn*, *dyddim*, *dylyn*, *dyogel*, &c., er na bydd un llefarwr nac areithiwr, na hyd yn oed yr ysgrifenwyr eu hunain, byth yn eu cynanu yn y fath ddull anghymmen; ac y mae *ysgrifenu* geiriau yn y fath ddull ag na bydd neb, ac nas gall neb heb ormod o egni, eu *cynanu*, yn ymddanges yn ffol, yn enwedig yn Gymraeg; heb law fod *dy* yn y dosbarth ynta o eiriau yn groes i arfer ein hysgrifenwyr goreu o'r Dr. Morgan i waered, yn groes i bersain a theithi cyfnewidiol y llythyrenau Cymraeg, ac yn groes hyd yn oed i gyfattebiad yr iaith. Yr ydym ni gan hyny yn dewis *di* yn ol awdurdod ein prif awduron].

Di, *pr.* (*mutat. of.* ti) thou, thee.—Ti, tydi.

Diaber, *a.* (di—aber) without an outlet or flowing.—Heb aber; aflifol.

Ni bwyad diaber—we were not without a flowing away. *C.*

Diabred,† au, *s.* (di—abred) a cessation from progression; obstruction. — Annhreiglad; lludd.

Diabred,† *a.* unprogressive; obstructed, frustrated.

Cenyf nis dygis yn ddiarbed—from me he has not been taken unobstructedly. *Meil.*

Diacon, iaid, *s.* (Gr. *diaconos*; L. *diaconus*; C. *diagon*) a deacon, a servant; one of the third or lowest order of the clergy of the Church of England; an ecclesiastical officer. Diagon, degon, aeddon, iagon, gwas, gweinidog; un o'r trydydd neu 'r dosbarth isaf o glerigwyr Eglwys Loegr; swyddog eglwysig.

Yr esgobion a'r diaconiaid—the bishops and deacons. *B.*

Diaconeg, au, *s. f.* a deaconess, servant; a female officer in the New Testament church. —Diagones, degones, gweinidoges; swyddoges yn eglwys y Testament Newydd.

Diaconiaeth, *s. f.* deaconry, deaconship; the office of a deacon.—Diagoniaeth.

Diach, *a.* (di—ach) without a pedigree; ignoble. —Difonedd, diwelygordd.

Diachar,† *a.* (di—achar) unamiable, unlovely. —Digariad, anghariadus.

Byddin trin diachar—the host of terrific toil. *A.*

Diachles, *a.* (di—achles) defenceless, unsuccoured.—Diamddiffyn, dinawdd; digymmhorth.

Diachlesiad, au, *s.* a making defenceless.

Diachlesol, *a.* unapt to succour.—Digymmhorth

Diachlesu, a, *v. a.* to deprive of protection.

Diachludd, *a.* (di—achludd) being unobscured.

Diachluddedig, *a.* unobscured.—Anghuddiedig

Diachluddiad, au, *s.* a disclosing; detection.

Diachluddo, a, *v. a.* to disclose.—Amlygu.

Diachluddol, *a.* tending to disclose.

Diachor,† *a.* (di—achor) being unsurrounded or unencircled.—Anamgylchynedig.

Dinas diachor—a city not to be hemmed in. *T.*

Gwryd diachor—irresistible bravery. *C.*

Diachos, *a.* (di—achos) without cause, causeless.—Heb achos; diasil.

Ai yn ddiachos y mae Job yn ofni Duw—doth Job fear God for nought? *B.*

Diachris,† *a.* (di-achris) uncovered; naked; unobscured.—Diorchudd. *C.*

Diachub, *a.* (di—achub) not to be saved; irremediable.—Anachubol.

Diachubiad, au, *s.* a not saving.

Diachubol, *a.* not tending to save.

Diachudd, *a.* (di—achudd) unsecluded, unenveloped; uneclipsed.—Diorchudd.

Diachuddiad, au, *s.* a being unsecluded.

Diachuddio, ia, *v. a.* to make unobscured.

Diachuddiol, *a.* unsecluding.—Anorchuddiol.

Diachwyn, *a.* (di—achwyn) uncomplaining.

Diachwyngar, *a.* uncomplaining.—Anachwyngar.

Diachwyniad, au, *s.* a not complaining.

Diachwynol, *a.* not apt to complain.

Diadail, *a.* (di—adail) without a building or structure.—Heb adail.

Diadbryn, *a.* (di—adbryn) unredeemable, without redemption.—Anadbrynadwy.

Diadbryniad, au, *s.* want of redemption.

Diadbrynol, *a.* being unredeemed.

Diadchwaeth, *a.* (di—adchwaeth) without a relish, void of relish.—Diadflas.

Diadchwel, *a.* (di—adchwel) not to be returned.—Annychweledig.

Diadchwyl, *a.* (di—adchwyl) unrecurring, without recurrence.—Anattroadl.

Diadeg, *a.* (di—adeg) inopportune, without opportunity.—Dihamdden.

Diadeilad, *a.* (diadail) without a building.

Diadeiladaidd, *a.* unlike a building.

Diadeiladu, a, *v. a.* to pull down.—Chwalu.

Diadell, au, *s.* (dead?) a flock, a herd.—Gyr, gre, praidd; mintai, haid, llu.

Diadell o ddefaid—a flock of sheep. *B.*

Diadell o eifr—a flock of goats. *B.*

Fel y cais bugail ei ddiadell—as a shepherd seeketh out his flock. *B.*

Capten y ddiadell a elwit diatell yr Ital—a captain of the band called the Italian band. *W. S.*

Diadellaidd, *a.* having herds, like a flock.

Diadelliad, *s.* a herding; a going in herds.

Diadellog, *a.* having herds, gregarious.

Diadellu, a, *v.* to flock; to make a herd.

Diadellwr, wyr, *s.* a herdman, a herdsman.

Diadenedig, *a.* (di—adeni) ungenerated.—Anadenedig.

Diadfail, *a.* (di—adfail) without ruins; in repair.

Diadfeiliad, *s.* not decaying.—Anadfeiliad.

Diadfeilio, ia, *v.* to stop decaying.

Diadfeiliog, *a.* being undecayed.—Anadfeiliog.

Diadferiad, au, *s.* (di—adferu) want of restoration; the being not returned.—Anadferiad.

Diadferol, *a.* unrestored; unreturned.

Diadflas, *a.* (di-adflas) without a relish or taste, void of taste.—Diadchwaeth.

Diadfyd, *a.* (di—adfyd) without adversity.—Diflinfyd.

Diadfyw, *a.* (di—adfyw) unrevived, unreanimated.—Annadebrol.

Diadfywiad, *s.* want of reanimation.

Diadfywiol, *a.* being unrevived.—Anadfywiol.

Diadgais, *a.* (di—adgais) without a second attempt.—Heb roi ail gynnyg.

Diadgas, } *a.* (di—adgas, di—atgas) not dis-
Diatgas, } agreeable, not odious.—Cymmeradwy. [illness.

Diadglaf, *a.* (di—adglaf) having no relapse of

Diadgof, *a.* (di—adgof) without remembrance.
Diadgofiad, *s.* a not remembering.—Anadgofiad.
Diadgofiol, *a.* unremembering.—Anadgofiol.
Diadgwydd, *a.* (di—adgwydd) without falling back.
Diadgwymp, *a.* (di—adgwymp) being unrelapsed
Diadlais, *a.* (di—adlais) without echo or resonance.—Diadsain, heb adlais.
Diadlam, *a.* (di—adlam) not to be repassed.
Y wal ddiadlam—the unrepassed wall. *B. C.*
Diadlif, *a.* (di—adlif) without a reflux or ebb.—Heb adlif, dilanw.
Diadnabod, *a.* (di—adnabod) without acquaintance.—Heb adnabyddiaeth; dieithr.
Diadnabyddus, *a.* unacquainted.—Anadnabyddus.
Diadnaid, *a.* (di—adnaid) without resilience.—Diadlam; nas gellir ei adneidio.
Diadnair,† *a.* (di—adnair) reproachless, unspotted.—Diwarth, diedliw, dienllib.
Mab diadnair Mair—the unspotted son of Mary. *Casn.*
Diadnawf, *a.* (di—adnawf) not to be swam back.
Diadnerth, *a.* (di—adnerth) being unsupported.
Diadolwch,† *a.* (di—adolwch) without entreaty.—Anerfyniol, diweddi.
Diadran, *a.* (di—adran) unsubdivided, undivided.
Diadred, *a.* (di—adred) without recurrence back.
Diadrwym, *a.* (di—adrwym) unrestricted, unrestrained.
Diadwaith, *a.* (di—adwaith) without a second work, not to be undone; unrepealable.—Anniddymedig.
Cyfraith ddiadwaith ydoedd—it was an unrepealable law. *S. Cyf.*
Diadwedd, *a.* (di—adwedd) without retrospection.
Diadwerth, *a.* (di—adwerth) undepreciated.—Annirmygol, annifrïol.
Diadwy, *a.* (di—adwy) without a breach.—Difwlch.
Diadwyth, *a.* (di—adwyth) without malignity.—Difalais.
Diadwyth, *s.* the corn salad, the lamb's lettuce.—Gwylaeth yr oen, llysiau 'r oen.
Diadwythig, *a.* uninfectious.—Anheintus.
Diaddas, *a.* (di—addas) improper.—Anaddas.
Diaddasu, a, *v. a.* to render improper.—Anaddasu.
Diaddaw, *a.* (di—addaw) without promise, unpromised.
Diaddefol, *a.* (di—addef) unconfessed.—Anaddefol.
Diaddfed, *a.* (di—addfed) immature.—Anaddfed
Diaddfwyn, *a.* (di—addfwyn) unkind.—Anaddfwyn.
Diadduned, *a.* (di—adduned) without a vow.—Didwng.
Diaddunedol, *a.* unvowed.—Anaddunedol.
Diaddunedu, a, *v.* to do away with a vow.
Diaddurn, *a.* (di—addurn) without ornament.
Diaddurn, *s.* the moschatel.—Mwsglys, anfri.
Diaddurniad, au, *s.* a stripping of ornament.
Diaddurno, a, *v. a.* to untrim.—Annhacluso.
Diaddurnol, *a.* unembellished.—Anaddurnol.
Diaddwydd, *a.* (di—addwyn) unvirtuous, indecent.
Diaddwyniad, *s.* a divesting of virtue.—Anaddwyniad.
Diaddwyno, a, *v.* to make indecent.—Anaddwyno.
Diaddwynol, *a.* tending to indecency.
Diaddysg, *a.* (di—addysg) illiterate, unlearned.
Diaddysgiad, *s.* an unlearning.—Anaddysgiad.
Diaddysgol, *a.* tending to be illiterate.
Diaddysgu, a, *v. a.* to divest of learning.
Diaedd,† *a.* (di—aedd) without noise.—Diwaedd, didwrf.
Diael, *a.* (di—ael) without a brow, skirtless.—Diodre.
Diaelau,† *a.* (di—aelau) without grief.—Diofid.
Diaele,† *a.* (di—aele) not dolesome, unafflicted.—Digystudd.
Diaele fydd pob ffol—unafflicted will be every squabby one. *Ll. H.*
Diaelodi, a, *v. a.* (di—aelod) to dismember; to excommunicate.—Dadgymmalu; diarddel.
Diaelodiad, au, *s.* a dismembering, a disjointing.
Diaelodog, *a.* having no members.
Diaelodol, *a.* tending to dismember.
Diaeliog, *a.* (diael) having no eyebrows.
Diaelwyd, *a.* (di—aelwyd) without a hearth.—Heb aelwyd.
Diaelwydd,† *a.* (di—aelwydd) unsuccessful.—Afiwyddiannus.
Diaer,† *a.* (di—aer=heir) without an heir.—Dietifedd.
Bu farw 'n ddiaer—he died without an heir.
Diaer,† *a.* (di—aer) without battle or slaughter.
Diaerfa,† *a.* without battle.—Diryfel, dialanas.
Os gwŷr Rhufain a ddiangant yn ddiaerfa—if the men of Rome shall escape without slaughter. *G. A.*
Diaerog,† *a.* not used to battle.—Diryfelog.
Diaerol,† *a.* unembattled, unwarlike.
Diaeron, *a.* (di—aeron) without berries or fruit.
Diaeth, *a.* (di—aeth) without pain.—Diboen.
Diaethiad, *s.* a divesting of poignancy.
Diaethlyd, *a.* not smarting; unanguished.
Diaethol, *a.* unpainful, not smarting.
Diaethu, a, *v.* to divest of poignancy.
Diafael, *a.* (di—gafael) without a hold; uncareful.—Heb afael; diofal.
Diafaeledig, *a.* unfastened, unheld.
Diafaeliad, *s.* an unfastening.—Gollyngiad.
Diafaelog, *a.* having no hold or gripe.
Diafaelu,† *v.* to let go a hold.—Gollwng gafael.
Diafar,† *a.* (di—afar) ungrieved.—Diboen.
Diafiach, *a.* (di—afiach) not unwell, undiseased, sane.—Anafiach; iach.
Diafiachol, *a.* of a healing tendency.
Diafiachu,† *v.* to make undiseased.—Iachau.
Diafiachus, *a.* undisordered, sane.
Diafiaeth, *a.* (di—afiaeth) without gaiety or joy.
Diafiaethu,† *v.* to divest of joy.—Anhoywi.
Diafiaethus, *a.* without gaiety.—Anhoenus.
Diafiechyd, *a.* (diafiach) without disease or ill.
Y fuchedd ddiafiechyd—the state free from pain. *Gr. M. D.*
Diafl (1 syllable), diafliaid, dieifl, *s.* (see Diafol) the devil; an accuser, a slanderer, satan.—Diafol, diawl, cythraul; cyhuddwr, satan.
Gan y diafl ydd â 'r afian, a dieifl a'u teifl yn y tân—the unclean ones will be led astray by the devil, and devils will cast them into the fire. *Gr. O.* [Glân.
Diafian, *a.* (di—afian) undefiled, unpolluted.—
Diafianhâd, *s.* a making undefiled —Glanhâd.
Diafianhaol, *a.* tending to divest of pollution.
Diafianhau, hâ, *v. a.* to make undefiled.
Diaflendid, *a.* without defilement.—Glân.
Diafles (2 syll.), au, *s. f.* (diafl) a she devil, a devil in petticoats.—Diawles, cythreules.

Diafles, *a.* (di—afles) without disadvantage.
Diflesiad, *s.* a divesting of disadvantage.
Diflesiant, *s.* a being divested of what is not beneficial.—Buddioldeb.
Diflesol, *a.* not disadvantageous.—Llesol.
Diflesu, a, *v.* to rid of disadvantage.
Diflonydd, *a.* (di—aflonydd) not unquiet.
Diflonyddiad, au, *s.* a divesting of uneasiness or disquietude.—Anaflonyddiad.
Diflonyddol, *a.* tending to divest of uneasiness.
Diflonyddu, a, *v.* to make or become quiet.
Diflun, *a.* (di—aflun) undeformed, undisfigured.
Diflunaid, *s.* a divesting of deformity.
Diflunaidd, *a.* undisfigured.—Anaflunaidd.
Diflunio, ia, *v.* to make undeformed.
Difluniol, *a.* tending to render undisfigured.
Diflwydd, *a.* (di—aflwydd) without misfortune.
Diflwyddiant, *s.* a being divested of misfortune.
Diflwyddo, a, *v.* to divest of bad success or misfortune; to make successful.—Llwyddo.
Diflwyddol, *a.* void of misfortune.—Llwyddiannus.
Diflym, *a.* (di—aflym) not blunt.—Llym. *T.*
Diflymiad, au, *s.* a divesting of bluntness; accumination.—Anaflymiad; awchlymiad.
Diflymol, *a.* unobtunded, not blunt.
Diflymu, a, *v. a.* to divest of bluntness.
Diafn, au, *s.* (di—afn) want of fortitude; reluctance.—Anwroldeb.
Clywais ryw ddiafn ar fy nghalon—I felt a sort of fainting on my heart. *Sil.*
Diafniad,† *s.* a feeling a reluctance; a failing.—Anhyfder; hwyrfrydigrwydd.
Diafnol,† *a.* having reluctance.—Anwrol.
Diafnu,† a, *v.* to fail; to feel indifferent.
Yr wyf yn clywed fy hun yn diafnu—I feel myself to be reluctant, I feel myself failing. *Sil.*
Diafol, diefyl (2 syll.), *s.* (diawl; C. *diaul;* Gr. *diabolos;* L. *diabolus;* F, *diable;* It. *diavolo*) an opposer, an adversary; an accuser; a slanderer; Satan, the devil.—Gwrthwynebwr; cyhuddwr; enllibiwr; satan, diawl, cythraul.
Diafol a Satan—the devil and Satan. *B.*
Diafrad, *a.* (di—afrad) unwasteful.—Cynnil.
Diafradlawn, *a.* unwasteful, unlavish.
Diafradloni, a, *v.* to desist from wasting.
Diafradu, a, *v.* to cease lavishing.
Diafrdwyth,† *a.* (di—afrdwyth) unimpassioned.
Diafrddwl,† *a.* (di—afrddwl) inanxious, not sad.
Ef oedd diafrddwl yn aer—he was unperplexed in battle. *H. F. G.*
Diafreol, *a.* (di—afreol) not irregular.
Diafreoli, a, *v.* to divest of disorder.—Rheoli.
Diafreolus, *a.* undisordered; regular.
Diafrif, *a.* (di—afrif) not innumerable.
Diafrwydd, *a.* (di—afrwydd) unobstructed.—Rhwydd.
Diafrwyddiad, au, *s.* a divesting of hindrance.
Diafrwyddo, a, *v. a.* to divest of obstruction.
Diafrwyddol, *a.* obstructive.—Rhwyddhaol.
Diafryw, *a.* (di—afryw) undegenerate, undebased
Diafwl† (2 syll.), ffyliaid, diafliaid, *s.* (see Diafol) the opposer; the devil.—Diafol, diawl.
Arfolledigaeth diafwl ym mlaen engyl lleufer—a receiving of the devil in preference to the angels of light. *C.*
Diafyl† (2 syll.), dieifyl, *s.* (see Diafol) the devil.=Diafol.
Gwyddyl dieifyl duon—the Gwyddelians, devils. *Meil.*
Diaffaith,† *a.* (di—affaith) without help.—Digymmhorth. [ary.
Diaffeithiad,† au, *s.* a being without an accessDiaffeithio,† ia, *v.* to cease effecting.—Aneffeithio.
Diaffeithiol,† *a.* unaccessary.—Anghefnogol.
Diagen, *a.* (di—agen) without an opening.—Diholl.
Diageniad, au, *s.* a closing of rifts.—Anholltiad.
Diagenol, *a.* unrifted, uncracked.—Afrwygol.
Diagenu, a, *v. a.* to close up cracks.
Diager, *a.* (di—ager) without steam or vapor.
Diagon,† iaid, *s.* (C. *diagon; see* Diacon) a deacon.=Diacon.
Diagones,† au, *s. f.* a deaconess.=Diaconess.
Diagoniaeth,† *s. f.* a deaconry.=Diaconiaeth.
Diagor, *a.* (di—agor) without an opening.—Cauad.
Diagori,† *v.* to divest of an opening.—Cau.
Diagoriad, au, *s.* a divesting of opening.
Diagorol, *a.* not tending to open.—Anagorol.
Diagro,† *a.* (di—agro) not melancholy or pensive.
Cyfarchaf yn diagro frawd—I will greet my unsedate brother. *Cyf. M.*
Diagwedd, *a.* (di—agwedd) without manner or form, unseemly.—Diffurf; anwiw.
Fe'th aned yn noeth—ym mron heb wres, diagwedd—thou wert born naked—almost without warmth, helpless. *S.S.H.*
Diagweddiad, au, *s.* a divesting of habit or method.
Diagweddol, *a.* unhabituated; unmethodical.
Diagweddu, a, *v.* to divest of method.
Diangadwy, *a.* (diangc) capable of escaping.
Diango, *s.* (dy—ang, *Dr. D.*) an escape; a retreat, a flight.—Diangfa; encil, ffo.
Diango, *v.* to escape; to avoid; to deliver, to rescue; to retreat, to free; to be delivered or preserved.—Diengyd; gochel; gwared, achub; encilio, ffoi; ymddiango.
Duw a'm diango—may God preserve me. *Dr. D.*
Diango ar Glwyd a boddi ar Gonwy—to escape on the Clwyd, and to be drowned on the Conway. *D.*
O'r deau Mair a'i diango—from the south may Mary make him to escape. *D. G.*
Diangen, *a.* (di—angen) without necessity or want.—Heb angen, dieisieu.
Diangenrhaid, *a.* without necessity.
Diangenrheidiad, au, *s.* a divesting of necessity.
Diangenrheidio, ia, *v.* to divest of necessity; to become unneedful.—Dianghenu.
Diangenrheidiol, *a.* unnecessary.—Afreidiol.
Diangeu, } *a.* (di—angeu) deathless, immortal.
Diangau,† }—Anangeuol, anfarwol.
Diangeuad, *s.* a rendering immortal.
Diangeuo, a, *v.* to render immortal; to become immortal.—Anfarwoli.
Diangeuol, *a.* tending to immortality.
Diangfa, oedd, fäu, *s. f.* (diangc) deliverance.—Gwaredigaeth, rhyddhâd, gollyngdod.
I'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfäau rhag marwolaeth—unto God the Lord belong the issues from death. *B.*
Dianghadr, *a.* (di—anghadr) not impotent.—Cryf.
Dianghadredd, *s.* freedom from weakness.
Dianghall, *a.* (di—anghall) not indiscreet.—Call.
Dianghallu, a, *v.* to grow cunning.
Dianghar, *a.* (di—anghar) undisgusting, lovely.—Caredig.

Dianghawr, *a.* (di—anghawr) not ungenerous. —Haelfrydig.

Dianghenlad, au, *s.* (di—angen) a divesting of necessity; a rendering unnecessary.—Diangenrheidiad.

Dianghenol, *a.* unnecessary.—Afreidiol.

Dianghenu, a, *v.* to furnish with necessaries.

Dianghenus, *a.* unnecessitous; rich.—Diangen.

Dianghlod, *a.* (di—anghlod) without ill fame. —Clodus.

Dianghoeth, *a.* (di—anghoeth) not unrefined. —Coeth.

Dianghoethedd, *s.* freedom from impurity.

Dianghoethi, a, *v.* to rid of impurity.

Dianghof, *a.* (di—anghof) being unforgotten.—Ar gof.

Dianghofio, ia, *v.* to cease being forgetful.

Dianghofiol, *a.* tending to recall to mind.

Dianghraiff, *a.* (di—anghraifft) without example

Dianghyfiaith, *a.* (di—anghyfiaith) without a strangeness of dialect; not barbarous.—Anfarbaraidd.

Dianghymmes, *a.* (di—anghymmes) not immoderate.—Cymmedrol, gweddus.

Dianghymmhorth, *a.* (di—anghymmhorth) without want of support, not unassisted.—Cynnorthwyol.

Dianghysson, *a.* (di—anghysson) undiscordant.

Dianghyssoni, a, *v.* to render undiscordant; to harmonise.—Cynghaneddu.

Dianghyssonol, *a.* undiscordant.—Cyssonol.

Diangiad, au, *s.* (diange) an escaping.—Diangfa.

Diangol, *a.* escaping, liberating; delivered.

Diangor, *a.* (di—angor) without or not at anchor

Diangori, a, *v.* to weigh anchor.—Dadangori.

Diangraifft, *a.* (di—angraifft) without correction

Diangrwydd, *a.* (diange) deliverance, safety.—Diogelwch.

Diangu, diange, *v.* to escape; to avoid.=Diango.

Diangwr, wyr, } a one who escapes; one who
Diangydd, ion, } is delivered.—Goehelwr; ffoadur.

Diaidd, *a.* (di—aidd) without zeal or warmth. —Diael.

Gnawd pob anaf ar ddiaidd—every blemish is common or destitute of zeal. *Ll. H.*

Diainge,† *a.* (di—ainge) without greediness.—Diawydd.

Diail, *a.* (di—ail) without a second.—Heb ail.

Dailadrodd, *a.* (di—ailadrodd) without repetition.

Dailbryn, *a.* (di—ailbryn) without repurchase.

Daildal, *a.* (di—aildal) without retribution.

Dailddarbod, *a.* (di—ailddarbod) not reprovided

Dailddawed,† *a.* (di—ailddawed) without recurring.

Dailddawed,† *v.* to cease coming back.

Dailddechreu, *a.* (di—ailddechreu) unrecommenced.

Dailddewis, *a.* (di—ailddewis) without second choice. [cated.

Dailddyblyg, *a.* (di—ailddyblyg) not redupli-

Dailddyblygu, *v.* to unreduplicate.

Dailenedig, *a.* (di—ailenedig) unregenerated. *S. Tr.*

Daileneidiad, *a.* (di—aileneidio) unreanimated.

Daileneidio, ia, *v.* to cease reanimating.

Dailesgyn, *a.* (di—ailesgyn) without reascension

Dailethol, *a.* (di—ailethol) without reselection.

Dailfeddiannol, *a.* (di—ailfeddiant) not tending to repossess; not repossessing.—Anailfeddiannol.

Dailfeddiannu, *v.* to cease repossessing.

Dailfeddiant, *a.* without repossession.—Heb ail feddiant.

Dailfeddu, *v.* to cease repossessing.—Dailfeddiannu.

Dailfudo, a, *v.* (di—ailfudo) to cease removing.

Dailfwynhâd, *a.* (di—ailfwynhau) without re-enjoyment; not re-enjoyed.—Heb ail fwynhâd

Dailfwynhau, hâ, *v.* to cease re-enjoying.

Dailfywhâd, *a.* (di—ailfywhau) without reanimating; unreanimated.—Heb ail fywhâd.

Dailfywhau, hâ, *v.* to cease revivifying.

Dailgenhedledig, *a.* (di—ailgenhedlu) unregenerated.

Dailgenhedliad, *a.* without regeneration.—Heb adgenhedliad.

Dailgenhedlu, a, *v.* to cease regenerating.

Dailgwymp, *a.* (di—ailgwymp) without relapse.

Dailgwympo, a, *v.* to cease relapsing.—Heb ail gwympo.

Dailgydnabod, *a.* (di—ailgydnabod) unrecognised.

Dailgydnabod, *v.* to cease recognizing.

Dailgyfarch, *a.* (di—ailgyfarch) without resalutation.

Dailgynnull, *a.* (di—ailgynnull) without reassembling.

Dailgyrch, *a.* (di—ailgyrch) unrecurring.—Heb ail gyrch.

Dailymlid, *a.* (di—ailymlid) without re-chasing.

Diaill,† *a.* (di—aill) without other; not otherwise.—Heb arall; nid amgen.

Aur yn y naill diaill dau—gold in the one, not otherwise two. *D. G.*

Diaillt,† *a.* (di—aillt) without another; unmatched.

Diailltuol, *a.* not apart or aside.—Heb fod o'r neilldu.

Diais, *a.* (di—ais) without ribs; without want. —Diasenau; dieisieu, diangen.

Dial, au, *s.* (di—al? dy—gal; *C. dyal; H. geal*) vengeance, punishment, revenge.—Dialedd, ymddial; cosp.

Dial Rodri—the retalliation of Roderic [a victory so called, obtained by the Welsh over the Saxons and Danes in the year 878].

Dial cuall—a fierce revenge. *D. G.*

Dial, diail, *v. a.* to avenge, to punish; to revenge, to take revenge.—Dialu; talu'r pwyth.

Gwell gochel mefl na'i ddial—it is better to avoid an injury than to avenge it. *D.*

Prydydd wyf fi a ddiail—I am a poet who will avenge. *D. G.*

Dialaeth, au, *s. f.* vengeance.—Ymddial, cosp.

Weithian y dialaethau a gawn—at length the retaliations we shall have. *Ll. M. E.*

Dialaeth, *a.* (di—alaeth) without sorrow.—Diaeth.

Dialaethiad, *s.* a ceasing to grieve.—Anofidiad.

Dialaethol, *a.* tending to divest of sorrow.

Dialaethu, a, *v.* to cease grieving.—Anofidio.

Dialaethus, *a.* unmournful, ungrieved.

Dialar, *a.* (di—galar) without grief.—Heb alar.

Gwesti dialar—a course without grief. *C.*

Dialaru, a, *v.* to cease lamenting.—Peidio galaru.

Dialarus, *a.* ungrieved, unafflicted.—Anofidus.

Dialbren, i, *s.* (dial—pren) a gallows, the tree of vengeance.—Crogbren, y pren dioddef.

Dialectyddiaeth, *s. f.* (Gr. *dialectiké*) dialectics; argumentation; logic.—Dadlyddiaeth; rhesymeg.

Ystryw dialectyddiaeth—the craftiness of dialectics. *G. Rh.*

Dialechdid, *s.* (Gr. *dialectice;* L. *dialectica*) the art of logic; dialectics.—Rhesymeg. *Dr. D.*

Dialedig, *a.* (dial) avenged, punished.

Dialedigaeth, au, *s. f.* avengement, punishment.

Dialedd, au, *s.* vengeance; immensity.—Cosp; wmbreth.

Y mae ganddo ddialedd o bethau—he has an immensity of riches.

Y dialedd lle dyly—the punishment where it is merited. *D. Ll. G.*

Dialeddgar, *a.* vengeful, vindicative.—Dialgar.

Dialeddgarwch, *s.* a vengeance.—Cospedigaeth.

Dialeddiad, au, *s.* an avenging.—Dialiad.

Dialeddog, *a.* avenged, punished.—Dialgar.

Dialeddol, *a.* avenging, penal.—Cospol.

Dialeddu, a, *v.* to avenge, to revenge.

Dialeddus, *a.* vengeful, avenging.

Dialeddusrwydd, *s.* vengefulness.—Dialgarwch.

Dialeddwr, wyr, *s.* an avenger, a punisher.

Dialfa, on, fäu, *s. f.* a place of revenge, a place of penal retribution.—Lle i ddial.

Dialeddfawr, *a.* revengeful, vindicative.

Dialforion, *s. pl.* greatly vindicative ones.

Tri eofn, diofn, dialforion—three bold, dauntless, greatly vindicative ones. *C.*

Dialgar, *a.* revengeful, vindicative. [rwydd.

Dialgarwch, *s.* revengefulness.—Dialeddus-

Dialgywedd, † *s.* (dial—cywedd) a plot for revenge.—Brad-ddialedd.

Tri pheth ni ddylu cerddor eu celu: gwirionedd, dialgywedd, a barn ar gerddoriaeth—three things which a minstrel ought not to conceal: truth, a plot for revenge, and criticism on minstrelsy. *T. P.*

Dialiad, au, *s.* (dial) an avenging; revenge.

Dialon, *a.* (di—alon) without harmony; unmusical.—Digynghanedd; angherddorol.

Dialu, dial, *v. a.* (dial) to revenge, to retaliate.—Gwneuthur dial; ymddial ar.

Dial drosof ar fy erlidwyr—revenge me of my persecutors. *B.*

Dialus, *a.* revengeful, apt to revenge.

Dialw, *a.* (di—galw) without call, uncalled.

Dialwad, *a.* without avocation.—Heb alwad.

Dialwch, *s.* (dial) vengeance, punishment.

Dialwr, wyr, } *s.* an avenger.—Ymddialwr,

Dialydd, ion, } ymddialydd; cospwr.

Dialydd y gwaed—avenger of blood. *B.*

Dialyddiaeth, *s. f.* avengement; the act of punishing.

Dialyniaeth, † *s. f.* avengement.—Dialaeth. *T.*

Diall, † *a.* (di—gall) without power.—Analluog.

Diallanol, *a.* (di—allan) not exterior.—Mewnol.

Diallfryd, *a.* (di—allfryd) not ferocious.—Tyner

Dialltraw, † *a.* (di—alltraw) without a sponsor.—Difeichiau; di dad bedydd.

Dialltud, *a.* (di—alltud) unbanished.—Heb ei alltudio.

Dialltudedd, *s.* an unexiled state.

Dialltudol, *a.* unbanished, unexiled.

Diallu, *a.* (di—gallu) without power, unable, feeble.—Heb allu; egwan.

Dialluedd, *s.* inability, incapacity.

Dialluog, *a.* invalid, incapacitated.—Analluog.

Diallwol, *a.* imbecile, impotent.—Egwan.

Diambell, † *a.* not unfrequent, unscarce.

Lle cyfrwydd, hylwydd heiliau diambell—a place unobstructed, prospering the plenteous services. *Ll. G. C.*

Diambellu, *v.* to make unscarce.

Diamcan, *a.* (di—amcan) void of design, purposeless; injudicious.—Difwriad, anghelfydd

Diamcaniad, au, *s.* a cessation from designing.

Diamcanol, *a.* undesigning.—Heb amcan.

Diamcanu, a, *v.* to cease intending.

Diamcanus, *a.* without design; improvident.

Diamdlawd, *a.* (di—amdlawd) not necessitous; abundant.—Helaethlawn; cyflawn; digon.

Diamddiffyn, *a.* (di—amddiffyn) defenceless.

Diamddiffynedig, *a.* undefended.—Anamddiffynedig.

Diamddiffyniad, au, *s.* a not defending. [ynol.

Diamddiffynol, *a.* undefensible.—Anamddiff-

Diamddiffynu, a, *v.* to cease defending.

Diamddwll, † *a.* (di—amddwll) unobscured, unclouded.—Amlwg, digwmmwl.

Diameth, † *a.* (di—ameth) unfailing, faultless, true.—Anffaeledig, digoll, cywir.

Diameth osgeth a wisg eurdde—unfaltering the gait of her bedight in gold. *Ll. P. M.*

Diamgall, *a.* (di—amgall) uncircumspect, unwary.—Anwyliadwrus; annoeth.

Diamgant, *a.* (di—amgant) unsurrounded, uncircled.—Anamgylchynog.

Diamgelog, *a.* (di—amgel) uncircumspect.—Diofal, anochelog, anochelgar.

Diamgeledd, *a.* (di—amgeledd) succourless, helpless.—Digymmhorth, diymgeledd.

Diamgeleddiad, au, *s.* a divesting of comfort.

Diamgeleddol, *a.* unsuccoured.—Heb amgeledd.

Diamgeleddu, a, *v.* to divest of succour or cheer.

Diamgeleddus, *a.* unsuccoured.—Diamgeledd.

Diamgelwch, *s.* (di—amgel) indiscretion, improvidence.—Anofalwch; annoethineb.

Diamgen, *a.* (di—amgen) not otherwise.

Diamgenaeth, *a.* without difference.—Nid amgen.

Diamgenu, a, *v.* to divest of variation.

Diamgudd, *a.* (di—amgudd) unenveloped, unobscured.

Diamgyffred, *a.* (di—amgyffred) not conceived; incomprehensible.—Anghyffredol.

Ni ddichon un creadur hysbysu pa beth yw Duw, o herwydd diamgyffred yw—no creature is able to declare what God is, for he is incomprehensible. *R. F.*

Diamgyffredadwy, *a.* incomprehensible, inconceivable.

Diamgyffrededig, *a.* unconceived.

Diamgyffrediad, au, *s.* incomprehension.

Diamgyffredol, *a.* not tending to comprehend.

Diamgyffredu, a, *v.* to cease comprehending.

Diamgylch, *a.* (di—amgylch) unsurrounded, uncircled.—Diamgant, anamgylchedig.

Diamgylchadwy, *a.* uncircumscribable.

Diamgylchedig, *a.* unsurrounded.

Diamgylchiad, au, *s.* a being unsurrounded.

Diamgylchol, *a.* uncircumscribed.—Diderfyn.

Diamgylchu, a, *v.* to cease encircling.

Diamgylchyniad, au, *s.* a being uncompassed.

Diamgylchynol, *a.* uncircumscribed.

Diamgylchynu, a, *v.* to cease encompassing.

Diamhafal, *a.* (di—amhafal) not parallel, incomparable.—Anghymmharol.

Diaml, *a.* (di—aml) unfrequent, unabundant.

Diamlhâd, *s.* a making scarce.—Anamlhâd.

Diamlhau, hâ, *v.* to make unfrequent.

Diamlwg, *a.* (di—amlwg) indistinct, unmanifest

Diamlygadwy, *a.* unexplicable.—Anamlygadwy

Diamlygiad, au, *s.* a being unexplained.—Anamlygiad.

Diamlygol, *a.* unmanifested.—Anamlygol.
Diamlygu, a, *v. a.* to make undistinct.
Diammaeth, *a.* (di—ammaeth) without dainty.—Diammoeth, diddantaeth.
Neud ym diammaeth—then are we not destitute of dainty! *Cyf. M.*
Diammau [this is the Bible orthography, and, indeed, the general pronunciation too; but at present, the most approved mode seems to be *diammheu*] *a.* (di—ammau) doubtless, certain, truly.=Diammheu.
Canys diammau y bydd y peth—for the thing shall surely come to pass. *Dr. M.*
Y pethau a gredir yn ddiammau yn ein plith—those things which are most surely believed among us. *B.*
Diammeuthiad, au, *s.* (di—ammaeth) a rendering undainty.—Diammoethiad, anammeuthiad.
Diammeuthol, *a.* unsavoury.—Anammeuthol.
Diammeuthu, a, *v. a.* to make undainty.
Diammeuthyn, *a.* not a dainty.—Diddantaeth.
Diammhar, *a.* (di—ammhar) not out of repair.
Diammhariad, au, *s.* a rendering undisordered.
Diammharol, *a.* undisordered.—Anammharol.
Diammharu, a, *v. a.* to divest of disorder; to repair.
Diammhau,† } *a.* (di—ammhau, di—ammheu)
Diammheu, } doubtless, truely, surely.=Diammau.
Diammheuad, au, *s.* indubitation,† indubitableness.—Ammhetrusdod, dilysrwydd.
Diammheuaeth, *s. f.* indubitableness, certainty.
Gwell na ffo yw diammheuaeth—better than to run away is the being made certain. *T. O.*
Diammheuo, a, *v.* to render indubious.
Diammheuol, *a.* undubitable, undoubted.
Diammheus, *a.* unsuspecting; unquestionable.
Diammhorth, *a.* (di—ammhorth) not unsupported.
Diammhur, *a.* (di—ammhur) not impure; depurate.—Nid ammhur; pur, coeth.
Diammhuredd, *s.* incorruption.—Anllygrediggaeth. *R.*
Diammhuriad, au, *s.* depuration.—Pureiddiad.
Diammhuro, a, *v. a.* to depurate, to make pure.
Diammhwyll, *a.* (di—ammhwyll) without distraction.
Diammhwylledd, *s.* undistractedness.
Diammhwylliad, au, *s.* a becoming divested of irrationality.—Pwylleiddiad.
Diammhwyllo, a, *v.* to become undistracted.
Diammhwyllog, *a.* undistracted.—Pwyllog.
Diammod, *a.* (di—ammod) unconditional.
Diammodi, a, *v. a.* to annul a covenant or agreement.—Anammodi.
Diammodiad, au, *s.* the act of annulling a covenant.—Diddymiad ammod.
Diammodol, *a.* uncovenanted.—Anammodol.
Diammoeth, *a.* (di—ammoeth)=Diammaeth.
Diammynedd,† *a.* (di—ammynedd)=Diamynedd.
Diamrafael, *a.* (di—amrafael) without contention.—Diamryson; tangnefeddus.
Diamafaelgar, *a.* uncontentious.—Tawel.
Diamrafaeliad, au, *s.* the ending of a dispute.
Diamrafaelio, ia, *v.* to cease wrangling.
Diamrafaelus, *a.* uncontentious.—Tangnefeddus.
Diamrosgo, *a.* (di—amrosgo) not unwieldy; compact.—Anamrosgo; cryno.
Diamrosgöedd, *s.* a being not unwieldy.
Diamryfeiliad, au, *s.* (di—amryfeilio) a being undiversified or unvaried.—Anamrywiad.
Diamryfeilio, ia, *v.* to become unvaried.
Diamryfus, *a.* (di—amryfus) without excess.
Diamryfusedd, *s.* a state of inexcess; moderation.—Anormodedd; cymmedroledd.
Diamryfuso, a, *v.* to cease being excessive.
Diamryson, *a.* (di—amryson) void of contention or strife.—Diymryson.
O bydd cynwarchadw, gater yn ddiamryson i'r neb a'i cynwarchadwys—if there should be pre-occupier, let it go without contesting to him that has pre-occupied. *C. C.*
Diamrysongar, *a.* not apt to dispute.
Diamrysoni, a, *v.* to free from contention.
Dyly yr yngnad eu diamrysoni—the judge ought to reconcile them. *C. C.*
Diamrysonol, *a.* incontestable; uncontested.
Diamryw, *a.* (di—amryw) uncompounded, unmixed.—Anghyfansawdd, digymmysg.
Diamrywiad, au, *s.* an unmixed state.
Diamrywiaeth, *s. f.* homogenaity, homogeneousness.
Diamrywio, ia, *v.* to become unmixed.
Diamrywiol, *a.* homogeneous; pure.
Diamwedd, *a.* (di—amwedd) incongruous, unconform.—Anghyttûn, anghyfaddas.
Diamweddiad, au, *s.* disconformity; incongruity.
Diamwedddol, *a.* unconformable.—Anghyddffurfiol.
Diamweddu, a, *v.* to disconform.—Anghyddweddu.
Diamwel, *a.* (di—amwel) uncircumspect; heedless.—Anofalus, diofal, difater.
Cain ddiamwel—the indiscreet Cain. *T.*
Diamweled, diamwel, *v.* to cease heeding.
Diamwelediad, *s.* incircumspection.—Diofalwch
Diamwes, *a.* (di—amwes) without enjoyment.
Diamwesol, *a.* unindulgent.—Anniddanol.
Diamwesu, a, *v.* to cease indulging.—Anamwesu
Diamwys, *a.* (di—amwys) unequivocal, unambiguous.—Anamwys, annhywyll; eglur.
Diamwysol, *a.* unambiguous.=Diamwys.
Diamynedd, *a.* (di—amynedd) impatient; hasty.—Anoddefgar, annioddefus.
Diamynedd ym gwneddyw—impatient has she made me. *D. G.*
Diamyneddgar, *a.* impatient.—Anamyneddgar,
Diamyneddgarwch, *s.* impatientness.
Diamyneddus, *a.* impatient.=Diamynedd.
Gwr drygionus, a chreulawn diamyneddus oedd—he was ill-tempered, and a passionate cruel man. *Mab.*
Dianach, *a.* (di—anach) without impediment; unexceptionable.—Dieithriad.
Dianad,† *a.* (di—anad) being unexceptionable.
Arf Eingl, Dudur, dadl dianad—the weapon of the Angles is Tudor, whose argument is incontrovertible. *G. M. D.*
Dianadl, *a.* (di—anadl) breathless, void of breath.—Dianal, allan o anadl; marw.
Dianadliad, au, *s.* a ceasing to breathe.
Dianadlog, *a.* having no breath.
Dianadlu, a, *v.* to cease breathing.
Dianaf, *a.* (di-anaf) without hurt or blemish; perfect.—Diadwyth; perffaith.
Odid ddyn teg dianaf—there is scarcely a comely man without a defect. *D.*
Teg pob dianaf—fair is every thing faultless. *D.*

Dianafiad, au, *s.* a being unhurt; a being faultless.
Dianafol, *a.* not tending to hurt.
Dianafu, a, *v.* to divest of blemish; to heal a hurt.
Dianafus, *a.* unblemished; sound. = Dianaf.
Dianair, *a.* (di—anair) irreproachable; free from blame.—Diargyhoedd; difai.
Dianaw,† *a.* (di -anaw) without harmony or music.—Ammherorol, angherddorol.
Diwarogaeth, *s. f.* emancipation.—Rhyddfreiniaeth.
Diwarogi, a, *v. a.* to emancipate.—Rhyddhau.
Diwarogiad, *s.* emancipation.—Gwarediad.
Diwarogol, *a.* emancipatory.—Rhyddfreiniol.
Diwart,† *a.* (di—gwart) without a guard to keep.
Diwarth, *a.* (di—gwarth) uncovered; reproachless.
Dehcubarth, ddiwarth ddydd—South Wales, of reproachless day. *D. Eml.*
Diwarthâd, *s.* a developing.—Dadenhuddiad.
Diwarthaf, *a.* (di—gwarthaf) having nothing upon; not ridden; with a superior.
Dawn diwarthaf—an unsuppressed virtue. *P. M.*
Diwarthaol, *a.* tending to lay open.
Diwarthau, â, *v.* (diwarth) to be uncovered.
Diwarthaus, *a.* not apt to become covered.
Diwarthrudd, *a.* reproachless.—Diwaradwydd.
Diwarthruddiad, *s.* a becoming reproachless.
Diwarthruddo, a, *v.* to divest of reproach.
Diwarthruddol, *a.* irreproachable.—Anwaradwyddol.
Diwarthrwydd, *s.* reproachlessness.
Diwarthu, a, *v. a.* to make open; to clear of reproach.—Agor; dieuogi.
Diwarthu,† *s,* *v.* to carry.—Dywarthu. *R.*
Diwarthu i'r bedd—to carry to the grave. *Dr. D.*
Diwarthus, *a.* (diwarth) unreproachful.
Diwasanaeth, *a.* (di—gwasanaeth) unserviceable
Diwasanaethgar, *a.* unserviceable.—Anwasanaethgar.
Diwasanaethol, *a.* unserviceable.—Anfuddiol.
Diwasanaethu, a, *v.* to become unserviceable.
Diwasgar, *a.* (di—gwasgar) undispersed.
Diwasgariad, *s.* a being unscattered.
Diwasgarol, *a.* not apt to scatter.—Anwasgarol.
Diwasgaru, diwasgar, *v.* to cease scattering.
Diwasgod,† *a.* (di—gwasgod) without shelter.—Digysgod.
Diwasgodfa,† *a.* having no shelter.—Digysgodfa
Diwasgodi,† a, *v.* to unshelter.—Digysgodi.
Diwasgodiad,† *s.* a becoming unsheltered.
Diwasgodol,† *a.* unsheltering.—Digysgodol.
Diwatwar, *a.* (di—gwatwar) without mockery.
Diwatwariad, *s.* a ceasing to mock.—Anwatwariad.
Diwatwarol, *a.* not apt to mock.—Anwatwarol.
Diwatwaru, a, *v.* to cease mocking.
Diwecry,† *a.* (di—gwecry) not feeble or flagging
Diwedydd,† *s.* (diwedd—dydd) the evening.—Cyfnos.
Y dydd, hyd ddiwedydd hwyr—the day, until the late evening. *L. G. C.*
Diwedd, ion, *s.* (diw; C. *diuadh;* Arm. *diuez*) perfection; end, completion, conclusion.—Terfyn, diben, gorphen.
Diwedd y byd—the end of the world. *B.*
Cyn dechreu gwel y diwedd—before the beginning see the end. *D.*
Diweddaf, *s.* the last, the utmost, the latest.
Y cyntaf a'r diweddaf—the first and the last. *B.*
Diweddaf, Diwaethaf,† Diwethaf,† *a.* last, latest.—Olaf; eithaf.
Y dyddiau diweddaf—the last days. *B.*
Y tro diweddaf, Y tro olaf, } the last turn, the last time.
Os ei gŵr diwaethaf a'i casâ hi—if the latter husband hate her. *B. Ox. & Cambr.*
Myfi fy hun [wyf] gyntaf, a myfi fy hun [wyf] y diwethaf—I myself [am] the first, and I myself [am] the last. *Dr. M.*
Diweddar, *a.* late; modern; tardy, slow
Y diweddariaid—the moderns. *S.*
Diweddarhâd, *s.* a growing late.
Diweddarhaol, *a.* apt to be late.
Diweddarhau, hâ, *v.* to become late; to make slow.
Diweddaru, a, *v.* to become late.—Myned yn hwyr.
Diweddarwch, *s.* lateness; slowness.
Diweddedig, *a.* ended, concluded.—Terfynedig.
Diweddglo, ion, *s.* (diwedd—clo) a conclusion.
Diweddglwm, glymau, *s.* (diwedd—clwm) a finale.
Diweddiad, au, *s.* a conclusion, a termination.
A diweddiad geiriau ei enau sydd anfad ynfydrwydd—and the end of his talk is mischievous madness. *B.*
Diweddol, *a.* (diwedd) ending, conclusive.
Diweddu, a, *v.* to end, to conclude, to close, to finish.—Dibenu, terfynu, gorphen.
Diweddwr, wyr, *s.* a finisher; the last man.
Diwegi, *a.* (di—gwegi) without vanity; serious.
Diwehilion, *a.* (di—gwehilion) without refuse.
Diweirdeb, Diweirdod, } *s.* (diwair) continence, chastity.—Dianlladrwydd, dihalogrwydd.
Diweirddyn, ion, *s.* (diwair—dyn) a chaste person.
Diweiredd, *s.* (diwair) chastity, continence.
Diweirfoes, au, *s.* (diwair—moes) a chaste demeanour.
O Dduw, erfai ddiweirfoes—O God, what avails the chaste demeanour? *D. G.*
Diweithedd, *s.* (diwaith) inactivity.—Anweithgarwch.
Diweithred, *a.* deedless.—Diwaith, diymadferth
Amcanion diweithred ni ryngant fodd—intentions without deeds will not avail.
Diwely, diwel, *v. a.* (di—gwal) to dislodge; to empty.
Diwel y drol—to raise the box of a cart so as to empty it. *Demat.*

Diwellâd, *s.* (di—gwellau) a being unmended.
Diwellaol, *a.* not apt to mend.—Anwellaol.
Diwellau, â, *v.* to cease mending.
Diwellig,† *a.* (diwall) not apt to fail.—Anwellig.
Llaw diwellig — a never failing hand. *G. Gyr.*
Diwellt, *a.* (di—gwellt) without grass or straw.
Diwelltiad, *s.* a divesting of grass.—Dadwelltiad
Diwelltu, a, *v. a.* to divest of grass.—Dadwelltu.
Diwelltu 'r ddaear—to bare the earth.
Diwên, *a.* (di—gwên) not smiling; not laughing
Diweniaith, *a.* (di—gweniaith) without flattery
Diweniaith wyf—I am free from flattery. *D. G.*
Diwenieithu, a, *v.* to cease flattering or wheedling.
Diwenieithus, *a.* unflattering.—Anffladrus.
Diwenwyn, *a.* (di—gwenwyn) not venomous.
Diwenwyniad, *s.* a divesting of venom or poison
Diwenwyno, a, *v. a.* to expel poison; to divest of inflammation.—Dadwenwyno.
Diwenwynol, *a.* unvenomous.—Diwenwyn.
Diwersyll, *a.* (di—gwersyll) having no camp.
Diwersylliad, *s.* a breaking up of a camp.—Anwersylliad.
Diwersyllog, *a.* unencamped.—Dadwersyllog.
Diwersyllu, a, *v. a.* to break up a camp.
Diwerth, *a.* (di—gwerth) worthless, valueless.
Er dâed fo'r gair diwerth—howsoever precious the unpurchased word may be. *I. Fyng.*
Diwerthiad, *s.* a ceasing to sell.—Anwerthiad.
Diwerthol, *a.* unsaleable.—Anwerthadwy.
Diwerthu, a, *v.* to cease selling.—Peidio gwerthu
Diwes,† *a.* (dy—gwes) immediate, proximate.
Diwes,† a, *v.* to close, to come up with.
Pan el y gwas ar hon i ddiwes y byd—when the youth shall go upon this one to overtake the world. *R. D. L.*
Diwesog,† *a.* having no distance.—Pell.
Diwesol,† *a.* tending to be immediate.
Diwest, *a.* (di—gwest) without a visitation.
Diwestl,† *a.* (di—gwestl) without scattering; unconfused.
Trom gad diwestl—the sad conflict without raging. *P. M.*
Diwestliad,† *s.* a ceasing to rage.—Dofiad.
Diwestlog,† *a.* without raging.—Diangerdd.
Diwestlu,† a, *v.* to cease raging.—Dofi.
Diwesu,† diwes, *v.* (diwes) to approximate.
Diwethl, *s.* (dy—gwethl) the pimpernel or pimpinel.—Brathlys, llysiau 'r cryman.
Diwg, *a.* (di—gwg) not frowning; not angry.
Diwir, *a.* (di—gwir) without truth, untrue.
Diwiriad, *s.* a divesting of veracity.—Anwiriad.
Diwiriant, *s.* want of veracity.—Anwiriant.
Diwirio, ia, *v.* to divest of veracity; to be untrue.
Diwiriol, *a.* tending to be false.—Anwiriol.
Diwisg, *a.* (di—gwisg) without dress or clothes.
Diwisgo, a, *v. a.* to strip, to undress.—Dadwisgo.
Diwith,† *a.* (di—chwith).—Dichwith. *R.*
Diwladaidd, *a.* (di—gwladaidd) not rustic.
Diwladeiddiad *s.* a divesting of rusticity.
Diwladeiddio, ia, *v.* to divest of rusticity.
Diwladeiddiol, *a.* tending to divest of rusticity.
Diwlith, *a.* (di—gwlith) without dew.
Diwlith, *s. f.* the true maiden hair.—Diwlydd.
Diwlithiad, *s.* a drying up of dew.
Diwlitho, a, *v.* to dry up dew.—Dadwlitho.
a. not apt to be dewy
Diwlydd, *a.* (di—gwlydd) without vegetation; bare.
Diwlydd bre—bare of vegetation is the hill. *Ll. H.*
Diwlydd, *s. f.* the true maiden hair.—Diwlith.
Diwllio,† *v.* (diwyll) to plough.—Diwyllio. *R.*
Diwnï, *a.* (di—gwnï) seamless, having no seam.
Diwnïad, *s.* a divesting of seam.
Diwnïad, *a.* without seam.—Heb wnïad.
A'i bais ef oedd ddiwnïad—and his coat was without seam. *B.*
Diwnïo, wnïa, *v. a.* to unsew; to rip.—Dadwnïo
Diwobrwy, *a.* (di—gwobr) without reward.
Diwobrwyad, *s.* a ceasing to reward.
Diwobrwyedig, *a.* unrequitted, unrewarded.
Diwobrwyo, a, *v.* to cease rewarding.
Diwobrwyol, *a.* unrewarding.—Anwobrwyol.
Diwosgo,† *a.* (di—gwosgo) without flinching.
Byddwch ddyun ddiwosgo pan ddel gwŷr Rhufain—be you unanimous and untimidated when the men of Rome come. *G. A.*
Diwosgoad,† *s.* a ceasing to go aside.
Diwosgoawl,† *a.* not going aside.—Diosgoawl.
Diwosgoi,† goa, *v.* to cease going aside.—Diosgoi
Diwosgryn,† *a.* (di—gwosgryn) without trembling.
Diwr, *a.* (di—gwr) without a husband.—Gweddw.
Diŵraidd, *a.* unmanly, enervated.—Anwrol.
Diwraidd, *a.* (di—gwraidd) rootless, without roots.
Diwraig, *a.* (di—gwraig) without wife, single.
Diŵredd, *s.* (diwr) want of manliness.
Diwregys, *a.* (di—gwregys) without a girdle.
Diwregysiad, *s.* an ungirting.—Anwregysiad.
Diwregysol, *a.* ungirdled.—Anwregysol.
Diwregysu, a, r. *a.* to ungirt.—Dadwregysu.
Diŵreiddiad, *s.* (diwr) emasculation.—Efnychiad.
Diwreiddiad, *s.* (diwraidd) eradication.—Dadwreiddiad.
Diwreiddiedig, *a.* rooted up, grubbed up.
Diŵreiddio, ia, *v.* (diwr) to emasculate.
Diwreiddio, ia, *v. a.* (diwraidd) to root up; to displant.
A'r cestyll cedeirn a ddiwreiddynt—and they rooted up the strong castles. *G. A.*
Diwreiddiol, *a.* eradicative.—Dadwreiddiol.
Diwres, *a.* (di—gwres) without heat or ardour.
Diwres Dwyrain dros deirawr—the East was without heat for three hours. *G. Gl.*
Diwresiad, *s.* a divesting of heat.—Dadwresiad.
Diwresog, *a.* not hot; not wanton.
Diwresogi, a, *v.* to become cold.—Oeri.
Diwresogiad, *s.* a divesting of heat or ardency.
Diwresogrwydd, *s.* want of heat.
Diwresu, a, *v.* to divest of heat; to become cold.
Diŵriog, *a.* (diwr) husbandless; single.
Diwrnod, iau, *s.* (diwarnod, L. *diurnum, diurnus, dies;* C. *dzhyrna*) a certain day, a juncture of time; a day.—Dwthwn.
Diwrnod, ydyw'r dydd a'r nos ynghyd, sef pedair awr ar hugain—the juncture of time called *diwrnod*, contains the day and night together, being twenty four hours. *Arv.*—*see dydd.*
A bu ar ryw ddiwrnod—and it came to pass on a certain day. *B.*
Cadw yr ydych ddiwrnodiau—ye observe days. *B.*
Diwrnod o waith—a day's work.

Nid y bore y mae canmol diwrnod teg—it is not in the morning that the fine day is to be praised. *D.*

Diwrnodio, ia, *v. a.* to do a day's work.

Diwrnodol, *a.* diurnal, daily.—Beunyddiol.

Diwrnodwr, wyr, *s.* a day man, a journeyman.

Diwrtaith, *a.* (di—gwrtaith) unameliorated; unmanured; uncultivated.—Didriniaeth.

Diwrteithiad, *s.* a rendering unameliorated.

Diwrteithio, ia, *v.* to cease ameliorating or enriching.

Diwrteithiol, *a.* unameliorating.—Anwrteithiol.

Diwrth, *a.* (di—gwrth) without opposition.

Diwrthdro, *a.* (di—gwrthdro) without reverting

Diwrthdroawl, *a.* irreversible.—Anwrthdroawl

Diwrthdroi, droa, *v.* to cease reverting.

Diwrthdyn, *a.* (di—gwrth—dyn) without contention.

Diwrthdyniad, *s.* a ceasing to contend.

Diwrthdynol, *a.* uncontending.—Anwrthdynol

Diwrthdynu, a, *v.* to cease contending.

Diwrthddadl, *a.* (di—gwrthddadl) without controversy.

Hawl ddiwrthddadl—an indisputed claim. *C. C.*

Diwrthddadledd, *s.* incontrovertibleness.

Diwrthddadliad, *s.* a ceasing to controvert.

Diwrthddadlol, *a.* incontrovertible, indisputable.

Diwrthadlu, a, *v.* to cease controverting.

Diwrtheb, *a.* (di—gwrtheb) without contradiction.

Diwrthebol, *a.* uncontradictory.—Diwrthddadl

Diwrthludd, *a.* (di—gwrthladd) without opposition.

Diwrthladdol, *a.* unopposing.—Diwrthwyneb.

Diwrthlam, *a.* (di—gwrthlam) without recurrence.

Diwrthryn, *a.* (di—gwrthryn) without resistance.

Diwrthrynadwy, *a.* irresistible.—Diwrthladd.

Diwrthrynedig, *a.* unresisted.—Anwrthrynedig

Diwrthrynedd, *s.* nonresistance.—Anwrthrynedd.

Diwrthryniad, *s.* nonresistance.—Anwrthebiad.

Diwrthrynol, *a.* unresisting.—Anwrthwynebol

Diwrthrynu, a, *v.* to cease resisting.

Diwrthwyneb, *a.* (di—gwrthwyneb) without opposition.

Diwrthwynebiad, *s.* a ceasing to oppose or resist.

Diwrthwynebol, *a.* unopposing.—Diwrthrynol.

Diwrthwynebu, a, *v.* to cease resisting or opposing.

Diwrthymdrech, *a.* (di—gwrthymdrech) irresistible.

Diwryg,† *a.* (di—gwryg) infirm, weak, feeble.

Diwrygiad,† *s.* enervation.—Gwanhâd.

Diwrygio, ia, *v.* to grow infirm.

Diwrygiol, *a.* tending to enervate.

Diwrym, *a.* (di—gwrym) seamless.—Diwnïad.

Diwybod, *a.* (di—gwybod) unknowing, ignorant.

Diwyd,† ion, *s.* (di—gwyd?) adherence; an adherent; a disciple; a toil.—Ymlyniad, ymlynydd; disgybl; llafur.

Diwyd dy dad wyt â dart—thou art thy father's adherent with a dart. *H. Geth.*

A'th ddiwydion i'th adael—and thy disciples leaving thee. *R. Leiaf.*

Y diwyd mawr—the great toil. *Ll. H.*

Diwyd, *a.* diligent, assiduous, industrious; toiling.

Diwytaf i fleiddian ei genad ei hunan—his own messenger is most diligent for the little wolf. *D.*

Diwydiaeth, *s.* assiduity, diligence.—Dyfaledd

Diwydio, ia, *v.* to use assiduity, to toil.

Diwydiol, *a.* of diligent disposition.

Diwydiwr, wyr, *s.* one who adheres; a diligent person.—Ymlynwr, disgybl; dyfalwr.

Diwydrwydd, *s.* assiduity, diligence.—Dyfalrwydd.

Diwydwraig, *s. f.* (diwyd—gwraig) a midwife.—Bydwraig.

Diwyg, ion, iau, (di—gwŷg) a repaired state; completeness; form; habit-dress; fashion; dress, attire.

Diwyg, *a.* without depravity; unvitiated, undepraved, not degenerated.—Diaothach, diwŷg.

Diwygiad, au, *s.* a rendering unvitiated; a reform, reformation; expiation.

Amser y diwygiad—the time of reformation. *B.*

Y Diwygiad Protestanaidd—the Protestant Reformation.

Ysgrif y diwygiad—the Reform Bill.

Diwygiadus, *a.* emendatory.—Gwellaol.

Diwygiadwy, *a.* reformable, reclaimable.

Diwygiaeth, *s. f.* correction.—Gwelliant.

Diwygiedig, *a.* reformed, corrected, amended.

Diwygiedigol, *a.* reformative, reparative.

Diwygiedydd, ion, *s.* emendator, reformer.

Diwygio, ia, diwyg, diwg,† *v.* to reform, to correct; to redress; to be amended.

Y gyflafan a wnel dyn o'i anfodd, diwygied o'i fodd—the crime which a man commits against his will, let him correct it wilfully. *C. C.*

Ni'm dawr dim ni'm diwg—I do not care the least and I will not amend. *C.*

Diwygio bai—to make a satisfaction. *Dr. D.*

Diwygiol, *a.* corrective, expiatory.

Diwygiwr, wyr, *s.* a reformer, a redresser.

Y Diwygwyr—the Reformers.

Diwygus, *a.* complete, in good plight.

Diwyl, *a.* (di—gwyl) unbashful, not diffident.

Diwyl yw angeu, diwylach a edeu—death is impudent, more impudent him that he should spare. *D.*

Diwyledd, *s.* want of bashfulness, impudence.—Haerllugrwydd.

Diwyll, ion. *s.* (di—gwyll) clearance; culture; a cultivated state.—Cliriad, glanhâd; triniad, gwelliad.

Diwyll,† *s.* worship.—Addoliad, golychwyd.

Diwyll Duw—the worship of God, a divine worship. *Dr. D.*

Diwylliad, au, *s.* a rendering clear; cultivation; a worshipping.—Gwrteithiad; triniad; addoliad.

Diwylliadwy, *a.* capable of being cultivated or cleared.

Diwylliaeth, *s. f.* cultivation.—Amaethyddiaeth.

Diwylliant, *s.* cultivation; worship.

Diwylliawd,† *s.* the act of clearing; cultivation.

Diwylliawdr, iodron, *s.* a cultivator, a husbandman.

Diwylliawdr tir—a tiller or dresser of land. *Dr. D.*

Diwylliedig, *a.* cultivated, cleared.—Amaethedig.

Diwyllio, ia, diwyll, *v. a.* to cultivate; to husband, to till.—Coleddu, trin, amaethu.

Diwyllio tir—to till the ground. *Dr. D.*

Diwyllio,† diwyll, *v. a.* to worship.—Addoli.

Diwylliodraeth, *s. f.* cultivation.—Diwylliaeth.

Diwylliog, *a.* cultivated, cleared.

Diwylliwr, wyr, *s.* a cultivator; a husbandman; a worshipper.—Coleddwr; amaethwr; addolwr.

Diwylliwr Duw†—a worshipper of God. *Dr. D.* [wyllio.

Diwyllu, a, *v. a.* to clear; to cultivate.—Di-

Diwyllus, *a.* in a cultivated state.—Diwylliog.

Diwyllydd, ion, *s.* a cultivator.—Ymgeleddwr.

Diwyllyniog, *a.* cultivated, cleared.

Diwyn,† *s.* (dy—gwyn) satisfaction.—Boddhâd. *Dr. D.*

Diwyn,† *v.* to make white; to make fair; to bless.—Dywyn, gwynu, tecau; bendithio. *Dr. D.*

Dos at Arthur i ddiwyn dy wallt—go to Arthur to consecrate thy hair. *Mab.*

Diwyn, *a.* (di—gwyn) not white or fair.—Diwyn.

Diwynadwy, *a.* capable of being soiled.

Diwyneb,†*s.* (dy—gwyn) a blessing.—Dywyneb.

Tri diwyneb gwlad y sydd — there are three blessings of a country. *C. C.*

Diwynedig, *a.* (di—gwyn) sullied, polluted.—Difwynedig.

Diwynfyd, *a.* (di—gwynfyd) without happiness.

Daeth i wanfeirdd daith diwynfyd—there is come to the miserable bards a course void of happiness. *Rhis.*

Diwyniad, au, *s.* a dirtying.—Difwyniad.

Diwyno, † diwyn, *v.* (dy—gwyn) to make fair.—Dywyno. *R.*

Diwyno, a, *v.* (di—gwyn) to sully, to dirty; to pollute, to contaminate.—Difwyno.

Diwynol, *a.* tending to sully.—Difwynol.

Diwynwr, wyr, *s.* one who dirties; a defiler.

Diwyr, *a.* (di—gwyr) not oblique; straight.—Union.

Diwyredd, } *s.* freedom from obliquity.—An-

Diwyrni, } ogwyddiad; unionedd.

Diwyro, a, *v.* to divest of obliquity.—Unioni.

Diwyth, (diwyth) (di—gwyth) *a.* void of wrath.

Ni byddai diwyth i lwyth eswydd—he would not be without ire to the hostile tribe. *Meil.*

Diwythad, *s.* a ceasing from ire.—Annigder.

Diwytho, a, *v.* to cease from ire.—Diddigio.

Diwythol, *a.* unwrathful, mild.—Tyner.

Diwywiant, *a.* (di—gwyw) not faded.—Anwyw

Diygiad, *s.* (diwg) a ceasing to frown.

Diygol, *a.* unfrowning; not glancing.

Diygu, a, *v.* to cease frowning.—Diwgu.

Dymadferth, *a.* (di — ymadferth) helpless, inactive.

Dymadferthrwydd, *s.* helplessness. — Anghymmhorth.

Dymadferthwch, *s.* listlessness, inactivity.

Dymanerch, *a.* (di—ymanerch) ungreeted.

Oni buasai i'm cyfaill yn ddiymanerch fy nghipio ymaith—if my friend had not without ceremony snatched me away. *B. C.*

Dymarbed, *v.* (di—ymarbed) to cease abstaining.

Dymarbed, *a.* unabstemious.—Diymattal.

Dymarbod, *a.* (di—ymarbod) unprepared.—Ammharod. [claim.

Dymarddelw, wa, *v.* (di—ymarddelw) to disclaim.

Dymarddelw, *a.* unclaiming.—Dihonaid.

Dymarfer, *a.* (di—ymarfer) unexperienced.

Dymaros, *a.* (di—ymaros) without staying.

Dymattal, *a.* (di—ymattal) unrestrained.

Dymbaid, *a.* (di—ymbaid) incessant, continual

Dymchwiliad, *a.* (di — ymchwiliad) uninquisitive. [mhorth.

Dymdaro, *a.* (di—ymdaro) helpless.—Digym-

Dymdawr, *a.* (di—ymdawr) careless, indifferent

Dymdawredd, *s.* indifference.—Difaterwch.

Dymdor, *a.* (di—ymdor) unbroken. *J. O.*

Dymdro, *a.* (di—ymdro) inflexible, direct.

Dymddiddan, *a.* (di—ymddiddan) inconversible

Llwyr ddiymdro—quite inflexible. *I. B. H.*

Dymddiffyn, *a.* (di—ymddiffyn) defenceless.

Dymddiffynol, *a.* undefending. — Anamddiffynol.

Dymddiffynrwydd, *s.* unguardedness, undefencibleness.

Dymddiried, *a.* (di—ymddiried) without confidence.

Dymddiriedog, *a.* having no confidence.

Dymddiriedol, *a.* unconfiding.—Anhyderol.

Dymddiriedus, *a.* untrusting.—Anhyderus.

Dymeiriach, *a.* (di—ymeiriach) without dispute

Dymenydd, *a.* (di—ymenydd) without brains.

Dymgais, *a.* (di—ymgais) unambitious; easy.

Dymgel, *a.* (di — ymgel) unsecluding; unhidden.

Yr eryr iaith ddiymgel—the eagle of unambiguous speech. *Y. A. E.*

Dymgeledd, *a.* (di—ymgeledd) having no aid

Dymgudd, *a.* (di — ymgudd) unsecluding; open.

Dymgyrch, *a.* (di—ymgyrch) unfrequented.

Goleuni diymgyrch—light not to be approached.

Dymmod, *a.* (di—ymmod) motionless; immovable.—Disymmudol, disymmud, diysgog

Byddwch sicr a diymmod—be ye steadfast and unmovable. *B.*

Byddwch ddioed, ac yn ddiymmod—be without backwardness, and immovable. *S. T.*

Dymmodadwy, *a.* immovableness.—Diysgogadwy.

Dymmodedig, *a.* unmoved.—Anysgogedig.

Dymmodi, a, *v.* to cease moving.—Anysgogi.

Dymmodiad, au, *s.* immobility.—Ansymmudiad.

Dymmodol, *a.* not apt to move.—Anysgogol.

Dymmodrwydd, *s.* immovableness; constancy.

Dymogel, *a.* (di—ymogel) unguarded; bold.—Hyf.

Dymogelu, a, *v.* to be unguarded.—Anymogelu.

Dymogelwch, *s.* unguardedness.—Anymogelwch.

Dymoralw, *a.* (di—ymoralw) uninquisitive.

Dymosgryn,† *a.* (di — ymosgryn) listless, inactive.

Fe'th aned yn ddiymosgryn—thou wert born without the power of moving. *J. S. H.*

Dymroad, *a.* (di—ymroad) irresolute, fluctuant

Dymryson, *a.* (di—ymryson) without contention.

Dymrysonedd, *s.* freedom from contention or dispute.

Diymrysoni, diymryson, *v.* to cease from contention.
Diymrysoniad, *s.* a ceasing from contention.
Diymrysonol, *a.* uncontentious.—Anymrysonol.
Diymsang, *a.* (di—ymsang) without depression.
Diymsathr, *a.* (di—ymsathr) without treading.—Disathr.
Diymsyniad, au, *s.* (di—ymsyniad) a ceasing from thinking or reasoning.—Anymsyniad.
Diymsyniad, *a.* insensible; irrational.—Direswm.
Anifeiliaid diymsyniad—animals void of reason.
Diymsynio, ia, *v.* to cease from thinking.
Diymsyniol, *a.* irrational; insensible.—Afresymol.
Diymwad, *a.* (di—ymwad) undenying.—Diammheu.
Diymwadiad, *s.* a ceasing to deny.
Diymwadol, *a.* undenying.—Diammheuol.
Diymwadrwydd, *s.* undeniableness.
Diymwadu, a, *v.* to cease denying.
Diymwan, *a.* (di—ymwan) undefending.
Diymwared, *a.* (di—ymwared) irremediable.
Diymwarediad, *s.* a being without deliverance.
Diymwaredol, *a.* unredeeming.—Anwaredol.
Diymwaredu, a, *v.* to cease redeeming.
Diymwasg, *a.* (di—ymwasg) uncompressed.
Diymwasgiad, *s.* a ceasing to compress.—Anymwasgiad.
Diymwasgol, *a.* uncompressing.—Anymwasgol.
Diymwasgu, a, *v.* to cease compressing.
Diymwel, *a.* (di—ymwel) unvisiting; solitary.
Diymweliad, *s.* void of a visit.—Anymweliad.
Diymwosgryn,† *a.* (di—ymwosgryn) listless; dull.
Diymwosgrynedd,† *s.* listlessness, inactivity.
Diymwosgrynol,† *a.* apt to be listless.—Diegni.
Diymwrthladd, *a.* (di—ymwrthladd) unopposing.
Diymwrthryn,† *a.* (di—ymwrthryn) unresisting.
Diymyr, *a.* (di—ymyr) without officiousness.
Diymyrgar, *a.* unofficious.—Anymhongar.
Diymyriad, *s.* a ceasing to meddle with.
Diymyrol, *a.* unofficious.—Anymyrgar.
Diymyru, a, *v.* to cease meddling.
Diynfyd, *a.* (di—ynfyd) not foolish or mad.
Diyni, (diŷni) *a.* (di—yni) without vigour; feeble.
Diysbryd, *a.* (di—ysbryd) spiritless, lifeless.
Diysbrydedd, *s.* dispiritedness.—Digalondid.
Diysbrydol, *a.* dispirited.—Diegni; llwfr.
Diysbwrial, *a.* (di—ysbwrial) without rubbish.
Diysbwrialu, a, *v.* to clear of rubbish.
Diysglawringo, a, *v. a.* (di—ysglawringo) to deglutinate.
Diysgog, *a.* (di—ysgog) immovable, unshaken.
Y llong a safodd yn ddiysgog—the ship remained unmovable. *B.*
Diysgogedd, *s.* immovableness.—Anysgogedd.
Diysgogi, a, *v.* to become steadfast.
Diysgogiad, *s.* a making or becoming immovable.
Diysgogol, *a.* not apt to shake.—Anysgogol.
Diysgogrwydd, *s.* immovableness.—Anysgogrwydd.
Diysmudedig, *a.* (di—ysmudo) unmoved; steadfast.
Diysmudiad, *s.* immobility.—Disymmudiad.
Diysmudol, *a.* unmoving.—Ansymmudol.
Diyspydd, *a.* (di—yspydd? di—hysp) inexhaustible, unvoided.—Dihyspydd, diddyspydd.
Diyspyddadwy, *a.* inexhaustible.—Anhyspyddadwy.
Diyspyddiad, *s.* a ceasing to void.—Dihyspyddiad.
Diyspyddol, *a.* not apt to be empty.
Diyspyddu, a, *v.* to cease voiding.—Dihyspyddu.
Diyssig, *a.* (di—yssig) not frail or wasting away.
Dewrrwyr diyssig frodyr—daring men and steady brethren. *Ll. H.*
Diystryw, *a.* (di—ystryw) without tricks or wiles.
Diystwng,† *a.* (di—ystwng) unobeying; free.
Trigiant draig diystwng—the dwelling of the unsubjected chief. *E. M. Rh.*
Diystyr, *a.* (di—ystyr) inconsiderate, unimportant, contemptible.—Dirmygus, gwael.
Diystyradwy, *a.* contemptible.—Dirmygadwy.
Diystyredig, *a.* contemned, despised.—Dirmygedig.
Diystyredd, *s.* contemptibleness.—Distadledd.
Diystyriad, au, *s.* a contemning, a despising.
Diystyriaeth, au, *s. f.* inconsiderateness.—Dirmygiaeth. [mygu.
Diystyriod, *v.* to disregard, to despise.—Dir-
Diystyrio, ia, *v.* to disregard.—Dibrisio.
Diystyriol, *a.* not apt to consider.—Anystyriol.
Diystyru, a, *v.* to disregard, to despise.—Dirmygu.
Diystyrwch, *s.* disregard, disesteem, contempt.
Diystyrwr, wyr, *s.* a contemner, a disregarder.
Dled, ion, (dlêd) *s. col.* (dyled) obligation debt.—Dyled.
Dlyed,† ion, *s.* obligation, duty.—Dyledswydd.
Dlyedus,† *a.* obligatory, obliged, due.—Dyledus.
Do, *ad. r.* yes, yea; done, it is done (in answer to questions in the past tense).
Dy dad a gerais, do, do, do 'n foddus, Duw nef iddo—thy father I loved, yea, yes, yes affectionately, God of heaven be his portion. *Ll. L.*
A fu hi yno? Na ddo—has she been there? No.
A roed peth i ti? Na ddo ddim—was there some given to thee? No, not any.
Dobrwy, on, *s.* (dy—gobrwy) a bribe, a fee.
Dobrwyad, au, *s.* a bribing.—Gobrwy, brib.
Dobrwyo, a, *v. a.* to bribe, to fee.—Gobrwyo.
Dobrwyol, *a.* tending to bribe.—Gobrwyol.
Dobry,† *ad.* (dy—obry) below, underneath.—Obry.
Doco,† *ad.* (dy—oco; dacw) yonder, lo yonder lo there.—Dacw, acw.
Doco fy hudol—yonder is my charmer. *D. B.*
Doctor, iaid, *s.* (Ll. *doctor*) a title of learned distinction; a learned man, a teacher; a physician; an apothecary.—Gradd o fri; gŵr llên; athraw, doethawr, doethor, dysgawdwr; meddyg; cyfferydd.
Doctor Athroniaeth (D. A.)—Doctor of Philosophy (Ph. D.).
Doctor Cyfreithiau (D. C.)—Doctor of Laws (Ll. D.).
Doctor Cyfraith Leyg, } (D. C. L.;
Doctor Cyfraith Wladol, } D. C. W.)—Doctor of Civil Law, Doctor in Civil Law (D. C. L.).

Doctor Duwinyddiaeth (D. D.)—Doctor of (in) Divinity (D. D.).
Doctor Meddyginiaeth (D. M.)—Doctor of Medicine, Doctor of Physic (M. D.).
Doctor Peroriaeth (D. P.)—Doctor of Music (Mus. Doc.).
Gamaliel, doctor o'r gyfraith—Gamaliel, a doctor of the law. *B.*
Phariseaid a doctoriaid y gyfraith—Pharisees and doctors of the law. *B.*

Doctora, *v.* to doctor, to physic.—Meddygu.
Doctoraidd, *a.* doctorly. Doethoraidd.
Doctores, au, *s.* a doctress, a doctoress.—Doethores; meddyges, meddygwraig.
Doctoriaeth, *s. f.* a doctorate, doctorship.
Doctorol, *a.* doctoral.—Doethorol.
Dod (dôd) *v.* (dyfod) to come; to be.—Dyfod.
Y mae'r dyddiau'n dod i ben—the days are coming up. *W. W.*

Dodi, dod, *v. a.* (dawd) to put, to lay, to deposit; to place; to set, to plant; to appoint; to give.—Rhoddi; gosod; appwyntio.
Dodi ar—to place or fix upon.
Dodi ar y gyfraith—to leave or to appeal to the law. *C. C.*
Dod i mi—give to me.
Dod dy law ar dy galon—lay thy hand on thy heart. *D.*

Dodiad, au, *s.* a placing.—Gosodiad, rhoddiad.
Dodiadol, *a.* positional, belonging to a place.
Dodion, *s. pl.* data.—Rhoddedigion; seiliau.
Dodion Euclid—the data of Euclid.
Dodol, *a.* positional, set, laid.—Dodiadol.
Dodren,† *s. ag.* (contraction of *dodrefn*) furniture, household stuff.—Dodrefn; celfi.
Dod ran hardd o'r dodrefn hyn—give a fair portion of this furniture. *T. A.*

Dodrenyn,† *s. sing.* an utensil, an implement.
Dodrefn, oedd, *s. ag.* (dyodrefn? dodi—trefn? *I. D. R.* would have it written *dyfodren*, *Dr. D.*) furniture, household stuff; implements; utensils; instruments; jewels.—Trec, taclau, celfi, llestri; offer; addurnau.
Holl ddodrefn y babell—all the furniture of the tabernacle. *B.*
Y tabernacl a gwaith ei holl ddodrefn—the tabernacle and the pattern of all the instruments thereof. *B.*
Dodrefn o arian a dodrefn o aur—jewels of silver and jewels of gold. *B.*

Dodrefniad, *s.* a furnishing.—Treciad.
Dodrefniedydd, ion, *s.* a cabinet maker.—Cistanydd.
Dodrefnol, *a.* belonging to furniture.
Dodrefnu, a, *v. a.* to furnish.—Trecio; trefnu.
Dodrefnu ymddiddanion—to embellish discourses. *H. P.*

Dodrefnwr, wyr, *s.* a furnisher.—Treciwr.
Dodrefnyn, *s. sing. d.* a piece of furniture.
Dodw,† *s.* (dawd) a laying, a setting.—Dodiad.
Dodwi,† *v.* to lay, to deposit. Dodwy.
Dodwy, a, *dodwa, v. a.* to lay, to deposit; to lay eggs.
Wyau asp a ddodwyasant—they hatch cockatrice's eggs. *B.*
Cyw iar gwedy y dodwo—a chick after it lays. *C. C.*
Ac yna dodwes ar geneu blaidd—and she laid a wolf's cub. *Tri.*

Dodwyog, *a.* used to lay.
Iar ddodwyog—a laying hen. *C. C.*

Doddi,† *a v.* (daw) to come.—Dyfod.
Doddoedd hi yma—she had come here.
Doddwy—I am come.
Doddyw—he is come.
Ni ddoddynt tros fôr eilwaith—they will not come over sea again. *M.*

Doe, *s.* (do? L. *dies*) yesterday: *ad.* yesterday.
Doe i rhoddwyd ŵr haeddol—yesterday the meritorious man was given. *R. J.*

Doediad,† iaid, *s.* (goediad? dywediad) a sayer.
Erchiad a doediad ydwyf—a demander and a teller am I. *A. T.*

Doedol,† *a.* enunciative, speaking.—Dywedol.
Doedyd,† a, *v.* (dywedyd) to say, to speak.—Dywedyd.
I'r byd yn doedyd yn deg—speaking fairly to the world. *T. P.*

Doeth, *a. r.* (oeth?) wise, sage, prudent, discreet, judicious, eloquent, pert.—Call, pwyllog.
A fo doeth ef a dau—that is wise he will be silent. *G. I. H.*

Doeth, ion, *s.* a sage, a wise person; a philosopher; a wizard.—Gŵr call; athronydd.
Y doethion o'r dwyrain—the wise men from the east. *B.*
Y doethion—wise men, lawyers. *C. C.*
Ymryson a doeth ti a fyddi doethach—dispute with the wise thou wilt be wiser. *D.*

Doeth,† *v.* (daw) has come.—Daeth. *Dr. D.*
Doethaidd, *a.* (doeth) of a wise disposition.
Doethawr, orion, *s.* a doctor.—Doctor.
Doethbrudd, *a.* (doeth—prudd) wisely serious.
Synhwyrau y cynghorau doethbrudd—the meanings of the wisely serious councils. *L. G. C.*

Doethbwyll, *a.* (doeth—pwyll) wisely prudent.
Doethbwyll, *s.* a sagacious understanding.
Doethder, *s.* (doeth) sagacity, wisdom.—Doethineb.
Doethedig, *a.* endued with wisdom.
Doethfawr, *a.* (doeth—mawr) wisely, great.
Doethgar, *a.* (doeth) sage, prudent; philosophical.
Doethi, a, *v.* to show wisdom; to talk pertly.
Doethineb, *s. f.* wisdom; sagacity; discretion.—Callineb, synwyr; pwyll; gochelgarwch.
The feminine is the *rule* for this word:—
Doethineb a adeiladodd ei thŷ, hi a naddodd ei saith golofn—wisdom hath builded her house, she hath hewn out her seven pillars. *B.*
A doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun—but wisdom is justified of her children.
A pha ddoethineb yw hon—and what wisdom is this?

Doethol, *a.* tending to wisdom.—Pwyllog.
Doethor, ion, iaid, *s.* a doctor.—Doethawr.
Doethus, *a.* of a sage disposition.—Doethgar.
Doethawr, wyr, *s.* a wise man, a sage.
Doethyn, *s. d.* a wise-acre.—Ffwlcyn, cadafael.
Dof [dôf], *a. r.* (of? L. *domo, domitus*) tame, gentle; trained.—Gwar; trefig.
Dof, od, *s.* a useful thing, utensils.—Trecyn.
Dof, *v.* (deuaf) I shall come.—Deuaf.
Dofadwy, *a.* tamed, trained.—Gwaradwy.
Dofaeth,† *s.* tameness, domesticity.
Caeth dofaeth—a slave of domesticity. *C. C.*

Dofaidd, *a.* of a gentle disposition.
Dofawd, odion, *s.* a training; a luck.

Y dofawd a gawsai—the luck he had obtained. *Mab.*

Dofawl, *a.* tending to make tame.

Dofedig, *a.* trained, tamed, broken in.

Dofi, a, *v. a.* (Arm. *dovi;* C. *dova;* Gr. *domaô*) to tame; to train, to break in.

Dofiad, *s.* a training, a taming.—Gwarhâd.

Dofn, *a. f.* (dwfn) deep: *m.* dwfn.

Dofr,† au, *s.* (dof) domesticity.—Dofaeth.

Dofraeth,† au, *s. f.* usage; tribute; domesticity; lodging, quarters.—Arfer; teyrnged; lletty.

Myned ar ddofraeth—to go into quarters. *C. C.*

Dofrawl,† *a.* tending to domiciliate.

Dofredig,† *a.* domiciliated, quartered.

Dofreithiad,† *s.* domiciliation.—Cartrefiad.

Dofreithio, ia, *v.* to domiciliate.—Anneddu.

Dofreithiwr, wyr, *s.* one who is in quarters.

Beth bynag a ddangosir i'r dofreithwyr—whatsoever shall be shewn to the domicils. *C. C.*

Dofri,† a, *v.* to domiciliate, to lodge.—Cartrefu.

Dofriad,† au, *s.* domiciliation.—Anneddiad.

Dofwr, wyr, *s.* (dof) a tamer, a trainer.

Dofydiad,† iaid, *s.* a former, an inventor; the Creator.

I'r byd a wnaeth Dofydiad—which the Creator for the world hath made. *D. Em.*

Dofydd, ion, *s.* (dof: L. *domitor*) one who forms or trains; a tamer; the regulator.—Gwneuthurwr; dofwr; rheolwr.

Duw ddofydd—God the regulator.

Rheg dofydd—the gift of the regulator.

Dofyddiad, iaid, *s.* one who regulates; an organizer.

Duw dofyddiad—God the regulator. *T.*

Dofft,† au, *s.* (?) a joist (*E. Ll.*); a beam (*T. J.*).

Dog,† *s.* (og?) a share, a dividend, a piece.—Dogn.

Dogn, au, *s.* a due quantity, a share, a proportion; an allowance; a dose; sufficiency,† enough.†—Rhan, cyfran; anrheg; traflwngo; digon.†

Dogn dydd yn ei ddydd—a day's allowance in its day. *B.*

Mae dogn ar bob peth—there is a measure for every thing. *D.*

Dognedig, *a.* proportioned, measured.

Dognedd, *s.* quantity, proportion; enough.†

Dognfynag, *s.* (dogn—mynag) a legal declaration (by an eye witness as to a crime committed).—Tystiolaeth gyfreithiol (gan lygad-dyst o drosedd a gyflawnwyd).

Credadwy a fydd mynegwr a wnel dognfynag—an informer that shall make a certitude of discovery shall be credited. *C. C.*

Dognfynag cyfreithiol yw llŵ crefyddwr a dyngo weled y lleidr liw dydd goleu a'r lladrad ganddo—a lawful certitude of disclosure is the oath of a religious man that shall swear seeing the thief in full day-light with the thing stolen in his possession. *C. C.*

Dogni, a, *v.* to proportion, to apportion.

Dogna dy gyflog arnaf—fix the amount of thy wages to me. *B.*

Dogniad, *s.* a proportioning; a sharing.

Dognol, *a.* proportional; sufficient.†

Dognwad,† *s.* (dogn—gwad) a sufficient denial.

Dognwaed,† *s.* (dogn—gwaed) a full or manifest blood; blood that runs from the head to the ground. *C. C.*

Dôl, dolydd, dolau, *s. f. r.* (ol? C. *dôl;* D. *dal*) a winding, a bow; a meander; a dale, a meadow; a band; a collar; a cup handle; a ring.—Plygiad; dolen; dyffryn, glyn, gwaen; rhwym, colar; coes, clust (cwpan); modrwy.

Caraf fi ei dolydd—I love its dales. *H. O. G.*

Dol, iau, *s. f.* (E. *doll;* Gr. *eidôlon*) a doll, a girl's puppet or baby.—Delw, delwan, pingoen, maban plentyn.

Dol,† *a. f.* (dwl) dull, blunt, stupid: *m.* Dwl.

Dolar, doleri, *s.* (E. *dollar;* D. *daler*) a dollar, a silver coin worth about 4s. 6d. *G. R. K.*

Doldir, oedd, *s.* (dôl—tir) meadow-land.—Gwaendir.

Dolef, au, *s. f.* (golef? dy—gor—llef) a shout, an outcry, a loud noise.—Bloedd.

Tair helfa ddolef y sydd—three pursuits with outcry there are. *C. C.*

Dolefain, *v.* to shout, to utter a noise.—Bloeddio

Udgorn nef yn dolefain—the trump of heaven resounding. *Gr. O.*

Dolen, au, *s. f.* (dôl) a winding, a turn; a curve, a bow, a bend; a loop; a ring.

Dolen cawg—a handle of a cup.

Dolen gwellaif—the ring of a scissors.

Bach a dolen—hook and eye.

Cwlwm dolen—a bow knot.

Dolenaidd, *a.* tending to curve.—Modrwyog.

Doleniad, au, *s.* curvature.—Plygiad.

Dolenog, *a.* having curves or bows.

Dolenol, *a.* curving, bowing.—Modrwyol.

Dolenu, a, *v.* to form a ring; to loop; to meander; to curve, to bend.—Modrwyo; plygu.

Dolff, au, *s.* a curve, a bow, a twirl.

Dolffyn,† iaid, *s.* (dolphin) a dolphin.—Dolphin.

Doli, a, *v.* (dôl) to form a ring or loop; to curve, to bend, to bow.—Dolenu.

Dôli, *s. f. d.* (dol) a little dol.—Delwan, dol.

Doliad, au, *s.* (doli) a curvation.—Doleniad.

Doloch,† *s.* (goloch? dy—gol—och) lamentation, moan.—Galar, ochenaid.

Y gŵr egniol ddoloch—the man of vehement groan. *H. R. G.*

Dolog, *a.* (dôl) having windings.—Dolenog.

Dolphin, } iaid, *s.* (Gr. *delphin;* L. *delphin,*
Dolphyn, } *delphinus;* Fr. *dauphin;* Ir. *deilf*) a dolphin.—Morhwch.

Yno mae dolphiniaid, moelrhoniaid, a lloi 'r môr—in there are dolphins, porpoises, and sea calves. *Han.*

Dolur, iau, ion, *s.* (golur? not inserted in Dr. P. as a principal word: L. *dolor*) dolor, dolaur, ache, pain, sour; sickness; grief, anguish.—Poen, gloes; gofid.

Dolur rhydd—the diarrhœa.

Y dolur gwaethaf—the leprosy. *R. M.*

Er dy gur a'th ddolurion—by thy sorrow and thy pains. *D. Rh.*

Doluriad, au, *s.* an aching, a smarting; a making sore, a wounding.—Archolliad.

Dolurio, ia, *v.* to ache; to smart, to pain; to be in pain; to make sore.—Gofidio.

Dwy ael aur a'm doluriodd—two golden eyebrows have wounded me. *H. R. G.*

Dolwch,† *s.* (golwch; dy—golwch) adoration, worship.—Addoliad, defosiwn.

Man nid oes dolwch byth—where is never a prayer. *T.*

Dolwg,† s. (dy—golwg) the act of beseeching.
Dolystain, teiniau, s. (dy—god—ystain) a sharp trembling noise; a quaver.—Gorlais.
Dolysteiniad, au, s. making a tremulous noise.
Dolysteinio, ia, v. to quaver. —Crychleisio.
Dolysteiniol, a. quivering.—Crugleisiol.
Dolystum, iau, s. (dôl—ystum) a curvature.
Dolystumiad, au, s. a making into a curving form.—Camystumiad.
Dolystumio, ia, v. to curve.—Gwyrgamu.
Dolystumiog, } a. curving, bending. — Ach-
Dolystumiol, } rwmg, plygedig, bwaog.
Dollwng,† v. (dy—gollwng) to let loose.—Gollwng.
Dollwng gwaed dan draed a drig—let blood that under foot continue. *I. G. I. Ll.*
Dollyngedig,† a. in a lapse state. – Gollyngedig.
Dollyngiad,† au, s. elapsing.—Gollyngiad.
Dollyngol,† a. tending to let loose.
Dom, s. (tom) dung, dirt, manure.—Tom, tail.
Don,† s. r. what is distinct or spread about.
Dondiad, s. a keeping under, a rebuke.—Ceryddiad.
Dondio, ia, v. a. to twit; to threaten.—Ysdwrdio.
Dondiol, a. apt to keep in awe.—Ceryddol.
Dondiwr, wyr, s. a threatener.—Bygythiwr.
Doniad, au, s. (dawn) an endowing; donation.
Doniaeth, s. f. endowment, grace.—Cynnysgaeth
Hydd iach doniaeth—the vigorous stag of endowment. *M. D.*
Doniedig, a. gifted, endowed.—Cynnysgaeddedig.
Donio, ia, v. to gift, to endow; to bestow, to confer, to present; to compliment.—Cynnysgaethu.
Mwyalchen a'n doniai â'i chân dyner—the thrush would compliment us with her tender song. *D. G.*
Doniog, a. gifted, endowed, of good parts.
Doniol, a. enduing, giving; gifted.
Dyn doniol—a talented man; a man of genius.
Doniwr, wyr, s. a gifter, an endower; a donor.
Donw,† } a. conferring virtue or grace.—
Donwy,† } Cynnysgaeddog.
Donwy,† v. to confer.—Donio. *Dr. D.*
Duw a'm donwy—may God endow me. *Dr. D.*
Do-odwf,† s. (dyodwf) increase.—Dyodwf. *C. C.*
Dôr, dorau [dôr], s. f. r. (Sw. *dör*; S. *dora*; Gr. *thyra*) a door; a guard; a cover; an enclosure.—Drws, porth; gorchudd; amgeufa.
Cadau dôr—the shield of battles. *C.*
O cafodd dau dorau dysg—if two have obtained the covering of learning. *W. C.*
Gwelaf ddydd trwy gil y ddôr—I see the day through the door a-jar. *D. G.*
Dorai, eion, s. (dawr) an object of commiseration; a forlorn one.—Adyn.
Dorcing,† od, s. a dorkin.
Ceiliog dorcing—a dorkin cock.
Dorfod,† v. (dawr—bod) to be concerned.
Dorglwyd, i, s. (dor—clwyd) a covering hurdle; a hurdle to cover a door-way.
Dorglwyd dychludent wys Brynaich—a covering hurdle is born by the youths of Brynaich. *T.*
Dori, a, v. (dawr) to be concerned, to care.
Ni ddoraf yn ngwŷdd eirian—I notice not in the pleasant grove. *G. G.*
Doriad, s. a being concerned.—Dyddoriad.
Dorlawd, s. (dawr—llawd) a fondling.—Anwesyn.
Dorlodol, a. apt to fondle.—Maldodol.
Dorlota, v. a. to fondle, to cherish.—Llochi.
Dorlotwr, wyr, s. a fondler.—Maldodydd.
Dorth,† s. (dor) a covering; a limit.—Caead.
Dorus,† a. (dawr) concerned; pleasing.
Dos, au, s. r. (dy—os? Gr. *dosis*; It. *dose*) a drop; a particle; a small portion.—Diferyn; mymryn; dogn.
Dos yn nghawad—a drop in a shower. *T.*
Dos, v. im. drop thou away; go thou.—Cerdda, cerdd.
Dos ato—go to him.
Dos, gofyn—go, and ask. *Sir T. J.*
Dos [dôs], *prf.* denoting force.—Blaenddod o ansawdd cryfhaol.
Dosawg, a. (dos, s.) consisting of drops, speckled
Dosawl, a. tending to trickle or drop.
Dosbarth, au, s. (gosbarth? dos—parth) discrimination; division; distribution; analysis; class.—Trefn; rhan, parth; clas.
Y dosbarth cyntaf—the first class.
Dosbarth, au, s. f. system.—Cyfundrefn, trefn, deseb.
Y ddosbarth farddonol—the bardic system, system of bardism. *Cyf. B.*
Dosbarthadwy, a. distinguishable.—Rhanadwy
Dosbarthedig, a. distinguished.—Dosranol.
Dosbarthedigaeth, s. f. distinction, discrimination.
Dosbarthiad, au, s. a separating, a distinguishing; distribution; description.
Dygwch y dosbarthiadau ataf fi yma—bring the description hither to me. *B.*
Dosbarthol, a. distributive; discriminative; analytical.
Dosbarthu, a, v. a. to distinguish, to discriminate, to determine; to divide; to class; to distribute; to systematise.
A chwi a ddosberthwch y wlad yn saith ran—ye shall describe the land into seven parts. *B.*
Dosbarthus, a. discretive; discreet.—Trefnus.
Dosbarthwr, wyr, s. a distributor; an analyzer, a separater.—Rhanwr; doseranwr.
Dosben, au, s. (gosben? dos—pen) a particular.—Gosben, gosbarth; pwngc, peth.
Dosbeniad, au, s. a characterizing, a particularizing; definition.—Deffiniad.
Dosbenol, a. characteristic.—Neilldnol.
Dosbenu, a, v. to characterize, to particularise. – Darnodi, deffinio.
Dosbenu anian pob peth a wna—he will characterize the nature of every thing. *H. P.*
Dosi, a, v. (dos) to drop, to trickle.—Diferu.
Dosol, a. dropping, trickling.—Dosawl.
Dosran, au, s. f. (gosran? dos—rhan) division; a part.—Gosran, adran.
Dosraniad, au, s. an analyzing, a separating into classes; analysis.—Gosraniad.
Dosranol, a. analytical.—Gosranol.
Dosranu, a, v. a. to analyze, to separate.
O fedru dosranu yn gywraint y ceir addysg—from being able to investigate accurately instruction will be obtained. *H. P.*
Dotiad, s. (gotiad? dotio) a confusing; a mistaking, an erring.—Gotiad, dyryniad.
Dotian, v. to become confused.—Gotian.

Dotianu, dotian, *v.* to become confused.
Dy liw a'th lun heb un bai, odid dyn nas dotianai—thy complexion and thy form, there is hardly a man but would be confused thereat. *R. Ddu.*

Dotio, ia, *v.* (gotio? E. *dote;* D. *dutten*) to dote, to confuse; to mistake, to err.—Dyrysu; gwirioni, pendroni, ammhwyllo.
Nes dotio—till being confused. *S. Ceri.*

Dotiol, *a.* tending to confuse.—Gotiol.

Dothwy,† *v.* he came.—Daeth. *Dr. D.*

Dowciar, ieir, *s. f.* (G. *ducken*—iar) a di-dapper.—Tindroed, soddiar, ymdrochiar. *H. S.*

Dowcio, ia, *v.* (G. *ducken, tauchen*) to duck, to dive.—Trochi, suddo, cleigio. *H. S.*

Dowydd,† *s.* (dy—chwydd, *R.*) the swelling of a cow's udder when she is near the time of calving.—Dywydd. *Dr. D.*

Dowyddu,† a, *v.* to swell with milk before having young.—Dywyddu. *Dr. D.*

Dra, *aff.* signifying the essence of a thing; -ness.—Tra.

Drach, *prp.* (mut. of *trach*) behind.—O'r tu ol.
Drach yn nghefn drych anghyfnerth—behind the back of an impotent form. *D. G.*

Drachefn [drachêfn], *ad.* behind; again; afterwards.—Trachefn.
Leidr o'i chof i'w le drachefn—the thief of her memory will be in its place again. *D. G.*

Drachgefn [drachgêfn], *ad.* again.—Trachgefn.
Gofyn y mae drachgefn y medd—he is asking again for the mead. *L. G. C.*

Dracht,† iau, *s.* (S. *dragan;* G. *tragen;* L. *traho;* E. *draught*) a draught; the quantity drunk at once.—Trafwngc; llymaid.

Drachtio,† ia, *v. a.* to drink greedily.—Traflyngcu.

Draen, drain, *s. r.* (C. *draen, draene, drên;* Arm. *draen, dizreinaff*) a prickle; a thorn.—Pigyn, pigell; draenen.
Draen y coed—an urchin, the hedgehog.
Ni rown i ddraen am dano—I would not give a pin for him.
Diriaid a gaiff ddraen yn ei uwd—the unlucky will get a thorn in his crowdy. *D.*

Draenblu, *s. ag.* (draen—plu) down feathers.—Manblu, plu esmwyth.

Draened, au, *s.* (draen) the hedgehog.—Draenog

Draenen, au, *s. f.* a thorn, a thornbush.
Draenen ddu—the sloe tree, the black thorn
Draenen wen, } the hawthorn, the
Draenen ysbyddaden, } white thorn.

Draeneta, *v.* (draened) to hunt hedgehogs.

Draenglwyd, i, *s. f.* (draen—clwyd) a hurdle of thorns, a thorn hurdle.
Tra rheto 'r og y rhed y ddraenglwyd—as long as the harrow goes the thorn hurdle will go. *D.*

Draenllwyn, i, *s.* (draen—llwyn) a grove of thorns, a thorn brake.—Dreinllwyn.

Draenog,† *a.* (draen) prickly.—Dreiniog.

Draenog, od, *s.* the hedgehog, the urchin.—Ballog, draened, draen y coed.
Draenog afon—the river urchin.
Draenog y môr—the sea urchin.

Drag, iau, *s.* (*see dragio*) a fragment, a piece.

Dragiad, *s.* a tearing in pieces.—Drylliad.

Dragio, ia, *v.* (E. *drag;* S. *dragan;* G. *tragen;* L. *traho*) to tear in pieces; to drag.—Rhwygo, dryllio; llusgo.
Drwy goed ydd â, dragied ddur—through woods he will go, let him mangle the steel. *D. Ll. G.*

Dragiog, *a.* having rents; jagged.—Candryll.
Llun draig o feillion dragiog—the form of a dragon of a jagged trefoil. *T. A.*

Dragon, au, *s.* (drag? Gr. *dracôn,* L. *draco;* E. *dragon*) a dragon; a leader in war.—Draig; cadweinydd.
Pendragon—a generalissimo.
Gwyddbwyll ddragon—a deep manœuvering leader. *T. C. H.*
Gwên bendragon—Gwên the supreme leader. *Tri.*
Uthr bendragon—the supreme leader Terrific. *G. A.*

Dragoni, a, *v.* to act as a leader.—Arwain.

Dragonol, *a.* supreme; leading, foremost.
Udd dragonol—supreme chief.

Dragwm, *s.* the scaly coat of animals.

Dragwn, *s.* a dragon; a leader.
Plu ar y gŵn a drig fel chwareu dragwn—feather will settle upon the garment like a dragon's play. *D. G.*

Draig, dreigiau, *s. f.* (L. *draco;* C. *druic; see dragon*) a dragon, a fiery serpent; a leader; a lightning.—Dragon, sarph danllyd; arweinydd; mellton.
Draig Prydain—the sovereign of Britain. *Gwalch.*
Cynneu dreigiau—to flash silent lightnings

Drain, *s. ag.* (draen) thorns; prickles.
Drain duon—black thorns.
Drain gwynion, } white thorns, haw-
Drain ysbaddad, } thorns.

Dranoeth, *s.* (mut. of *tranoeth*) the day following.—Tranoeth, y dydd canlynol.
Drwg trenydd wrth dranoeth—bad is the third day to the morrow. *D.*

Draw, *ad.* (mut. of *traw*) yonder, at a distance.
Ni ad draw ei wylan awr o'i olwg—yonder he will not leave his fair nymph for one hour out of his sight. *D. Em.*

Dref, au, *s. f.* (dy—rhef) a bundle, a tie.

Drefa, fâu, *s. f.* twenty four sheaves, a thrave.—Pedair ysgub ar hugain.
Drefa o ŷd—twenty four sheaves of corn, a thrave of corn.
Drefa 'r ddugiaid a rifwyd—two dozens of dukes have been counted. *L. G. C.*

Drefion, *s. pl.* shivers, shatters, fragments.
Tori 'n ddrefion—to break in pieces.

Drefu, a, *v. a.* to bundle, to tie together; to thrave.—Bwrnelu, cydglymu.

Dreng, *a.* (dy—rheng?) morose, peevish, surly.—Anfoddiog, ffrom, sarug.

Drengu, a, *v.* to be peevish or surly.

Drengyn, *s. d.* a surly chap.—Taeogyn.

Dreigaidd, *a.* (draig) dragonish, dragon like.

Dreigan, *s. f. d.* a dragonet.—Draig fechan.

Dreigarn, au, *s. f.* a dragon-beam, a dragon-piece.—Dreiglath.

Dreigben, *s.* (draig—pen) the dragon's head.

Dreigbliog, *s.* (draig—pliog) the dragon's shell.—Math ar frenig neu lyguid myheryn.

Dreigbysg, *s. ag.* (draig—pysg) the dragonet, the dragon-fish.

Dreigio, ia, *v.* (draig) to lighten without thunder or at a distance.—Cynneu dreigiau.

Dreigiol, *a.* like a dragon, dragonish.

Dreiglath, au, *s. f.* (draig—llath) a dragon beam, a dragon-piece.

Dreiglys, *s. ag.* (draig—llys) the dragons, the dragon-wort.—Llysiau 'r ddraig.

Dreigwaed, *s.* (draig—gwaed) dragon's blood.—Gwaed y ddraig; math ar sudd a geir o wahanol blanhigion.

Dreigwaedwydden, *s. f.* (dreigwaed—gwŷdd) the dragon's blood tree.—Pren dreigwaed.

Dreigwy, *s.* (draig—gwy) the dragon's-water.—Math ar blanhigyn neu lysieuyn.

Dreiniach, *s. ag.* (drain) small prickles; the pricklets of plants.—Mân ddrain.

Dreiniog, *a.* spiniferous; thorny.
Y ddreiniog—the siskin (a bird so called).

Dreiniogrwydd, *s.* prickliness.—Pigawgrwydd.

Dreinios, Dreinos, *s. ag.* little prickles.

Dreiniol, *a.* spinous, thorny, acanthaceous.

Dreinllyd, *a.* spinous, thorny, prickly.

Dreinllydrwydd, *s.* prickliness.—Dreiniogrwydd.

Drel, iaid, od, *s.* (dy—rhel?) a clown, a cuff.
Ni wyl ddrel er a helio—the churl after all his scraping together, does not see. *D. G.*

Drelaidd, *a.* churlish, boorish.—Delffaidd.

Dreleiddrwydd, *s.* churlishness.—Taeogrwydd.

Drelgi, gwn, *s.* (drel—ci) a churlish dog.

Dreliad, *s.* (drel) a scolding, a jawing.

Drelio, ia, *v.* to scold, to abuse.

Drelyn, *s. d.* a churlish fellow.—Drelgi.

Drem, iau, *s. f.* (mut. of *trem*) sight, look, aspect, visage; a glance of the eye.—Trem.
Dy ddrem fal duedd yr ael—thy sight like the blackness of the brow. *D. Em.*
O roi fy nhrem ar fy nrych—from setting my visage on my glass. *D. D. Ll.*

Dremiad, au, *s.* a viewing.—Tremiad.

Dremio, ia, *v.* to observe, to look.—Tremio.

Dremiol, *a.* observant, looking.—Tremiol.

Drew, ion, *s.* (dy—rhew?) a stink, a stench.

Drewbryf, ed, *s.* (drew—pryf) a bug: *pl.* bugs.—Torogen, trogen, drewen, drewleuen, bwg.

Drewchwa, oedd, *s. f.* (drew—chwa) mephitis.—Drewsawr, drygsawr, trymsaw, drewdod.

Drewchwaol, *a.* mephitical.—Drygsawrus.

Drewdod, *s.* (drew) mephitis, stink, fetor.

Drewedig, *a.* fœtid, stinking, mephitic.

Drewen, od, *s. f.* a bug: *pl.* bugs.

Drewfaen, fain, *s.* (drew—maen) the stinkstone, the swinestone, the stone of Moses (a kind of igneous stone found on the shores of the Dead Sea).

Drewg, *s.* (drew) the poppy.—Drewlys, Pabi. *H. D.*

Drewgi, gwn, *s.* (drew—ci) a stinking dog.

Drewgoed, *s. f. ag.* (drew—coed) the stinking bean trefoil.—Y ddrewgoed. *H. D.*

Drewi, *s.* (drew) a stink, a stench, fetor.—Drewdod.

Drewi, a, *v.* to stink, to savour ill.

Drewiant, *s.* a stink, a stench.

Drewlau, *s. ag.* (drew-llau) bugs.—Torogod.

Drewleuen, *s.* a bug.—Bwg, drewen, trogen.

Drewlud, *s.* (drew—glud) gum asafœtida, asafœtida.—Drew sudd, drewsug, baw diawl.

Drewlys, *s. ag.* (drew—llys) the poppy. *H. D.*

Drewllyd, *a.* (drew) stinking, fetid.

Drewsawr, *s.* (drew—sawr) a fetid smell.

Drewsawrus, *a.* mephitic, stinking.

Drewsudd (drew—sudd) } *s.* asafœtida.—
Drewsug (drew—sug) } Drewlud, baw diawl.

Drewlwy, *s.* (drew—lwy) elixir of asafœtida.

Drewyn, od, *s.* (drew) a bug.—Drewen.

Drigon, *s.* (dring?) the sheep's sorrel. *H. D.*

Dring, *s.* (dy—rhing?) a climb, a flight of steps.

Dringadar, *s. ag.* (dring—adar) climbers.—Dringednod.

Dringadwy, *a.* ascendable, climbable.

Dringc,† *s.* a climb.—Esgyniad.

Dringc,† *a.* climbing, ascending.
Llafn Feredydd llyw dringc—the blade of Meredydd the climbing leader. *B. Br.*

Dringediad, *s.* a climbing; escalade.—Dringiad.

Dringedydd, ion, *s.* a climber, an ascender.

Dringfa, feydd, *s. f.* a place to climb, a flight of steps.

